
1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Dyma dy le



**Prosbectws Israddedig**
2025

# Ein campws



Llety Myfyrwyr
Cwrt Mawr
Fferm Penglais
Penbryn
Pentre Jane Morgan
Rosser
Trefloyne
Cyfleuster academaidd
Canolfan Addysg Gofal Iechyd
Cyfleusterau academaidd
Adeilad Edward Llwyd
Adeilad Gwendolen Rees
Adeilad Llandinam
Adeilad y Gwyddorau Ffisegol
Llety Myfyrwyr
Pantycelyn
LLGC NLW
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol
Llyfrgell Hugh Owen
Canolfan y Celfyddydau
Cyfleusterau academaidd
Penbryn P5
Adeilad Hugh Owen
Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol
Adeilad Parry-Williams
Undeb y Myfyrwyr
Adeilad academaidd
Adeilad Carwyn James
Y Ganolfan Chwaraeon
Cyfleuster academaidd
Adeilad Edward Davies
(uwchben Parc Plascrug, yn y dre, ddim mewn golwg ar y map hwn)
Cyfleuster academaidd
Canolfan Addysg Milfeddygaeth
(gyferbyn ag Adeilad Carwyn James, ddim yn y golwg ar y map hwn)
Canolfan Addysg Milfeddygaeth
Veterinary Education Centre

# Cynnwys

## Cyflwyniad


Dyma dy le 2
Croeso gan yr Is-Ganghellor 4
Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud 5
Bywyd ar y campws 6
Cynaliadwyedd 10
Cymuned sy'n croesawu 11
Rhagoriaeth ymchwil 12
Dysgu trwy'r Gymraeg 14
Eich gradd 16


## Ein pynciau


Addysg ac Astudiaethau Plentyndod 18
Amaethyddiaeth 24
Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth 30
Astudiaethau Milfeddygol 32
Biocemeg a Geneteg 38
Bioleg Ddynol ac Iechyd 42
Busnes a Rheolaeth 46
Celf a Ffotograffiaeth 50
Cyfrifeg a Chyllid 56
Cyfrifiadureg 60
Cymdeithaseg 74
Daearyddiaeth, Gwyddorau Daear ac Amgylcheddol 78
Drama a Theatr 86
Economeg 92
Ffilm a Theledu 98
Ffiseg 106
Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol 114
Gwyddor Anifeiliaid a Gwyddor Ddyfrol 124
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff 134
Gwyddorau Ecolegol 136
Hanes 140
Ieithoedd Modern 148
Marchnata a Thwristiaeth 156
Mathemateg 162
Nyrsio 170
Peirianneg 174
Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol 176
Seicoleg 182
Troseddeg 188
Y Biowyddorau 192
Y Gyfraith 198
Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd 206


## Bywyd myfyriwr


Darganfod Aberystwyth 216
Llety 220
Cyfleusterau chwaraeon 226
Undeb y Myfyrwyr 227
Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth 228
Canolfan y Celfyddydau 230
Cerddoriaeth yn Aberystwyth 231
Cwrdd â'ch gofynion dysgu 232
Cymorth i fyfyrwyr 234
Gyrfaoedd a chyflogadwyedd 235
Cyfleoedd byd-eang 236
Ffioedd a chyllid 238
Ysgoloriaethau a bwrsariaethau 239
Atgyfnerthu'ch gradd 240
Diwrnodau Agored 242
Ymweld ag Aber 243
Mynegai o'r cyrsiau 244
Gwybodaeth bwysig 245


MIX
Paper from responsible sources
FSC® C023480

# Dyma dy le

## Pam dewis Prifysgol Aberystwyth?

**Ers 1872, rydym ni'n adnabyddus ledled y byd am ragoriaeth ein dysgu a'n hymchwil arloesol. Rydym yn croesawu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i'n cymuned gyfeillgar, allblyg. Prifysgol Aberystwyth yw'r lle i chi astudio, archwilio a datblygu.**





THE TIMES THE SUNDAY TIMES

### Prifysgol y flwyddyn yng Nghymru

(Canllaw Prifysgolion Da, y Times a'r Sunday Times 2024)

**Ar y brig yng Nghymru ac 2il yn y DU** am Brofiad Myfyrwyr

(Canllaw Prifysgolion Da, y Times a'r Sunday Times 2024)

**Ar y brig yng Nghymru a 3ydd yn y DU** am Ansawdd yr Addysgu

(Canllaw Prifysgolion Da, y Times a'r Sunday Times 2024)

ACF

**1af yng Nghymru** am Fodlonrwydd Myfyrwyr

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2023)

**1af yng Nghymru a Lloegr** am Fodlonrwydd Myfyrwyr

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022)

WHAT UNI?

**Y Brifysgol Orau yn y DU** am Ddarlithwyr ac Ansawdd y Dysgu

(WhatUni? Gwobrau Dewis Myfyrwyr 2023)

**Y Brifysgol Orau yn y DU** am Fywyd Myfyrwyr

(WhatUni? Gwobrau Dewis Myfyrwyr 2023)

**Trydydd safle** am Brifysgol y Flwyddyn

(WhatUni? Gwobrau Dewis Myfyrwyr 2023)

**5ed safle** am Gyfleusterau

(WhatUni? Gwobrau Dewis Myfyrwyr 2023)

**5ed safle** am Breswylfeydd a Llety Myfyrwyr

(WhatUni? Gwobrau Dewis Myfyrwyr 2023)

### Mae ein hymchwil yn cael effaith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Mae 98% o'r ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch.

(Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)

### Graddau achrededig

Mae llawer o'r cyrsiau rydyn ni'n eu cynnig wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol, i gydnabod eu hansawdd, sy'n gwella eich rhagolygon o gael swydd ar ôl graddio.

Cadwch lygad am logo'r corff neu gyrff perthnasol ar dudalennau'r cwrs yn y prosbectws hwn.

**Rydym yn Brifysgol ryngwladol,** gyda myfyrwyr o fwy na 100 o wledydd.

### Sicrwydd o lety Prifysgol i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf

Mae ein llety hefyd yn cynnwys aelodaeth Blatinwm i'r gampfa, gan gynnwys cyfleusterau'r Ganolfan Chwaraeon a'r holl ddosbarthiadau am ddim.

### Cyfoethogi eich astudiaethau

Rydym yn cynnig cyfle i bob myfyriwr astudio dramor, mynd ar brofiad gwaith, dysgu iaith neu ategu eu gradd gyda'n cyrsiau Dysgu Gydol Oes.

### Cynorthwyo ein myfyrwyr

Gall ein tîm Cymorth i Fyfyrwyr eich helpu gyda hygyrchedd a chynhwysiant, lles myfyrwyr, cyngor ar yrfaoedd, cymorth fisa, cyllid myfyrwyr a dysgu sut i gadw golwg ar arian.

### Lleoliad eithriadol i'ch astudiaethau

Yn sefyll ar arfordir y Gorllewin, rhwng bryniau'r Canolbarth a'r môr, mae Aberystwyth yn cynnig y lleoliad perffaith i fyw ac astudio ynddo.



# Croeso

**Mae dewis y brifysgol sy'n addas ar eich cyfer chi yn un o benderfyniadau mawr bywyd. Nid y cwrs yn unig sy'n bwysig, ond hefyd dod o hyd i rywle y byddwch chi'n mwynhau byw ac astudio ynddo, lle gallwch ffynnu yn academaidd a datblygu fel person. A minnau'n Is-ganghellor ar Brifysgol Aberystwyth, ac yn un o raddedigion Aberystwyth fy hun, credaf mai dewis ein prifysgol ni yw un o'r dewisiadau gorau y gallwch chi ei wneud.**

Mae Aberystwyth yn cynnig y cydbwysedd perffaith rhwng addysg o safon a bywyd myfyriwr gwych, ac yn cyrraedd y brig ar dablau cynghrair allweddol yn gyson. Yn y prosbectws hwn, fe welwch dystiolaeth o'n gwobrau a'n hanrhydeddau drwyddi draw, ac mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr blynyddol yn cadarnhau bod ein myfyrwyr ymhlith y rhai mwyaf bodlon yn y DU.

Wrth astudio yn Aberystwyth, cewch eich addysgu gan academyddion blaenllaw sydd ar flaen y gad o ran ymchwil arloesol. Byddwch yn dod yn rhan o gymuned academaidd sy'n ymroddedig i fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf allweddol y byd a darparu atebion iddynt. Yn ogystal, cewch eich cefnogi drwy gydol y cyfnod gan staff ymroddedig a fydd yn canolbwyntio ar eich helpu i ffynnu ym mhob agwedd o'ch bywyd myfyriwr.

Byddwch hefyd yn astudio yn un o ardaloedd mwyaf prydferth y DU. Gyda'r arfordir a'r mynyddoedd ar garreg ein drws, mae ein hamgylchedd yn darparu lleoliad delfrydol ar gyfer astudio a chymdeithasu. Mae Aberystwyth ei hun yn dref gyfeillgar ac amrywiol lle mae myfyrwyr o bob cwr o'r byd yn cael eu croesawu a'u gwahodd i ymgartrefu.

Os byddwch yn dewis Prifysgol Aberystwyth, fe brofwch gymuned gynhwysol a chefnogol sy'n croesawu myfyrwyr o bob cefndir, lle mae pob unigolyn yn bwysig i ni. Rwy'n credu'n gryf mai dyma eich lle i dyfu'n academaidd ac yn bersonol, gwireddu eich potensial a chreu argraff ar y byd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Brifysgol Aberystwyth, cysylltwch â ni. Byddem hefyd wrth ein bodd yn eich croesawu i Ddiwrnod Agored, lle byddwch yn cael cwrdd â'n staff a'n myfyrwyr a darganfod pam maen nhw wedi dewis Aberystwyth.

Dymunaf y gorau i chi wrth i chi benderfynu ar eich prifysgol – rydych chi'n dechrau ar un o deithiau mwyaf anhygoel bywyd a gobeithiwn y byddwch chi'n dewis dod ar y daith honno gyda ni.

**Yr Athro Jon Timmis**
**Is-Ganghellor**





# Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud?

## Mari Williams
**Y Gyfraith**

Mae bod yn rhan o gymdeithas Gymraeg clos yn y Brifysgol yn amhrisiadwy ac mae UMCA yn groesawgar iawn. Dyma gyfle arbennig ni ellir ei gael mewn prifysgolion eraill, ac yn gwneud Aber yn unigryw. Rydw i mor falch fy mod wedi penderfynu aros ym Mhantycelyn yn y flwyddyn gyntaf, gan fy mod wedi gwneud ffrindiau gorau ac atgofion gwych, a hynny i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mi fyswn i'n argymell i'r holl fyfyrwyr Cymraeg fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn Aber!

## Steph Moore
**Addysg / Drama a Theatr**

Mae pawb yn tybio bod gradd anrhydedd cyfun yn fwy anodd, ond nid yw hyn yn wir. Addysgir y ddau bwnc yn gyfartal, ac mae'n hawdd rheoli'r llwyth gwaith. Rwyf wrth fy modd â'r ffordd y mae'r radd hon yn cynnig amrywiaeth ac mae'r modiwlau yn hynod o gyffrous a diddorol. Byddwn yn argymell gradd anrhydedd cyfun i unrhyw un sy'n ansicr o'u dyheadau i'r dyfodol ond sy'n mwynhau'r ddau bwnc. Dewisais Aberystwyth oherwydd y lleoliad hardd a'r amgylchedd diogel, cynhwysol. Yn ogystal â hyn, mae'r bywyd myfyriwr yn anhygoel a thu hwnt i'm disgwyliadau. Mae pawb yn gofalu am ei gilydd yn Aberystwyth, a byddaf bob amser yn hynod ddiolchgar am y ffrindiau rwyf wedi eu gwneud a fydd yn ffrindiau oes.

## Catherine Fletcher
**Gwyddor Daear Amgylcheddol**

Dewisais astudio Gwyddor Daear Amgylcheddol ym Mhrifysgol Aberystwyth oherwydd dull amlddisgyblaethol y radd hon, sy'n ymgorffori agweddau ar ddaearyddiaeth, daeareg, geocemeg a gwyddor amgylcheddol. Roeddwn eisiau canolbwyntio mwy ar yr agweddau amgylcheddol ar ecsbloetio adnoddau a gweithgareddau dynol eraill yn hytrach na deall hanfodion daeareg yn unig. Rwyf wrth fy modd yn yr awyr agored ac roedd hi'n bwysig i mi fy mod yn astudio gradd ymarferol lle gallwn ddysgu mwy am addasu i leihau ein heffaith amgylcheddol. Mae Aberystwyth mewn lleoliad hardd sy'n berffaith ar gyfer astudio gradd amgylcheddol neu ffisegol!

## Aishwarya Patil
**Seicoleg**

Dewisais Brifysgol Aberystwyth oherwydd ei bod yn ymddangos fel lle sy'n rhoi anghenion a phrofiadau myfyrwyr uwchlaw popeth arall. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio mewn ffordd drefnus iawn ac mae'r adran yn brofiadol ac yn frwdfrydig. Mae'n gymysgedd anhygoel o ddysgu ymarferol a damcaniaethol. Mae'r cyflymder yn berffaith i ddeall a dysgu heb gael eich llethu. Rwyf wrth fy modd gyda pha mor agos atoch yw'r darlithwyr a pha mor agos y maent yn gweithio gyda myfyrwyr. Rwyf hefyd wrth fy modd â pha mor glos yw cymuned y myfyrwyr!

# Bywyd ar y campws

**Bydd popeth sydd ei angen arnoch o fewn cyrraedd hwylus ar gampws Prifysgol Aberystwyth. Mae'r campws hefyd o fewn pellter cerdded o dref a phromenâd enwog Aberystwyth.**

**Ar y campws ceir llety myfyrwyr, bwytai a chaffis, Undeb y Myfyrwyr, cyfleusterau dysgu ac astudio gan gynnwys dwy lyfrgell, Canolfan y Celfyddydau a'r Ganolfan Chwaraeon. Yn ogystal â hyn, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (sy'n llyfrgell hawlfraint) y drws nesaf i'r campws.**





Adeilad Gwendolen Rees ar Gampws Penglais yw cartref Adran Gwyddorau Bywyd a chaffi CAFFIBach. Drws nesaf iddo mae adeilad Edward Llwyd, lleoliad y prif labordai a'r ystafelloedd dysgu.



Y Ganolfan Addysg Milfeddygaeth yw cartref y cyrsiau Gwyddor Milfeddygaeth a Nyrsio Milfeddygol.



Adeilad Edward Davies sy'n gartref i'r Ysgol Gelf, taith fer o Gampws Penglais.



Yr adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol - cartref ein Hadrannau Hanes a Hanes Cymru, a Gwleidyddiaeth Ryngwladol.



Adeilad Parry-Williams yw cartref Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ac Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu'r Brifysgol.







Yr adeilad hwn, P5, yw lleoliad yr Adrannau Astudiaethau Gwybodaeth, Seicoleg, a'r Ysgol Addysg.



Mae Adeilad y Gwyddorau Ffisegol yn gartref i'n Hadrannau Mathemateg a Ffiseg, yn ogystal â Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol.



Adeilad Hugh Owen - cartref yr Ysgol Fusnes, a'r Adrannau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, y Gyfraith a Throseddeg, ac Ieithoedd Modern, yn ogystal â phrif lyfrgell y Brifysgol.



Mae adeilad Carwyn James yn gartref i Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.



Adeilad Llandinam - cartref yr Adrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a Chyfrifiadureg.



Mae'r Ganolfan Addysg Gofal Iechyd yn gartref i'n cyrsiau Nyrsio.

# Cynaliadwyedd

**Mae cynaliadwyedd yn bwysig iawn i ni ym Mhrifysgol Aberystwyth.**

Rydyn ni'n falch o fod yn un o'r prifysgolion cyntaf yn y DU i gyhoeddi argyfwng hinsawdd yn 2019, gan gydnabod yr angen i gefnogi'r trawsnewid i ddyfodol carbon isel.

Ein nod yw sicrhau ystâd carbon sero-net erbyn 2030.

Rydym yn aelod o gonsortiwm o 20 o brifysgolion o'r DU sydd wedi taro bargen ynni gwyrdd nodedig gwerth £50 miliwn, i leihau ein hallyriadau a'n hôl troed carbon fel rhan o gytundeb pŵer prynu cyfun.

Dros y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi lleihau ein hallyriadau $CO_2$ 40%.

Yn ddiweddar, rydym wedi buddsoddi £2.9 miliwn mewn casgliad solar newydd gyda 4,500 o baneli solar a fydd yn lleihau ein hallyriadau C02 ychydig dros 500 tunnell bob blwyddyn.

Rydym wedi gosod ystod o bwyntiau gwefru ceir a beiciau trydan ar draws ein campysau.

Rydym yn buddsoddi £3 miliwn mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystâd.

Yn ddiweddar rydym wedi codi cromen chwaraeon newydd ar y campws sydd yn cynnwys offer hunan-bweru i gyfyngu ar ein hôl troed carbon.

Rydym yn cynnal arolwg bioamrywiaeth ar draws ein hystâd yn 2024 i helpu i nodi, diogelu a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd o'n cwmpas.

Rydym wedi cwblhau Cam 1 ein cynllun plannu coed, gyda 16,000 o goed llydanddail brodorol wedi'u plannu ar draws 3 safle. Ar ôl aeddfedu, disgwylir i'r coetir hwn gynyddu bioamrywiaeth a gwrthbwyso allyriadau carbon y Brifysgol o oddeutu 16 tunnell y flwyddyn.

Mae gennym ddolydd blodau gwyllt ar draws y campws ers 2016.

Mae gennym ardd gymunedol ar gampws Penglais i bobl ddysgu am dyfu bwyd a phlannu mewn modd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.

Yn ddiweddar, mae Undeb y Myfyrwyr wedi ennill safon 'Ardderchog' ar gyfer y wobr Effaith Werdd, y safon uchaf bosib.

Fe wnaethom gyflwyno cynllun cwpan cadw sy'n cynnig cwpanau teithio y gellir eu hailddefnyddio am ddim i fyfyrwyr a staff. Mae gennym hefyd lawer o orsafoedd ail-lenwi dŵr am ddim ar draws y campws i leihau'r angen am boteli plastig untro.



# Cymuned sy'n croesawu

**Rydym yn falch iawn o'n cymuned cyfeillgar a chefnogol yn y Brifysgol ac yn y dref. Er ei fod yn lle cymharol fach, mae'r gymuned yn un eang. Mae ein myfyrwyr yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl, diwylliannau a chredoau.**

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ymdrin â chydraddoldeb mewn ffordd ragweithiol a chynhwysol sy'n cefnogi ac sy'n annog pob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n hyrwyddo diwylliant cynhwysol ac sy'n gwerthfawrogi amrywioldeb.

Mae Cynllun Strategol y Brifysgol ar Gydraddoldeb 2020-2024 yn sail i'r ymrwymiad hwn:

> Os ydym am greu amgylchfyd cynhwysol, credwn fod yn rhaid inni sicrhau bod pawb, ni waeth pwy yr ydyn nhw, yn cael yr un cyfleoedd. Rhaid inni hefyd sicrhau bod rhwystrau diwylliannol, megis gwahaniaethu a diffyg goddefgarwch, yn cael eu symud.

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, bydd ein hamgylchfyd cynhwysol a diogel yn rhoi'r cyfle ichi gyflawni eich potensial, gwneud ffrindiau newydd ond, yn bwysicach oll, byddwch yn rhydd i fod yn chi eich hun.

## LHDTC+

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amgylchedd cefnogol, cynhwysol a diogel lle gallwch ddathlu'r hyn sy'n eich gwneud chi'n CHI ac uniaethu fel pwy bynnag yr hoffech. Mae cymdeithas myfyrwyr AberPride yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd ac yn cynnig cymorth i'w haelodau, drwy wrando ar eu problemau a chynnig cyngor ar faterion LHDTC+ amrywiol, neu eu cynorthwyo i gysylltu ag elusennau a sefydliadau amgen. Mae gan y Brifysgol hefyd rwydwaith staff LHDTC+ ac mae'n Gyflogwr Efydd Stonewall.

## Athena Swan ac AU Ymlaen

Mae **Athena Swan UK** yn siarter sy'n cael ei harwain gan y sector y gall prifysgolion gymryd rhan ynddi i ddatblygu cydraddoldeb rhywedd ar gyfer eu staff a'u myfyrwyr. Mae **Advance HE** wedi ymrwymo i gefnogi holl gyfranogwyr Athena Swan i ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb rhyw, ac mae eu **Siarter Cydraddoldeb Hiliol** yn darparu fframwaith i sefydliadau allu adnabod ac adlewyrchu ar rwystrau sefydliadol a diwylliannol sy'n wynebu staff a myfyrwyr Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig. Mae Prifysgol Aberystwyth yn aelod o Siarter Athena Swan a'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol.

# Rhagoriaeth ymchwil







**Caiff Prifysgol Aberystwyth ei harwain gan ymchwil ac mae'n dathlu creu gwybodaeth, dylanwadu, dyfeisgarwch a chyfnewid gwybodaeth.**

Mae ymchwil yn sylfaen i'n gwaith dysgu, yn bwydo ein haddysg ac yn cyfoethogi'ch profiadau dysgu. Byddwch yn cael eich dysgu a'ch mentora gan staff sy'n dylanwadu ar ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas ac sy'n ymestyn terfynau ein gwybodaeth.

Mae ymchwil yn Aberystwyth o fudd i'r gymdeithas ehangach ac yn edrych allan ar y byd ac ymlaen tua'r dyfodol. Effeithia'r ymchwil ar yr economi, yr amgylchedd, ar bolisi cyhoeddus ac ar fywyd diwylliannol yng Nghymru a thu hwnt. Trwy feithrin partneriaethau masnachol, mae ein hymchwil yn helpu i ddatblygu cynnyrch, prosesau a thechnegau newydd a all helpu pawb i fyw bywydau gwell.

Mae'r gwaith yn amrywio o fynd i'r afael â newid hinsawdd, gwella ansawdd a dulliau cynhyrchu bwyd, hybu iechyd pobl ac anifeiliaid, i ddatblygu deallusrwydd artiffisial a helpu i ddatblygu'r gwaith o archwilio'r gofod. Mae ein hymchwilwyr ar y rheng flaen o ran arloesedd ac mae buddiannau rhyngwladol eang wedi deillio o ddylanwad ac effaith ein hymchwil.

## Cynlluniau ymchwil diweddar

- Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i fridio cnydau bio-ynni newydd er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Cyflymu'r gwaith o adfer mawndiroedd er mwyn tynnu nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer.
- Mapio biomas coedwigoedd y byd ar gyfer Asiantaeth Ofod Ewrop (ESA) i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- Datblygu ap newydd a fydd yn helpu i ddiogelu ac adfer ecosystemau ac amgylcheddau ledled y byd.
- Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial, delweddau lloeren a thechnoleg drôn i gadw golwg ar rewlifoedd sy'n toddi.
- Cynhyrchu proteinau amgen cynaliadwy i helpu bwydo poblogaeth gynyddol y byd.
- Dod o hyd i ddulliau newydd o gyflymu'r broses o ddarganfod cyffuriau cyn-glinigol i drin clefydau parasitig.
- Dylunio technoleg gwrth-ymbelydredd arloesol ar gyfer teithiau i'r gofod i leuadau'r blaned Iau.
- Creu technoleg glyfar i wella ansawdd bywyd yr henoed neu bobl â chyflyrau iechyd.
- Defnyddio'r dechnoleg rithwir ddiweddaraf i hyfforddi swyddogion yr heddlu i ymdrin yn sensitif â dioddefwyr hŷn sydd wedi goroesi trais a cham-drin domestig.

# Dysgu trwy'r Gymraeg

**Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ffyrdd hyblyg ac mewn ystod eang iawn o bynciau – y dewis mwyaf eang yng Nghymru. Gellir astudio rhai o'n graddau yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.**

Mae'r ddarpariaeth yn addas iawn i fyfyrwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg yn ogystal â'r rheini sy'n llai hyderus neu'n ddysgwyr. Mae'n bosib astudio rhai modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg ar rai o'n cyrsiau cyfrwng Saesneg, ac mae gan bawb yr hawl i gyflwyno eu gwaith drwy'r Gymraeg hefyd.

O Ffilm i Ffiseg, o Droseddeg i Gyfrifiadureg, rydym yn falch dros ben o gynnig dewis eang o opsiynau i astudio drwy'r Gymraeg.

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydweithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, Cangen Aberystwyth oedd yr un gyntaf i gael ei chreu. Drwy ymaelodi â'r Coleg Cymraeg cewch wybodaeth am gyfleoedd dysgu, digwyddiadau a gweithgareddau yn ogystal â dysgu mwy am Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg.

## Addewidion Aber

- Cyfleoedd i gyflwyno gwaith cwrs yn Gymraeg a sefyll arholiadau yn Gymraeg
- Gwarant o Diwtor Personol sy'n siarad Cymraeg
- Profiad gwaith dwyieithog
- Gwarant o lety cyfrwng Cymraeg
- Cyfleoedd i ddysgu neu wella dy Gymraeg
- Aelodaeth o UMCA am ddim

## Deall ein darpariaeth

Ar y rhan fwyaf o'r tudalennau cyrsiau fe sylwch fod yna eicon yn dynodi pa ganran o'r radd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar bob un o'r eiconau yma nodir yn glir faint o'r cwrs penodol hwnnw y gellir ei astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

100% 66% 33% 0%

Fe sylwch o deitlau'r modiwlau fod rhai yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ag eraill yn Saesneg yn unig.

Mae ysgoloriaethau ychwanegol ar gael os byddwch chi'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.colegcymraeg.ac.uk** a **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**



# Eich gradd

**Rydym yn cynnig amrywiaeth o raddau israddedig yma yn Aberystwyth.**

Mae llawer o'n graddau anrhydedd sengl hefyd ar gael â'r dewis o flwyddyn sylfaen, blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn yn astudio dramor wedi'u cynnwys, neu fel cyrsiau Meistr Integredig, sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i chi o ran eich dewisiadau astudio.








**Graddau Baglor anrhydedd sengl**
Gallwch arbenigo mewn un pwnc yn benodol. Mae'r rhain fel arfer yn para tair blynedd, er bydd myfyrwyr ieithoedd yn treulio blwyddyn ychwanegol dramor. Gellir astudio nifer o'n graddau dros gyfnod o bedair blynedd, gan gynnwys blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn yn astudio dramor.

**Graddau Baglor anrhydedd cyfun**
Mae'r rhain yn eich galluogi i astudio dau bwnc yn gyfartal, gan rannu'ch amser rhwng dwy adran wahanol. Mae'r rhain fel arfer yn para tair blynedd. Mae ein dewis eang yn golygu y gallwch astudio pynciau cyfatebol, fel nad oes rhaid i chi ddewis rhwng eich hoff bynciau.

**Graddau Baglor Prif Bwnc/Is-Bwnc**
Mae'r graddau hyn yn cynnig sylfaen gadarn mewn un ddisgyblaeth ynghyd â'r fantais o astudio un pwnc arall sydd o ddiddordeb i chi. Fel arfer mae'r rhain yn para tair blynedd, a byddwch yn treulio dwy ran o dair yn astudio'ch prif bwnc, ac un rhan o dair yn astudio'r is-bwnc.

**Graddau anrhydedd baglor gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant**
Fel arfer, mae'n para pedair blynedd a byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn yn gweithio mewn diwydiant cyn mynd yn ôl i Aberystwyth yn y bedwaredd flwyddyn i orffen eich gradd. Mae'r flwyddyn mewn diwydiant yn elfen a asesir o'r cwrs, ac fe allech gael y dewis i wneud y lleoliad gwaith dramor pe byddech yn hoffi hynny.

**Graddau anrhydedd baglor gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor**
Fel arfer, mae'n para pedair blynedd a byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn yn astudio dramor cyn mynd yn ôl i Aberystwyth yn y bedwaredd flwyddyn i orffen eich gradd. Mae'r flwyddyn yn astudio dramor yn elfen a asesir o'r cwrs.

**Graddau anrhydedd baglor â blwyddyn sylfaen integredig**
Graddau yw'r rhain ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y radd arferol, ac mae'r flwyddyn sylfaen sydd wedi'i chynnwys yn eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau academaidd i ddechrau ar y cwrs yr ydych wedi'i ddewis yn eich ail flwyddyn. Felly, bydd eich cwrs yn bedair blynedd o hyd yn hytrach na thair blynedd, ond bydd eich benthyciad myfyriwr yn cynnwys y flwyddyn ychwanegol.

**Graddau Meistr Integredig**
Mae'r rhain yn caniatáu ichi integreiddio tair blynedd o astudio israddedig gyda blwyddyn arall o astudio ar lefel uwchraddedig sy'n arwain at gymhwyster Meistr. Gallwch wneud cais am fenthyciad myfyrwyr dros bedair blynedd ar gyfer y graddau hyn, yn hytrach na chwilio am gyllid ar gyfer gradd Meistr ar ôl gorffen y radd gyntaf.

**Graddau sylfaen**
Mae graddau sylfaen fel rheol yn ddwy i dair blynedd o hyd, ac yn cyfuno astudiaethau academaidd â sgiliau ymarferol, y gallwch eu defnyddio yn y gweithle. Wrth gwblhau'r graddau hyn yn llwyddiannus gallwch symud ymlaen yn uniongyrchol i flwyddyn olaf rhai cyrsiau. Yn Aberystwyth, ar hyn o bryd rydym yn cynnig graddau sylfaen mewn Amaethyddiaeth a Nyrsio Milfeddygol.

## Rydym yn cynnig:

- **BA** - Baglor yn y Celfyddydau
- **BEng** - Baglor mewn Peirianneg
- **BSc** - Baglor yn y Gwyddorau
- **BVSc** - Baglor Milfeddygaeth
- **FdSc** - Sylfaen
- **LLB** - Baglor yn y Gyfraith
- **MAg** - Meistr mewn Amaethyddiaeth
- **MBiol** - Meistr mewn Bioleg
- **MComp** - Meistr mewn Cyfrifiadureg
- **MEng** - Meistr mewn Peirianneg
- **MMath** - Meistr mewn Mathemateg
- **MPhys** - Meistr mewn Ffiseg

## Eich gradd – sut mae'n gweithio

- Mae eich gradd yn cynnwys amrywiaeth o fodiwlau ar wahanol bynciau. Mae modiwlau craidd yn orfodol, ond gallwch ddewis o blith amrywiaeth o fodiwlau dewisol, pan fyddant ar gael.
- Byddwch yn cael eich dysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd, seminarau, tiwtorialau, gwaith ymarferol, gwaith maes neu weithdai, gan ddibynnu pa gwrs yr ydych wedi'i ddewis.
- Gall y dulliau asesu gynnwys gwaith cwrs, arholiadau, sesiynau ymarferol yn y labordy, asesu eich cyfraniad at gwaith grŵp a chyflwyniadau seminar, a gwaith prosiect.

# Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

## Ein cyrsiau…


| | |
|---|---|
| Addysg | t.19 |
| Astudiaethau Plentyndod | t.20 |
| Astudiaethau Plentyndod Cynnar, gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar | t.22 |
| Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc | t.23 |





**Ar y brig yn y DU**

am Brofiad Myfyrwyr ym mhwnc Addysg

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)

**2il yn y DU**

am Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Addysg

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Addysg

89% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | X302 | 3 blynedd

Wrth astudio am radd mewn Addysg yn Aberystwyth byddwch yn ymchwilio i ddatblygiad plant a phobl ifanc, ac yn ymdrin â materion sy'n ganolog i gael dealltwriaeth o gyfundrefnau addysg. Nod ein cwrs yw eich cyffroi a'ch ysgogi trwy astudiaeth o gynlluniau cwricwlwm a pholisïau addysg, yn ogystal â rhoi dirnadaeth bellach o gymdeithaseg, seicoleg, ac ieithyddiaeth. Agwedd y canolbwyntir arni'n benodol yw cefnogi dysgwyr trwy'r gyfundrefn addysg.

Mae gradd Addysg yn sylfaen ddelfrydol i waith mewn diwydiant, gwaith creu polisi neu'r sector elusennol, neu i astudio ar gwrs addysg athrawon TAR Cynradd. Gall gradd Addysg ar y cyd â phwnc arall eich cymhwyso am gyrsiau TAR Uwchradd. Mae astudio addysg yn cynnwys agweddau ar seicoleg, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth, a hanes. Mae'n astudio sut mae pobl yn dysgu, sut mae eu hamgylchedd yn dylanwadu ar eu dysgu, sut y gwneir penderfyniadau, a sut mae ein dealltwriaeth o ddysgu ac addysgu wedi datblygu dros y blynyddoedd. Bydd lleoliadau arsylwi yn ystod y radd yn gymorth i chi weld y damcaniaethau ar waith, ac mae cefnogi dysgwyr trwy'r gyfundrefn addysg yn agwedd y canolbwyntir arni'n benodol.

Cyhyd â'ch bod yn cyflawni'r gofynion mynediad, cewch sicrwydd o gyfweliad am y cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Cynradd yn Aberystwyth.

**Sylwer:** Gall fod angen gwiriad DBS (Datgelu a Gwahardd) neu wiriad cyfatebol er mwyn gallu astudio rhai modiwlau ar gyfer y radd hon.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wrth galon y cwrs. Mae gan yr Ysgol Addysg gysylltiad sefydledig â Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol, lle gall cynghorydd sydd â phrofiad penodol ym maes addysg roi cyngor ichi o ddechrau eich blwyddyn gyntaf. Ar ôl graddio, gallwch wneud cais am gwrs TAR mewn Addysg Gynradd. Gall gradd Addysg ar y cyd â phwnc arall eich cymhwyso am gyrsiau TAR Uwchradd. Mae graddedigion eraill o'r Ysgol Addysg wedi mynd i yrfaoedd mewn gofal cymdeithasol, nyrsio, therapi lleferydd, gwaith cymdeithasol, lles plant, therapi chwarae, y diwydiant hamdden, cyfraith plant, ac ymchwil plentyndod.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Datblygiad a Dysgu Plant
- Datblygiad Iaith
- Sgiliau Allweddol i Brifysgol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Seicoleg Dysgu a Meddwl
- Dulliau Ymchwil
- Gweithio gyda Phlant
- Diogelu ac Ymarfer Proffesiynol.

**Y flwyddyn olaf:**

- Hawliau Plant
- Traethawd Hir
- Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
90% gwaith cwrs, 10% arholiadau.

**Ar gael hefyd:**
**X30F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Astudiaethau Plentyndod

89% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | X320 | 3 blynedd

Bydd y radd hon yn eich galluogi i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen er mwyn rhagori mewn proffesiynau sy'n ymwneud â phlant. Yn yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn archwilio ystod eang o feysydd a ffactorau sy'n dylanwadu ar blentyn ac sy'n ganolog i ddatblygiad plentyn yn nes ymlaen.

Bydd y cwrs yn tynnu ar amrywiaeth o ddisgyblaethau er mwyn ehangu eich gwybodaeth a hybu meddwl beirniadol. Byddwch yn archwilio rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o gefndir gwleidyddol a deddfwriaethol plentyndod a'i oblygiadau i blant a'u teuluoedd.

Yn rhan o'r cwrs, bydd cyfle ichi fynd i leoliadau addysgol, i arsylwi ar y gwaith sy'n digwydd mewn lleoliad addysgol/plentyndod.

Os hoffech fod yn athro neu'n athrawes, cyhyd â'ch bod yn cwrdd â'r gofynion mynediad, cewch warant o gyfweliad am y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Cynradd yma.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth helaeth o ddulliau asesu gan gynnwys posteri, gemau, traethodau a chyflwyniadau
- systemau cymorth rhagorol i fyfyrwyr, gan gynnwys mentora myfyrwyr
- dewis o fodiwlau sy'n rhoi cyfle ichi arbenigo yn y meysydd sydd o ddiddordeb i chi
- cefnogaeth gan ein Cydlynydd Cyflogadwyedd a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael yn y maes.

**Sylwch:** Bydd angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad cyfatebol er mwyn dilyn rhai o fodiwlau'r radd hon.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein rhaglenni gradd yn cynnig cyfleoedd gwaith addawol. Mae llawer o'n graddedigion wedi dilyn llwybrau yn y meysydd canlynol: addysgu ac addysg (yn cynnwys AAA/ADY), gofal cymdeithasol, nyrsio, therapi lleferydd, gwaith cymdeithasol, lles plant, therapi chwarae, y diwydiant hamdden, cyfraith plant, ymchwil plentyndod.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
90% gwaith cwrs, 10% arholiadau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Sgiliau Allweddol i Brifysgol
- Datblygiad a Dysgu Plant
- Play and Learning: Theory and Practice
- Datblygiad Iaith.

**Yr ail flwyddyn:**
- Seicoleg Dysgu a Meddwl
- Diogelu ac Ymarfer Proffesiynol
- Gweithio gyda Phlant
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**
- Hawliau Plant
- Traethawd Hir
- Datblygiad Mathemategol yn y Blynyddoedd Cynnar.





# Astudiaethau Plentyndod Cynnar, gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar

Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

78% ar gael drwy'r Gymraeg

### BA (Anrh) | X322 | 3 blynedd

Gyda thros 700 o oriau o ymarfer mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar, diben y radd hon yw eich helpu i ddod yn berson graddedig medrus a chyflogadwy. Gwneir hyn trwy ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, a sgiliau ymarferol.

Bydd astudio yn y Brifysgol yn creu cefndir academaidd i'ch profiadau ar leoliad, lle byddwch yn gweithio mewn tîm gyda staff i ofalu am ac addysgu plant ifanc. Yn y flwyddyn gyntaf, mae'r lleoliadau hyn yn arsylwadol ac yn yr ail a'r drydedd flwyddyn bydd y lleoliadau'n cael eu hasesu.

Byddwch yn dysgu am:

- blant yn chwarae ac yn dysgu, a'u datblygiad a'u lles
- partneriaethau: gweithio gyda rhieni, gofalwyr, asiantaethau allanol ac mewn timau gydag ymarferwyr eraill
- diogelu a chydraddoldeb
- cwricwlwm y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys cyfathrebu, iaith, llythrennedd a datblygiad mathemategol
- sgiliau arwain.

Os ydych eisiau bod yn athro/athrawes, a chyhyd â'ch bod yn cwrdd â'r gofynion mynediad, cewch warant o gyfweliad ar gyfer y cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cynradd) yn Aberystwyth.

**Sylwch:** Bydd angen gwiriad DBS (Datgelu a Gwahardd) neu wiriad cyfatebol er mwyn cael eich derbyn ar y radd hon.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflawni'r radd hon yn llwyddiannus yn arwain at 'Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar'. Golyga hyn y bydd gennych radd sy'n eich galluogi i fod yn ymarferydd proffesiynol mewn lleoliad gwaith y blynyddoedd cynnar (yn amodol ar gymwysterau llythrennedd a rhifedd perthnasol). Mae eraill yn dilyn y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR). Mae'r radd hon hefyd yn addas i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r proffesiwn gwaith cymdeithasol neu'r maes therapi addysgol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs ac ymarfer.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Sgiliau Allweddol i Brifysgol
- Datblygiad a Dysgu Plant
- Partnerships in Principle and Practice
- Health and Wellbeing in the Early Years.

**Yr ail flwyddyn:**
- Diogelu ac Ymarfer Proffesiynol
- Literacy in Young Children
- Education, Diversity and Equality.

**Y flwyddyn olaf:**
- Datblygiad Mathemategol yn y Blynyddoedd Cynnar
- Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol
- Communication.

Ceir modiwlau lleoliadau gwaith ym mhob blwyddyn o'r radd hon. Mae'n bosibl y bydd costau teithio yn gysylltiedig â rhai lleoliadau.



# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| Addysg | Cymraeg | QX53 | |
| | Drama a Theatr | WX43 | |
| | Hanes | VX13 | |
| | Llenyddiaeth Saesneg | QX33 | |
| | Mathemateg | GX13 | G1X3 |
| | Sbaeneg | | X3R4 |
| | Seicoleg | CX80 | |



# Amaethyddiaeth

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Amaethyddiaeth

## Ein cyrsiau...


**Amaethyddiaeth** t.25
**Amaethyddiaeth** (Gradd Sylfaen) t.26
**Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid** t.27
**Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes** t.28




## Ar y brig yn y DU

ym mhwnc Gwyddor Anifeiliaid ac Amaethyddiaeth

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)





# Amaethyddiaeth

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

### BSc (Anrh) | H21Y | 3 blynedd

Ym Mhrifysgol Aberystwyth mae gennym enw da ers amser maith am ein haddysgu a'n hymchwil ym maes Amaethyddiaeth. Wrth astudio yn yr Adran Amaethyddiaeth, byddwch yn magu ystod eang o sgiliau, ac yn ategu'ch astudiaethau academaidd yn y brifysgol drwy ymweld yn rheolaidd â ffermydd masnachol a busnesau. Trwy hynny, byddwch yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf gan wyddonwyr blaengar ym maes ymchwil amaethyddol.

Her fyd-eang sy'n wynebu Amaethyddiaeth yw bwydo poblogaeth gynyddol yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n lleihau, ynghyd â'r angen i ddiogelu'r amgylchedd, ac i ymdopi â newid yn yr hinsawdd a'i liniaru. Mae amaethyddiaeth yn wynebu blaenoriaethau newydd yn agosach i gartref hefyd, wrth i'r Deyrnas Unedig ailddiffinio ei pherthynas ag Ewrop. Ar y radd hon byddwch yn cwmpasu pob agwedd ar amaethyddiaeth, a hefyd yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae byd amaeth yn newid. Byddwch hefyd yn dysgu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i reoli busnes cynaliadwy. Gyda gradd mewn Amaethyddiaeth, gallwch fabwysiadu'r arferion gorau sy'n ymgorffori'r ymchwil gyfredol orau oll, a bydd hynny'n eich galluogi i ymdrin â heriau rheoli da byw a chnydau a sicrhau'r canlyniadau gorau i'ch busnes amaethyddol.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan arbenigwyr ac ymchwilwyr blaenllaw yn eu maes addysgu
- ymweliadau â ffermydd, sefydliadau ymchwil a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan fel rhan hanfodol o'r cwrs
- y cyfle i gwblhau blwyddyn profiad gwaith gyda chymorth tiwtor i ddatblygu sgiliau a gwella cyfleoedd gyrfa.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein graddedigion yn dilyn gyrfaoedd llwyddiannus mewn sawl maes mewn amaethyddiaeth a diwydiannau cysylltiedig gan gynnwys rheolaeth mentrau amaethyddol neu fferm, iechyd a maeth anifeiliaid, gwleidyddiaeth a gweinyddu amaethyddol, agronomeg cnydau a glaswelltir, yn ogystal â gyrfaoedd gweinyddol, ymgynghori a gwerthu gyda chwmnïau cyflenwadau amaethyddol.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth
- Farm Planning and Advanced Farm Management.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

### Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**H22Y** Cynllun atodol.
**D401** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**D404** Meistr Integredig.

# Amaethyddiaeth

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## FdSc - Gradd Sylfaen | D402 | 2 flynedd

Mae'r radd hon yn ddewis rhagorol i unrhyw un sydd eisiau hyfforddi fel rheolwr menter amaethyddol, neu ailhyfforddi a dilyn gyrfa ym maes amaeth yn y dyfodol. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus ac i'r safon angenrheidiol yn gallu symud ymlaen i'n gradd anrhydedd Amaethyddiaeth.

Ar y cwrs hwn byddwn yn eich herio drwy gyflwyno i chi sefyllfaoedd bywyd go iawn, lle byddwch yn astudio cyfuniad o wyddoniaeth, technoleg a rheolaeth fferm i archwilio a deall y ffordd mae dulliau amaethyddol modern yn cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy ac yn sicrhau elw i'r busnes fferm. Byddwch yn cwmpasu pob agwedd ar systemau cynhyrchu amaethyddol, a hefyd yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae'r diwydiant amaethyddol yn newid. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi ichi'r sgiliau ymarferol a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i reoli busnes cynaliadwy.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arbenigwyr yn eu maes
- ymweliadau â ffermydd a busnesau amaethyddol ledled y DU yn rhan hanfodol o'r cynllun
- cyfleoedd am brofiad gwaith yn y DU a dramor.

**Cyflogadwyedd**
Fel un sydd â Gradd Sylfaen mewn Amaethyddiaeth, byddwch yn gymwys ar gyfer amrywiaeth o waith technegol neu swyddi rheoli ym maes busnes neu ffermio. Byddwch yn gallu defnyddio'r arferion gorau sy'n ymgorffori'r ymchwil gyfredol orau oll, ac arferion hwsmonaeth, a fydd yn eich galluogi i fynd i'r afael â heriau rheoli da byw a chnydau a sicrhau bod eich busnes amaethyddol yn llwyddo i'r eithaf mewn amgylchedd ariannol ac amgylchedd daearyddol heriol sy'n prysur newid.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**
- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 96-72
**BR:** 26-24.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

Wedi ichi gwblhau'r cwrs ar y lefel ofynnol, byddwch yn barod i ymuno â blwyddyn olaf un o'n graddau BSc Amaethyddiaeth.

**Ar gael hefyd:**
**D403** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | 53C8 | 3 blynedd

Tra'n astudio Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid, byddwch yn elwa o gael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n weithgar ym maes clefydau, maeth, atgenhedlu ac ymddygiad anifeiliaid, ymhlith meysydd eraill, ac yn elwa hefyd o'n hamrywiaeth o labordai addysgu ac ymchwil. Mae Adran y Gwyddorau Bywyd yn gartref i VetHub1, cyfleuster ymchwil i iechyd anifeiliaid a bioddiogelwch sy'n ymchwilio i dwbercwlosis mewn gwartheg, yn ogystal â Chanolfan Barrett ar gyfer Rheoli Llyngyr, canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n arwain y frwydr yn erbyn afiechydon llyngyr mewn da byw, megis llyngyren yr iau.

Ar y cwrs hwn, byddwch yn datblygu sylfaen gref o sgiliau ymarferol a gwybodaeth ym maes amaethyddiaeth. Ynghyd â'r wybodaeth graidd yma, byddwch yn ymdrwytho yng ngwyddor, cynhyrchiant a rheolaeth da byw, gan fanteisio ar ddysg ein hymchwilwyr gweithgar. O safbwynt gwyddor anifeiliaid, byddwch yn astudio agweddau ar faeth, ffisioleg atgenhedlu, iechyd a bridio anifeiliaid, yn ogystal â biodechnolegau anifeiliaid newydd. Gyda'r sgiliau yma'n gefn i chi, byddwch yn barod i wynebu heriau cynhyrchu da byw, ac yn barod i lwyddo yn eich busnes amaethyddol.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan wyddonwyr blaenllaw a chyfrannu at eu gwaith ymchwil
- ymweliadau â ffermydd, gorsafoedd ymchwil a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan
- cyfleoedd profiad gwaith yn y DU a thramor.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein graddedigion yn dilyn gyrfaoedd llwyddiannus ym maes amaethyddiaeth a diwydiannau'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, gan gynnwys rheoli mentrau da byw, ymgynghori, iechyd, lles a maeth anifeiliaid a gyrfaoedd gweinyddol, ymgynghori a gwerthu gydag amrywiaeth eang o gwmnïau cyflenwi amaethyddol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**
- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth
- Gwyddor Cynhyrchu Da Byw.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**D4D3** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**D4D4** Meistr Integredig.

# Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | D4N2 | 3 blynedd

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnal yr Arolwg Busnes Fferm blynyddol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r arolwg yn cyfuno data ariannol a ffisegol o tua 600 o ffermydd yng Nghymru ac yn rhoi gwybodaeth hanfodol i lunwyr polisïau ac ymchwilwyr ar y ffactorau economaidd sy'n effeithio ar ffermio yng Nghymru. O'r herwydd, mae ein staff mewn sefyllfa dda i roi hyfforddiant arbenigol ar reoli busnes, ochr yn ochr â'ch astudiaethau ym maes amaethyddiaeth.

Bydd Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes yn rhoi ichi sylfaen drwyadl o sgiliau ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol ym maes ffermio a masnach fel ei gilydd. Mae'r cynllun hwn yn addas i ymgeiswyr sydd heb gefndir amaethyddol, yn ogystal â rhai sydd â pheth gwybodaeth am amaethyddiaeth, gan ei fod yn rhoi gafael da ar systemau a gwyddor amaethyddiaeth ynghyd ag egwyddorion ac arferion busnes. Gydag opsiwn i dreulio blwyddyn mewn diwydiant, a mynediad at y busnesau amaethyddol a'r ffermydd masnachol niferus yn yr ardal ac yn ehangach, byddwch yn datblygu'r galluoedd a'r sgiliau craidd y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt ac sy'n angenrheidiol er mwyn rheoli eich busnes eich hun.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan staff arbenigol sy'n ymwneud â'r Arolwg Busnes Fferm yng Nghymru, y ffynhonnell fwyaf awdurdodol o wybodaeth ariannol am fusnesau fferm
- ymweliadau â ffermydd a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan fel rhan hanfodol o'r cwrs
- cyfleoedd profiad gwaith yn y DU a thramor.

**Cyflogadwyedd**
Mae'r cyfuniad o wybodaeth a sgiliau y mae'r cynllun hwn yn ei gynnig yn ddeniadol iawn i gyflogwyr sy'n fusnesau amaethyddol a nifer o broffesiynau, gan gynnwys gwasanaethau cynghori ac ymgynghori a rheoli ffermydd ac ystadau yn ogystal â chyllido amaethyddol. Mae hefyd yn gymhwyster rhagorol ar gyfer gyrfa mewn busnesau eraill fel y sector bwyd a maeth sy'n tyfu'n gyflym.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**
- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth
- Farm Planning and Advanced Farm Management.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**4D12** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.





# Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth

## Ein cwrs...

Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol: Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd t.31

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cwrs



**Yn y 10 uchaf yn y DU**

am Brofiad Myfyrwyr ac Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Llyfrgellyddiaeth a Rheoli Gwybodaeth

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2021)





# Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol: Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd

CILIP The library and information association

ar gael drwy'r Gymraeg

### BA (Anrh) | V700 | 3 blynedd

Bwriad y radd hon yw eich cyflwyno i'r agweddau ar y proffesiynau llyfrgell, archif a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol. Byddwch yn dod i ddeall sut mae ein treftadaeth ac ein gwybodaeth yn cael eu storio, eu rhannu a'u cadw, ynghyd â dysgu am rôl yr wybodaeth honno yng nghymdeithas yr unfed ganrif ar hugain.

Byddwch yn dysgu am reoli a defnyddio gwybodaeth, adnoddau treftadaeth, archifau a chofnodion ar ffurfiau digidol ac fel arall, a sut i ymdrin â symiau enfawr o wybodaeth sy'n cael eu creu yn y byd digidol. Byddwch hefyd yn ymchwilio i sut mae hanes a'r dogfennau, gwrthrychau ac arteffactau sy'n dod â hanes yn fyw yn cael eu curadu a'u rheoli.

Mae gan yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth gysylltiadau agos ag ystod o gyrff treftadaeth ddiwylliannol lleol, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o bum llyfrgell hawlfraint y DU), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, swyddfeydd archifau a chofnodion lleol, ac Amgueddfa Ceredigion.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan arbenigwyr, mewn adrannau a chanddynt enw da yn rhyngwladol ers amser maith o ran addysgu ac ymchwil ym maes astudiaethau gwybodaeth
- gallu manteisio ar gysylltiadau'r adran â chyrff sy'n gyfoeth o wybodaeth a hanes, a sefydliadau diwylliannol
- astudio gradd wedi'i hachredu gan CILIP: y gymdeithas llyfrgell a gwybodaeth.

**Cyflogadwyedd**

Astudio gradd achredeidig yw'r ffordd orau i baratoi ar gyfer ymarfer proffesiynol. Bydd graddedigion y cynllun gradd hwn wedi'u paratoi'n dda i weithio yn y sector llyfrgelloedd ac archifau, ac i gael swyddi sy'n gysylltiedig â gwybodaeth yn y sectorau busnes a diwylliant a'r sector di-elw. Byddwch mewn sefyllfa dda i fynd ymlaen i astudiaethau pellach, yn enwedig ein cymwysterau Meistr achredeidig proffesiynol mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd, neu Reoli Archifau a Chofnodion.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Foundations of Information Studies
- The Cultural Heritage Landscape
- Human Communication
- The Archival Inheritance
- Introduction to History.

**Yr ail flwyddyn:**

- Museums in the 21st Century
- Record Revolutions: A Cultural History of Record Keeping
- Information in a Changing World
- Resource Discovery and Digital Information
- Making History.

**Y flwyddyn olaf:**

- Collection Management and Development in Heritage Organisations
- Local Studies and Community Heritage.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

### Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
70% gwaith cwrs a 30% arholiadau.

# Astudiaethau Milfeddygol



## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Gwyddor Milfeddygaeth | t.34 |
| Nyrsio Milfeddygol | t.36 |


Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Milfeddygol

**3ydd yn y DU**

am Fodlonrwydd Cyffredinol ym mhwnc Gwyddorau Milfeddygol

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

# Gwyddor Milfeddygaeth

33% ar gael drwy'r Gymraeg

## BVSc (Anrh) | YD105 | 5 mlynedd

Mae'r radd Baglor Milfeddygaeth (BVSc) yn cynnig cyfle unigryw i hyfforddi mewn dau sefydliad addysgol a gwyddonol blaengar: y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'r cwrs newydd cyffrous hwn yn cyfuno arbenigedd gwyddonol a chlinigol o'r ddau sefydliad i roi hyfforddiant milfeddygol eang i fyfyrwyr, o wartheg i anifeiliaid anwes poced, o ymarfer clinigol i ddiwydiant, ac o iechyd anifeiliaid i iechyd y cyhoedd.

### Cynnwys y Cwrs

Trefnir yr addysgu yn 'ffrydiau'. Dychwelir at y ffrydiau hyn yn aml, gan ganolbwyntio i ddechrau ar yr anifail iach, a symud ymlaen trwy glefydau gwahanol systemau, a sut i'w harchwilio a'u trin. Bydd hefyd ffrydiau sy'n canolbwyntio ar yr wyddoniaeth sylfaenol ac effaith clefydau anifeiliaid ar iechyd y cyhoedd.

Yn y ddwy flynedd gyntaf byddwch yn treulio eich amser ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn astudio bioleg sy'n sail i filfeddygaeth, yn meithrin sgiliau sylfaenol wrth drin anifeiliaid fferm, ceffylau, ac anifeiliaid anwes, yn ogystal â datblygu eich dawn gyfathrebu, datrys problemau a gweithio mewn tîm. Mae gan Brifysgol Aberystwyth hanes hir o ddarparu addysgu ac ymchwil ar iechyd anifeiliaid ac mae'r brifysgol wedi ymrwymo i addysg o'r radd flaenaf.

Ym mlwyddyn tri, pedwar a phump, byddwch yn astudio ar Gampws Hawkshead y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol yn Swydd Hertford, lle byddwch yn ennill yr wybodaeth a'r sgiliau ymarferol uwch mewn gwyddor glinigol sy'n angenrheidiol er mwyn gallu cofrestru fel milfeddyg. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn ymgymryd â'ch hyfforddiant clinigol mewn milfeddygfeydd cydweithredol, ac mewn milfeddygfeydd preifat ym mlynyddoedd pedwar a phump. Ar ben hyn, byddwch yn dod yn ôl i Brifysgol Aberystwyth ym mlynyddoedd pedwar a phump i gael cylchdroeon o hyfforddiant clinigol arbenigol am gyfnod penodol.

Mae gan y Coleg Milfeddygaeth dair adran academaidd a chlinigol eithriadol. Mae'r darlithwyr ymhob adran ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth nid yn unig yn ymchwilwyr a chlinigwyr ar lwyfan byd-eang sy'n llwyr ymroddedig i'w meysydd, y maent hefyd yn weithwyr proffesiynol arbennig o gymwysedig.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, bydd myfyrwyr yn elwa o ddefnyddio ffermydd eang y Brifysgol, Canolfan Geffylau Lluest a chyfleusterau addysgu eraill.

## Modiwlau

Y ffrydiau sy'n sail i'r addysgu yw:

**O'r flwyddyn gyntaf i'r drydedd:**

- Principles of Science
- Locomotor
- Cardiovascular and respiratory
- Urogenital: renal
- Urogenital: reproduction
- Alimentary system
- Neurology and special senses
- Lymphoreticular and Haematopoietic
- Skin
- Population medicine and veterinary public health (PMVPH)
- Scholarship evidence-based medicine.

**Y bedwaredd a'r bumed flwyddyn:**

Bydd y rhan fwyaf o'r addysgu yn y ddwy flynedd olaf ar ffurf cylchdroeon clinigol, lle byddwch yn gweithio mewn grwpiau bach yn rhan o dîm clinigol.

Byddwch yn cymryd rhan mewn cylchdroeon rhyng-golegol a lleoliadau ClinEMS ar draws rhywogaethau a disgyblaethau. Byddwch hefyd yn ymgymryd â phrosiect ymchwil o'ch dewis eich hun.

### GWYBODAETH BWYSIG

Mae'r BVSc yn gynllun gradd ar y cyd rhwng Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, felly ni fydd pob agwedd ar y drefn derbyn myfyrwyr, yr ysgoloriaethau a'r ffioedd a ddisgrifir yn rhannau eraill y Prosbectws hwn yn gymwys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan **www.aber.ac.uk/cy/vet-sci**





### Addysgu Ymarferol a Chlinigol

**Efrydiau Allanol Hwsmonaeth Anifeiliaid (AHEMS)**

Ymgymerir ag AHEMS yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen. Mae lleoliadau AHEMS wedi'u llunio i'ch cynorthwyo i gyfnerthu'r hyn a ddysgoch am hwsmonaeth anifeiliaid, i ddatblygu sgiliau trin anifeiliaid, a dysgu am ddiwydiannau anifeiliaid. Rhaid cwblhau 12 wythnos o AHEMS cyn cael mynediad i drydedd flwyddyn y cwrs. Er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o anghenion y byd milfeddygol yng Nghymru, mae'n ofynnol bod o leiaf chwe wythnos o'r AHEMS yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

**Efrydiau Allanol Clinigol (ClinEMS)**

ClinEMS yw'r cyfnod a neilltuir i ennill profiad clinigol ymarferol ym mlynyddoedd olaf eich rhaglen filfeddygol, i ategu eich dysgu a'ch profiad clinigol. Trwy gyfrwng ClinEMS byddwch yn ennill profiad mewn amrywiaeth o sefydliadau gwahanol, clinigol a chysylltiedig â milfeddygaeth, lle byddwch yn cadarnhau'r hyn a ddysgoch am ddiagnosis a rheoli clefydau anifeiliaid, yn gwella eich sgiliau clinigol ymarferol, ac yn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae sefydliadau milfeddygol yn gweithredu.

Byddwch yn ymgymryd â lleoliadau ClinEMS ym mlynyddoedd tri, pedwar a phump y rhaglen BVSc, sef cyfanswm o 26 wythnos mewn lleoliadau. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r milfeddygfeydd yng Nghymru, bydd o leiaf 13 wythnos o'r ClinEMS yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

### Cylchdroeon clinigol rhyng-golegol

Yn ystod dwy flynedd olaf y cwrs, bydd eich profiad clinigol yn canolbwyntio ar arsylwi, trafod a phrofiad ymarferol o fod yn aelod o'r tîm clinigol yn ysbytai'r Coleg Milfeddygaeth, ac mewn sefydliadau clinigol y mae'r Coleg yn bartner iddynt. Yn ystod eich cyfnod ar gylchdroeon, caiff eich dysgu a'ch dealltwriaeth eu hategu gan ystod eang o ddarlithoedd, seminarau a gweithdai.

### Ehangu Cyfranogiad

Mae Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol wedi ymrwymo i ehangu mynediad ac i groesawu ceisiadau gan fyfyrwyr o bob cefndir. Caiff cyrhaeddiad academaidd ac anacademaidd ymgeiswyr ei ystyried gyda golwg ar gefndir economaidd-gymdeithasol ac addysgol, er mwyn sicrhau darlun cynhwysfawr o gyrhaeddiad a photensial ymgeisydd. Ewch i **www.aber.ac.uk/cy/vet-sci** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cyflogadwyedd**

Mae Coleg Brenhinol y Milfeddygon yn sicrhau ansawdd graddau milfeddygaeth y Deyrnas Unedig (DU) er mwyn gwneud yn sicr bod llawfeddygon milfeddygol yn gymwys i'r gwaith wrth raddio, ac yn ymuno â Chofrestr y Coleg (RCVS). Dim ond unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda'r Coleg sydd â'r hawl i alw eu hunain yn llawfeddygon milfeddygol a, gyda rhai eithriadau, i weithio mewn llawfeddygaeth filfeddygol yn y DU. Mae'r Coleg Milfeddygaeth, Prifysgol Aberystwyth a Choleg y Milfeddygon yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y cwrs BVSc yn cwrdd â'r safonau angenrheidiol, fel y gall Coleg y Milfeddygon roi achrediad cyflawn iddo yn 2026 pan fydd y myfyrwyr cyntaf yn graddio.

Mae graddedigion yn datblygu gwybodaeth wyddonol ddofn y gellir ei chymhwyso i nifer o lwybrau gyrfa, gan gynnwys milfeddygfeydd clinigol cymysg, milfeddygfeydd ceffylau, milfeddygfeydd fferm/da byw, ymchwil filfeddygol, iechyd cyhoeddus a pholisi milfeddygol, y diwydiant fferyllol, diogelwch bwyd a diogelu meddyginiaethau. Yn ogystal â hyn, ar ôl hyfforddi yn rhannol yng Nghymru trwy gydol y cwrs gradd, bydd graddedigion yn hynod addas i barhau â'u gyrfa mewn milfeddygfeydd neu sefydliadau milfeddygol eraill yng Nghymru.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol: Gofynion mynediad Safon Uwch:** AAA (gan gynnwys Bioleg a Chemeg) a thrydydd pwnc na ddylai orgyffwrdd â Bioleg na Chemeg, ar wahân i Astudiaethau Cyffredinol. I gael rhagor o fanylion ynglŷn â chynigion rhyngwladol a chynigion cyd-destunol, ewch i: **www.aber.ac.uk/cy/vet-sci**

**Cyfweliad:** Cynhelir aml-gyfweliad byr yn Aberystwyth yn rhan o'r broses ddethol.

**Ffurflen atodol:** Yn rhan o'ch cais, mae angen ichi lenwi ein Ffurflen Atodol i Ymgeiswyr ar-lein. Bydd mwy o fanylion ynglŷn â hyn a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen i'w cael ar y wefan: **www.aber.ac.uk/cy/vet-sci**

**Gofynion profiad gwaith:** Cyn gwneud cais, dylech fod wedi cyflawni o leiaf 70 awr o brofiad gwaith (cyflogedig neu wirfoddol) mewn un neu fwy o filfeddygfeydd a 70 awr mewn amrywiaeth o amgylcheddau anifeiliaid (nid yw hyn yn cynnwys eich cartref, busnes teuluol, na bod yn berchen ar anifeiliaid anwes), a rhaid i 35 o'r oriau hynny fod yn gysylltiedig ag anifeiliaid fferm neu geffylau. Rhaid i'r profiad gwaith gael ei gyflawni yn y cyfnod 18 mis yn union cyn y dyddiad cau i gyflwyno cais.

# Nyrsio Milfeddygol

## FdSc | D31F | 3 mlynedd

Ar ein cwrs gradd sylfaen Nyrsio Milfeddygol, byddwch yn astudio pynciau'n gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid a rheoli anifeiliaid yng nghyswllt anifeiliaid bach (cŵn, cathod, mamaliaid bach) a cheffylau, yn ogystal â chyfeirio ychydig at anifeiliaid mawr. Ni yw'r unig ysgol filfeddygol yng Nghymru (Ysgol Milfeddygaeth Aberystwyth), ac mae gennym adnoddau rhagorol i gefnogi eich astudiaethau, gan gynnwys labordy sgiliau clinigol, labordai ymchwil ac anatomeg, canolfan geffylau ar gyfer dysgu, a ffermydd y brifysgol. Mae'r cwrs yn cyfuno dysgu damcaniaethol ac ymarferol, ac yn cynnwys lleoliad gwaith mewn milfeddygfa yn rhan annatod o'r cwrs.

Mae modiwlau ym mlwyddyn 1 a 2 yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Sgiliau Diwrnod Cyntaf i Nyrsys Milfeddygol yn ôl Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS), er mwyn paratoi am flwyddyn o leoliad gwaith mewn canolfan hyfforddi cofrestredig. I ddechrau, bydd meysydd yn rhoi dealltwriaeth o'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â nyrsio milfeddygol. Mae'r meysydd yn cynnwys iechyd anifeiliaid ac egwyddorion nyrsio milfeddygol. Caiff y rhain wedyn eu cymhwyso ym mhynciau blwyddyn 2, cyn dechrau ar leoliad gwaith am flwyddyn. Mae'r lleoliad yn dechrau hanner ffordd trwy flwyddyn 2 ac yn dod i ben ar ganol blwyddyn 3. Mae'r modiwlau olaf ym mlwyddyn 3 yn cynnwys dewis i ganolbwyntio naill ai ar nyrsio anifeiliaid egsotig neu anifeiliaid mawr, yn dibynnu ar y maes arbenigol yr hoffech weithio ynddo. Mae pwyslais hefyd yn y flwyddyn olaf ar arweinyddiaeth, nyrsio cymunedol, ac Un Iechyd.

Bydd un o'n lleoliadau hyfforddi cofrestredig yn darparu eich lleoliad gwaith, a bydd swyddog lleoliadau yn trefnu hyn i chi. Yn ystod y lleoliad gwaith, byddwch yn cwblhau log ar-lein o ddatblygiad eich sgiliau clinigol, sef Log Cynnydd Nyrsio. Yn rhan o ofynion trwydded ymarfer Coleg Brenhinol y Milfeddygon, byddwch yn cwblhau o leiaf 1800 o oriau ar y lleoliad.

**Cyflogadwyedd**
Trwy gwblhau'r radd sylfaen yn llwyddiannus, byddwch yn gymwys i wneud cais i gofrestru gyda'r RCVS yn nyrs filfeddygol gofrestredig (yn amodol ar ganlyniad yr achredu). Fel nyrs filfeddygol gofrestredig, byddwch yn gymwys i weithio mewn milfeddygfa gyffredinol, ysbytai atgyfeirio, elusennau sy'n darparu gwasanaethau milfeddygol, labordai, diwydiannau fferyllol, ac mewn lleoliadau lle ceir casgliadau anifeiliaid er enghraifft parciau sŵolegol. Cydnabyddir Achrediad RCVS mewn llawer o wledydd trwy ACOVENE. Byddwch hefyd yn gallu parhau â'ch astudiaethau trwy ychwanegu BSc neu Dystysgrif RCVS mewn Nyrsio Milfeddygol Uwch.

## Rhestr o fodiwlau

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Professional Practice
- Anatomy and Physiology
- Animal Health and Management
- Principles of Veterinary Nursing
- Principles of Diagnostic Techniques
- Preparing for Placement.

**Yr ail flwyddyn:**
- Principles of Pharmacology and Anaesthesia
- Medical Nursing and Critical Care
- Surgical Nursing
- Lleoliad Gwaith.

**Y flwyddyn olaf:**
- Applied Veterinary Nursing
- Nursing of Exotics NEU Nursing of Large Animals
- One Health for Veterinary Nurses.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:** i
**Pwyntiau tariff UCAS:** 96
**BR:** 26 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Asesu:** Mae pob modiwl ym mlwyddyn 1 a 2 yn cynnwys asesiad trwy arholiad, sy'n un o amodau'r RCVS. Mae gan bob modiwl elfen o waith cwrs, fel arfer 50% o'r pwysiant.

**Gwybodaeth bwysig:** Mae'r cwrs hwn wedi'i achredu dros dro gan yr RCVS.






# Biocemeg a Geneteg

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Biocemeg a Geneteg

## Ein cyrsiau...

| | |
|---|---|
| Biocemeg | t.39 |
| Geneteg | t.40 |
| Geneteg a Biocemeg | t.41 |



## Ar y brig yn y DU

am Foddhad Myfyrwyr ym mhwnc Geneteg

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022)



# Biocemeg

28% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

### BSc (Anrh) | C700 | 3 blynedd

Yn ystod eich gradd Biocemeg yn Aberystwyth byddwch yn archwilio strwythurau a swyddogaethau'r moleciwlau sy'n creu cell, ac yn deall y modd y maent yn rhyngweithio mewn prosesau byw. Mae ein darlithwyr yn weithgar ym maes ymchwil, ac mae ganddynt brofiad uniongyrchol o ddarganfod cyffuriau, ymchwilio i dechnegau diagnostig, synthesis gweithredol cyfansoddion, a mwy.

Mae ein gradd Biocemeg yn rhoi pwyslais arbennig ar y sgiliau ymarferol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt yn y diwydiannau fferyllol a biotechnoleg. Yn ystod eich astudiaethau byddwch yn archwilio'r technegau sydd wedi chwyldroi'r modd y mae bioleg celloedd, cemeg fiolegol, metabolaeth, a geneteg foleciwlaidd yn cael eu hastudio, trwy gyfrwng hyfforddiant arbenigol mewn protocol gwyddonol a gwaith ymarferol yn y labordy.

Byddwch yn elwa o:

- gymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- defnyddio electrofforesis gel ar gyfer gwahanu a dadansoddi proteinau'n ymarferol
- astudio nodweddu bioffisegol ar gyfer cineteg a thermodynameg adweithiau wedi'u cataleiddio gan ensymau
- defnyddio labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig.

**Cyflogadwyedd**

Fel un o raddedigion y radd hon, byddwch wedi datblygu'r set o sgiliau sydd eu hangen i weithio'n ddiogel ac yn annibynnol mewn amgylcheddau ymchwil a labordai diwydiannol. Byddwch felly wedi cael eich paratoi'n dda ar gyfer gyrfa yn y diwydiant fferyllol a biotechnolegol. Mae llawer o'n graddedigion hefyd yn mynd ymlaen i yrfaoedd mewn addysg, neu'n astudio ymhellach ar lefel Meistr neu PhD.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Genetics, Evolution and Diversity
- Biological Chemistry
- Bioleg Celloedd
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Comparative Animal Physiology
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Molecular Biology and Bioinformatics
- Cell and Cancer Biology
- Dulliau Ymchwil
- Practical Skills for Biochemists
- Proteins and Enzymes.

**Y flwyddyn olaf:**

- Bioinformatics and Functional Genomics
- Biotechnology
- Molecular Pharmacology
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Cemeg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Cemeg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes (ac eithrio fel rhan o brosiectau ymchwil dethol).

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| C701 | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| C709 | Meistr Integredig. |

# Geneteg

32% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C400 | 3 blynedd

Mae ein gradd Geneteg yn canolbwyntio ar gryfderau hirsefydlog Adran y Gwyddorau Bywyd mewn ymchwil ym maes geneteg. Mae gan yr Adran gyfleusterau ar gyfer dilyniannu a bioddelweddu DNA, a chyfrifiadura uchel ei berfformiad ar gyfer biowybodeg. Ar ben hynny, mae Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn gartref i'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion. Bydd staff sy'n arbenigo yn y dulliau hyn yn llywio eich dysgu ar y radd Geneteg.

Mae cynnwys y cwrs yn amrywio o hanfodion esblygiad i ffiniau geneteg fodern, gan gynnwys genomeg feddygol a biowybodeg. Byddwch yn astudio bioleg canser, geneteg cromosomau, mynegiant a datblygiad genynnau, geneteg esblygiad a phoblogaeth, a biotechnoleg. Byddwch hefyd yn cael hyfforddiant mewn protocolau gwyddonol a'r gweithdrefnau gwyddonol cywir ar gyfer cofnodi, dehongli ac adrodd ddata.

Byddwch yn elwa o:

- gymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- mynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- prosiect ymchwil labordy gwarantedig yn y flwyddyn olaf.

**Cyflogadwyedd**

Bydd ein gradd Geneteg yn rhoi ichi ddigonedd o waith ymarferol yn y labordy, ac felly'r sgiliau i fynd ymlaen i yrfa broffesiynol ym maes geneteg mewn gofal iechyd, diwydiant neu addysg uwch. Mae cyfleoedd posibl yn cynnwys geneteg glinigol, geneteg fiofeddygol, biodechnoleg, ymchwil fforensig, ymgynghori genetig, geneteg cadwraeth, a bridio planhigion. Mae'r cynllun hwn hefyd yn aml yn arwain at ymchwil uwchraddedig ar lefel Meistr a PhD.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Genetics, Evolution and Diversity
- Bioleg Celloedd
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Comparative Animal Physiology
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr
- Ecology and Conservation.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Molecular Biology and Bioinformatics
- Cell and Cancer Biology
- Chromosome Dynamics
- Dulliau Ymchwil
- Evolution and Molecular Systematics.

**Y flwyddyn olaf:**

- Bioinformatics and Functional Genomics
- Biotechnology
- Molecular Biology of Development
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes (ac eithrio fel rhan o brosiectau ymchwil dethol).

**Ar gael hefyd:**
**C401** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.




# Geneteg a Biocemeg

22% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | CC47 | 3 blynedd

Mae'r radd hon yn archwilio'r rhyngwyneb rhwng Geneteg – a'i photensial diderfyn, bron, i'n cynorthwyo i ddeall iechyd ac afiechyd dynol, esblygiad, ac amrywiaeth pethau byw – a Biocemeg, sy'n rhoi dealltwriaeth fecanistig o sut mae genynnau yn rheoli bioleg organeb.

Nodweddion y radd hon yw'r integreiddio agos rhwng geneteg a biocemeg er mwyn deall geneteg foleciwlaidd iechyd ac afiechyd, a blaenoriaethu'r sgiliau ymarferol y ceir galw amdanynt ym maes ymchwil ac mewn diwydiant. Yn ystod eich astudiaethau, byddwch yn datblygu sylfaen gadarn o ddealltwriaeth mewn geneteg a biocemeg, gan gwmpasu agweddau megis geneteg ddynol, mynegiant genynnau, bioleg ddatblygiadol a bioleg canser, biotechnoleg, peirianneg genetig a ffarmacoleg. Byddwch hefyd yn cael hyfforddiant mewn protocolau gwyddonol a'r fethodoleg arbrofol gywir ar gyfer cofnodi, dehongli ac adrodd ar amrywiaeth o ddata. Ar ddiwedd eich astudiaethau, byddwch wedi datblygu'r sgiliau angenrheidiol i weithio mewn amrywiaeth o amgylcheddau labordy proffesiynol.

Byddwch yn elwa o:

- gymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- defnyddio electrofforesis gel ar gyfer gwahanu a dadansoddi swyddogaethol ar broteinau
- astudio nodweddu bioffisegol ar gyfer cineteg a thermodynameg adweithiau wedi'u cataleiddio gan ensymau
- mynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig.

**Cyflogadwyedd**

Mae'r cynllun hwn yn cynnig llwybr at gyflogaeth mewn meysydd twf megis biofeddygaeth, gwyddoniaeth fforensig, proffilio DNA (pobl, anifeiliaid a phlanhigion), sytogeneteg glinigol a chynghori genetig, biodechnoleg a chynhyrchu bwyd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Genetics, Evolution and Diversity
- Biological Chemistry
- Bioleg Celloedd
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Comparative Animal Physiology
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Molecular Biology and Bioinformatics
- Cell and Cancer Biology
- Chromosome Dynamics
- Dulliau Ymchwil
- Practical Skills for Biochemists
- Proteins and Enzymes.

**Y flwyddyn olaf:**

- Bioinformatics and Functional Genomics
- Biotechnology
- Molecular Biology of Development
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Cemeg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Cemeg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes (ac eithrio fel rhan o brosiectau ymchwil dethol).

**Ar gael hefyd:**
**CC48** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.


# Bioleg Ddynol ac Iechyd

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Bioleg Ddynol ac Iechyd

## Ein cyrsiau…


**Bioleg Ddynol ac Iechyd** t.43

**Gwyddorau Biofeddygol** (Maeth, Iechyd ac Ymarfer Corff) t.44

**3ydd yn y DU**

am Fodlonrwydd gyda'r Asesu a'r Adborth ym mhwnc Bioleg

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)



# Bioleg Ddynol ac Iechyd

17 ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C194 | 3 blynedd

Mae'r cwrs Bioleg Ddynol ac Iechyd yn cyfuno dau faes y mae gennym gryfder ymchwil ac addysgu ynddynt yn ein Hathrofa, sef y gwyddorau biolegol a gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff. Mae brwdfrydedd ac arbenigedd ein staff, a'n cyfleusterau gwych, yn y ddau faes hyn wedi arwain at ddatblygu'r radd hon. Ein nod yw rhoi dealltwriaeth fanwl o'r prif amodau sy'n dylanwadu ar iechyd dynol yn yr unfed ganrif ar hugain.

Ar y radd hon byddwch yn astudio ystod o ddisgyblaethau biolegol gan gynnwys ffisioleg, microbioleg, imiwnoleg a geneteg, gan gyfuno'r disgyblaethau hyn ag astudiaethau biomecaneg dynol a seicoleg. Ein bwriad yw eich helpu i werthfawrogi'r modd y mae ymborth, ynghyd â gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff rheolaidd, yn chwarae rhan sylweddol wrth gynnal iechyd a lles. Bydd y cyfuniad unigryw hwn o bynciau yn sicrhau bod gennych ddealltwriaeth amlddisgyblaethol o iechyd dynol, gan gynnwys newidiadau mewn ymddygiad a ffordd o fyw.

Byddwch yn elwa o:

- ddefnyddio adnoddau ar gyfer dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- cymhwyso seicoleg i ddeall prosesau newid ymddygiad a'u perthnasedd i oedi datblygiad cyflyrau cronig gan gynnwys clefyd y galon, diabetes, a chanser
- defnyddio'r offer ffisiolegol, biomecanyddol a seicolegol diweddaraf gan gynnwys: cyfarpar i sganio'r corff i fesur iechyd esgyrn a chyfansoddiad y corff, dadansoddwyr cardiofasgwlaidd, anadlu a metaboledd, peiriannau perfformiad-uchel ar gyfer rhedeg, beicio a rhwyfo, ynghyd â fideo digidol cyfrifiadurol a phlât grym i alluogi dadansoddiad soffistigedig o symudiadau.

**Cyflogadwyedd**
Bydd gan raddedigion Bioleg Ddynol ac Iechyd y sgiliau a'r wybodaeth ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd ym maes biomeddygaeth, iechyd, a phroffesiynau cysylltiedig.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Bioleg Celloedd
- Genetics, Evolution and Diversity
- Human Physiological Systems
- Psychology of Physical Activity and Health
- Research Designs to Assess and Monitor Clients
- Skills in Nutrition, and Science Communication.

**Yr ail flwyddyn:**
- Dulliau Ymchwil
- Immunology
- Sport and Exercise Physiology.

**Y flwyddyn olaf:**
- Exercise Management in Health and Chronic Disease
- Molecular Pharmacology
- Solving Societal Issues using Applied and Integrated Approaches
- Traethawd Estynedig.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
C195 Blwyddyn integredig mewn diwydiant.

# Gwyddorau Biofeddygol

17% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## (Maeth, Iechyd ac Ymarfer Corff)

### BSc (Anrh) | B990 | 3 blynedd

Mae'r radd hon yn cynnig dealltwriaeth eang o sylfaen wyddonol bioleg feddygol, ac yn archwilio sut y gall maeth ac ymarfer corff gyfrannu at atal a thrin cyflyrau meddygol.

Byddwch yn cael eich dysgu gan staff sy'n arbenigwyr yn eu maes, ac yn astudio modiwlau ym meysydd pwnc bioleg celloedd a moleciwlau, anatomi a ffisioleg ddynol, biocemeg, ffarmacoleg, microbioleg, imiwnoleg, maeth, metabolaeth, biowybodeg a geneteg. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o ddulliau ymchwil a'r gallu i gymhwyso'r rhain i bynciau newydd a diddorol. Ceir pwyslais penodol ar sgiliau labordy trwy gydol y radd, a fydd yn eich paratoi ar gyfer gwaith yn y gwyddorau biofeddygol.

Byddwch yn elwa o:

- fynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth sy'n llawn o'r offer diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- defnyddio offer a labordai ffisiolegol, biofecanyddol a seicolegol o'r radd flaenaf.

**Cyflogadwyedd**
Gall graddedigion ddilyn gyrfaoedd ym maes gofal iechyd clinigol a chymunedol, mewn labordai geneteg glinigol, treialon clinigol a'r sector rheoleiddiol, gwerthu a marchnata ym maes gofal iechyd a chynnyrch diagnostig, patholeg ddiagnostig a labordai clinigol, addysg, ac ymchwil a datblygu ar gyfer y diwydiant fferyllol, ymhlith pethau eraill.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Biological Chemistry
- Bioleg Celloedd
- Genetics, Evolution and Diversity
- Human Anatomy and Kinesiology
- Human Physiological Systems
- Skills in Nutrition, and Science Communication.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Molecular Biology and Bioinformatics
- Cell and Cancer Biology
- Immunology
- Dulliau Ymchwil
- Sport & Exercise Physiology
- Sport and Exercise Nutrition.

**Y flwyddyn olaf:**

- Applied Sports Nutrition
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

### Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
B991 Blwyddyn integredig mewn diwydiant.





# Busnes a Rheolaeth

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Busnes a Newid Hinsawdd | t.47 |
| Busnes a Rheolaeth | t.48 |
| Graddau Cyfun | t.49 |


Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Busnes a Rheolaeth




**Yn y 5 uchaf yn y DU**

am Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Astudiaethau Busnes a Rheolaeth

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Busnes a Newid Hinsawdd

45% ar gael drwy'r Gymraeg

### BSc (Anrh) | FN71 | 3 blynedd

Mae busnesau yn gyfranwyr allweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond maent hefyd yn rhan o'r ateb. Mae busnesau na fyddant yn ymateb i her yr hinsawdd yn debygol o wynebu costau uwch o ran trethi carbon a llai o gwsmeriaid. Ar y llaw arall, mae busnesau mwy blaengar sy'n addasu trwy ddatgarboneiddio a datblygu cynnyrch gwyrdd yn debygol o gynyddu eu perfformiad ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol - eu sylfaen driphlyg.

Bydd y radd Busnes a Newid Hinsawdd yn eich paratoi i ddod yn arweinwyr busnesau'r dyfodol a fydd yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy ddatblygu strategaethau ac arferion ystyrlon o ran cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Ar y radd hon, byddwch yn cyfuno gwybodaeth am wyddoniaeth newid yn yr hinsawdd â'r sgiliau sydd eu hangen i arwain busnes llwyddiannus. Mae'r radd yn archwilio ffyrdd creadigol y gall busnesau ymateb i her a chyfleoedd yr argyfwng hinsawdd presennol, a bydd yn rhoi ichi wybodaeth berthnasol sy'n benodol i'r pwnc, ynghyd â'r sgiliau a'r priodoleddau rhyngddisgyblaethol, rhyngbersonol sydd eu hangen er mwyn creu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy.

Os mai eich bwriad yw cael dylanwad mwy cadarnhaol ar eich byd, bydd y cynllun hwn yn gychwyn cadarn ar y daith honno.

**Cyflogadwyedd**

Ar ôl graddio o'r radd hon byddwch mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfa mewn rheoli, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn y DU a thramor. Byddwch hefyd yn gymwys ar gyfer gyrfaoedd mewn meysydd cysylltiedig, megis addysg amgylcheddol, ymgynghori neu gadwraeth.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- The Science of Climate
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Understanding the Economy
- Data Analytics
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes.

**Yr ail flwyddyn:**
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Llywodraethu Newid Hinsawdd: modiwl efelychu
- Gweithrediadau a Rheoli'r Gadwyn Cyflenwi
- Dulliau Ymchwil
- Corporate Governance, Risk and Ethics.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir
- Arweinyddiaeth Strategol
- Organisational Psychology.

### Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Busnes a Rheolaeth

63% ar gael drwy'r Gymraeg

CMI

## BSc (Anrh) | N122 | 3 blynedd

Mae byd menter yn addasu o hyd. Gall effaith newidiadau yn yr amgylchedd busnes o ran digwyddiadau economaidd, newidiadau mewn arferion cyfrifeg, newidiadau o ran rheoleiddio a'r amgylchedd cyfreithiol, penderfyniadau marchnata a datblygu strategaethau busnes olygu'r gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu i gwmni.

Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, byddwch yn dysgu sut i ymateb i'r digwyddiadau hyn drwy ddatblygu eich gwybodaeth am elfennau hanfodol y byd busnes, gan gynnwys rheoli adnoddau dynol, ymddygiad sefydliadol, strategaeth a gweithrediadau busnes, marchnata, a dadansoddi data busnes. Bydd ein tîm o academyddion arbenigol a gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant yn datblygu eich dealltwriaeth o reolaeth ym maes busnes a masnach yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Yn ystod y cwrs hwn, byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu maes rheoli ac effaith gyfun y materion economaidd, ariannol, dynol a chyfreithiol y mae rheolwyr yn ymdrin â hwy o ddydd i ddydd. Byddwch hefyd yn datblygu'r sgiliau i ddadansoddi materion rheoli yng nghyswllt blaenoriaethau'r cwmni, ffactorau allanol a'r hyn a ystyrir yn "arfer da" ar hyn o bryd.

Byddwch yn elwa o:

- weithio gyda busnesau yn y gymuned leol ac yn ehangach i ddatblygu eich sgiliau fel ymarferwr a chynorthwyo eich datblygiad academaidd
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sydd ag amrywiaeth eang o brofiad busnes a rheolaeth a diddordebau ymchwil sy'n cael eu cyfuno â'r addysgu.

**Cyflogadwyedd**
Bydd gradd mewn Busnes a Rheolaeth yn eich galluogi i ddethol o amrywiaeth o opsiynau gyrfa drwy'r byd busnes, diwydiant a masnach, neu i weithio yn y sector cyhoeddus. Mae llawer o'n graddedigion yn dod o hyd i gyflogaeth lwyddiannus fel rheolwyr iau mewn sefydliadau rhyngwladol neu gwmnïau amlwladol fel Goldman Sachs, PricewaterhouseCoopers, Llywodraeth Cymru a Marks & Spencer.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**
- Rheolaeth Marchnata
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Gweithrediadau a Rheoli'r Gadwyn Cyflenwi
- Entrepreneurship and New Venture Creation
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**
- Arweinyddiaeth Strategol
- Digital Business, Leadership and Management
- Financial Strategy
- Organisational Psychology
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**N12F** Blwyddyn sylfaen integredig.
**N12T** Cynllun atodol.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Busnes a Rheolaeth** | Almaeneg | NR12 |
| | Cyfrifiadureg | NG14 |
| | Ffrangeg | NR11 |
| | Marchnata | N5N1 |
| | Mathemateg | GN11 |
| | Sbaeneg | NR14 |
| | Seicoleg | NC18 |
| | Y Gyfraith | MN11 |



# Celf a Ffotograffiaeth

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Celf a Ffotograffiaeth

## Ein cyrsiau...

| | |
|---|---|
| Celfyddyd Gain | t.51 |
| Celfyddydau Creadigol | t.52 |
| Ffotograffiaeth | t.53 |
| Hanes Celf | t.54 |
| Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc | t.55 |

Mae'r Ysgol Gelf wedi'i lleoli mewn adeilad rhestredig Gradd II*, ac mae'n cyfuno traddodiad ag arfer cyfoes wrth ddysgu celf a'i hanes.



**Yn y 5 uchaf yn y DU**

am Fodlonrwydd â'r Addysgu ym mhwnc Celfyddyd Gain

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)



# Celfyddyd Gain

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | W100 | 3 blynedd

Mae ein gradd Celfyddyd Gain wedi ei chynllunio mewn modd a fydd yn datblygu, ehangu a dyfnhau'ch sgiliau mewn amrywiol gyfryngau. Mae'r disgyblaethau a ddysgir yn yr Ysgol Gelf yn cynnwys peintio, gwneud printiau, lluniadu, ffotograffiaeth, darlunio llyfrau, creu ffilmiau, sain, gosodiadau arbrofol, a pherfformiadau safle-benodol. Oherwydd strwythur modiwlar ein cynlluniau gradd gallwch amrywio eich dull ymarfer a dewis y llwybrau, meysydd llafur, dulliau asesu a chyfleoedd dysgu sydd fwyaf addas i'ch diddordebau a'ch galluoedd chi'ch hun.

Yn ogystal â chynnig sylfaen gadarn mewn technegau a chyfryngau, mae'r cynllun hwn yn annog ailystyried sgiliau traddodiadol yng nghyd-destun arferion cyfoes, cysyniadol. Bydd darlunio'n rhan hanfodol o'ch hyfforddiant. O'r herwydd, mae'n cael lle canolog yn y cwricwlwm, yn enwedig ym mlwyddyn gyntaf yr astudiaethau. I'r sawl sy'n dewis cofrestru ar eu cyfer, cynhelir dosbarthiadau darlunio ffigyrau bob wythnos ar bob lefel astudio.

Byddwch yn elwa o:

- y gallu i ddechrau ar y cynllun gradd yn syth o'r ysgol neu o gwrs sylfaen celf
- hyfforddiant sy'n cysylltu sgiliau traddodiadol ag arferion a damcaniaethau cyfoes
- dilyn modiwlau galwedigaethol ac ymwneud ag astudio celf yn guradurol
- mynediad i gasgliadau ein hamgueddfa o gelfyddyd gain ac addurnol
- cyfrannu at arddangosfeydd cyhoeddus yn rhan o'ch cynllun gradd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Drawing: Looking, Seeing, Thinking
- Drawing: Extended Practice
- Painting: Looking, Seeing, Thinking
- Painting: Extended Practice
- Looking into Landscape: Reading, Researching, Responding.

**Yr ail flwyddyn:**

- Professional Practice for Students of Art.

**Y flwyddyn olaf:**

- Research and Process in Practice
- Exhibition 2: Graduation Show.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Book Illustration
- Curating an Exhibition: Researching, Interpreting and Displaying
- Exploring the School of Art Collections: Research and Museums
- Interdisciplinary Practice
- Looking into Landscape: Reading, Researching, Responding
- Pleasure, Power, and Profit: Art in the Long Eighteenth Century
- Representing the Body
- Revolutions & Modernities: Art in the Nineteenth Century
- Thinking Photography.

**Cyflogadwyedd**

Ar ôl cwblhau'r radd hon, bydd gennych alluoedd yn barod ar gyfer y byd go iawn a fydd yn eich galluogi i ddilyn gyrfa fel artist, curadur ac addysgwr. Mae ein graddedigion yn arlunwyr proffesiynol, yn ddarlunwyr llyfrau, yn ffotograffwyr, yn addysgwyr prifysgol, yn athrawon ysgol uwchradd, yn rheolwyr orielau celf ac yn curadu arddangosfeydd. Ymhlith eu cyflogwyr mae Cyngor y Celfyddydau, Academi Frenhinol y Celfyddydau, Tate, Amgueddfa'r Victoria and Albert ac Ymddiriedolaeth y Casgliadau Brenhinol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B mewn Celf Safon Uwch neu bwnc perthnasol a phortffolio boddhaol
**BR:** 30-28 yn gyffredinol gyda Celf neu bwnc perthnasol, ar Lefel Uwch, a phortffolio boddhaol.

**Pwyslais marcio:** 100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Celfyddydau Creadigol

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | WW48 | 3 blynedd

Mae ein gradd yn y Celfyddydau Creadigol yn cynnig profiad dysgu unigryw sy'n caniatáu ichi groesi'r ffiniau disgyblaethol traddodiadol a gwneud defnydd helaeth o'ch potensial creadigol. Mae'n eich galluogi i ddilyn llwybr y byddwch chi'n ei arwain, ac a fydd yn cwmpasu'r llinynnau creadigol canlynol: celfyddyd gain, ysgrifennu creadigol, perfformio, senograffi, a ffilm.

Trwy gyfrwng modiwlau craidd ymarfer rhyngddisgyblaethol y cynllun, byddwch yn datblygu portffolio o brosiectau creadigol y byddwch yn eu cyfarwyddo eich hun, ac yn cyflwyno'ch gwaith mewn digwyddiad cyhoeddus blynyddol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth (sydd wedi ennill gwobr gan RIBA) - gan lwyfannu prosiectau ymyrraeth safle-benodol yn y Ganolfan ac o'i hamgylch.

Mae elfen alwedigaethol gadarn i'r radd yn y Celfyddydau Creadigol, sy'n cynnig y cyfle i ddysgu mewn ffordd ymarferol ac i ymgysylltu'n uniongyrchol â chymuned greadigol Aberystwyth. Yn ogystal â dysgu gan artistiaid, awduron, gweinyddwyr y celfyddydau a pherfformwyr proffesiynol, byddwch yn cael eich dysgu gan dair adran (yr Ysgol Gelf, yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol a'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu), a phob un ohonynt yn cynnig ystod eang o fodiwlau creadigol dewisol.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr y Celfyddydau Creadigol yn Aberystwyth:

- ystod o fodiwlau ysgogol sy'n heriol yn greadigol ac sy'n drawsddisgyblaethol
- y cyfle i ymwneud â'n hymchwilwyr a'n hymarferwyr sy'n dod o bob rhan o'r disgyblaethau creadigol
- cyfleusterau ardderchog Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sy'n nodedig yn rhyngwladol.

**Cyflogadwyedd**
Mae agwedd ryngddisgyblaethol ein gradd yn y Celfyddydau Creadigol yn hyrwyddo datrys problemau, yn datblygu sgiliau rhyngbersonol ac yn gwella eich gallu i ymateb i farchnad swyddi sy'n newid, ac i lwyddo ynddi. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys y gallu i wneud gwaith ymchwil a dehongli gwybodaeth, cyfleu syniadau, datblygu'r gallu i feddwl yn feirniadol ac yn rhyngddisgyblaethol, gweithio'n annibynnol neu'n rhan o dîm creadigol, a chadw ffocws, gan anelu at nod penodol. Mae ein myfyrwyr yn sefydlu eu hunain fel artistiaid, curadwyr, addysgwyr a gweinyddwyr y celfyddydau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Interdisciplinary Practice 1
- Interdisciplinary Practice 2.

**Yr ail flwyddyn:**
- Interdisciplinary Practice 3
- Interdisciplinary Practice 4.

**Y flwyddyn olaf:**
- Interdisciplinary Practice 5
- Interdisciplinary Practice 6.

Ym mhob blwyddyn, byddwch yn dewis modiwlau a gynigir gan yr Ysgol Gelf, yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, a'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Mae'r opsiynau'n cynnwys:

- Contemporary Writing
- Drawing: Extended Practice
- Exploring the School of Art Collections
- Introduction to Poetry
- Making Short Films 1
- Painting: Extended Practice
- Photography Begins
- Representing the Body
- Scenography Site Project
- Studio Theatre Project
- Studying Media
- Theatre in Context 1
- Writing Continuing TV Drama.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.





# Ffotograffiaeth

## BA (Anrh) | 3 blynedd

### Ar gael fel Gradd Gyfun yn unig

Mae ein cynllun gradd gyfun yn annog ymwneud â ffotograffiaeth mewn modd ymarferol, beirniadol, damcaniaethol a hanesyddol. Byddwch yn ymchwilio i'r ffotograff fel cyfrwng rhagosodedig, fel dogfen, fel celfyddyd gain, fel cludwr syniadau, ac fel offeryn grym a gwrthsafiad. Y tu hwnt i gofnodi'r hyn sydd o flaen y lens, byddwch yn archwilio iaith ffotograffiaeth - boed y pwyslais yn un masnachol, golygyddol neu o safbwynt oriel.

Yn ogystal â chynnig sylfaen gadarn mewn technegau hanfodol, mae ein cynllun yn hyrwyddo ailystyried sgiliau traddodiadol yr ystafell dywyll yng nghyd-destun arferion cyfoes, cysyniadol. Byddwch yn arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau sy'n seiliedig ar lens, prosesau analog-digidol hanesyddol a hybrid, ffoto-collage ac ysgythru ffotograffau.

Trwy astudio ffotograffau gwreiddiol yng nghasgliad ein hamgueddfa, bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i adnabod ystod eang o ddeunyddiau, technegau a ffyrdd o ymwneud â ffotograffiaeth, yn ogystal â sut i osod eu harfer eu hunain o fewn cyd-destunau cyfoes a hanesyddol.

Byddwch yn elwa o:

- y gallu i ddechrau ar y cynllun gradd yn syth o'r ysgol neu o gwrs sylfaen celf
- y gallu i astudio ffotograffiaeth heb orfod dangos gallu ym maes darlunio a pheintio (fel gyda llwybr Ffotograffiaeth gradd BA Celfyddyd Gain)
- mynediad at archifau ffoto-hanesyddol rhagorol amgueddfa ein Hysgol, yn ogystal â Llyfrgell Genedlaethol Cymru gerllaw
- y gallu i astudio dau bwnc, gan ehangu eich gwybodaeth a'ch agwedd, magu set o sgiliau rhyngddisgyblaethol a gwella eich cyflogadwyedd.

**Cyflogadwyedd**
Ar ôl cwblhau'r radd hon, bydd gennych alluoedd yn barod ar gyfer y byd go iawn a fydd yn eich galluogi i ddilyn gyrfa fel ffotograffydd, curadur neu addysgwr. Mae ein graddedigion yn ffotograffwyr proffesiynol, yn addysgwyr prifysgol, yn athrawon ysgol uwchradd, yn rheolwyr orielau celf ac yn curadu arddangosfeydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Photographic Practice I: Presence/Place
- Photographic Practice II: Identity/Face
- Photography Begins.

**Yr ail flwyddyn:**
- Photographic Practice III: Out of the Dark
- Photographic Practice IV: Documents and Narratives
- Documentary Photography.

**Y flwyddyn olaf:**
- Photographic Practice V: Self-directed Practices
- Exhibition: Graduation Show.

Ym mhob blwyddyn, byddwch hefyd yn astudio modiwlau yn eich pwnc arall.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96 a phortffolio boddhaol
**BR:** 30-26 a phortffolio boddhaol.

**Pwyslais marcio:** 100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Hanes Celf

0% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | V350 | 3 blynedd

Yn fyfyriwr Hanes Celf, byddwch yn archwilio cynnyrch diwylliannau, yn olrhain eu gwreiddiau, yn mapio eu datblygiad ac yn trafod eu harwyddocâd. At y diben hwn, mae ein gradd BA Hanes Celf yn hyrwyddo'r gallu i feddwl yn feirniadol ac yn dysgu sgiliau hanfodol ym maes ymchwil ac ysgrifennu. Byddwch yn ennill gwybodaeth werthfawr, ond yn fwy na hynny yn gallu cymhwyso'r wybodaeth honno.

Mae ein cynllun Hanes Celf yn eich cyflwyno i hanfodion ymchwil, dadansoddi ac ymresymu. Mae'n rhoi cyfleoedd prin ichi wneud gwaith ymchwil gwreiddiol gan ddefnyddio casgliadau helaeth ein hamgueddfa o gelfyddyd gain ac addurnol.

Yn ogystal ag adolygu celfyddyd Orllewinol o gyfnod y Dadeni hyd heddiw, mae'r cynllun gradd yn cynnig ystod o fodiwlau dewisol megis Art in Wales, Rethinking Impressionism a Curating an Exhibition. Cewch gyfle i ymchwilio a chynnal arddangosfa ar gyfer ein horielau cyhoeddus, ac i gael profiad ymarferol o arferion creadigol yn rhan o'r modiwl Methods and Materials for Art Historians.

Ni yw'r unig sefydliad yng Nghymru sy'n cynnig graddau israddedig mewn Hanes Celf.

Byddwch yn elwa o:

- waith datblygu sgiliau a hyfforddiant ymchwil wedi'i deilwra i gyd-fynd â'ch diddordebau personol chi
- hyfforddiant sydd â'i sail yn hanfodion ymchwil, dadansoddi ac ymresymu
- modiwlau galwedigaethol ac astudio celf yn guradurol
- mynediad i gasgliadau ein hamgueddfa o gelfyddyd gain ac addurnol - casgliadau sydd ag enw da yn rhyngwladol.

**Cyflogadwyedd**
Mewn byd fel hwn lle mae delweddau'n chwarae rhan mor bwysig, mae'r gallu i ddeall iaith y diwylliant gweledol yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae sawl modd o ddefnyddio astudiaethau hanes celf yn ymarferol. Mae'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer gyrfaoedd ym maes addysg, cyhoeddi a hysbysebu, yn ogystal ag ym maes curadu, cadwraeth a gweinyddu'r celfyddydau. Ymhlith cyflogwyr ein cyn-fyfyrwyr mae Cyngor y Celfyddydau, Academi Frenhinol y Celfyddydau, Tate, Amgueddfa'r Victoria and Albert ac Ymddiriedolaeth y Casgliadau Brenhinol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Pleasure, Power, and Profit: Art in the Long Eighteenth Century
- Looking into Landscape: Reading, Researching, Responding
- Art in Europe 2: Revolutions and Modernities 1814-1900
- Representing the Body.

**Yr ail flwyddyn:**

- Methods and Materials for Art Historians
- Modernisms: Art in the Early Twentieth Century
- Dissertation Preparation and Professional Practice for Students of Art History
- Postmodernism and Contemporary Art.

**Y flwyddyn olaf:**

- Methods and Materials for Art Historians
- Dissertation.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| **Celfyddyd Gain** | Astudiaethau Ffilm a Theledu | WW16 | |
| | Hanes Celf | WV13 | W1V3 |
| | Llenyddiaeth Saesneg | WQ13 | |
| | Ysgrifennu Creadigol | WW18 | |
| **Ffotograffiaeth** | Astudiaethau Ffilm a Theledu | WW66 | |
| | Hanes Celf | WV63 | |
| | Ysgrifennu Creadigol | WW68 | |



# Cyfrifeg a Chyllid



Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Cyfrifeg a Chyllid

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Cyfrifeg a Chyllid | t.57 |
| Cyllid Busnes | t.58 |
| Graddau Cyfun | t.59 |




## Yn y 5 uchaf yn y DU

am Brofiad Myfyrwyr ym mhwnc Cyfrifeg a Chyllid

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)





# Cyfrifeg a Chyllid

24 ar gael drwy'r Gymraeg

### BSc (Anrh) | N400 | 3 blynedd

Bydd y radd BSc mewn Cyllid a Chyfrifeg yn eich paratoi ar gyfer gyrfa broffesiynol ym maes gwasanaethau cyfrifeg neu gyllid, drwy ganolbwyntio yn bennaf ar gyfrifeg ariannol, rheoli cyfrifeg a chyllid, gyda chyfraith busnes, moeseg busnes a threthiant wedi'u plethu drwy'r rhaglen gyfan.

Mae ein staff dysgu yn cynnwys ymchwilwyr ac ymarferwyr yn y diwydiant, a fydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth eang o'r cyd-destun gweithredol ac effaith mesur a datgelu gwybodaeth ariannol ar lif arian, polisïau mewnol a systemau ariannol. Bydd hyn yn eich galluogi i fagu dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio data ariannol er mwyn dylanwadu ar reolwyr, buddsoddwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau; a sut y gall y modd y caiff gwybodaeth ariannol ei chyflwyno effeithio ar hyd bywyd (a phroffidioldeb/cynaliadwyedd) cwmnïau neu sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd sy'n cael ei hachredu gan brif gyrff cyfrifeg y byd
- cael eich addysgu a'ch mentora gan ddarlithwyr sy'n gyfrifwyr cymwysedig ac yn ymarferwyr, ac sydd â llawer o brofiad yn y diwydiant yn ogystal â phrofiad academaidd
- cael eich cyflwyno i faterion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r amgylchedd busnes
- gweithio gyda Refinitiv Workspace sy'n rhoi cyfle i fanteisio ar ddata ariannol a dangosyddion economaidd cwmnïau, yn ogystal â newyddion a dadansoddi, i roi ichi brofiad dysgu mwy cyfoethog a rhyngweithiol
- cael eich eithrio o arholiadau proffesiynol prif gyrff arholi cyfrifeg y DU.

**Cyflogadwyedd**

Mae cwmnïau cyfrifeg, banciau buddsoddi a sefydliadau ariannol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa i gyd-fynd â phob diddordeb, gan gynnwys gwaith archwilio a sicrwydd traddodiadol, ymgynghori ym maes rheoli, cyllid corfforaethol, ymgynghori TG, cynllunio treth a methdalu. Rydym wedi ffurfio cysylltiadau â'r prif gyflogwyr Cyfrifeg a Chyllid. Yn ogystal â gosod ein myfyrwyr mewn cwmnïau cyfrifeg traddodiadol gan gynnwys Deloitte, PwC, E&Y, a KPMG, mae ein graddedigion mwyaf diweddar wedi dod o hyd i gyflogaeth gyda sefydliadau adnabyddus eraill fel y BBC, Barclays, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Lidl, i enwi rhai.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Accounting and Finance for Specialists
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**

- Intermediate Financial Accounting
- Intermediate Management Accounting
- Corporate Governance, Risk and Ethics
- Corporate Finance and Financial Markets
- Business Law for Managers
- Taxation.

**Y flwyddyn olaf:**

- Advanced Financial Accounting
- Advanced Management Accounting
- Investments and Financial Instruments
- Accounting and Finance: Analysis and Application
- Theory and Practice of Auditing.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
30-40% gwaith cwrs, 70-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**N40F** Blwyddyn sylfaen integredig.
**N40T** Cynllun atodol.

# Cyllid Busnes

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | N310 | 3 blynedd

Mae'r byd busnes yn heriol ac yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar gyllid. Mae'n fyd amrywiol lle mae gwahanol ffactorau'n dylanwadu ar berfformiad a rhagolygon busnes. Yn Aberystwyth, nod ein rhaglen yw rhoi ichi fframwaith cydlynol i ymdrin â materion megis strategaethau ariannol, y modd y gweinyddir gwasanaethau ariannol a rheoleiddio arian a chyllid.

Dysgir elfennau cyllid y rhaglen er mwyn eich ysbrydoli a'ch dysgu am gymwysiadau damcaniaethol ac ymarferol sylfaenol cyfrifeg er mwyn i sefydliadau allu gwneud penderfyniadau ariannol ar sail gwybodaeth.

Byddwch hefyd yn archwilio'r meysydd canlynol ar y cwrs hwn: cyllid rheoli, trethi, hanfodion buddsoddi, rheoli portffolios a chyllid byd-eang.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich eithrio o arholiadau cyrff cyfrifeg proffesiynol y DU
- gwella'ch cyfleoedd gyrfaol trwy bartneriaethau â busnes, diwydiant a masnach
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes pwnc
- gweithio gyda Refinitiv Workspace sy'n rhoi cyfle i fanteisio ar ddata ariannol a dangosyddion economaidd cwmnïau, yn ogystal â newyddion a dadansoddi, i roi ichi brofiad dysgu mwy cyfoethog a rhyngweithiol
- clywed amrywiol safbwyntiau gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- y cyfle i ymuno â'n Cymdeithas Fuddsoddi er mwyn cymryd rhan mewn ymryson rhwng prifysgolion Cymru ac Iwerddon - cystadleuaeth y mae tîm Aberystwyth wedi ei hennill yn y blynyddoedd diweddar.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyfleoedd gwaith i raddedigion â gradd mewn Cyllid Busnes yn cynnwys gweithio mewn meysydd fel adwerthu a bancio buddsoddi, ymgynghori ym maes rheoli a chynllunio treth. Mae nifer sylweddol o'n graddedigion yn mynd ymlaen i ymuno â chynlluniau hyfforddi cyllid i raddedigion ac yn dod o hyd i waith gyda chwmnïau a sefydliadau cyllid yn y DU ac yn rhyngwladol heb drafferth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Accounting and Finance for Specialists
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Economic Theory and Policy
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**

- Microeconomics Theory and Policy
- Macroeconomics Theory and Policy
- Intermediate Financial Accounting
- Corporate Governance, Risk and Ethics
- Corporate Finance and Financial Markets.

**Y flwyddyn olaf:**

- Investments and Financial Instruments
- Trade and International Monetary Systems
- Financial Technology and Business Success
- Growth, Development and Sustainability.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
30-40% gwaith cwrs, 70-60% arholiadau.

**Ar gael hefyd:**
**N31F** Blwyddyn sylfaen integredig.




# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Cyfrifeg a Chyllid | Busnes a Rheolaeth | N4N1 |
| | Cyfrifiadureg | NG34 |
| | Economeg | N4L1 |
| | Mathemateg | GN94 |
| | Sbaeneg | NR44 |
| | Y Gyfraith | MN14 |



# Cyfrifiadureg

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Cyfrifiadureg

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Cyfrifiadureg | t.62 |
| Cyfrifiadureg a Deallusrwydd Artiffisial | t.64 |
| Datblygu i'r We | t.65 |
| Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg | t.66 |
| Graffeg, Gweld a Gemau Cyfrifiadurol | t.67 |
| Gwyddor Data | t.68 |
| Gwyddor y Gofod a Roboteg | t.112 |
| Peirianneg Meddalwedd | t.69 |
| Roboteg a Pheirianneg Systemau Mewnosodedig | t.70 |
| Technoleg Gwybodaeth Busnes | t.72 |
| Graddau Cyfun | t.73 |


**Yn y 10 uchaf yn y DU**

am Fodlonrwydd â'r Dysgu a Boddhad Cyffredinol ym mhwnc Cyfrifiadureg

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)



# Cyfrifiadureg

44% ar gael drwy'r **Gymraeg**

BCS Accredited Degree

## BSc (Anrh) | G400 | 3 blynedd

Mae ein cynllun gradd Cyfrifiadureg yn cwmpasu ystod eang o bynciau, gan gynnwys rhaglennu, dylunio meddalwedd, a pheirianneg systemau meddalwedd mawr. Mae hyn yn golygu mai dyma radd fwyaf hyblyg yr adran - un sy'n darparu modiwlau craidd sy'n allweddol ar gyfer gyrfa ym maes Cyfrifiadureg.

Byddwch yn ennill sgiliau arbenigol y mae cyflogwyr y diwydiant yn chwilio amdanynt, megis peirianneg meddalwedd, graffeg a delweddu, deallusrwydd artiffisial, roboteg, telemateg, cyfrifiadura symudol a datblygu i'r we. Mae ein blwyddyn mewn diwydiant (dewisol) yn ffordd allweddol o ennill profiad ymarferol o'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn ystod dwy flynedd gyntaf y cwrs mewn lleoliad gweithle.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd a achredir gan BCS - y sefydliad siartredig ar gyfer TG
- defnyddio labordai sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac ynddynt ystod lawn o adnoddau cyfrifiadureg gan gynnwys Windows, Linux a MacOS
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sydd â chysylltiadau agos â diwydiant peirianneg meddalwedd
- cyfle i ddefnyddio offer ymchwil, gan gynnwys robotiaid symudol, robotiaid hwylio a breichiau llawdrin ('manipulator') a systemau olrhain symud a gweld.

**Cyflogadwyedd**
Mae galw mawr am ein graddedigion a'n myfyrwyr blwyddyn mewn gwaith ymhlith cyflogwyr, gan gynnwys y BBC, Google, Amadeus Germany GmbH, CAP Gemini, Ethos Digital Technology, Fidessa, Logica a Renishaw Plc. Ymhlith swyddi ein graddedigion mae: rhaglennydd dadansoddi, datblygwr meddalwedd, swyddog TG, rhaglennydd, cynorthwyydd ymchwil, peiriannydd meddalwedd, datblygwr systemau a dylunydd gwefannau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Raglennu
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Information Security
- Fundamentals of Web Development
- Introduction to Computer Infrastructure
- Problems and Solutions
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol.

**Yr ail flwyddyn:**
- Dylunio Algorithmau a Strwythurau Data
- Modelu Data Parhaus
- Peirianneg Meddalwedd.

**Y flwyddyn olaf:**
- Agile Development and Testing
- Prosiect Hir
- Professional Issues in the Computing Industry.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 57% gwaith cwrs, 43% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **G401** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **G406** | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| **G409** | Meistr Integredig. |
| **G419** | Meistr Integredig gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **G40F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |





# Cyfrifiadureg a Deallusrwydd Artiffisial

39 ar gael drwy'r Gymraeg

bcs Accredited Degree

## BSc (Anrh) | GG4R | 3 blynedd

Dros y blynyddoedd diwethaf daeth technegau Deallusrwydd Artiffisial yn gyffredin mewn diwydiant, ac o ganlyniad mae galw mawr am raddedigion cyfrifiadureg sydd â hyfforddiant penodol mewn Deallusrwydd Artiffisial.

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau arbenigol ym maes deallusrwydd artiffisial, a chysylltiadau â meysydd astudio eraill, megis cyfryngau deallus ar gyfer rhaglennu gemau a chyfrifiadura symudol i ddatrys problemau cymhleth gan gynnwys dadansoddi, dylunio, dewis datrysiadau a gweithredu. Mae galw mawr am y sgiliau hyn gan gyflogwyr, ac felly maent yn eich paratoi i lwyddo yn y dyfodol. Mae ein blwyddyn mewn diwydiant (dewisol) yn ffordd allweddol o ennill profiad ymarferol o'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn ystod dwy flynedd gyntaf y cwrs mewn lleoliad gweithle.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd a achredir gan BCS - y sefydliad siartredig ar gyfer TG
- labordy cartref clyfar
- cyfle i ddefnyddio pob math o offer ymchwil, gan gynnwys robotiaid symudol, robotiaid hwylio a breichiau llawdrin ('manipulator'), a cherbydau awyr di-griw.

**Cyflogadwyedd**

Mae'r radd hon yn darparu sgiliau priodol ar gyfer unrhyw swydd yn y diwydiant meddalwedd. Mae pwyslais penodol y cwrs hefyd yn rhoi mantais i chi wrth ymgeisio am swyddi mewn meysydd lle mae angen cymhwyso awtonomiaeth neu ddeallusrwydd artiffisial; tasgau meddygol a/neu fiowybodeg lle mae angen cefndir da mewn deallusrwydd cyfrifiadurol; a dylunio a gweithredu rheolyddion deallus, fel y rhai sydd eu hangen mewn roboteg.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Raglennu
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Information Security
- Fundamentals of Web Development
- Introduction to Computer Infrastructure
- Problems and Solutions
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Artificial Intelligence
- Dylunio Algorithmau a Strwythurau Data
- Modelu Data Parhaus
- Peirianneg Meddalwedd.

**Y flwyddyn olaf:**

- Agile Development and Testing
- Machine Learning
- Prosiect Hir
- Professional Issues in the Computing Industry.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
55% gwaith cwrs, 45% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:**
Oes.

**Ar gael hefyd:**
**GG47** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Datblygu i'r We

39 ar gael drwy'r Gymraeg

bcs Accredited Degree

## BSc (Anrh) | H602 | 3 blynedd

Mae galw mawr am weithwyr sydd â'r sgiliau i greu cymwysiadau effeithiol ar y rhyngrwyd er mwyn cwrdd â gofynion busnes modern. Mae'r radd Datblygu i'r We yn cyfuno hyfforddiant ymarferol ar gyfer creu gwefannau proffesiynol ag astudiaeth o gyd-destun masnachol, cyfreithiol a thechnegol y rhyngrwyd.

Byddwch yn cael eich cyflwyno i gysyniadau ac offer sylfaenol Cyfrifiadureg megis rhaglennu, algorithmau, problemau a datrysiadau. Byddwch hefyd yn dysgu am isadeiledd cyfrifiaduron, mathemateg, rhaglennu ar gyfer y we, e-fasnach, gweinyddu systemau, a chronfeydd data. Byddwch yn datblygu eich sgiliau datblygu gwe a pheirianneg meddalwedd eich hun, ac yn eich blwyddyn olaf bydd gofyn ichi ddatblygu darn o feddalwedd mewn maes sydd o ddiddordeb penodol i chi ar gyfer eich prosiect unigol.

Gallwch hefyd astudio'r cwrs hwn gyda blwyddyn mewn diwydiant, ac ar sail hynny bydd llawer o'n graddedigion yn cael cynnig swyddi wedi iddynt raddio.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd a achredir gan BCS - y sefydliad siartredig ar gyfer TG
- defnyddio labordai sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac ynddynt ystod lawn o adnoddau cyfrifiadureg gan gynnwys Windows, Linux a MacOS
- dilyn modiwlau ar weinyddu systemau, adeiladu cymwysiadau'r we ar lefel manyleb ddiwydiannol, ac e-fasnach.

**Cyflogadwyedd**

Bydd ein graddedigion yn gallu mynd ati i adeiladu gwefannau mewn modd proffesiynol a byddant yn deall y broses fusnes sy'n sail i gymwysiadau masnachol y we. Bydd hyn yn rhoi mantais iddynt wrth ymgeisio am swyddi sy'n gofyn am adeiladu gwefannau modern yn seiliedig ar gronfeydd data gan ddefnyddio offer a chydrannau priodol; defnyddio'r we a chronfeydd data i ddarparu atebion rhyngweithiol amser real i ddiwydiant, masnach a'r sector cyhoeddus; datblygu atebion rhwydweithiol i sefydliadau; a chynorthwyo defnyddwyr cyfrifiaduron a rhwydweithiau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Raglennu
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Introduction to Computer Infrastructure
- Information Security
- Fundamentals of Web Development
- Problems and Solutions
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Modelu Data Parhaus
- Programming for the Web
- System and Network Services Administration
- Software Engineering for the Web
- Web Design and the User Experience.

**Y flwyddyn olaf:**

- E-commerce: Implementation, Management and Security
- Web-based Major Project
- Professional Issues in the Computing Industry.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
59% gwaith cwrs, 41% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**H603** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**H60F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg

41% ar gael drwy'r Gymraeg

bcs Accredited Degree

## BSc (Anrh) | GH76 | 3 blynedd

Yn Aberystwyth byddwn yn eich helpu i ddatblygu eich gwybodaeth am y technolegau sylfaenol yn ogystal â'r sgiliau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg.

Bydd y radd hon yn rhoi ichi sylfaen gadarn mewn rhaglennu, dylunio meddalwedd a phensaernïaeth gyfrifiadurol. Byddwch hefyd yn arbenigo ym maes damcaniaeth deallusrwydd artiffisial a roboteg, datblygu cymwysiadau ac offer ymarferol. Mae hyn yn agor llawer o lwybrau ar gyfer ein graddedigion ac yn creu amgylchedd dysgu dynamig. Mae ein blwyddyn mewn diwydiant (dewisol) yn ffordd allweddol o ennill profiad ymarferol o'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn ystod dwy flynedd gyntaf y cwrs mewn lleoliad gweithle.

Byddwch yn elwa o:

- labordy cartref clyfar
- gweithdy roboteg
- pob math o offer ymchwil arbenigol gan gynnwys crwydrwyr robotig, robotiaid hwylio, breichiau robotig, a cherbydau awyr dibeilot.

**Cyflogadwyedd**

Mae'r radd hon yn darparu sgiliau priodol ar gyfer unrhyw swydd arferol yn y diwydiant meddalwedd. Mae pwyslais penodol y cwrs hefyd yn rhoi mantais ichi wrth ymgeisio am swyddi mewn meysydd fel roboteg ddiwydiannol a dylunio a rhaglennu robotig deallus.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Raglennu
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Information Security
- Fundamentals of Web Development
- Introduction to Computer Infrastructure
- Problems and Solutions
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Artificial Intelligence
- C and C++
- Dylunio Algorithmau a Strwythurau Data
- Modelu Data Parhaus
- Peirianneg Meddalwedd
- Robotics and Embedded Systems.

**Y flwyddyn olaf:**

- Machine Learning
- Prosiect Hir
- Professional Issues in the Computing Industry
- Space Robotics
- Robotic Applications.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
52% gwaith cwrs, 48% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:**
Oes.

**Ar gael hefyd:**
**GH7P** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Graffeg, Gweld a Gemau Cyfrifiadurol

41% ar gael drwy'r Gymraeg

bcs Accredited Degree

## BSc (Anrh) | G450 | 3 blynedd

Ar y cwrs hwn byddwch yn archwilio'r agwedd dechnegol ar ddeall sut mae delweddau'n cael eu creu (graffeg cyfrifiaduron) a sut gall peiriannau ddeall a rhyngweithio â delweddau (gweld). Byddwch hefyd yn astudio gemau fideo, algorithmau craidd eu dyluniad, a sut maent yn cael eu gweithredu.

Bydd y cwrs Graffeg, Gweld a Gemau Cyfrifiadurol yn rhoi ichi sylfaen gadarn mewn rhaglennu, dylunio meddalwedd a phensaernïaeth cyfrifiaduron. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau arbenigol ym maes graffeg cyfrifiaduron, gweld peiriannol a gemau fideo a sgiliau ymarferol yn y cyfryngau rhyngweithiol, gan ddysgu sut y mae delweddau'n cael eu creu ar gyfrifiadur, o luniau 3D i'r ddelwedd derfynol ar eich sgrin. Byddwch yn datblygu sgiliau ym maes deallusrwydd artiffisial a'r sgiliau i greu cyfryngau deallus sy'n gallu ymateb i amodau newidiol. Bydd y rhain yn sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn werthfawr ichi ar gyfer y dyfodol.

Ar y cwrs hwn, cewch eich dysgu gan staff sy'n weithgar fel ymchwilwyr yn y meysydd hollbwysig hyn. Fe gewch addysg gadarn yn y technolegau sylfaenol yn ogystal â sgiliau galwedigaethol gan gynnwys rhaglennu, dylunio meddalwedd, graffeg cyfrifiaduron ac injan y gêm fideo fodern.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd a achredir gan BCS - y sefydliad siartredig ar gyfer TG
- defnyddio labordai sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac ynddynt ystod lawn o adnoddau cyfrifiadureg gan gynnwys Windows, Linux a MacOS
- cyfle i ddefnyddio offer ymchwil, gan gynnwys systemau olrhain symud a gweld, a labordy realiti estynedig (XR)
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil ym maes gweld cyfrifiadurol, graffeg cyfrifiaduron ac ymchwilio i ddelweddu.

**Cyflogadwyedd**

Bydd graddedigion y radd hon yn gymwys ar gyfer swyddi ym maes datblygu gemau, dadansoddi data a'i ddosbarthu, delweddu, prosesu delweddau a fideo. Byddwch hefyd yn dysgu'r wybodaeth sydd ei hangen mewn swyddi eraill ym maes dylunio meddalwedd, dadansoddi a datblygu systemau, cyfathrebu a rhwydweithio, datblygu i'r we a gwaith ymgynghori TG.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Raglennu
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Information Security
- Fundamentals of Web Development
- Introduction to Computer Infrastructure
- Problems and Solutions
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Graphics
- Artificial Intelligence
- Dylunio Algorithmau a Strwythurau Data
- Modelu Data Parhaus
- Peirianneg Meddalwedd.

**Y flwyddyn olaf:**

- Computer Graphics and Games
- Computer Vision
- Machine Learning
- Prosiect Hir
- Professional Issues in the Computing Industry.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 28-30.

**Pwyslais marcio:**
55% gwaith cwrs, 45% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:**
Oes.

**Ar gael hefyd:**
**G451** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.

# Gwyddor Data

55% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | 7G73 | 3 blynedd

Mae gwyddor data yn ddisgyblaeth newydd a chyffrous sy'n dod â chyfrifiadureg a mathemateg ynghyd, ac sy'n ymdrin â sut y gallwn wneud synnwyr o'r terabeitiau o wybodaeth y mae ein cyfrifiaduron yn eu casglu bob dydd. Gellir ei defnyddio i ddarogan yr hyn y bydd pobl am ei brynu, neu lle y mae angen rhoi mwy o arian yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'w wneud yn fwy effeithiol, er enghraifft.

Dysgir y cwrs gradd Gwyddor Data ar y cyd rhwng yr Adran Gyfrifiadureg a'r Adran Fathemateg. Fe fydd yn rhoi ichi sylfaen gadarn ym maes damcaniaeth sylfaenol gwyddor data, yn ogystal â'r sgiliau ymarferol ichi allu cymhwyso'r ddamcaniaeth honno wrth ddadansoddi data yn y byd go iawn. Byddwch yn dysgu sut i ddylunio a dadansoddi setiau mawr o ddata a dod i gasgliadau am y canlyniadau gan feithrin y sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y diwydiant.

Byddwch yn elwa o:

- defnyddio labordai sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac ynddynt ystod lawn o adnoddau cyfrifiadureg gan gynnwys Windows, Linux a MacOS
- dilyn modiwlau o'r ddwy adran sy'n canolbwyntio ar ymdrin â phatrymau mewn data
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr ag arbenigedd ymchwil sy'n cynnwys ystadegau, dadansoddi data a modelu mathemategol.

**Cyflogadwyedd**
Mae prinder gwyddonwyr data sydd â'r sgiliau angenrheidiol ac o'r herwydd mae disgwyl y bydd galw mawr am raddedigion yn y maes hwn dros y blynyddoedd nesaf. Bydd gan ein graddedigion brofiad o'r ystadegau a'r gyfrifiadureg sydd eu hangen ar wyddonwyr data. Mae'r opsiwn blwyddyn mewn gwaith yn golygu y gallwch orffen eich gradd wedi cael blwyddyn o brofiad gwaith eisoes ym maes gwyddor data, a bydd hynny'n eich gwneud hyd yn oed yn fwy deniadol i gyflogwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Algebra
- Calcwlws
- Cyflwyniad i Raglennu
- Dadansoddi Mathemategol
- Algebra a Chalcwlws Pellach
- Introduction to Computer Infrastructure
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol
- Tebygoleg
- Ystadegaeth.

**Yr ail flwyddyn:**
- Algebra Llinol
- Applied Statistics
- Cyflwyniad i Ddadansoddiad Rhifiadol a'i Gymwysiadau
- Distributions and Estimation
- Dylunio Algorithmau a Strwythurau Data
- Modelu Data Parhaus
- Peirianneg Meddalwedd.

**Y flwyddyn olaf:**
- Agile Development and Testing
- Linear Statistical Models
- Prosiect Hir.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Mathemateg.

**Pwyslais marcio:** 34% gwaith cwrs, 66% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**7G74** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Peirianneg Meddalwedd

44% ar gael drwy'r Gymraeg

bcs Accredited Degree

## BEng (Anrh) | G600 | 4 blynedd

Mae peirianneg meddalwedd yn ymwneud â chynhyrchu systemau meddalwedd mawr o safon uchel sy'n aml yn hirhoedlog. Er mwyn gweithio yn y maes hwn mae'n rhaid datblygu dealltwriaeth drylwyr o feddalwedd a'r technolegau cysylltiedig, ynghyd â dealltwriaeth o'r materion rheoli a phroffesiynol sy'n gysylltiedig â datblygu systemau mawr.

Mae'r radd Peirianneg Meddalwedd yn gosod pwyslais ar beirianneg broffesiynol yn ogystal â sgiliau cyfrifiadura. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o feddalwedd a thechnolegau cysylltiedig, a hefyd yn magu gwerthfawrogiad o'r materion rheoli a phroffesiynol sy'n gysylltiedig â datblygu systemau mawr. Byddwch yn datblygu sgiliau arbenigol mewn graffeg a delweddu, deallusrwydd artiffisial, roboteg a chyfrifiadura symudol.

Mae'r radd hon yn cynnwys blwyddyn integredig mewn diwydiant, pan gewch gyfle i roi eich sgiliau ar waith yn y byd go iawn, i herio eich hun ac i greu cysylltiadau amhrisiadwy o ran rhwydweithio.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd a achredir gan BCS - y sefydliad siartredig ar gyfer TG
- defnyddio labordai sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac ynddynt ystod lawn o adnoddau cyfrifiadureg gan gynnwys Windows, Linux a MacOS
- dilyn modiwlau craidd sy'n canolbwyntio ar sefyllfaoedd peirianneg meddalwedd
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr â chysylltiadau agos â'r diwydiant meddalwedd.

**Cyflogadwyedd**
Mae'r radd hon yn darparu sgiliau priodol ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi technegol yn y diwydiant meddalwedd. Mae ein graddedigion wedi cael swyddi mewn cwmnïau bach a mawr a hefyd mewn cyrff llywodraethol. Mae ein graddedigion yn aml yn derbyn canmoliaeth am eu hymagwedd broffesiynol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Introduction to Computer Infrastructure
- Cyflwyniad i Raglennu
- Problems and Solutions
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol
- Information Security
- Fundamentals of Web Development.

**Yr ail flwyddyn:**
- Dylunio Algorithmau a Strwythurau Data
- C and C++
- Modelu Data Parhaus
- Peirianneg Meddalwedd.

Byddwch yn treulio blwyddyn mewn diwydiant yn eich trydedd flwyddyn.

**Y flwyddyn olaf:**
- Agile Development and Testing
- Prosiect Hir
- Mobile Development with Android
- Professional Issues in the Computing Industry.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
57% gwaith cwrs, 43% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:**
Oes.

**Ar gael hefyd:**
**G601** Meistr Integredig.

# Roboteg a Pheirianneg Systemau Mewnosodedig

43% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BEng (Anrh) | 132A | 3 blynedd

Bydd ein staff sy'n weithgar ym maes ymchwil yn darparu cymorth ymarferol i'ch helpu i adeiladu a chynnal systemau deallus a sicrhau dibynadwyedd mewn sefyllfaoedd anodd eu darogan yn y byd go iawn. Er mwyn gweithio yn y maes hwn mae'n rhaid cael dealltwriaeth ddofn o feddalwedd, a dealltwriaeth o sut i weithredu hynny yn y byd ffisegol a'r fathemateg sylfaenol sy'n disgrifio hynny.

Yn ogystal â meithrin sylfaen gadarn o ran sgiliau cyfrifiadureg, yn y radd hon byddwch hefyd yn datblygu sgiliau arbenigol ym maes deallusrwydd artiffisial, roboteg a pheirianneg systemau. Mae ein blwyddyn mewn diwydiant (dewisol) yn ffordd allweddol o ennill profiad ymarferol o'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn ystod dwy flynedd gyntaf y cwrs, a bydd hyn yn eich helpu chi i ddisgleirio ymhlith ymgeiswyr eraill wrth wneud cais am swyddi.

Byddwch yn elwa o:

- labordy cartref clyfar
- gweithdy roboteg
- ystod o offer ymchwil arbenigol gan gynnwys crwydrwyr robotig, robotiaid hwylio, breichiau robotig a cherbydau awyr di-griw.

**Cyflogadwyedd**
Bydd gan ein graddedigion gefndir cryf mewn cyfrifiadureg a ddylai eu paratoi ar gyfer llawer o swyddi yn y diwydiant cyfrifiadurol. Ar ben hynny, mae'r sgiliau penodol a ddysgir ar y cwrs gradd hwn yn rhoi sylfaen ddelfrydol ar gyfer gweithio yn y diwydiannau awyrofod a modurol ac ym maes newydd Rhyngrwyd y Pethau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra a Hafaliadau Differol
- Calcwlws
- Cyflwyniad i Raglennu
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Grymoedd ac Egni
- Problems and Solutions
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Artificial Intelligence
- Dylunio Algorithmau a Strwythurau Data
- Ffiseg Mathemategol
- Peirianneg Meddalwedd
- Robotics and Embedded Systems
- Sensors, Electronics and Instrumentation.

**Y flwyddyn olaf:**

- Engineering Control Theory
- Professional Issues in the Computing Industry
- Prosiect Hir
- Robotic Applications
- Space Robotics
- Systems Engineering.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B mewn Mathemateg Safon Uwch
**BR:** 30-28.


**Pwyslais marcio:**
48% gwaith cwrs, 52% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:**
Oes.

**Ar gael hefyd:**
**132B** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**132C** Meistr Integredig.
**132D** Meistr Integredig gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant.







# Technoleg Gwybodaeth Busnes

31% ar gael drwy'r Gymraeg

BCS Accredited Degree

## BSc (Anrh) | G500 | 3 blynedd

Trwy ddewis astudio'r radd Technoleg Gwybodaeth Busnes byddwch yn trwytho eich hun yn y dulliau technoleg a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol i ddatrys problemau busnes.

Trwy gael profiad o'r elfennau allweddol ar gyfer effeithlonrwydd ym maes busnes, gan gynnwys dadansoddi systemau, cymwysiadau cronfeydd data, amgylchedd busnes, systemau e-fasnach ac e-fusnes, rhaglennu a chyfarpar y we, byddwch yn dysgu'n gyflym sut i ddadansoddi anghenion busnesau a'u trosi'n systemau busnes effeithiol. Mae ein blwyddyn mewn diwydiant (dewisol) yn ffordd allweddol o ennill profiad ymarferol o'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn ystod dwy flynedd gyntaf y cwrs mewn lleoliad gweithle.

Ar ôl cwblhau'r radd Technoleg Gwybodaeth Busnes yn llwyddiannus byddwch wedi meithrin y sgiliau a'r galluoedd craidd hanfodol y mae galw mawr amdanynt ymhlith cyflogwyr yn y maes hwn.

Byddwch yn elwa o:

- dilyn gradd a achredir gan BCS - y sefydliad siartredig ar gyfer TG
- defnyddio labordai sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd sy'n cynnwys pob math o adnoddau cyfrifiadura gan gynnwys Windows, Linux, a MacOS
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sydd â chysylltiadau agos â'r diwydiant peirianneg meddalwedd
- modiwlau ar brosesau busnes, llunio gwefannau, HCI, ac e-fasnach.

**Cyflogadwyedd**

Mae gan ein graddedigion ddealltwriaeth dda o ofynion y byd masnachol o ran systemau cyfrifiadurol a ffordd broffesiynol o adeiladu'r systemau hynny o gydrannau safonol cronfeydd data, y we a meddalwedd swyddfa. Bydd y cynllun gradd hwn yn rhoi mantais i raddedigion sy'n ymgeisio am swyddi sy'n gofyn am adeiladu systemau masnachol gan ddefnyddio gwahanol offer a blociau adeiladu, defnyddio dulliau dadansoddol i gyflwyno TG er mwyn datrys problemau busnes, darparu atebion masnachol sy'n defnyddio cronfeydd data a'r we, a darparu cymorth i ddefnyddwyr TG.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Introduction to Computer Infrastructure
- Cyflwyniad i Raglennu
- Sgiliau Astudio ar gyfer Cyfrifiadureg
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol
- Information Security
- Fundamentals of Web Development.

**Yr ail flwyddyn:**

- Business Systems Analysis
- Management Information Systems
- Modelu Data Parhaus
- Programming for the Web
- Applied Graphics
- Software Engineering for the Web
- Web Design and the User Experience.

**Y flwyddyn olaf:**

- Management of Organisations
- Web-based Major Project
- Applied Web Development
- E-Commerce: Implementation, Management and Security
- Professional Issues in the Computing Industry.

I weld pa fodiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
63% gwaith cwrs, 37% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:**
Oes.

**Ar gael hefyd:**
**G501** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Cyfrifiadureg | Cyfrifeg a Chyllid | NG34 |
| | Busnes a Rheolaeth | NG14 |
| | Daearyddiaeth Ffisegol | FG84 |
| | Mathemateg | GG14 |



Mae Idris yn gerbyd trydan â gyriant llywio pedair olwyn. Prif ddefnydd Idris yw ar gyfer ymchwil yr Adran Cyfrifiadureg mewn roboteg maes ac yn benodol llywio gweledol.

# Cymdeithaseg



## Ein cyrsiau…


| | |
|---|---|
| Cymdeithaseg | t.75 |
| Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth | t.76 |
| Seicoleg a Chymdeithaseg | t.77 |
| Troseddeg a Chymdeithaseg | t.190 |


Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Cymdeithaseg

**Yn y 10 uchaf yn y DU**

am Foddhad Cyffredinol myfyrwyr ym mhwnc Cymdeithaseg

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022)



# Cymdeithaseg

36 ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | L300 | 3 blynedd

Bydd y radd BA mewn Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn eich hyfforddi i ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r byd cymdeithasol, a byddwch hefyd yn dysgu sut i ymwneud â'r byd hwnnw.

Trwy astudio'r cwrs hwn, byddwch yn datblygu sylfaen drylwyr yn y prif safbwyntiau cymdeithasegol, yn rhai hanesyddol a chyfoes fel ei gilydd, y mae cymdeithasegwyr wedi'u defnyddio i ddeall cymdeithas. Byddwch hefyd yn datblygu eich gallu i ddadansoddi ffenomenau cymdeithasol trwy gyfrwng hyfforddiant mewn casglu, dadansoddi a chyflwyno data cymdeithasegol.

Byddwch yn elwa o:

- brofi gwerth ac arwyddocâd hyfforddiant ar ddulliau ymchwil ym maes Cymdeithaseg, gyda goruchwyliaeth o ddulliau ymchwil ymarferol ac wythnos ddwys o gasglu data dan oruchwyliaeth ym mlwyddyn 2
- dysgu sut i ddefnyddio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg mewn sefyllfaoedd go iawn, a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd
- dysgu o'n cryfderau ymchwil i sicrhau eich bod yn elwa o ddirnadaethau damcaniaethol ac empirig arloesol a ddadansoddir o safbwynt cymdeithasegol.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein gradd mewn Cymdeithaseg yn sylfaen dda ar gyfer ystod eang o yrfaoedd gan gynnwys y cyfryngau, gwaith cymdeithasol, datblygu rhyngwladol, cyswllt cymunedol, a'r gwasanaeth sifil ymhlith llawer mwy. Y dyddiau hyn, mae cyflogwyr yn chwilio am raddedigion a chanddynt sgiliau amrywiol, yn cynnwys y gallu i feddwl yn ddadansoddol ac yn ochrol. Bydd y radd hon yn rhoi ichi amrywiaeth o sgiliau hyblyg, a dyna pam mae graddedigion Cymdeithaseg yn apelio at gyflogwyr yn genedlaethol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Thinking Sociologically
- Key Concepts in Sociology
- Introducing Sociological Research
- Place and Identity.

**Yr ail flwyddyn:**

- Genders and Sexualities
- Sociological Theory
- Placing Culture
- Sociological Research in the 'Field'.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Estynedig Cymdeithaseg
- Everyday Social Worlds.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Global Migration
- Gender and the Media
- Lleoli Gwleidyddiaeth.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 80% gwaith cwrs, 20% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **L302** | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| **L303** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **L30F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |

# Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth

48% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | LL32 | 3 blynedd

Bydd ein gradd Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth yn eich galluogi i ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r byd o'ch cwmpas trwy astudio'r dirwedd gymdeithasol yn ogystal â'r dirwedd wleidyddol. Byddwch yn dysgu am y dulliau cysyniadol a damcaniaethol a ddefnyddir gan gymdeithasegwyr i astudio'r byd. Ar yr un pryd, bydd eich archwiliad o'r byd gwleidyddol yn rhoi gwybodaeth ichi am ddylanwadau gwleidyddol ar normau a phrosesau cymdeithasol.

Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu sut i edrych yn feirniadol ar y byd, trwy ddadansoddi ffenomenau cymdeithasol a thrwy ddysgu sut i gasglu, dehongli a chyflwyno data cymdeithasegol. Byddwch hefyd yn darganfod sut mae gan wleidyddiaeth y gallu i newid bywydau, yn dysgu am y syniadau mawr sy'n llywio ein bydoedd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol, a sut mae'r syniadau hyn yn dod yn bolisïau.

Byddwch yn elwa o:

- profi gwerth ac arwyddocâd hyfforddiant dulliau ymchwil mewn Cymdeithaseg, gyda goruchwyliaeth ymarferol ar ddulliau ymchwil ac wythnos casglu data dwys dan oruchwyliaeth ym mlwyddyn 2
- dysgu sut i ddefnyddio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg mewn sefyllfaoedd go iawn, a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd
- ymwneud yn feirniadol â dadleuon am faterion allweddol mewn gwleidyddiaeth, fel llywodraeth dda, natur y wladwriaeth, cyfiawnder a hawliau, a threfn y gyfraith
- myfyrio ar sut mae gwladwriaethau a chymdeithasau yn mynd i'r afael â phroblemau gwleidyddol megis dosbarthu adnoddau cyfyngedig, y cydbwysedd rhwng trefn a chyfiawnder, rhyddid a diogelwch, hawliau a chyfleoedd, a rhwng pwerau ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Cyflogadwyedd**

Mae graddedigion y radd Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth mewn sefyllfa dda i ymgymryd â rolau mewn amrywiol feysydd, megis y sector datblygu, gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol, y gwasanaeth sifil, ymchwil gymdeithasol y Llywodraeth, gwaith cymdeithasol a pholisi cymdeithasol (gan gynnwys tai cyhoeddus, gweinyddiaeth llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol), rolau yn y trydydd sector megis cyrff anllywodraethol ac elusennau, gwaith gyda sefydliadau rhyngwladol, cysylltiadau cyhoeddus a newyddiaduraeth, addysgu a rheoli.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Y Tu Ôl i'r Penawdau
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol 1: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Key Concepts in Sociology
- Place and Identity
- Gwleidyddiaeth yn yr Unfed Ganrif ar Hugain
- Thinking Sociologically.

**Yr ail flwyddyn:**

- Sociological Theory
- Pobl a Grym: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw
- Sociological Research in the 'Field'
- Genders and Sexualities.

**Y flwyddyn olaf:**

- Everyday Social Worlds.
- Traethawd Estynedig Cymdeithaseg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Global Migration
- Gender and the Media.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.





# Seicoleg a Chymdeithaseg

21% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | LC38 | 3 blynedd

Bydd y radd mewn Seicoleg a Chymdeithaseg yn eich galluogi i gysylltu â damcaniaeth ac ymchwil seicolegol ac i archwilio sut y cymhwysir seicoleg i faterion personol a chymdeithasol yn y byd go-iawn. Bydd y cwrs hefyd yn gyfle ichi drafod agweddau personol a chymdeithasol ar brofiad dynol o wahanol safbwyntiau.

Ar y radd hon byddwch yn dysgu sut i bwyso a mesur syniadau, cysyniadau ac ymagweddau yn feirniadol ar draws yr holl bwnc ac o fewn elfennau penodol o Seicoleg a Chymdeithaseg. Bydd y cwrs hefyd yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng ymddygiad pobl a'r systemau cymdeithasol ehangach (yn cynnwys cymunedau, dinasoedd, a chenhedloedd) yr ydym yn byw ynddyn nhw. Byddwch yn dysgu sut i ymgymryd ag ymchwil annibynnol, gan gymhwyso ystod o sgiliau yn ymwneud â chasglu, dadansoddi a chyflwyno data. Byddwch hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg mewn sefyllfaoedd go iawn, a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd.

Byddwch yn elwa o:

- elwa ar amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff sy'n weithredol o ran ymchwil
- defnyddio cyfarpar tracio llygaid, electroenceffalogram (EEG), ac offer mesur ffisiolegol ac ymddygiadol
- amrywiaeth o ddosbarthiadau ymarferol a goruchwyliaeth wrth gasglu data yn y ddwy ddisgyblaeth
- dysgu yn sgil prosiectau ymchwil byw fydd yn eich galluogi i feithrin dealltwriaeth o'r byd cymdeithasol o safbwynt damcaniaethol ac empirig.

**Cyflogadwyedd**

Bydd astudio Seicoleg a Chymdeithaseg yn rhoi ichi sylfaen gadarn i allu ystyried ystod eang o yrfaoedd mewn meysydd yn cynnwys y cyfryngau, gwaith cymdeithasol, datblygu rhyngwladol, ymgysylltu â chymdeithas a'r gwasanaeth sifil, ymhlith eraill.

Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio ym maes yr heddlu, iechyd a gofal cymdeithasol, polisi cymdeithasol (yn cynnwys tai cyhoeddus, gwaith cymdeithasol, gweinyddu llywodraeth leol, a'r sector gwirfoddol), rheolaeth, newyddiaduraeth, cysylltiadau cyhoeddus, dysgu ac ymchwil.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Brain, Behaviour and Cognition
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Key Concepts in Sociology
- Place and Identity
- Thinking Sociologically.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Sociological Theory
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology
- Genders and Sexualities.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology
- Psychology Research Project
- Everyday Social Worlds.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

# Daearyddiaeth, Gwyddorau Daear ac Amgylcheddol

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Daearyddiaeth, Gwyddorau Daear ac Amgylcheddol

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Daearyddiaeth | t.79 |
| Daearyddiaeth Ddynol | t.80 |
| Daearyddiaeth Ffisegol | t.81 |
| Gwyddor Daear Amgylcheddol | t.82 |
| Gwyddor yr Amgylchedd | t.84 |
| Graddau Cyfun | t.85 |




**Yn y 5 uchaf yn y DU**

am Fodlonrwydd Myfyrwyr ym mhwnc Daearyddiaeth

(Complete University Guide 2024)



# Daearyddiaeth

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | F801 | 3 blynedd

Mae ein cynllun gradd BSc Daearyddiaeth yn cynnig y cyfle i astudio dwy ran o dair o'r cwrs gyda'n tîm o ddarlithwyr Cymraeg. Ar y cwrs hwn, cewch astudio amrywiaeth o fodiwlau sy'n cwmpasu'r prosesau dynol a ffisegol sy'n effeithio ar y byd, a'r materion gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n deillio o ganlyniad i'r ffordd y mae pobl yn ymdrin â'r ddaear.

Yn ystod y cwrs, fe gewch y cyfle i astudio themâu rhyngddisgyblaethol megis newid amgylcheddol a daearberyglon, ac mae strwythur y cynllun gradd hyblyg hwn yn golygu y gallwch ddewis arbenigo mewn maes penodol neu gynnal ehangder o ddiddordebau trwy gydol y cwrs, gan ganolbwyntio ar y themâu sy'n apelio ichi fwyaf.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith maes, gan gynnwys taith faes leol yn rhad ac am ddim ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf. Yn yr ail flwyddyn, rydym yn cynnig ystod o deithiau i gyd-fynd ag arbenigeddau a chyllidebau amrywiol. Ar hyn o bryd mae teithiau i Eryri (am ddim), Birmingham a'r ardal (am ddim), Berlin (am gost ychwanegol) a'r Alpau (am gost ychwanegol). Yn ogystal â hyn cynigir teithiau undydd ar rai modiwlau trwy gydol eich gradd.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol yn eu meysydd arbenigol trwy gydol eich cwrs
- defnydd o gyfleusterau eithriadol i wneud gwaith dadansoddi cemegol a ffisegol mewn labordy, ymchwiliadau cymdeithasol a phrosesu data
- elwa ar ddosbarthiadau llai, lle ceir mwy o gyfleoedd i ddefnyddio dulliau addysgu ac asesu arloesol
- cefnogaeth ariannol, ar ffurf Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym. Mae graddedigion y cwrs hwn, er enghraifft, wedi dod o hyd i waith fel ymgynghorwyr amgylcheddol, cynllunwyr, gweithwyr sifil, tirfesurwyr, ac addysgwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Byw mewn Byd Peryglus
- Sut i Greu Planed
- Cefn Gwlad a'r Ddinas: Prosesau o Newid a Gwrthdaro
- Researching the World: Data Collection and Analysis
- Earth Surface Environments.

**Yr ail flwyddyn:**

- Geomorffoleg Afonol
- Concepts for Geographers
- Dylunio Ymchwil a Sgiliau Gwaith Maes
- Physical Analysis of Natural Materials
- Geographical Perspectives on the Sustainable Society
- Astudio Cymru Gyfoes
- Ymchwilio i Bobl a Lle.

**Y flwyddyn olaf:**

- Rheoli'r Amgylchedd Gymreig
- Applied Environmental Management
- Contemporary Global Migration
- Everyday Social Worlds
- Glaciers and Ice Sheets
- Modern British Landscapes
- Cenedlaetholdeb a Chymdeithas
- Sedimentary Environments
- The Psychosocial Century
- Volcanic Activity: Hazards and Environmental Change
- Traethawd Estynedig Daearyddiaeth.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
65% gwaith cwrs, 35% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **F800** | Cwrs cyfrwng Saesneg. |
| **F802** | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| **F803** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **F80F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |

# Daearyddiaeth Ddynol

53% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | L700 | 3 blynedd

Mae Daearyddiaeth Ddynol yn ymdrin â rhai o'r materion pwysicaf sy'n wynebu'r byd heddiw – globaleiddio, datblygu cynaliadwy, anghydraddoldeb a thlodi, daearwleidyddiaeth, cenedlaetholdeb a rhanbartholrwydd, newid gwledig a threfol, a mudo.

Byddwch yn astudio'r prosesau hanesyddol y tu ôl i dueddiadau cyfoes, yn dwyn ynghyd safbwyntiau o wahanol wledydd a diwylliannau, ac yn defnyddio gwahanol ffynonellau, o fapiau ac ystadegau i ffilm, celf a llenyddiaeth.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith maes, gan gynnwys taith faes leol yn rhad ac am ddim ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf. Yn yr ail flwyddyn, rydym yn cynnig ystod o deithiau i gyd-fynd ag arbenigeddau a chyllidebau amrywiol. Ar hyn o bryd mae teithiau i Birmingham a'r ardal (am ddim) a Berlin (am gost ychwanegol). Yn ogystal â hyn cynigir teithiau undydd ar rai modiwlau trwy gydol eich gradd.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddiaeth Frenhinol (gyda Sefydliad Daearyddwyr Prydain)
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn eu meysydd trwy gydol eich cwrs
- sgiliau a hyfforddiant proffesiynol trwy gydol eich cwrs gradd.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym. Mae graddedigion y cwrs hwn, er enghraifft, wedi dod o hyd i waith fel ymgynghorwyr amgylcheddol, cynllunwyr, gweithwyr sifil, tirfesurwyr, ac addysgwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Byw mewn Byd Peryglus
- Newid a Gwrthdaro: Cynhyrchu Gofodau Gwledig a Threfol
- Place and Identity
- Researching the World: Data Collection and Analysis
- Sut i Greu Planed.

**Yr ail flwyddyn:**
- Concepts for Geographers
- Dylunio Ymchwil a Sgiliau Gwaith Maes
- Lleoli Gwleidyddiaeth
- Placing Culture
- Geographical Perspectives on the Sustainable Society
- Astudio Cymru Gyfoes
- Ymchwilio i Bobl a Lle.

**Y flwyddyn olaf:**
- Rheoli'r Amgylchedd Gymreig
- Contemporary Global Migration
- Everyday Social Worlds
- Modern British Landscapes
- The Psychosocial Century
- Cenedlaetholdeb a Chymdeithas
- Traethawd Estynedig Daearyddiaeth.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
75% gwaith cwrs, 25% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **L703** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **L704** | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| **L70F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |



# Daearyddiaeth Ffisegol

42% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | F840 | 3 blynedd

Mae ein gradd Daearyddiaeth Ffisegol yn gyfle i astudio'r prosesau sylfaenol sy'n ffurfio ein byd. Mae'r themâu allweddol yn cynnwys newid amgylcheddol Cwaternaidd, systemau hydrolegol, prosesau rhewlifol, geomorffoleg, gwyddoniaeth systemau pridd, a dynameg ecosystemau.

Yn fyfyriwr Daearyddiaeth Ffisegol, gallwch hefyd ddewis astudio pynciau rhyngddisgyblaethol eu natur, gan gynnwys cynaliadwyedd a pheryglon naturiol. Mae strwythur y radd yn golygu y gallwch naill ai arbenigo mewn maes penodol neu fynd ar drywydd diddordebau mwy eang trwy gydol y cwrs.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith maes, gan gynnwys taith faes leol yn rhad ac am ddim ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf. Yn yr ail flwyddyn, ceir ystod o deithiau i gyd-fynd ag arbenigeddau a chyllidebau amrywiol. Ar hyn o bryd mae teithiau i Eryri (am ddim) a'r Alpau (am gost ychwanegol). Yn ogystal â hyn cynigir teithiau undydd ar rai modiwlau trwy gydol eich gradd.

Byddwch yn elwa o:

- astudio cwrs sydd wedi'i achredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol (ar y cyd â Sefydliad Daearyddwyr Prydain)
- cyfleusterau gwych i wneud gwaith dadansoddi cemegol a ffisegol mewn labordy, a mynediad at y pecynnau diweddaraf ym maes synhwyro o bell a meddalwedd GIS
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn eu meysydd trwy gydol eich cwrs.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym. Mae graddedigion y cwrs hwn, er enghraifft, wedi dod o hyd i waith fel ymgynghorwyr amgylcheddol, cynllunwyr, gweithwyr sifil, tirfesurwyr, ac addysgwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Earth Surface Environments
- Byw mewn Byd Peryglus
- Life on Earth
- Researching the World: Data Collection and Analysis
- Sut i Greu Planed.

**Yr ail flwyddyn:**
- Geomorffoleg Afonol
- Reconstructing Past Environments
- Chemical Analysis of Natural Materials
- Geographical Information Systems
- Dylunio Ymchwil a Sgiliau Gwaith Maes
- Physical Analysis of Natural Materials
- The Frozen Planet.

**Y flwyddyn olaf:**
- Rheoli'r Amgylchedd Gymreig
- Applied Environmental Management
- Glaciers and Ice Sheets
- People, Climate and Environment: a Palaeoenvironmental Perspective
- Sedimentary Environments
- Volcanic Activity: Hazards and Environmental Change
- Traethawd Estynedig Daearyddiaeth.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
65% gwaith cwrs, 35% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **F845** | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| **F846** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **F84F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |

# Gwyddor Daear Amgylcheddol

14% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | F640 | 3 blynedd

Mae tref Aberystwyth wedi'i hamgylchynu gan labordy naturiol gwych sy'n cynnig safleoedd ardderchog i wneud gwaith maes, a bydd ein hadnoddau o'r radd flaenaf yn eich helpu i archwilio sgiliau craidd mewn daeareg a'u cymhwyso i ystod eang o broblemau amgylcheddol.

Byddwch yn astudio'r ddaear fel system unedig, gan archwilio'r rhyngweithio rhwng y ddaear greigiog gadarn (lithosffer) a'r amgylchedd eilaidd sy'n cynnwys yr hydrosffer, y biosffer a'r atmosffer. Bydd y radd hon yn eich hyfforddi i ddatrys problemau a chyfrannu i'r gymdeithas, ac yn creu cyfleoedd gwych ar gyfer eich dyfodol.

Byddwch yn dysgu sgiliau maes a sgiliau ymarferol y gellir eu defnyddio wrth geisio datrys rhai o'r problemau mawr sy'n wynebu ein cymdeithas megis: llygredd sy'n deillio o weithgareddau dynol megis mwyngloddio a chynhyrchu ynni, archwilio safleoedd i ailddatblygu tir neu ddeall ffrwydradau folcanig.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain ar lefel fyd-eang
- mynediad at gyfleusterau dadansoddi a gydnabyddir gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) i gefnogi gwaith prosiect
- cyfleoedd i wneud gwaith maes ym mhob blwyddyn o'r radd gyda themâu fel llygredd amgylcheddol, ynni ac adnoddau
- sgiliau a hyfforddiant proffesiynol trwy gydol eich cwrs gradd.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym. Mae graddedigion y cwrs hwn, er enghraifft, wedi dod o hyd i waith fel ymgynghorwyr amgylcheddol, cynllunwyr, gweithwyr sifil, tirfesurwyr, ac addysgwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Earth Surface Environments
- Life on Earth
- Fieldwork Skills
- Researching the World: Data Collection and Analysis
- Sut i Greu Planed.

**Yr ail flwyddyn:**

- Advanced Earth Materials
- Chemical Analysis of Natural Materials
- Geomorffoleg Afonol
- Fundamentals of Geochemistry
- Geographic Information Systems.

**Y flwyddyn olaf:**

- Environmental Geochemistry and Biogeochemistry
- Applied Environmental Management
- Monitoring our Planet's Health from Space
- Glaciers and Ice Sheets
- People, Climate and Environment: a Palaeoenvironmental Perspective
- Sedimentary Environments
- Volcanic Activity: Hazards and Environmental Change
- Rheoli'r Amgylchedd Gymreig
- Traethawd Estynedig Gwyddor Daear yr Amgylchedd.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96 gan gynnwys C Safon Uwch mewn Bioleg, Cemeg, Daearyddiaeth neu Ffiseg
**BR:** 30-26 gyda 5 pwynt mewn pwnc gwyddonol ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:**
65% gwaith cwrs, 35% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

**F642** Blwyddyn integredig yn astudio dramor.
**F643** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**F64F** Blwyddyn sylfaen integredig.





# Gwyddor yr Amgylchedd

42% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | F750 | 3 blynedd

Mae ein gradd Gwyddor yr Amgylchedd yn edrych ar rai o faterion amgylcheddol pwysicaf ein hoes a'r heriau mae ein cymdeithas heddiw'n eu hwynebu. Rydym yn cynnig cyfle unigryw i chi astudio'r materion hyn yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn ogystal ag Adran y Gwyddorau Bywyd, lle cewch eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain ar lefel fyd-eang.

Mae'r radd yn canolbwyntio ar brosesau amgylcheddol y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, a'u rhyngweithio cymhleth â gweithgareddau dynol, ynghyd ag astudiaeth o ymateb cymdeithas i faterion amgylcheddol naturiol a rhai a achoswyd gan bobl, a sut y cânt eu rheoli.

Rydym yn cynnig sawl cwrs maes dramor a nifer o gyfleoedd ar gyfer gwaith maes yn lleol, fel y gallwch fanteisio i'r eithaf ar ein lleoliad godidog.

Byddwch yn elwa o:

- labordy arsylwi ar y ddaear, labordy palaeoecoleg, systemau acwariwm ar gyfer organebau'r môr a dŵr croyw, labordy microsgopeg a bioddelweddu uwch ar gyfer dilyniannu DNA, metabolomeg a phroteomeg, a labordy modelu ar gyfer integreiddio data biolegol yn ofodol ac yn amserol
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arwain y byd yn eu meysydd
- sgiliau a hyfforddiant proffesiynol trwy gydol eich cwrs gradd.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym. Mae graddedigion y cwrs hwn, er enghraifft, wedi dod o hyd i waith fel ymgynghorwyr amgylcheddol, cynllunwyr, gweithwyr sifil, tirfesurwyr, ac addysgwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Earth Surface Environments
- Genetics, Evolution and Diversity
- Fieldwork Skills
- Sut i Greu Planed
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion.

**Yr ail flwyddyn:**

- Monitro a Microbioleg Amgylcheddol
- Geomorffoleg Afonol
- Dylunio Ymchwil a Sgiliau Gwaith Maes.

**Y flwyddyn olaf:**

- Applied Environmental Management
- Glaciers and Ice Sheets
- Sedimentary Environments
- Volcanic Activity: Hazards and Environmental Change
- Environmental Regulation and Consultancy
- Global Biodiversity Conservation
- Marine and Freshwater Field Course
- Population and Community Ecology
- Cwrs Maes Ecoleg Ddaearol
- Wildlife Conservation
- Traethawd Hir Gwyddor yr Amgylchedd.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96 gan gynnwys C Safon Uwch mewn Bioleg, Cemeg, Daearyddiaeth neu Ffiseg
**BR:** 30-26 gyda 5 pwynt mewn pwnc gwyddonol ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:**
50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**F752** Blwyddyn integredig yn astudio dramor.
**F753** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**F75F** Blwyddyn sylfaen integredig.





# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Daearyddiaeth | Cymraeg | LQ75 |
| Daearyddiaeth Ffisegol | Cyfrifiadureg | FG84 |

Myfyrwyr yn ymchwilio i briodweddau gwaddodion yn y Labordy Canmlwyddiant.



# Drama a Theatr

## Ein cyrsiau...

| | |
|---|---|
| Creu Perfformio | t.87 |
| Drama a Theatr | t.88 |
| Drama a Saesneg | t.89 |
| Dylunio Theatr a Pherfformio | t.90 |
| Graddau Cyfun | t.91 |

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Drama a Theatr



Quarantine Theatre: Simon Banham

**Yn y 10 uchaf yn y DU**

am Fodlonrwydd â'r Cwrs ym mhwnc Drama a Dawns

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)

**Yn y 15 uchaf yn y DU**

am Ansawdd yr Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr ym mhwnc Drama a Dawns

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Creu Perfformio

100% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | W470 | 3 blynedd

Ar y radd hon, sy'n cael eu haddysgu yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwch yn astudio theatr ar ei gwedd gyfoes fel cyfrwng sy'n cydblethu perfformio a chyflwyno byw gyda gwaith fideo a sain, sioeau mewn lleoliadau cyhoeddus a gwaith ar-lein. Trwy blethu'r damcaniaethol gyda'r ymarferol, gan fanteisio ar adnoddau technegol ac amlgyfryngol rhagorol yr Adran, cewch eich galluogi i feddwl yn greadigol ac i ddatblygu eich sgiliau perfformio ac ymarfer theatr.

Mae perfformiadau yn ffyrdd o ddod â phobl ynghyd i ddychmygu, mwynhau, herio, a gofyn cwestiynau. Maen nhw'n cynnig cyfleoedd cyffrous i arbrofi, i ddadansoddi, ac i ystyried dulliau newydd o greu. Yn Creu Perfformio, fe gewch eich cefnogi a'ch ysgogi gan staff parhaol sy'n meddu ar arbenigedd eang ac amrywiol, gan greu cynyrchiadau arloesol a chyffrous, astudio gwaith perfformio cyfoes amlgyfrwng, a chael profiad wrth gyflwyno, cynhyrchu, cyfarwyddo a sgriptio. Fe fyddwn hefyd yn rhoi cyfle i chi gyflwyno'ch gwaith yn ysgrifenedig neu trwy gyfrwng cyflwyniadau fideo.

Byddwch yn elwa o:

- gymryd rhan mewn cyfres o brosiectau perfformio gwahanol, gyda'r cyfle i greu gwaith ymarferol ym mhob semester
- cyfle i gyflwyno traethodau yn ysgrifenedig neu fel prosiectau fideo
- manteisio ar arbenigedd staff sydd ag ystod eang o arbenigedd mewn nifer o feysydd ymchwil a/neu brofiad ymarfer theatr proffesiynol
- defnyddio cyfleusterau ac adnoddau gwych ar gyfer gwaith ymarferol, yn cynnwys: tair stiwdio theatr fawr â chyfarpar proffesiynol llawn; tair stiwdio ymarfer; cyfarpar proffesiynol ar gyfer gwaith amlgyfrwng, gan gynnwys ffilmio, golygu, a recordio sain
- manteisio ar ein cysylltiadau â phartneriaid allweddol yn y diwydiant megis Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Theatr Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales, a chwmni theatr Quarantine.

**Cyflogadwyedd**
Mae llawer o'n graddedigion wedi dod o hyd i swyddi ym meysydd actio a pherfformio, cyfarwyddo, dylunio, sgriptio, dysgu ac addysg, gweinyddu'r celfyddydau, marchnata, rheoli, a chysylltiadau cyhoeddus.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Sylfeini Perfformio: Corff, Cymeriad a Thestun
- Gweithio yn y Diwydiannau Creadigol
- Creu Cynyrchiadau Amlgyfrwng
- Cydweithio Ensemble.

**Yr ail flwyddyn:**

- Sylfeini Hunan-Gyflwyno
- Ymarfer Cynhyrchu 1: Perfformio.

**Y flwyddyn olaf:**

- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Ymarfer Cynhyrchu 2: Perfformio.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Creu Ffilm
- Gweithio ar Gamera
- Ymarfer Cynhyrchu 1: Gorffen
- Ymchwil Creadigol Ymarferol
- Theatr a Ffilm Gyfoes: Cymru a'r Byd
- 'Arwyr': Dogfennu Gyrfaoedd yn y Diwydiannau Creadigol
- Ymarfer Cynhyrchu 2: Gorffen
- Theatr a Ffilm Americanaidd.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol: Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 30% gwaith cwrs, 70% cyflwyniadau ymarferol.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Drama a Theatr

ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | W400 | 3 blynedd

Ar y cwrs hwn byddwch yn astudio sut beth fu theatr, yn archwilio beth yw theatr heddiw, ac yn dychmygu beth all theatr fod. Drwy gyfuniad arloesol o theori ac ymarfer, byddwch yn datblygu'ch sgiliau fel gwneuthurwr theatr a meddyliwr creadigol, ac yn paratoi i weithio yn y diwydiannau creadigol a'r tu hwnt.

Wedi'i gwreiddio yn hanes nodedig Aberystwyth o gyflwyno perfformiadau arloesol a radical a'i dysgu gan staff a gydnabyddir yn rhyngwladol, bydd y radd Drama a Theatr yn meithrin eich sgiliau fel meddyliwr creadigol ac ymarferydd huawdl.

Gan ganolbwyntio ar ymarfer perfformio cyfoes sydd â golwg byd-eang, byddwch yn dod ar draws ystod o arddulliau perfformio a ffurfiau theatrig, o ddramâu llwyfan wedi'u sgriptio i waith wedi ei greu a'i lunio ar gyfer safle benodol, o ddramau Shakespeare i theatr gerdd ac arbrofion mewn cyfryngau newydd.

Byddwch yn elwa o:

- gymryd rhan mewn dau brosiect perfformio gwreiddiol bob blwyddyn, a'r ffocws ar waith annibynnol yn cynnyddu wrth i chi symud ymlaen trwy'ch gradd
- ffrwd bwrpasol o fodiwlau hyfforddi perfformwyr yn eich blwyddyn gyntaf
- gael eich addysgu gan staff sydd ag ystod eang o arbenigedd fel gwneuthurwyr theatr proffesiynol ac ymchwilwyr
- cyfleusterau ac adnoddau ardderchog ar gyfer gwaith ymarferol, gan gynnwys tair stiwdio theatr fawr ag offer proffesiynol; tair stiwdio ymarfer; cyfleusterau gwisgoedd a wardrob; a thîm theatr technegol penodol
- manteisio ar ein perthynas weithredol â phartneriaid allweddol yn y diwydiant, megis National Theatre Wales, Music Theatre Wales, Cwmni Theatr Quarantine, a Theatr Genedlaethol Cymru
- cysylltiadau agos â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sef un o ganolfannau celfyddydau mwyaf Cymru.

**Cyflogadwyedd**
Mae llawer o'n graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio mewn meysydd megis actio a pherfformio, cyfarwyddo, dylunio, sgriptio, dysgu ac addysg, gweinyddu yn y celfyddydau, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Modiwlau craidd y flwyddyn gyntaf:**

- Theatre in Context 1
- Theatre in Context 2
- Studio Theatre Project
- Site-specific Performance Project.

**Yr ail flwyddyn:**
Byddwch yn astudio modiwlau dewisol yn unig. Dyma rai enghreifftiau:

- Acting for Camera
- Acting: Process and Performance
- Devised Performance Project
- Directors' Theatre
- New Media Performance
- Shakespeare in Performance
- Theatre and Contemporary Society
- Theatre Design Project
- Theatre Production Project.

**Y flwyddyn olaf:**
Byddwch yn astudio modiwlau dewisol yn unig. Dyma rai enghreifftiau:

- Contemporary Drama
- Ensemble Performance Project
- Performance and Disability
- Independent Production Project
- Independent Research Project
- Musical Theatre Dramaturgies
- Performance and Architecture
- Place, Space and Landscape
- Playwriting.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol: Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**W402** Blwyddyn o ymarfer proffesiynol.
**W40F** Blwyddyn sylfaen integredig.



# Drama a Saesneg

ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | WQ44 | 3 blynedd

Os ydych wrth eich bodd â theatr, perfformio a llenyddiaeth, bydd y BA Drama a Saesneg yn addas iawn i chi. Gan gyfuno ymarfer a theori, cewch ymchwilio i ddiwylliant, y byd perfformio a chymdeithas trwy ddadansoddi a llwyfannu testun dramatig a chyfuno ymarfer a theori. Byddwch yn archwilio'r ffordd mae'r diwylliant llenyddol wedi ymgysylltu â chymdeithas a dylanwadu arni yn y gorffennol, a sut mae'n parhau i wneud hynny heddiw. Byddwch hefyd yn arbrofi gyda thestunau gwahanol, ac yn dod i ddeall gallu drama lwyfan i drawsnewid y byd yr ydym yn byw ynddo.

Trwy gydol y cwrs, byddwch yn archwilio'r rôl, y swyddogaeth a'r defnydd o destun dramatig mewn perfformiadau theatrig a'r berthynas rhwng Drama, Theatr a Llenyddiaeth Saesneg. Gyda chyfleoedd i arbrofi gydag ysgrifennu ac i ddatblygu sgiliau ymarferol creu theatr, byddwch yn dod i ddeall y cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a gwleidyddol sydd wedi siapio ymarfer theatr.

Fe gewch y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o berfformiadau a chynyrchiadau. Seren y sioe yw ein prosiect Shakespeare i ysgolion, lle byddwch yn datblygu, ymarfer, a llwyfannu perfformiad a gweithdy addysgol i gynulleidfa gyhoeddus o blant ysgolion cynradd ac uwchradd.

Byddwch yn elwa o:

- y cyfle i ymuno â dwy adran fywiog ac amrywiol lle bydd drama, theatr, llenyddiaeth a pherfformio yn plethu i'w gilydd o fewn y modiwlau a'r cyfleoedd creadigol
- defnyddio cyfleusterau ac adnoddau rhagorol i wneud gwaith ymarferol
- manteisio ar ein cysylltiadau â phartneriaid allweddol yn y diwydiant a'n perthynas gydweithredol unigryw â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth - canolfan sy'n un o'r mwyaf o'i bath yng Nghymru.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y radd BA mewn Drama a Saesneg yn eich paratoi ar gyfer astudiaeth bellach neu yrfa mewn amrywiaeth o sectorau, yn cynnwys: theatr a'r celfyddydau perfformio; cyhoeddi; marchnata a chysylltiadau cyhoeddus; gohebu; newyddiaduraeth; hysbysebu; addysg; y gwasanaeth sifil; busnes; cyllid; a'r cyfryngau newydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Theatre in Context 1 & 2
- Critical Practice
- Ancestral Voices
- Studio Theatre Project.

**Yr ail flwyddyn:**

- Literary Theory: Debates and Dialogues
- Theatre Production Project.

**Y flwyddyn olaf:**

- School Shakespeare Project.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Acting: Process and Performance
- Directors' Theatre
- Theatre and Contemporary Society
- Shakespeare in Performance
- Shaping Plots
- Playwriting
- Musical Theatre Dramaturgies
- Performance and Architecture
- Performance and Disability.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol: Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Dylunio Theatr a Pherfformio

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | 064W | 3 blynedd

Dan arweiniad ymarferwyr rhyngwladol, mae agwedd y cynllun tuag at ddylunio ar gyfer perfformio yn un ffres a radical, gan edrych y tu hwnt i ffiniau sefydledig dylunio set, gwisgoedd, goleuo a sain i edrych ar y gofod perfformio yn ei gyfanrwydd fel maes artistig mynegiannol ynddo'i hun. Mae ein gradd Dylunio Theatr a Pherfformio yn Aberystwyth yn rhoi mwy na dim ond hyfforddiant yn y maes; mae'n ymchwilio hefyd i ganfod sut orau y gellir ei wneud.

Trwy gyfrwng cyfuniad o archwiliadau ymarferol a damcaniaethol, byddwch yn archwilio ac yn ymwneud yn feirniadol ag ystod eang o arferion cyfoes, o theatr draddodiadol i berfformiadau ar safleoedd penodol ac o theatr amgylcheddol i osodiadau perfformio. Wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen, mae ffocws yr astudio'n canolbwyntio'n raddol ar eich arfer eich hun fel artist annibynnol, a chewch ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch wedi'u hennill i greu gwaith sy'n ffres, yn radical ac yn llawn mynegiant i chi, boed o fewn neu'r tu hwnt i gyd-destun theatr a pherfformio.

Byddwch yn elwa o:

- brofi dull ysbrydoledig ac arloesol o edrych ar ddylunio theatr a pherfformio
- cael eich dysgu gan dîm bach o ddylunwyr proffesiynol a gydnabyddir yn rhyngwladol
- manteisio ar ein perthynas weithredol â phartneriaid allweddol yn y diwydiant, megis Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Cwmni Theatr Arad Goch, National Theatre Wales, Theatr Gerdd Cymru, Cwmni Theatr Quarantine, a Theatr Genedlaethol Cymru
- adnoddau ardderchog a mannau i greu ynddynt: ystafell gwneud modelau, gweithdy gwisgoedd, mannau adeiladu, stiwdio sain a thair stiwdio ymarfer, pob un ag adnoddau technegol hyblyg
- cysylltiadau agos gyda Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, un o ganolfannau Celfyddydau mwyaf Cymru, sydd yn cyflwyno gwaith theatr a dawns cenedlaethol a rhyngwladol yn rheolaidd.

**Cyflogadwyedd**
Mae sawl un o'n graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio fel dylunwyr setiau, gwisgoedd, goleuo, cynhyrchu a pherfformio, naill ai'n uniongyrchol, drwy ymwneud â chwmnïau cydweithredol a phroffesiynol, neu ar ôl cwblhau astudiaethau uwchraddedig.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Design Skills
- Theatre Technologies 1 & 2
- Theatre and Performance Design in Context
- Scenography Site Project.

**Yr ail flwyddyn:**
- Scenographic Composition
- Principles of Scenography
- Theatre Design Project
- Production Project: Scenography.

**Y flwyddyn olaf:**
- Advanced Studio Practice: Scenography
- Advanced Scenographic Project.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Making Short Films
- Theatre in Context
- New Media Performance
- Place, Space and Landscape
- Performance and Architecture
- Shakespeare in Performance
- Contemporary Drama
- Directors' Theatre.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Creu (Perfformio / Cyfryngau)** | Cymraeg | QW52 |
| **Drama a Theatr** | Addysg | WX43 |
| | Astudiaethau Ffilm a Theledu | WW64 |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | LW24 |
| | Ffrangeg | RW14 |
| | Hanes | WV41 |
| | Llenyddiaeth Saesneg | QW34 |
| | Mathemateg | GW14 |
| | Sbaeneg | RW44 |
| | Ysgrifennu Creadigol | W841 |
| **Dylunio Theatr a Pherfformio** | Astudiaethau Ffilm a Theledu | 34PW |
| | Drama a Theatr | 234W |



# Economeg

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Economeg

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Economeg | t.93 |
| Economeg a Newid Hinsawdd | t.94 |
| Economeg Busnes | t.96 |
| Graddau Cyfun | t.97 |




**Yn y 5 uchaf yn y DU**

am Fodlonrwydd Myfyrwyr ym mhwnc Economeg

(Complete University Guide 2023)





# Economeg

32 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | L100 | 3 blynedd

Mae'r cwrs Economeg yn Aberystwyth yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar fywyd bob dydd, gan gynnwys creu swyddi, pwysau chwyddiannol, materion yn ymwneud â masnach ryngwladol, proses cystadleuaeth mewn busnes, arloesi a thwf, datblygiad marchnadoedd newydd, diogelu adnoddau naturiol a llunio polisi gan y llywodraeth.

Byddwch yn datblygu'r gallu i ddadansoddi data rhifiadol ac i ddatrys problemau - sgiliau gwerthfawr a fydd yn caniatáu ichi ddeall sut mae pobl, busnesau, sefydliadau a llywodraethau yn gwneud penderfyniadau, a goblygiadau'r cyfryw benderfyniadau i unigolion a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r gwaith ymchwil a wneir yn Ysgol Fusnes Aberystwyth yn sail i'n haddysgu ar agweddau sy'n ymwneud â masnach a busnes rhyngwladol, economeg datblygu a dadansoddi polisi, economeg llafur ac economeg ranbarthol, economeg wledig ac amaethyddol, economeg ecoleg a'r amgylchedd ac econometreg gymwysedig, sy'n golygu y byddwch yn dysgu am y syniadau a'r cysyniadau diweddaraf.

Byddwch yn elwa o:

- glywed amrywiol safbwyntiau gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- gwella'ch cyfleoedd gyrfaol trwy bartneriaethau â busnes, diwydiant a masnach
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes pwnc
- cymryd rhan mewn cystadlaethau busnes.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y radd BSc mewn Economeg yn cynnig cyfleoedd mewn meysydd megis dadansoddi polisi neu weinyddiaeth lywodraethol yn y sector cyhoeddus, y sector bancio a chyllid neu yn y sector preifat. Gallech hefyd weithio i gyrff anllywodraethol a sefydliadau gwirfoddol. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio yng Ngwasanaethau Economaidd y Llywodraeth, Trysorlys EF, y Cyngor Prydeinig, grŵp FDM, Nexus Financial Consulting, a Kiva.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Economic Theory and Policy
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**

- Microeconomics Theory and Policy
- Macroeconomics Theory and Policy
- Managerial Economics
- Econometrics
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Contemporary Issues in Economic Policy
- Environmental Economics
- History of Economic Thought
- Trade and International Monetary Systems
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Ar gael hefyd:**
**L10F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Economeg a Newid Hinsawdd

24% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | FL71 | 3 blynedd

Gall economeg chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy roi dealltwriaeth o strwythurau cymell defnyddwyr a chwmnïau, gan esbonio sut a pham y gallai llywodraethau ymyrryd â marchnadoedd economaidd er mwyn cyflwyno polisïau a sefydliadau sy'n ystyriol o'r hinsawdd. Bydd astudio Economeg a Newid Hinsawdd yn gychwyn ar daith lawn boddhad o gael effaith gadarnhaol ar eich byd ac yn eich paratoi i ddod yn arweinwyr y dyfodol yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Trwy astudio economeg, byddwch yn magu dealltwriaeth o fethiannau marchnadoedd 'confensiynol' i fynd i'r afael yn effeithiol â newid hinsawdd. Gan ddefnyddio isddisgyblaethau economeg amgylcheddol ac ecolegol, bydd myfyrwyr yn datblygu gwerthfawrogiad o sut y gellir datblygu polisïau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn darparu cymhellion megis cynlluniau masnachu carbon a threthi i ostwng allyriadau.

Ar y cwrs hwn, byddwch yn cyfuno gwybodaeth am y wyddoniaeth sy'n sail i newid hinsawdd ag ystod eang o arfau economaidd a fydd yn eich galluogi i ddeall a datblygu polisïau a chymhellion sy'n cefnogi'r trawsnewid i fod yn economi sy'n niwtral o ran carbon. Byddwch yn archwilio ffyrdd creadigol o ddatblygu polisïau i ymateb i her a chyfleoedd yr argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi ichi wybodaeth bwnc-benodol berthnasol ynghyd â sgiliau rhyngbersonol a rhyngddisgyblaethol a'r priodoleddau angenrheidiol i greu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy.

**Cyflogadwyedd**

Ar ôl graddio, byddwch mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfa ym maes newid yn yr hinsawdd - ei reoli, ei addasu, a'i liniaru - yn y DU a thramor. Byddwch hefyd yn gymwys ar gyfer gyrfaoedd mewn meysydd megis addysg amgylcheddol ac ymgynghori neu gadwraeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- Data Analytics
- Economic Theory and Policy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- The Science of Climate
- Understanding the Economy.

**Yr ail flwyddyn:**

- Microeconomic theory and practice
- Llywodraethu Newid Hinsawdd: modiwl efelychu
- Macroeconomics Theory and Practice
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Environmental Economics
- Traethawd Hir
- Growth, Development and Sustainability.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.





# Economeg Busnes

41% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | L113 | 3 blynedd

Bydd ein gradd mewn Economeg Busnes yn eich paratoi i allu datblygu datrysiadau busnes effeithiol gan ddefnyddio gwybodaeth economaidd ymarferol. Byddwch yn dod i ddeall y ffactorau economaidd sy'n dylanwadu ar lwyddiant busnes a'r penderfyniadau a wneir yn fanwl. Byddwch hefyd yn meithrin y sgiliau dadansoddi, cyfrifiadura a chyfathrebu y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, yn y sectorau preifat a chyhoeddus fel ei gilydd.

Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, rydym yn canolbwyntio ar roi syniadau, gwybodaeth a dulliau economaidd ar waith yn ymarferol, a hynny yng nghyd-destun sefyllfaoedd proffesiynol lle mae angen gwneud penderfyniadau. Byddwch yn datblygu'r gallu i gymhwyso gwybodaeth economaidd i faterion yr ymdrinnir â hwy mewn nifer o ddisgyblaethau sy'n gysylltiedig â pholisi busnes.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth resymegol o economeg fel arf asesu dadansoddol, ac yn datblygu'r sgiliau proffesiynol i ddefnyddio micro-economeg a macro-economeg yn eu cyd-destun mewn amgylcheddau proffesiynol.

Byddwch yn elwa o:

- glywed amrywiol safbwyntiau gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- gwella'ch cyfleoedd gyrfaol trwy bartneriaethau â busnes, diwydiant a masnach
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes
- cymryd rhan mewn cystadlaethau busnes.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y radd BSc mewn Economeg Busnes yn cynnig cyfleoedd mewn meysydd megis dadansoddi polisi neu weinyddiaeth lywodraethol yn y sector cyhoeddus, y sector bancio a chyllid neu yn y sector preifat. Gallech hefyd weithio i gyrff anllywodraethol a sefydliadau gwirfoddol. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio yng Ngwasanaethau Economaidd y Llywodraeth, Trysorlys EF, y Cyngor Prydeinig, grŵp FDM, Nexus Financial Consulting, a Kiva. Mae llawer hefyd wedi dilyn ymchwil ac astudiaethau pellach mewn addysg uwch.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Understanding the Economy
- Economic Theory and Policy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Data Analytics
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**

- Microeconomics Theory and Policy
- Macroeconomics Theory and Policy
- Managerial Economics
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Environmental Economics
- Trade and International Monetary Systems
- Organisational Psychology
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**L11F** Blwyddyn sylfaen integredig.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Economeg** | Busnes a Rheolaeth | L1N1 |
| | Mathemateg | GL91 |



# Ffilm a Theledu

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Ffilm a Theledu

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Astudiaethau Ffilm a Theledu | t.99 |
| Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu | t.100 |
| Creu Cyfryngau | t.102 |
| Gwneud Ffilm | t.103 |
| Ysgrifennu ar gyfer Darlledu, Cyfryngau a Pherfformio | t.104 |
| Graddau Cyfun | t.105 |




**Yn y 5 uchaf yn y DU**

am Fodlonrwydd â'r Addysgu ym mhwnc Cynhyrchu Ffilmiau a Ffotograffiaeth

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2024)



# Astudiaethau Ffilm a Theledu

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | W620 | 3 blynedd

P'un a ydych â diddordeb mewn delweddau symudol fel ffurf gelfyddydol neu ddiwydiant, bydd ein gradd fywiog mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu yn gyfle ichi archwilio agweddau technegol a beirniadol ar y pwnc mewn amgylchedd creadigol.

Rydym yn cynnig hyfforddiant arbenigol ym maes cynhyrchu ffilmiau dogfen, ffilmiau ffuglennol ac arbrofol, gwaith stiwdio a sgriptio. Byddwch hefyd yn archwilio ffilmiau celf, arswyd a chwlt, ffilmiau rhyngwladol a chyfoes, astudiaethau rhywedd, genrau ac estheteg teledu, y diwylliant digidol, a gemau fideo.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff ac iddynt broffil rhyngwladol ac ystod eang o arbenigedd ym meysydd hanes, theori ac ymarfer teledu
- cysylltiadau â phartneriaid allweddol yn y diwydiant megis y BBC, S4C, BAFTA Cymru, Gŵyl Ffilmiau Tribeca (Efrog Newydd), Orchard, Tinopolis, Archif Ddarlledu Genedlaethol Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- adnoddau gwych ar gyfer gwaith ymarferol: Stiwdio deledu HD ac oriel gyda sgrin werdd ac awtociw; stiwdio sain ddigidol gyda recordio aml-drac uwch; sinema newydd sbon; ystafell ddybio a graddio lliw; 10 ystafell olygu bwrpasol gydag Avid Media Composer ac Adobe Premiere Pro; labordy golygu a gweithdy gyda 12 o weithfannau; 50 camera HD proffesiynol, gan gynnwys Sony a Canon; offer recordio sain Sennheiser, Rode, Tascam a Marantz; offer ffilm 16mm ac ystafell dywyll
- cysylltiadau agos â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth sy'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, er enghraifft Gŵyl Arswyd Abertoir a Gŵyl Ffilm WOW 'Cymru a'r Byd yn Un'.

**Cyflogadwyedd**

Mae llawer o'n graddedigion yn gweithio yn y diwydiant ffilm a theledu. Mae eraill yn gweithio ym meysydd dosbarthu ffilmiau, creu ffilmiau ar eu liwt eu hunain, rhaglennu gwyliau ffilm, newyddiaduraeth, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, hysbysebu, a gweinyddu'r celfyddydau.

## Modiwlau craidd

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Making Short Films
- Studying Film
- Studying Television.

**Yr ail flwyddyn:**

- Work in the Media Industries.

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol:

- Creative Documentary
- Creative Fiction: Horror
- Creative Studio
- Writing for Film and Television
- Art Cinema
- Digital Culture
- Stardom and Celebrity
- Television Genre.

**Y flwyddyn olaf:**

Byddwch yn astudio modiwlau dewisol yn unig, ee:

- Documentary Production
- Contemporary Television Drama
- Contemporary Film and the Break-up of Britain
- Experimental Media Production
- Fiction Film Production
- Scriptwriting
- Cult Cinema: Texts, Histories and Audiences
- Experimental Cinema
- Gender and the Media
- Independent Research Project
- Studying Videogames.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 95% gwaith cwrs, 5% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**W62F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | P300 | 3 blynedd

Os hoffech wybod pwy sy'n rheoli ac sy'n berchen ar ein cyfryngau, sut y caiff y cynnwys ei gynhyrchu, a pha fath o effaith y mae'r cyfryngau'n ei chael arnom fel cynulleidfa, mae ein cwrs Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu yn berffaith ar eich cyfer.

Trwy ein dull amlddisgyblaethol o ddysgu'r pwnc, byddwch yn meithrin dealltwriaeth ddeinamig o natur y berthynas rhwng testunau, cynulleidfaoedd a chynhyrchwyr y cyfryngau.

Bwriedir i'r cynllun roi cyfle ichi ddatblygu eich sgiliau creadigol, beirniadol a thechnegol drwy waith ymarferol blaengar (ee mewn cynhyrchu aml-lwyfan a chyfryngau arbrofol) ac ymchwiliadau ysgolheigaidd heriol mewn meysydd megis polisi a hanes y cyfryngau, hysbysebu, diwylliannau ieuenctid, cyfraith y cyfryngau, rhywedd a'r cyfryngau, gemau cyfrifiadurol, a diwylliant digidol.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff sy'n arbenigwyr ym maes y Cyfryngau a Chyfathrebu, sydd â chysylltiadau ardderchog â'r diwydiant, sy'n cyfrannu at drafodaethau cenedlaethol ar y cyfryngau, ac sy'n cynhyrchu ymchwil blaengar yn y maes
- y cyfle i ehangu eich gwybodaeth am gymdeithaseg, seicoleg, astudiaethau diwylliannol, hanes, athroniaeth, ieithyddiaeth a marchnata
- defnyddio adnoddau dysgu modern yn cynnwys labordy cyfrifiadurol newydd sbon a gynlluniwyd i gyfateb i ddiwydiant y cyfryngau digidol
- cael mynediad llawn at Archif Ddarlledu Cymru sydd dafliad carreg o gampws Penglais.

**Cyflogadwyedd**

Mae llawer o'n graddedigion wedi llwyddo i ddod o hyd i waith yn y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol, gan gynnwys ymchwilydd dylunio'r BBC, cynhyrchydd castio/stori a golygu, rheolwr cynnyrch, dylunydd creadigol, datblygwr gwefan, rheolwr marchnata cynnwys, rheolwr cyfryngau cymdeithasol, darlithydd astudiaethau'r cyfryngau, swyddog y wasg, cydlynydd marchnata a chyfathrebu, tra mae rhai wedi sefydlu eu cwmnïau cyfryngau eu hunain.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Making Short Films
- Studying Media
- Media Histories and Archaeologies
- Studying Communication.

**Yr ail flwyddyn:**

Byddwch yn astudio modiwlau dewisol yn unig. Dyma rai enghreifftiau:

- Advertising
- Creative Documentary
- Creative Studio
- Digital Culture
- Media, Politics and Power
- Television Genre
- Media, Politics and Power
- Stardom and Celebrity
- Work in Media Industries
- Youth Cultures.

**Y flwyddyn olaf:**

Byddwch yn astudio modiwlau dewisol yn unig, ee

- Contemporary Television Drama
- Documentary Production
- Experimental Cinema
- Experimental Media Production
- Gender and the Media
- Media, Memory and History
- Independent Research Project
- Media Law
- Media Semiotics
- Studying Videogames.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
80% gwaith cwrs, 20% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.





# Creu Cyfryngau

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | P310 | 3 blynedd

Os oes gennych ddiddordeb mewn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, creu a thrin delweddau symudol fel adloniant, ffurf gelfyddydol neu ddiwydiant, bydd ein gradd fywiog newydd Creu Cyfryngau yn gyfle i chi greu cynyrchiadau arloesol, meithrin sgiliau technegol ac astudio dulliau beirniadol mewn amgylchedd creadigol. Trwy blethu gwaith creadigol a damcaniaethol, gan fanteisio ar adnoddau technegol ac amlgyfryngol rhagorol yr Adran, cewch eich galluogi i weithredu'n greadigol a datblygu sgiliau fydd yn eich paratoi am ystod o swyddi posib yn y diwydiannau creadigol a'r tu hwnt.

Mae cynhyrchu a pherfformio wrth galon ein byd modern, ym myd ffilm, teledu, theatr a'r cyfryngau digidol. Nod y cynllun gradd hwn yw rhoi dealltwriaeth fanwl ichi o'r rhan hanfodol y maent bellach yn ei chwarae ym mywydau pawb ohonom, ac i'ch paratoi yn ofalus am yrfa werth chweil yn y diwydiannau creadigol a'r tu hwnt. Byddwch yn cynhyrchu ffilmiau a chynnwys teledu ac aml-lwyfan gwreiddiol eich hunain, ac yn cyfrannu at gynyrchiadau byw amlgyfrwng. Byddwch hefyd yn dysgu sut i archwilio fframweithiau hanesyddol, esthetaidd, economaidd a sefydliadol sy'n hanfodol i gael gwerthfawrogiad llwyr o'r ddisgyblaeth gyffrous hon sy'n trawsnewid yn gyson. Fe fyddwch yn medru cyflwyno gwaith yn ysgrifenedig neu trwy gyfrwng cyflwyniadau fideo.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff ac iddynt broffil rhyngwladol, gyda'u hystod eang o arbenigedd yn cynnwys hanes, theori ac ymarfer ffilm a theledu
- cyfle i gyflwyno traethodau yn ysgrifenedig neu fel prosiectau fideo
- manteisio ar berthynas weithgar yr Adran â phartneriaid allweddol yn y diwydiant megis S4C, Orchard, Arad Goch, a BAFTA Cymru
- y cyfle i ddefnyddio cyfleusterau ac adnoddau gwych: stiwdio sain ddigidol â chyfarpar recordio aml-drac uwch; sinema newydd sbon, ystafelloedd graddio lliw a dybio; 10 o ystafelloedd golygu pwrpasol gyda meddalwedd Avid Media Composer, a llawer mwy
- elwa ar ein cysylltiadau agos â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sy'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau megis Gŵyl Arswyd Abertoir a Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un.

**Cyflogadwyedd**
Mae nifer o'n graddedigion yn gweithio fel ymchwilwyr, golygyddion, rheolwyr llawr, pobl camera, dylunwyr, cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr. Mae eraill yn gweithio ym meysydd marchnata, radio, newyddiaduraeth, cysylltiadau cyhoeddus, gweinyddu'r celfyddydau, gwyliau ffilm, hysbysebu, gwleidyddiaeth a busnes.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Creu Cynyrchiadau Amlgyfrwng
- Creu Ffilm
- Cydweithio Ensemble
- Gweithio ar Gamera
- Gweithio yn y Diwydiannau Creadigol
- Sylfeini Perfformio: Corff, Cymeriad a Thestun.

**Yr ail flwyddyn:**
- Sylfeini Hunan-Gyflwyno.

**Y flwyddyn olaf:**
- Prosiect Ymchwil Annibynnol.

Byddwch hefyd yn astudio modiwlau dewisol:

- Sylfeini Perfformio: Corff, Cymeriad a Thestun
- Ymarfer Cynhyrchu 1: Cyfryngau
- Ymarfer Cynhyrchu 1: Gorffen
- Ymchwil Creadigol Ymarferol
- Theatr a Ffilm Gyfoes: Cymru a'r Byd
- 'Arwyr': Dogfennu Gyrfaoedd yn y Diwydiannau Creadigol
- Ymarfer Cynhyrchu 2: Gorffen
- Theatr a Ffilm Americanaidd.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 30% gwaith cwrs, 70% cyflwyniadau ymarferol.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Gwneud Ffilm

0% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | P301 | 3 blynedd

Bydd y radd gyffrous hon mewn Gwneud Ffilm yn archwilio'r broses o sut y caiff ffilm ei datblygu o'r syniad gwreiddiol, a sut y caiff ffilm ei hariannu, ei ffilmio, ei chwblhau a'i dosbarthu. Nod y radd yw cyflwyno gwybodaeth a datblygu dealltwriaeth ein myfyrwyr wrth iddynt astudio pob agwedd ar gynhyrchu ffilm.

Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae hon yn radd ymarferol gydag ethos galwedigaethol cryf. Wrth gynhyrchu ffilmiau gwreiddiol ac wrth weithio gyda'r offer camera, sain ac ôl-gynhyrchu yn yr Adran, byddwch yn ennill profiad ymarferol gwerthfawr a fydd yn eich paratoi ar gyfer gyrfa yn y diwydiant.

Mae'r radd wedi'i sefydlu gan staff â phrofiad helaeth gyda dros 35 mlynedd o brofiad o gwblhau a chyflwyno ffilmiau o fewn y diwydiant ffilm. Mae'r radd hon hefyd yn un o'r graddau prin sydd â pherthynas broffesiynol gyda'r Producers Guild of Britain.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff gyda'u hystod eang o arbenigedd ym maes creu ffilmiau a'u cysylltiadau ardderchog â'r diwydiant
- manteisio ar ein cyfleusterau ac adnoddau gwych: stiwdio sain ddigidol lle mae cyfarpar recordio aml-drac uwch; sinema newydd sbon, ystafell graddio lliwiau a dybio; 10 ystafell olygu bwrpasol gyda meddalwedd Avid Media Composer, Adobe Premiere Pro a ProTools; labordy golygu a gweithdy â 20 gweithfan; 50 camera Manylder Uwch, yn cynnwys offer recordio sain Sony a Canon; offer recordio sain Sennheiser, Rode, Tascam a Marantz
- defnyddio cyfarpar dylunio sain a dybio o'r radd flaenaf
- elwa o'n cysylltiadau â phartneriaid allweddol yn y diwydiant megis Dosbarthiadau Meistr Movie Magic ac AVID.

Mae gennym offer ffilmio arbenigol yn yr adran yn ogystal ag Ystafelloedd Golygu sy'n cynnwys meddalwedd AVID a Protools, a stiwdio dylunio sain a sinema bwrpasol. Bydd hyn yn eich galluogi i ffilmio a chwblhau eich ffilmiau i safon broffesiynol.

**Cyflogadwyedd**
Gall myfyrwyr sy'n dilyn y radd hon ddilyn llwybr mewn: cynhyrchu, cyfarwyddo, cyfarwyddo cynorthwyol, gwaith camera, gwaith ôl-gynhyrchu a bod yn rhan o dîm technegol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Making Short Films 1 & 2
- Introduction to Film Production
- Introduction to Post-Production and Editing.

**Yr ail flwyddyn:**
- Film Craft.

**Y flwyddyn olaf:**
- Fiction Film Project.

Mae'r modiwlau opsiynol y gellir eu hastudio i ddatblygu'ch diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Advanced Cinematography and Production Design
- Advanced Editing
- Advanced Sound
- Directing and Producing
- Editing
- Sales and Distribution.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 90% gwaith cwrs, 10% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Ysgrifennu ar gyfer Darlledu, Cyfryngau a Pherfformio

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | P302 | 3 blynedd

P'un a oes gennych ddiddordeb mewn ysgrifennu ar gyfer y teledu, radio neu theatr fyw, bydd y radd hon yn datblygu eich sgiliau ysgrifennu ymarferol mewn amgylchedd bywiog a chefnogol.

Bydd y radd hon yn cynnig sylfaen gref ichi o ran ysgrifennu ar gyfer gwahanol lwyfannau a chynulleidfaoedd, datblygu eich dealltwriaeth o dechnegau sylfaenol, a meithrin eich hyder.

Bydd ein tîm o arbenigwyr yn tanio'ch dychymyg, yn gwella'ch gallu i feddwl yn feirniadol ac yn eich paratoi am yrfa fel awdur proffesiynol.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac y mae eu harbenigedd eang yn cynnwys: enw da iawn yn broffesiynol am ysgrifennu dramâu teledu parhaus (ee *Hollyoaks* a *Doctors*), dramâu radio, addasiadau dramâu, ynghyd ag arbenigedd ym myd drama Prydain
- perthynas weithgar yr Adran â phartneriaid allweddol yn y diwydiant megis y BBC, S4C, Cwmni Theatr Lurking Truth, Gŵyl Ffilmiau Ffresh, BAFTA, Avid, Orchard, Arad Goch, Theatr Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth
- Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru gerllaw.

**Cyflogadwyedd**
Mae llawer o'n graddedigion wedi dod o hyd i waith sy'n cynnwys gweithio yn y cyfryngau, rheolwyr llawr, pobl camera, cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr, marchnata, cynllunio cyfryngol, addysg, cysylltiadau cyhoeddus, a chyhoeddi ac mae rhai yn mynd ymlaen i astudiaethau pellach.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Studying Television
- Theatre in Context 1
- Writing Continuing TV Drama
- Studying Film
- Theatre in Context 2.

**Yr ail flwyddyn:**
- Writing for Film and Television
- Writing Audio Drama.

**Y flwyddyn olaf:**
- Scriptwriting 1 and 2
- Playwriting.

Mae'r modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu'ch diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Acting: Process and Performance
- Contemporary Television Drama
- Creative Fiction: Horror
- Art Cinema
- Devised Performance Project
- Directors' Theatre
- Shakespeare in Performance
- Making Short Film 1
- Stardom and Celebrity.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
90% gwaith cwrs, 10% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Astudiaethau Ffilm a Theledu** | Celfyddyd Gain | WW16 |
| | Cymraeg | QWM6 |
| | Drama a Theatr | WW64 |
| | Ffotograffiaeth | WW66 |
| | Ffrangeg | RW16 |
| | Llenyddiaeth Saesneg | QW36 |
| | Mathemateg | GW16 |
| | Ysgrifennu Creadigol | WP83 |
| **Creu (Perfformio / Cyfryngau)** | Cymraeg | QW52 |
| **Cyfryngau** | Astudiaethau Theatr | P3W4 |
| | Llenyddiaeth Saesneg | P3Q3 |
| | Ysgrifennu Creadigol | P3W8 |




# Ffiseg

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Ffiseg

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Astroffiseg | t.107 |
| Ffiseg | t.108 |
| Ffiseg Beiriannol | t.109 |
| Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol | t.110 |
| Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod | t.111 |
| Gwyddor y Gofod a Roboteg | t.112 |

**Yn y 10 uchaf yn y DU**

am Fodlonrwydd â'r Asesu a'r Adborth ym mhwnc Ffiseg

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)

**Yn y 15 uchaf yn y DU**

am Brofiad Myfyrwyr ym mhwnc Ffiseg a Seryddiaeth

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Astroffiseg

44% ar gael drwy'r Gymraeg

Cwrs achrededig: IOP Institute of Physics

## BSc (Anrh) | F510 | 3 blynedd

Mae gradd Astroffiseg yn Aberystwyth yn ymgorffori pynciau cyfredol ym maes seryddiaeth ynghyd â ffiseg sylfaenol er mwyn archwilio rhyngweithio egni a mater yn y bydysawd agos a phell.

Mae'r radd yn astudio meysydd sy'n cynnwys ffurfiant ac esblygiad cysawd yr haul, bydoedd cawr nwy a daearol, tu mewn ac arwynebau planedau, atmosfferau planedol, y gwynt solar, yr Haul fel seren, comedau, cewri coch, corachod gwyn, sêr niwtron, tyllau du, galaethau, cwasarau a chosmoleg.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- cysylltu eich prosiect blwyddyn olaf ag ymchwil gyfredol yn yr Adran mewn meysydd megis ffiseg y gofod a seryddiaeth
- cyfle i ddefnyddio cyfarpar seryddol arbenigol
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod.

**Cyflogadwyedd**

Bydd gradd mewn Astroffiseg yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd y gofod, ffisegwr, technegydd labordy gwyddonol, ymarferwr diogelu ymbelydredd, a gwyddonydd ymchwil. Gallai llwybrau gyrfa eraill gynnwys datblygwr systemau, gwyddonydd datblygu cynhyrchion, awdur technegol neu feteorolegydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra a Hafaliadau Differol
- Astronomy
- Calcwlws
- Dynameg, Tonnau a Gwres
- Trydan, Magneteg a Mater
- Further Algebra and Calculus
- Technegau Labordy ar gyfer Ffisegwyr Arbrofol a Pheirianwyr
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg.

**Yr ail flwyddyn:**

- Trydan a Magnetedd
- Ffiseg Mathemategol
- Numerical Techniques for Physicists
- Optics
- Sgiliau Ymchwil Ymarferol
- Principles of Quantum Mechanics
- Stars and Planets
- Thermodynamics.

**Y flwyddyn olaf:**

- Astrophysics I: Physics of the Sun
- Astrophysics II: Galaxies, General Relativity and Cosmology
- Concepts in Condensed Matter Physics
- Particles, Quanta and Fields
- Prosiect.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BSc - Pwyntiau tariff UCAS:** 120-112 gan gynnwys B Safon Uwch Ffiseg a Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Ffiseg a Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 60-40% gwaith cwrs a 40-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Gweithdai gyrfaoedd ar ddyddiau cwrdd i ffwrdd.

**Ar gael hefyd:**
**F511** Meistr Integredig.
**F512** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Ffiseg

44 % ar gael drwy'r Gymraeg

Cwrs achrededig: IOP Institute of Physics

## BSc (Anrh) | F300 | 3 blynedd

Mae dealltwriaeth o egwyddorion ffiseg yn sail i'n holl wyddoniaeth a thechnoleg fodern. Mae'n ymwneud â chymhwyso cysyniadau haniaethol a fynegir drwy fathemateg i fodelu a rhagweld ymddygiad systemau sy'n amrywio yn eu maint o'r is-atomig i'r galaethol. Mae Ffiseg yn Aberystwyth yn archwilio meysydd mor amrywiol â thechnoleg cwantwm, damcaniaeth perthnasedd a ffiseg cyflwr solet.

Bydd ein staff addysgu a arweinir gan ymchwil yn cyflwyno ichi wybodaeth arbenigol a sgiliau ymarferol, fydd yn cynnwys pynciau cyffrous fel technoleg cwantwm, perthnasedd, ffiseg cyfrifiannu, deunyddiau uwch, nano-wyddoniaeth, opteg, laserau ac offeryniaeth.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- yr opsiwn i ymgymryd â phrosiectau blwyddyn olaf yn gysylltiedig ag arbenigedd ymchwil ym maes ffiseg deunyddiau, cwantwm a'r gofod
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod.

**Cyflogadwyedd**
Mae graddedigion Ffiseg wedi'u paratoi'n dda ar gyfer amrywiaeth eang o ddewisiadau gyrfa. Mae rhai o'n graddedigion erbyn hyn yn dilyn gyrfaoedd mor amrywiol â meteoroleg, cyfrifeg, cyfrifiadura, geoffiseg, ffiseg feddygol, dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion, ac ymchwil mewn ffiseg deunyddiau a'r gwyddorau seryddol, gofodol a phlanedol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra a Hafaliadau Differol
- Calcwlws
- Dynameg, Tonnau a Gwres
- Trydan, Magneteg a Mater
- Further Algebra and Calculus
- Technegau Labordy ar gyfer Ffisegwyr Arbrofol a Pheirianwyr
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg.

**Yr ail flwyddyn:**

- Trydan a Magnetedd
- Ffiseg Mathemategol
- Numerical Techniques for Physicists
- Optics
- Sgiliau Ymchwil Ymarferol
- Principles of Quantum Mechanics
- Sensors, Electronics & Instrumentation
- Thermodynamics.

**Y flwyddyn olaf:**

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Materials Physics
- Modern Optics and Photonics
- Particles, Quanta and Fields
- Prosiect
- Semiconductor Technology.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BSc - Pwyntiau tariff UCAS:** 120-112 gan gynnwys B Safon Uwch Ffiseg a Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Ffiseg a Mathemateg ar Lefel Uwch .

**Pwyslais marcio:** 60-40% gwaith cwrs a 40-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Gweithdai gyrfaoedd ar ddyddiau cwrdd i ffwrdd.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| F304 | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| F301 | Blwyddyn sylfaen integredig. |
| F303 | Meistr Integredig. |
| F305 | Meistr Integredig gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant. |



# Ffiseg Beiriannol

39 % ar gael drwy'r Gymraeg

Cwrs achrededig: IOP Institute of Physics

## BEng (Anrh) | 179H | 3 blynedd

Mae Ffiseg Beiriannol yn canolbwyntio ar gymhwyso egwyddorion a thechnegau ffisegol i beirianneg a thechnoleg - dau ddiwydiant heriol. Yn Aberystwyth, rydym yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau ym maes hyfforddiant ffiseg sy'n angenrheidiol ar gyfer defnyddio peirianneg i ganfod atebion mewn sefyllfaoedd go iawn.

Ceir elfen ymarferol TG gref yn y cwrs hwn ynghyd â chyfle i sicrhau arbenigedd mewn pynciau arbenigol fel micro- a nano-electroneg, ffotoneg gymwysedig, dylunio a chynhyrchu deunyddiau, technoleg cwantwm, roboteg, ynni solar ac offerynnau gofodol. Gyda'r cyfle i dreulio blwyddyn mewn diwydiant rydym yn hyderus y gall ein dulliau dysgu arloesol a'r cyfleoedd a ddarparwn eich paratoi ar gyfer dyfodol llewyrchus.

Mae'r radd Meistr Integredig MEng (168F) yn cynnwys lleoliad diwydiannol integredig a blwyddyn ychwanegol o astudio lle byddwch yn ennill hyfforddiant proffesiynol a sgiliau ymchwil.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd a achredir gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- yr opsiwn i wneud blwyddyn mewn cyflogaeth i ddatblygu'ch profiad ymarferol o gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf
- defnyddio cyfleusterau arbenigol gan gynnwys gweithdai mecanyddol, electroneg a roboteg, gwneuthuriad a nodweddu deunyddiau
- defnyddio offerynnau optegol a gofodol a thirwedd blanedol
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod, a chreu deunyddiau dimensiwn isel (ee graffin).

**Cyflogadwyedd**
Bydd gradd mewn Ffiseg Beiriannol yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel peiriannydd neu wyddonydd mewn meysydd fel ymchwil a datblygu diwydiannol, datblygu cynnyrch a labordai ymchwil cenedlaethol. Mae'r sectorau cyflogaeth yn cynnwys ynni, ffotoneg, y gofod, TG, iechyd ac addysg.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra a Hafaliadau Differol
- Calcwlws
- Communication and Technology
- Dynameg, Tonnau a Gwres
- Trydan, Magneteg a Mater
- Further Algebra and Calculus
- Technegau Labordy ar gyfer Ffisegwyr Arbrofol a Pheirianwyr
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg.

**Yr ail flwyddyn:**

- Trydan a Magnetedd
- Ffiseg Mathemategol
- Numerical Techniques for Physicists
- Optics
- Sgiliau Ymchwil Ymarferol
- Principles of Quantum Mechanics
- Sensors, Electronics & Instrumentation
- Thermodynamics.

**Y flwyddyn olaf:**

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Engineering Control Theory
- Particles, Quanta and Fields
- Professional Skills in Engineering
- Prosiect gyda Rheoli Prosiect
- Semiconductor Technology
- Systems Engineering.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BEng - Pwyntiau tariff UCAS:** 120-112 gan gynnwys B Safon Uwch Ffiseg a Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Ffiseg a Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 60-40% gwaith cwrs a 40-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Gweithdai gyrfaoedd ar ddyddiau cwrdd i ffwrdd.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| 179G | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| 168F | Meistr Integredig gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant. |

# Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol

59% ar gael drwy'r Gymraeg

Cwrs achrededig: Institute of mathematics & its applications

Cwrs cydnabyddedig: IOP Institute of Physics

## BSc (Anrh) | F340 | 3 blynedd

Mae Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol yn archwilio'r rhannau mwy damcaniaethol o ffiseg gan ddarparu sylfaen gadarn mewn mathemateg. Yn Aberystwyth, byddwch yn astudio amrywiaeth eang o themâu gan gynnwys algebra haniaethol a llinol, calcwlws, hafaliadau differol, mecaneg cwantwm, dynameg a ffiseg thermol.

Mae'r cyfuniad hwn o fathemateg a ffiseg yn cysylltu â sawl maes diddordeb ac yn adlewyrchu arbenigedd ymchwil mewn mathemateg uwch, rheoli cwantwm, ffiseg solar a ffiseg mater cyddwys.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd a gydnabyddir gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- ymuno â dwy adran sydd â dros 140 o flynyddoedd o brofiad fel addysgwyr o'r radd flaenaf
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil ac ar flaen y gad yn eu meysydd penodol, fel y gallwch fod yn hyderus y cewch brofiad dysgu wedi'i lywio gan y wybodaeth arbenigol ddiweddaraf o ran modelu a thechneg.

**Cyflogadwyedd**

Mae graddedigion Mathemateg a Ffiseg yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr oherwydd eu sgiliau rhifedd a datrys problemau. Mae'r radd Meistr Integredig bedair blynedd (MMath) hefyd yn cynnig sgiliau ymchwil. Mae cyfleoedd gyrfaol yn cynnwys peirianneg, ysgrifennu gwyddonol a chyhoeddi, dadansoddi risg, ymchwil gweithredol, ymgynghori ar fusnes, ffiseg feddygol, meteoroleg, cyfrifeg a chyllid.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra
- Calcwlws
- Geometreg Gyfesurynnol a Fectoraidd
- Hafaliadau Differol
- Dynameg, Tonnau a Gwres
- Further Algebra and Calculus
- Dadansoddi Mathemategol
- Modern Physics
- Tebygoleg
- Ystadegaeth.

**Yr ail flwyddyn:**

- Dadansoddiad Cymhlyg
- Distributions and Estimation
- Trydan a Magneted
- Introduction to Abstract Algebra
- Linear Algebra
- Ffiseg Mathemategol
- Principles of Quantum Mechanics
- Dadansoddiad Real
- Thermodynamics.

**Y flwyddyn olaf:**

- Particles, Quanta and Fields
- Group Theory
- Normau a Hafaliadau Differol
- Hafaliadau Differol Rhannol
- Probability and Stochastic Processes.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BSc - Pwyntiau tariff UCAS:** 120-112 gan gynnwys B Safon Uwch Ffiseg a Mathemateg
**BR:** 38-28 gyda 5 pwynt mewn Ffiseg a Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 60-40% gwaith cwrs a 40-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Gweithdai gyrfaoedd ar ddyddiau cwrdd i ffwrdd.

**Ar gael hefyd:**
**F341** Meistr Integredig.



# Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod

44% ar gael drwy'r Gymraeg

Cwrs achrededig: IOP Institute of Physics

## BSc (Anrh) | F364 | 3 blynedd

Mae gradd Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod yn Aberystwyth yn cynnig ffiseg ynghyd ag archwiliad manwl o ffiseg cysawd yr haul. Mae'r cwrs Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod ymhlith cyrsiau ffiseg y gofod mwyaf cydnabyddedig y DU. Cewch eich addysgu gan arbenigwyr yn y maes a chyfle i ddefnyddio offer astronomegol arbenigol.

Cewch astudio esblygiad cysawd yr haul, y tu mewn i blanedau a'u harwynebau, yr haul fel seren, comedau, a chewri coch. Byddwch hefyd yn dysgu am fecaneg cwantwm, ffiseg thermol, a ffiseg atmosfferig.

Byddwch yn elwa o:

- y cyfle i gysylltu eich prosiect blwyddyn olaf â phrosiect ymchwil gyfredol ar ffiseg cysawd yr haul
- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod
- y posibilrwydd y cewch dreulio semester yn astudio yn y Cylch Arctig ar ynys Svalbard.

**Cyflogadwyedd**

Bydd gradd mewn Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd y gofod, ffisegydd, technegydd labordy gwyddonol, ymarferwr diogelu ymbelydredd a gwyddonydd ymchwil. Gallai llwybrau gyrfa eraill gynnwys datblygwr systemau, gwyddonydd datblygu cynhyrchion, awdur technegol neu feteorolegydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra a Hafaliadau Differol
- Calcwlws
- Dynameg, Tonnau a Gwres
- Trydan, Magneteg a Mater
- Further Algebra and Calculus
- Technegau Labordy ar gyfer Ffisegwyr Arbrofol a Pheirianwyr
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg.

**Yr ail flwyddyn:**

- Trydan a Magneted
- Ffiseg Mathemategol
- Numerical Techniques for Physicists
- Optics
- Sgiliau Ymchwil Ymarferol
- Principles of Quantum Mechanics
- Stars and Planets
- Thermodynamics.

**Y flwyddyn olaf:**

- Astrophysics I: Physics of the Sun
- Concepts in Condensed Matter Physics
- Particles, Quanta and Fields
- Physics of Planetary Atmospheres
- Prosiect.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BSc - Pwyntiau tariff UCAS:** 120-112 gan gynnwys B Safon Uwch Ffiseg a Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Ffiseg a Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 60-40% gwaith cwrs a 40-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Gweithdai gyrfaoedd ar ddyddiau cwrdd i ffwrdd.

**Ar gael hefyd:**
**F366** Meistr Integredig.

# Gwyddor y Gofod a Roboteg

33% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | FH56 | 3 blynedd

Bydd y cynllun gradd unigryw hwn yn eich dysgu am sylfeini archwilio'r gofod ac yn rhoi ichi'r sgiliau i gwrdd â gofynion a heriau'r diwydiant hwnnw. Bydd y radd hon yn cyfuno arbenigedd yr Adran Ffiseg ym maes cysawd yr Haul a ffiseg y gofod ag arbenigedd yr Adran Gyfrifiadureg ym maes roboteg y gofod a deallusrwydd artiffisial. Byddwch yn ystyried heriau defnyddio robotiaid i archwilio cysawd yr Haul ynghyd â'r modd y gellir mynd i'r afael â'r heriau hynny.

Wrth ichi ddysgu am sylfeini archwilio'r gofod gan arbenigwyr yn y maes hwnnw, byddwch yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen i fodloni gofynion a heriau'r diwydiant gofod, ynghyd â chynllunio a datblygu teithiau Astroffiseg a Ffiseg y Gofod yn y dyfodol.

Byddwch yn elwa o:

- astudio'r unig radd o'i fath yn y DU
- cael y cyfle i ymgymryd â phrosiect sy'n gysylltiedig ag ymchwil gyfredol ym maes ffiseg y gofod neu roboteg
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod.

**Cyflogadwyedd**
Mae nifer o'n graddedigion wedi mynd ymlaen i arbenigo ym maes roboteg y gofod neu faes cysylltiedig fel astroffiseg neu roboteg. Mae gyrfaoedd posibl eraill ar gyfer graddedigion y cynllun gradd hwn yn cynnwys datblygu meddalwedd a systemau, rhaglennu cyfrifiadurol, peirianneg neu ddysgu.

**Cwrs cydnabyddedig:**
IOP Institute of Physics

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Raglennu
- Rhaglennu gan ddefnyddio Iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol
- Algebra a Hafaliadau Differol
- Calcwlws
- Dynameg, Tonnau a Gwres
- Trydan, Magneteg a Mater
- Technegau Labordy ar gyfer Ffiseg Arbrofol

**Yr ail flwyddyn:**

- C and C++
- Sgiliau Ymchwil Ymarferol
- Robotics and Embedded Systems
- Python Gwyddonol
- Sensors, Electronics & Instrumentation
- Stars and Planets.

**Y flwyddyn olaf:**

- Physics of Planetary Atmospheres
- Professional Skills in Engineering
- Agile Development and Testing
- Computer Vision
- Fundamentals of Machine Learning
- Robotic Applications
- Space Robotics.


## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BSc - Pwyntiau tariff UCAS:** 120-112 gan gynnwys B Safon Uwch Ffiseg a Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Mathemateg a Ffiseg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 60-40% gwaith cwrs a 40-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Gweithdai gyrfaoedd ar ddyddiau cwrdd i ffwrdd.





# Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Cysylltiadau Rhyngwladol | t.115 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol | t.116 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid Hinsawdd | t.118 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Cyfryngau | t.119 |
| Gwleidyddiaeth | t.120 |
| Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol | t.121 |
| Strategaeth, Cudd-wybodaeth a Diogelwch | t.122 |
| Graddau Cyfun | t.123 |





**Yn y 5 uchaf yn y DU**

am Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Gwleidyddiaeth

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Cysylltiadau Rhyngwladol

78% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | 552L | 3 blynedd

Mae gwleidyddiaeth ryngwladol yn cychwyn ar gyfnod cythryblus a diddorol. Mae'r drefn fyd-eang yn cael ei hail-lunio wrth i achosion newydd ymddangos, megis newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â gweithredwyr newydd, yn enwedig o'r De Byd-eang, yn herio'r strwythurau pŵer sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Wrth astudio Cysylltiadau Rhyngwladol yn Aberystwyth, byddwch yn cymryd rhan mewn dadleuon am brif bynciau a heriau mwyaf arwyddocaol gwleidyddiaeth ryngwladol yn yr 21ain ganrif. Byddwch yn astudio'r cysyniadau, yr arferion a'r hanes sy'n ganolog i wleidyddiaeth ryngwladol, ac yn edrych ar sut mae'r holl ffactorau hyn yn cael eu trawsnewid yn radical.

Byddwch yn elwa o:

- astudio o fewn yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf i'w sefydlu yn y byd yn 1919
- ystod eang o fodiwlau dewisol i'ch galluogi i archwilio agweddau amrywiol yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol
- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, e.e. cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Y Tu Ôl i'r Penawdau.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- International Politics and the Nuclear Age
- Justice Order and Human Rights
- Economic Diplomacy and Leadership
- Fear, Cooperation and Trust in World Politics
- The Middle East in the 20th Century
- The Making of National Security Policy
- Trade Wars and the Liberal Order
- Women and Global Development
- Climate Change and International Politics in the Anthropocene
- Race in Global Politics
- Capitalism and International Politics.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| 142L | Cwrs cyfrwng Saesneg. |
| 642L | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| 242L | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| F42L | Blwyddyn sylfaen integredig. |

# Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | H2VL | 3 blynedd

Ar y cwrs gradd Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol byddwch yn astudio sut y mae rhyfela wedi datblygu ers cyfnod Napoleon, gan adlewyrchu newidiadau cymdeithasol a thechnolegol mawr. Byddwch yn ystyried sut a pham y mae natur rhyfel wedi newid dros y canrifoedd a hefyd sut y mae datblygiadau technolegol mawr wedi cael dylanwad, o dechnoleg ager i dechnoleg niwclear neu raglenni cyfrifiadurol cyfoes.

Bydd y cwrs gradd Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol yn rhoi ichi'r cyfle i gyfrannu at drafodaethau allweddol ynglŷn â rhyfel a'i effaith ar bobl gyffredin, yn ogystal â'r amrywiaeth o ffyrdd y mae ysgolheigion yn dehongli hanes milwrol. Byddwch yn dysgu sut i ddadansoddi byddinoedd a gweithrediadau milwrol o safbwyntiau amrywiol, ac yn adfyfyrio ar berthynas rhyfeloedd a byddinoedd â sefydliadau gwleidyddol, materion economaidd ac ideolegau fel cenedlaetholdeb.

Byddwch yn elwa o:

- gymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, e.e. cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- The Making of the Modern World: War, Peace and Revolution since 1789.

**Yr ail flwyddyn:**

- Warfare after Waterloo: Military History 1815-1918.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- Arab-Israeli Wars
- A Century of Conflict: Global Warfare from 1918-2018
- Military History Campaign Study
- War Crimes
- The British Army's Image in Battle, from the Crimea to the Present
- The Second World War in Europe.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40% gwaith cwrs a 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.





# Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid Hinsawdd

76% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | 27LF | 3 blynedd

Newid hinsawdd yw'r her fwyaf sylweddol a chymhleth sy'n wynebu ein systemau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. Mae gwleidyddiaeth ryngwladol yn allweddol i ddeall y cymhlethdod hwn ac i wynebu'r argyfwng byd-eang.

Trwy astudio'r cynllun gradd hwn byddwch yn cael cyflwyniad amlddisgyblaethol i wleidyddiaeth newid hinsawdd, gan ystyried y ffyrdd y mae gwladwriaethau a chymdeithasau yn ymrafael i reoli adnoddau a systemau ecolegol y ddaear. Cewch hefyd gyfle, trwy gyfrwng efelychiadau, i astudio'r prosesau trafod a phenderfynu cymhleth sy'n rhan o lywodraethiant rhyngwladol newid hinsawdd heddiw.

Byddwch yn elwa o:

- gymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, e.e. cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Globaleiddio a Datblygiad Byd-eang
- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- The Science of Climate.

**Yr ail flwyddyn:**
- Llywodraethiant Newid Hinsawdd: Modiwl Efelychiad
- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- Climate Change and International Politics in the Anthropocene
- People, Progress, Environment: Theories and Histories of Environmental Politics
- Refugee Simulation
- International Politics and Global Development
- Global Inequality and World Politics
- Contemporary Security: Theories and Threats.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Cyfryngau

99% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | 3P2L | 3 blynedd

Rydym yn byw mewn cyfnod o newid gwleidyddol eithriadol, a hynny ar sawl lefel. Yng Nghymru, parhau mae'r trafod ynglŷn â natur y setliad datganoli a'i oblygiadau ar gyfer polisi, gweinyddiaeth gyhoeddus a lefelau trethiant. Ar yr un pryd, mae gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig yn newid bron yn ddyddiol. Ar y llwyfan rhyngwladol, mae galw am ymateb i ystod o heriau gwleidyddol byd-eang megis newid hinsawdd a thwf grymoedd newydd.

Bydd y cwrs gradd arloesol hwn yn caniatáu i fyfyrwyr ddadansoddi datblygiadau gwleidyddol cyfoes tra hefyd yn magu dealltwriaeth o faes allweddol y cyfryngau.

Byddwch yn elwa o:

- ddatblygu sgiliau dadansoddi a chyfathrebu arbenigol a fydd yn caniatáu ichi drin a thrafod pynciau gwleidyddol a chymdeithasol cyfoes mewn modd hyderus, yn Gymraeg a Saesneg
- meithrin dealltwriaeth o ddamcaniaethau a chysyniadau gwleidyddol, cymdeithasegol, seicolegol a ieithyddol allweddol
- manteisio ar adnoddau astudio heb eu hail, gan gynnwys yr adnoddau technegol mwyaf diweddar ym maes y cyfryngau
- elwa o brofiad tîm helaeth o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg sydd oll yn arbenigwyr yn eu meysydd ymchwil a dysgu.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, e.e. cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Tu ôl i'r Penawdau
- Astudio Ffilm a Chyfryngau
- Gweithdy Cynhyrchu Cyfryngau
- Prosiect Cynhyrchu Cyfryngau.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau
- Genrau Teledu neu Iaith a Chyfryngau
- Dogfen Greadigol.

**Y flwyddyn olaf:**
- Iaith a Chyfryngau neu Genrau Teledu.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- Damcaniaethau Gwleidyddiaeth
- Cenedlaetholdeb mewn Theori a Realiti
- Gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig Heddiw: Undeb dan Straen?
- Dulliau Ymchwil a Thraethawd Estynedig
- Datblygu Gyrfa a Lleoliad Gwaith
- Sgiliau Sgriptio
- Ffilm a Chyfryngau Cymru
- Ymarfer Creadigol Annibynnol
- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Ysgrifennu Sgript.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

# Gwleidyddiaeth

86% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | L203 | 3 blynedd

Bydd astudio Gwleidyddiaeth yn Aberystwyth yn datblygu eich dealltwriaeth o gyfundrefnau a systemau gwleidyddol, actorion gwleidyddol a llywodraethau, a phrosesau i lunio penderfyniadau gwleidyddol. Cewch hefyd y cyfle i ddysgu am syniadau gwleidyddol allweddol a sut mae'r rhain yn cael eu herio a'u cwestiynu mewn gwleidyddiaeth gyfoes: grym, democratiaeth, rhyddid, anghydraddoldeb, hawliau, dinasyddiaeth, cynrychiolaeth a chyfreithlondeb.

Bydd modiwlau'n trafod dadleuon gwleidyddol cyfoes megis dyfodol y DU wedi Brexit, heriau mudo modern, twf cenedlaetholdeb poblog a dyfodol democratiaeth. Ar yr un pryd, mae cryn bwyslais ar astudio gwleidyddiaeth o bersbectif cymharol. Bydd cyfle ichi ddatblygu eich dealltwriaeth o wleidyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, Ewrop, Gogledd America, America Ladin, Rwsia ac Asia.

Byddwch yn elwa o:

- astudio o fewn yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf i'w sefydlu yn y byd yn 1919
- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, e.e. cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Gwleidyddiaeth yn yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**Yr ail flwyddyn:**
- Pobl a Grym: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Gwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig Heddiw: Undeb Dan Straen?
- Cenedlaetholdeb mewn Theori a Realiti
- Gender and Sexuality in the Americas
- Politics in Russia
- Damcaniaeth Wleidyddol.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

78% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | L248 | 3 blynedd

Ar y cwrs hwn, byddwch yn archwilio tirwedd wleidyddol y gorffennol a'r presennol, gan ddysgu am y cysyniadau allweddol megis pŵer, democratiaeth, rhyddid, anghydraddoldeb, hawliau, dinasyddiaeth, cynrychiolaeth a chyfreithlondeb, a sut y caiff rhain eu herio yn y byd gwleidyddol cyfoes.

Bydd y radd mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol yn Aberystwyth yn ymchwilio i wahanol systemau gwleidyddol a sefydliadau byd-eang. Byddwch yn dysgu am y grymoedd sy'n gyrru newidiadau gwleidyddol, economaidd a diwylliannol-gymdeithasol ledled y byd, ac yn archwilio'r heriau sy'n wynebu'r system ryngwladol megis globaleiddio, diogelwch rhyngwladol, yr amgylchedd, anghydraddoldeb, iechyd byd-eang, gwrthdaro a rhyfela.

Drwy gydol y cwrs, byddwch yn trafod gwahanol ddadleuon, damcaniaethau ac esboniadau amgen ac yn datblygu sgiliau dadansoddol sydd mor bwysig yn y farchnad waith.

Byddwch yn elwa o:

- astudio o fewn yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf i'w sefydlu yn y byd yn 1919
- cymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio yn ein holl gyrsiau. Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau. Mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy mewn economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, sy'n sicrhau bod galw mawr amdanynt. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith yn: y sector datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Gwasanaeth Sifil; ymchwil y Llywodraeth; ymchwil gymdeithasol; y Trydydd Sector, e.e. cyrff anllywodraethol; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol I: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Gwleidyddiaeth yn yr Unfed Ganrif ar Hugain
- Y Tu Ôl i'r Penawdau.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cysylltiadau Rhyngwladol: Safbwyntiau a Thrafodaethau
- Pobl a Grym: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- War, Strategy and Intelligence
- The Making of the Modern World: War, Peace and Revolution since 1789
- A War on the Mind: Propaganda and Secret Intelligence From the Great War to the 21st Century
- Globaleiddio a Datblygiad Byd-eang
- Trade Wars and the Liberal Order
- Justice, Order, Human Rights
- The Second World War in Europe
- Nationalism in Theory and Practice *.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

# Strategaeth, Cudd-wybodaeth a Diogelwch

80% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | L252 | 3 blynedd

Mewn byd sy'n gynyddol ryng-gysylltiedig a chymhleth, mae gweithredwyr rhyngwladol yn wynebu ystod o heriau diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys gwrthdaro o fewn a rhwng gwladwriaethau, terfysgaeth fyd-eang, bygythiadau seiber, ymlediad arfau niwclear, pandemigau iechyd byd-eang, troseddu traws-wladol, dadleoli poblogaeth, trychinebau naturiol a newid hinsawdd. Bydd y radd hon yn ymwneud â syniadau o feysydd astudiaethau strategol, cudd-wybodaeth a diogelwch er mwyn deall a dadansoddi'r heriau hyn o wahanol bersbectifau, ac ymchwilio i ymatebion dyfeisgar a holistaidd.

Byddwch yn ymchwilio i gymhlethdod casglu ac asesu cudd-wybodaeth cyn ei rhannu ymysg llunwyr penderfyniadau. Byddwch yn ystyried sut mae'r broses hon a'i chynnyrch yn dylanwadu ar ymatebion i fygythiadau diogelwch. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i werthuso pwysigrwydd gwybodaeth, cyfrinachedd a gwyliadwraeth ('surveillance') wrth ystyried y goblygiadau moesegol a deddfwriaethol sy'n deillio o ymwneud â gweithgareddau cudd-wybodaeth drwy astudiaethau achos hanesyddol.

Byddwch yn elwa o:

- gymryd rhan yn ein 'Gemau Argyfwng' enwog - ymarferion chwarae rôl dros dri diwrnod sy'n ymdrin ag ymarferion gwleidyddol, economaidd a diplomyddol a fydd yn datblygu'ch sgiliau trafod a chyfathrebu, meddwl yn feirniadol, gweithio'n rhan o dîm, a datrys problemau
- cymryd rhan yn ein Cynllun Lleoliadau Seneddol, sy'n gyfle ichi ennill profiad hynod werthfawr ochr yn ochr ag Aelod Seneddol (Tŷ'r Cyffredin, San Steffan) neu Aelod o'r Senedd (Senedd Cymru, Caerdydd) am gyfnod o bedair i chwe wythnos yn ystod yr haf.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein graddau'n darparu sylfaen gadarn i amrywiaeth fawr o yrfaoedd ar draws ystod o sectorau, ac mae ein graddedigion yn hyblyg ac yn gallu dibynnu ar set o sgiliau trosglwyddadwy. Mae graddedigion y cwrs hwn wedi cael gwaith ym meysydd: datblygu; gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol; y Trydydd Sector; y Gwasanaeth Sifil; a newyddiaduraeth, ymhlith eraill.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- War Strategy and Intelligence.

**Yr ail flwyddyn:**
- Strategy, Intelligence and Security in International Politics.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio:

- NATO: from Cold War to Hybrid War
- The Making of National Security Policy
- European Security in the 21st Century
- Propaganda and Secret Intelligence
- Russian Intelligence from Lenin to Putin
- Terrorism and Counter-Terrorism.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Cysylltiadau Rhyngwladol | Almaeneg | RL22 |
| | Drama a Theatr | LW24 |
| | Economeg | LL12 |
| | Ffrangeg | LRF1 |
| | Hanes | LVF1 |
| | Sbaeneg | LRF4 |
| | Y Gyfraith | ML12 |
| Gwleidyddiaeth | Economeg | LL13 |



# Gwyddor Anifeiliaid a Gwyddor Ddyfrol

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Gwyddor Anifeiliaid a Gwyddor Ddyfrol

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Bioleg y Môr a Dŵr Croyw | t.125 |
| Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol | t.126 |
| Biowyddorau Milfeddygol | t.127 |
| Cadwraeth Bywyd Gwyllt | t.128 |
| Gwyddor Anifeiliaid | t.129 |
| Gwyddor Ceffylau | t.130 |
| Swoleg | t.132 |
| Ymddygiad Anifeiliaid | t.133 |




**Ar y brig yn y DU**

ym mhwnc Gwyddor Anifeiliaid ac Amaethyddiaeth

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)



# Bioleg y Môr a Dŵr Croyw

26% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C164 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth, ar arfordir Bae Ceredigion, yn un o'r lleoedd gorau oll i astudio Bioleg y Môr a Dŵr Croyw. Mae gan ein myfyrwyr fynediad rhwydd i draethau creigiog a thywodlyd, aberoedd sydd o bwys o ran cadwraeth, yn ogystal ag afonydd a llynnoedd pur. Ym Mae Ceredigion ceir hefyd y boblogaeth breswyl fwyaf o ddolffiniaid trwyn potel yn y DU!

Mae ein gradd Bioleg y Môr a Dŵr Croyw yn un o'r ychydig raddau yn y DU a fydd yn rhoi ichi ddealltwriaeth dalgylch-i'r-môr, o'r fioleg, yr ecoleg a'r heriau sy'n effeithio ar yr ecosystemau hyn, a'r cysylltiad agos rhyngddynt. Mae hyn yn hanfodol, o ystyried eu bod yn cefnogi rhai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf ar y blaned. Ar y cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol ym maes technegau samplo a ddefnyddir yn yr amgylchedd dyfrol, dadansoddi data a darllen llenyddiaeth yn feirniadol, a chyflwyno'r canfyddiadau i amrywiaeth o randdeiliaid. Bydd hyn yn sicrhau eich bod wedi'ch paratoi yn dda ar gyfer swyddi proffesiynol ym maes bioleg y môr a dŵr croyw.

Byddwch yn elwa o:

- gymryd rhan mewn cyrsiau maes preswyl, yn canolbwyntio naill ai ar fioleg forol neu ddŵr croyw
- mynd ar ddwy long ymchwil i ymarfer y technegau samplu a ddefnyddir gan fiolegwyr morol a dŵr croyw proffesiynol
- astudio systemau acwariwm ar gyfer organebau morol a dŵr croyw.

**Cyflogadwyedd**
Mae graddedigion Bioleg y Môr a Dŵr Croyw yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth sy'n eu galluogi i fynd i amrywiaeth eang o yrfaoedd gan gynnwys ymgynghori ecolegol, rheoli a chadwraeth amgylcheddol, addysgu a newyddiaduraeth wyddonol. Byddwch hefyd yn gwbl barod i ddilyn gyrfa ym maes ymchwil wyddonol, gan astudio cwrs Meistr neu ddoethuriaeth ar lefel uwchraddedig.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Comparative Animal Physiology
- Skills for Wildlife Scientists
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Bioleg Celloedd
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Aquatic Conservation
- Aquatic Botany
- Dulliau Ymchwil
- Freshwater Biology
- Marine Biology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Fish Biology, Fisheries and Aquaculture
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **C166** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **C16F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |
| **C169** | Meistr Integredig. |

# Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol

25% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | D334 | 3 blynedd

Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol yn Aberystwyth yw'r unig radd o'i fath yn y DU. Mae'n manteisio ar enw da Aberystwyth fel darparwr cyrsiau ceffylau hirsefydlog, ein cryfderau ymchwil ym maes afiechyd, maeth, atgenhedlu ac ymddygiad anifeiliaid, a'n cysylltiadau cydweithredol â milfeddygon Canolfan Gwyddor Filfeddygol Cymru.

Bydd y radd hon yn rhoi ichi sylfaen gadarn o safbwynt cysyniadau craidd meddygaeth filfeddygol, gan gynnwys imiwnoleg, prosesau afiechydon, a gwneud diagnosis a thrin afiechydon mewn amryw o rywogaethau. Byddwch yn plethu'r wybodaeth ddamcaniaethol â'r sgiliau ymarferol a fydd yn rhoi pwyslais penodol ar ffisioleg y ceffyl.

Byddwch yn elwa o:

- astudio gyda'r darparwr cyrsiau ceffylau hynaf yn y DU
- cyfleusterau rhagorol, gan gynnwys canolfan fawr i ddysgu am geffylau, arenâu dan do ac awyr agored, cerddwr ceffylau, corlan gron, pont bwyso, solariwm, stablau a stablau penodol i eni ebolion gyda chamerâu, mannau arddangos, labordai a llawer mwy
- astudio mewn canolfan addysgu wedi'i chymeradwyo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) lle gallwch astudio am gymwysterau BHS.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y cwrs Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol yn rhoi ichi sylfaen wyddonol helaeth a fydd yn eich paratoi ar gyfer ystod eang o gyfleoedd gyrfaol yn y diwydiant gwyddor anifeiliaid a cheffylau, lles, ymchwil a datblygu, gwaith ymgynghori a chymorth technegol, ac addysg yn y DU a thramor. Mae llawer o'n myfyrwyr sy'n astudio ar y cynllun hwn yn gobeithio mynd ymlaen i astudio meddygaeth filfeddygol ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Disease Diagnosis and Control
- Domestic Animal Anatomy and Physiology
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Biowyddonwyr Anifeiliaid, Ceffylau a Milfeddygol mewn Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau.

**Yr ail flwyddyn:**

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil
- Immunology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg.
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**D335** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Biowyddorau Milfeddygol

42% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | D906 | 3 blynedd

Mae ein gradd Biowyddorau Milfeddygol yn manteisio ar gryfder Aberystwyth yn y sector iechyd milfeddygol sydd wedi arwain at sefydlu Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth, sef yr unig Ysgol Filfeddygaeth yng Nghymru. Mae gennym gyfleusterau ar gyfer anifeiliaid mawr ar ein ffermydd masnachol a chanolfan ddysgu arbenigol ym maes ceffylau yn ogystal ag amrywiaeth o labordai i sicrhau eich bod yn ennill sgiliau ymarferol perthnasol.

Ar y radd hon byddwch yn cyfuno agweddau moleciwlaidd, cellol a ffisiolegol cyfoes er mwyn deall bioleg anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, ceffylau ac anifeiliaid gwyllt. Bydd eich safbwynt ar iechyd ac afiechyd milfeddygol yn seiliedig ar ymchwil a bydd yn cael ei integreiddio â dealltwriaeth o realiti gwaith milfeddygol. Ymhlith sgiliau lu, byddwch yn dysgu sut i gymhathu gwybodaeth o lenyddiaeth wyddonol, craffu ar ddata o safbwynt ansoddol a meintiol, ymateb i ddata newydd trwy ymchwiliadau labordy, a deall goblygiadau'r canfyddiadau ar gyfer maes milfeddygaeth.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich addysgu gan lawfeddygon milfeddygol ac ymchwilwyr milfeddygol o safon fyd-eang
- profiad ymarferol o drin anifeiliaid yn ein canolfan geffylau a'n ffermydd, gyda'r technegau gwyddonol diweddaraf a ddysgir yn ein labordai modern
- cyfleoedd i symud ymlaen i nifer o yrfaoedd milfeddygol gan gynnwys rhaglenni gradd gwyddor filfeddygol ar ôl cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus.

**Cyflogadwyedd**

Er na fydd y radd Biowyddorau Milfeddygol yn golygu eich bod yn gymwys i weithio fel milfeddyg, bydd ein graddedigion wedi cael sylfaen dda er mwyn gweithio yn y sector iechyd anifeiliaid a byddwch wedi'ch ysbrydoli i ymdrin â heriau'r dyfodol, megis esblygiad pathogenau sy'n gwrthsefyll cyffuriau, effeithiau ffermio mwy dwys, a gofalu am anifeiliaid anwes sy'n heneiddio. Mae ein graddedigion mewn sefyllfa dda i weithio mewn meysydd megis ymchwil filfeddygol, labordai diagnostig milfeddygol, y Gwasanaeth Sifil, eiriolaeth elusennol, ac addysgu, yn ogystal ag ymchwil yn y diwydiannau fferyllol ac amaethyddol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Disease Diagnosis and Control
- Domestic Animal Anatomy and Physiology
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Biowyddonwyr Anifeiliaid, Ceffylau a Milfeddygol mewn Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau.

**Yr ail flwyddyn:**

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil
- Immunology
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu dewis er mwyn datblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**D907** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.

# Cadwraeth Bywyd Gwyllt

32% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | C183 | 3 blynedd

Diben ein gradd Cadwraeth Bywyd Gwyllt yw rhoi ichi ddealltwriaeth fanwl o'r cysyniadau ecolegol sy'n sail i warchod fflora, ffawna a chynefinoedd, ar raddfa leol a byd-eang. Mae'r tîm addysgu yn cynnwys staff academaidd sy'n ymchwilio i faterion cadwraeth er mwyn llywio gwaith rheoli a llunio polisïau. Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd difyr a phwysig a geir yn Aberystwyth yn creu ystafell ddosbarth naturiol ddelfrydol ar gyfer dysgu sgiliau ymarferol.

Trwy astudio Cadwraeth Bywyd Gwyllt byddwch yn dysgu am y prosesau ecolegol ac esblygiadol sydd wedi siapio cynefinoedd allweddol, a'r rhyngweithio rhwng y cynefinoedd hyn a'r bywyd gwyllt y maent yn ei gefnogi. Byddwch hefyd yn archwilio'r grymoedd gwleidyddol, ariannol a chymdeithasol sy'n sail i warchod bywyd gwyllt a rheoli'r amgylchedd. Gyda'r sylfaen hon, byddwch yn deall pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth ar ystod o raddfeydd, o fioamrywiaeth genetig i fiomau cyfan, a byddwch yn datblygu'r wybodaeth academaidd a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i allu cyfrannu at y blaenoriaethau hyn yn eich gyrfa broffesiynol.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o gynefinoedd lleol, a mynediad i Barciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig – lleoliad delfrydol ar gyfer astudio holl agweddau gwarchod bywyd gwyllt a rheoli cynefinoedd
- cysylltiadau uniongyrchol â chyrff cadwraeth llywodraethol ac anllywodraethol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r RSPB, trwy ymweliadau a seminarau
- y cyfle i gynnal ymchwil maes, yn lleol a thramor
- staff addysgu arbenigol sy'n gweithio'n agos gyda chyrff cadwraethol i gynghori ynghylch arferion gorau ym meysydd cadwraeth, rheoli a pholisi, yn lleol ac ar raddfa fyd-eang.

**Cyflogadwyedd**
Bydd graddedigion y radd hon yn gymwys i ddilyn gyrfa mewn bioleg a rheoli cadwraethol, yn y DU a thramor. Hefyd, gall myfyrwyr ddewis dilyn gyrfaoedd mewn meysydd cysylltiedig megis addysg amgylcheddol, neu wneud ymchwil uwchraddedig ar lefel Meistr neu PhD.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Climate and Climate Change
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Interdisciplinary Approaches to Climate Change
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Gwyddonwyr Bywyd Gwyllt.

**Yr ail flwyddyn:**
- An Introduction to Landscape Ecology and Geographic Information Systems
- Dulliau Ymchwil
- Wildlife Management.

**Y flwyddyn olaf:**
- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil
- Wildlife Conservation.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Tropical Zoology Field Course
- Ecological Surveying
- Terrestrial Ecology Field Course.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-120 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
C184 Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Gwyddor Anifeiliaid

47% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | D306 | 3 blynedd

Ar ein gradd Gwyddor Anifeiliaid, byddwch yn astudio'r wyddoniaeth gymhwysol sy'n ymwneud ag anifeiliaid dof, gan gynnwys anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes. Mae gennym gyfleusterau rhagorol i gefnogi eich astudiaethau, gan gynnwys ffermydd prifysgol sy'n cael eu rhedeg ar sail fasnachol, canolfan geffylau ar gyfer dysgu, ac amrywiaeth o labordai dysgu ac ymchwil.

Yn ystod eich astudiaethau byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r fioleg allweddol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid dof, gan gynnwys anatomi, ffisioleg, maeth, gwneud diagnosis o afiechydon, ac ymddygiad. Byddwch hefyd yn gallu datblygu diddordeb penodol mewn gwyddor da byw, gwyddor ceffylau, neu wyddor ymddygiadol, trwy ddewis un o dri llwybr y radd. Bydd gan eich dealltwriaeth academaidd sylfaen gref yng nghyd-destun ymarferol a chymwysedig gwyddor anifeiliaid, a chaiff ei datblygu ymhellach gan ddarlithwyr gwadd o wahanol feysydd o'r diwydiant gwyddor anifeiliaid.

Byddwch yn elwa o:

- gael yr opsiwn i dreulio Blwyddyn mewn Diwydiant (D307), sy'n gyfle i ddatblygu sgiliau allweddol er mwyn gweithio yn y sector Gwyddor Anifeiliaid
- y gallu i arbenigo yn y llwybrau Ceffylau, Ymddygiadol, neu Dda Byw
- y cyfle i ddysgu trwy gyfuniad o ddosbarthiadau ymarferol, teithiau maes, dosbarthiadau tiwtorial mewn grwpiau bach, a darlithoedd rhyngweithiol, a fydd yn rhoi gafael gadarn i chi ar y pwnc.

**Cyflogadwyedd**
Bydd graddedigion y cwrs hwn yn gymwys i fynd ymlaen i swyddi proffesiynol yn ymwneud â chymhwyso ymchwil wyddonol mewn sefydliadau preifat a chyhoeddus, mewn gwasanaethau cynghori ac ymgynghori, neu ym maes gorfodi deddfwriaeth lles, yn ogystal â'r diwydiannau porthiant anifeiliaid, bridio anifeiliaid, a fferyllol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Bioleg Celloedd
- Disease Diagnosis and Control
- Domestic Animal Anatomy and Physiology
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Biowyddonwyr Anifeiliaid, Ceffylau a Milfeddygol mewn Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw.

**Yr ail flwyddyn:**
- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil
- Immunology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**
- Prosiect Ymchwil
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
D307 Blwyddyn integredig mewn diwydiant.

# Gwyddor Ceffylau

25 % ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | D322 | 3 blynedd

Yn Aberystwyth mae gennym ganolfan neilltuol ar gyfer addysgu ym maes ceffylau gydag amrywiaeth ardderchog o gyfleusterau ymarferol. Mae gan ein tîm addysgu ddiddordebau arbenigol ym maes ceffylau gan gynnwys atgenhedlu, ymddygiad a busnes. Hefyd mae gan Adran y Gwyddorau Bywyd gryfderau ymchwil mewn gwyddor anifeiliaid yn fwy eang, felly rydym mewn sefyllfa dda i roi hyfforddiant gwyddonol trylwyr sy'n canolbwyntio ar geffylau.

Bydd ein gradd Gwyddor Ceffylau yn rhoi ichi sylfaen gadarn yn y gwyddorau biolegol, ynghyd ag arbenigedd mewn gwyddor ceffylau. Bydd hyn yn cynnwys astudio pynciau fel ffisioleg, geneteg a metabolaeth, anatomi ceffylau, ffisioleg ymarfer ceffylau a'r diwydiant ceffylau, maeth, a ffisioleg atgenhedlu. Ar yr un pryd, bydd eich hyfforddiant gwyddonol yn cael ei ategu gan agweddau mwy cymhwysol, megis arferion rheoli ceffylau.

Byddwch yn elwa o:

- astudio gyda'r darparwr cyrsiau ceffylau hynaf yn y DU
- cyfleusterau rhagorol, gan gynnwys canolfan fawr i ddysgu am geffylau, arenâu dan do ac awyr agored, cerddwr ceffylau, corlan gron, pont bwyso, solariwm, stablau a stablau penodol i eni ebolion gyda chamerâu, mannau arddangos, labordai a llawer mwy
- astudio mewn canolfan addysgu wedi'i chymeradwyo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) lle gallwch astudio am gymwysterau BHS
- addysgu a dysgu gyda chefnogaeth ymchwilwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol.

**Cyflogadwyedd**
Bydd ein gradd Gwyddor Ceffylau yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth mewn gwyddor ceffylau ac anifeiliaid, ymchwil a datblygu, gwaith ymgynghori a chymorth technegol, rheoli menter ac addysg yn y DU a thramor.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Disease Diagnosis and Control
- Domestic Animal Anatomy and Physiology
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Biowyddonwyr Anifeiliaid, Ceffylau a Milfeddygol mewn Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau.

**Yr ail flwyddyn**

- Animal Breeding, Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil
- Equine and Human Exercise Physiology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Equine Grassland Management, Nutrition, and Development
- Equine Marketing and Small Business Management
- Equine Stud Management
- Prosiect Ymchwil.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**D323** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.





# Swoleg

26% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C300 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth yn lle rhagorol i astudio bywyd anifeiliaid yn ei holl amrywiaeth. Mae yma gyfoeth o arfordiroedd, aberoedd, coetiroedd a bryniau sy'n llawn bywyd gwyllt o fewn tafliad carreg i'r campws. Mae'r rhain yn cynnal pryfed prin, y barcud coch a'r frân goesgoch, ac mae Bae Ceredigion yn enwog am adar y môr, y morlo llwyd, y dolffin trwyn potel a'r llamhidydd harbwr.

Fel Swolegydd, byddwch yn datblygu gwybodaeth eang am amrywiaeth esblygiad, anatomeg, ffisioleg, ymddygiad, ecoleg a chadwraeth anifeiliaid. Byddwch yn meithrin sgiliau ardderchog yn y maes ac yn y labordy a bydd gennych ddewis i ymchwilio i fywyd anifeiliaid ymhellach i ffwrdd drwy gwrs maes preswyl. Gan ddibynnu ar y modiwlau a ddewisir, mae'n bosibl y byddwch yn astudio swoleg amgylcheddau coedwigoedd glaw trofannol tra-amrywiol.

Byddwch yn elwa o:

- y technegau sŵolegol diweddaraf gan gynnwys dadansoddiadau moleciwlaidd, dulliau microsgopeg flaengar ac asesiad bioamrywiaeth gyfoes
- gweithdai, sesiynau labordy a chyrsiau amrywiol yn y maes a fydd yn eich hyfforddi o safbwynt damcaniaethol ac ymarferol
- y cyfle i gymryd rhan mewn cyrsiau maes preswyl mewn gwledydd eraill - ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys teithiau i goedwigoedd glaw trofannol De America
- amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau yn ardal Aberystwyth sydd o bwys rhyngwladol
- mynediad i'n cyfleusterau ymchwil acwariwm i astudio anifeiliaid morol a dŵr croyw
- mynediad i'n hamgueddfa byd natur sy'n cynnwys sbesimenau sŵolegol a botanegol hanesyddol.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein graddedigion wedi dilyn llwybrau gyrfa gyffrous gydag amryw o gyflogwyr gan gynnwys sŵau, awdurdodau addysg, sefydliadau cadwraeth a lles anifeiliaid, gyda Chyngor Ymchwil Natur a'r Amgylchedd, yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol, ac fel cynhyrchwyr rhaglenni dogfen bywyd gwyllt. Mae eraill wedi dewis astudio ar lefel uwchraddedig neu mewn ysgol filfeddygaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Comparative Animal Physiology
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Gwyddonwyr Bywyd Gwyllt.

**Yr ail flwyddyn:**

- Dulliau Ymchwil
- Invertebrate Zoology
- Vertebrate Zoology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Prosiect Ymchwil.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio yn yr ail a'r drydedd flwyddyn i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Wildlife Conservation
- Marine Biology
- Parasitology
- Tropical Zoology Field Course.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
C302 Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
C301 Blwyddyn sylfaen integredig.
C309 Meistr Integredig.



# Ymddygiad Anifeiliaid

24% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C120 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth yn lle gwych i archwilio ymddygiad anifeiliaid gwyllt a dof. Mae cynefinoedd hygyrch gerllaw yn ein galluogi i arsylwi ar ystod amrywiol o rywogaethau anifeiliaid gwyllt carismatig, tra bod rhywogaethau dof yn cael eu cadw ar ein ffermydd, yn ein canolfan geffylau ac yn ein cyfleusterau acwariwm. Mae llawer o'n staff addysgu yn ymchwilwyr gweithgar, yn ymchwilio ecoleg ac esblygiad ymddygiad neu'r mecanweithiau niwrobiolegol tu ôl i hyn.

Bydd ein gradd mewn Ymddygiad Anifeiliaid yn rhoi ichi wybodaeth fanwl am ymddygiad anifeiliaid. Byddwch yn datblygu'r sgiliau gwyddonol, arsylwadol a dadansoddol sydd eu hangen i ddeall y pwnc, a byddwch yn defnyddio'r sgiliau hynny mewn astudiaethau ymarferol o anifeiliaid fertebraidd ac infertebraidd mewn amrywiaeth o amgylcheddau naturiol a chaeth, a lleoliadau labordy. Bydd cael eich addysgu gan filfeddygon yn eich helpu i gymhwyso'ch dealltwriaeth o ymddygiad anifeiliaid i faes iechyd a lles anifeiliaid.

Byddwch yn elwa o:

- fynediad at gyfleusterau acwariwm ar gyfer astudio pysgod ac infertebratau dyfrol; coedwig sy'n cynnwys dros 200 o flychau nythu; a'n casgliad o sbesimenau biolegol hanesyddol
- ymweliadau i astudio anifeiliaid yn gaeth ac yn eu cynefin, e.e. aber afon Dyfi — sy'n safle pwysig i adar ymfudol yn y gaeaf
- cael y cyfle i gymryd rhan mewn cwrs maes preswyl saith diwrnod, i drwytho'ch hun mewn astudiaeth ymarferol o ymddygiad anifeiliaid
- ein haddysgu arloesol sy'n defnyddio technoleg i gyfoethogi'r dysgu gan rai sy'n weithgar ym maes ymchwil ac eraill sy'n filfeddygon.

**Cyflogadwyedd**
Fel myfyriwr graddedig mewn Ymddygiad Anifeiliaid, byddwch wedi'ch paratoi yn dda ar gyfer gyrfa lwyddiannus mewn addysg amgylcheddol, gwyddor ymchwil, cadwraeth, lles anifeiliaid, ac ymgyngoriaethau ecolegol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Comparative Animal Physiology
- Disease Diagnosis and Control
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Gwyddonwyr Bywyd Gwyllt.

**Yr ail flwyddyn:**

- Behavioural Ecology
- Dulliau Ymchwil
- Animal Behaviour
- Vertebrate Zoology
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**

- Advanced Animal Behaviour
- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
C122 Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
C12F Blwyddyn sylfaen integredig.

# Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

## Ein cyrsiau...

Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff t.135

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau



Roedd **93%** o'n myfyrwyr C600 Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff yn fodlon ag ansawdd y cwrs

(Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2022)



# Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

17% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

BASES (C600 yn unig)

## BSc (Anrh) | C600 | 3 blynedd

Ar y radd hon byddwch yn elwa yn sgil arbenigedd ein gwyddonwyr chwaraeon ac ymarfer corff, sydd wedi gweithio â nifer o sefydliadau, timau ac athletwyr unigol, gan gynnwys y rheini sydd wedi llwyddo ar lefel uchel. O dan eu harweiniad hwy, byddwch yn datblygu eich sgiliau ymarferol eich hun yn ein labordai penodol ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff.

Ar ein cwrs Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, byddwch yn datblygu dealltwriaeth wyddonol o'r modd y mae'r corff dynol yn symud, yn ymarfer ac yn perfformio chwaraeon, a gwerthfawrogiad o'r modd y gall gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff wella iechyd a gweithrediad y corff dynol, atal afiechyd ac anafiadau, neu wella perfformiad athletaidd. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau ymchwilio a dadansoddi data, sgiliau personol a sgiliau cyflogadwyedd a fydd yn rhoi ichi'r cyfle gorau i lwyddo yn eich gyrfa yn y dyfodol.

Byddwch yn elwa o:

- fynediad rhwydd at amrywiaeth eang o chwaraeon a chyfleusterau, gan gynnwys y rhai naturiol megis y llwybrau beicio mynydd uchel eu bri gerllaw yn Nant yr Arian, ein traethau a'n mynyddoedd rhagorol, ymhlith eraill
- defnyddio labordai o safon y diwydiant a achredwyd gan Gymdeithas Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff Prydain (BASES) yn Adeilad Carwyn James, adnodd pwrpasol gyda'r cyfleusterau diweddaraf ar gyfer dadansoddi perfformiad chwaraeon ac ymarfer corff mewn termau ffisiolegol, biomecanyddol a seicolegol.

**Cyflogadwyedd**

Mae rhai o'n cyn-fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i astudiaeth bellach a gyrfaoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu yn y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae eraill wedi mynd ymlaen i weithio fel gwyddonwyr chwaraeon ac ymarfer corff i glybiau chwaraeon proffesiynol (clybiau pêl-droed Bournemouth a Coventry City, clwb rygbi Scarlets Llanelli), ac mae nifer cynyddol yn sefydlu eu busnesau eu hunain.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Human Anatomy and Kinesiology
- Human Physiological Systems
- Psychology of Physical Activity and Health
- Research Designs to Assess and Monitor Clients
- Skills in Nutrition, and Science Communication.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied and Integrated Studies
- Dulliau Ymchwil
- Improving Physical Activity and Sport Performance
- Motor Learning and Performance
- Sport and Exercise Physiology
- Sports Injury.

**Y flwyddyn olaf:**

- Exercise Management in Health and Chronic Disease
- Solving Societal Issues using Applied and Integrated Approaches
- Sport and Exercise Nutrition
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**C602** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**C60F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Gwyddorau Ecolegol

## Ein cyrsiau...

Bioleg Planhigion t.137
Ecoleg t.138

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Gwyddorau Ecolegol



**Yn y 10 uchaf yn y DU**

am Foddhad Cyffredinol myfyrwyr ym mhwnc Ecoleg a Bioleg Amgylcheddol

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2022)



# Bioleg Planhigion

57% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C200 | 3 blynedd

Mae gan raddedigion Bioleg Planhigion gyfleoedd gyrfaol gwych, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn lle delfrydol ar gyfer cam cyntaf eich gyrfa. Rydym yn gartref i raglenni bridio planhigion a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gweiriau sy'n uchel o ran siwgr, adnoddau a chronfeydd data geneteg planhigion, gerddi botaneg, a'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion.

Trwy ddilyn y radd hon byddwch yn astudio pob agwedd ar fywyd planhigion, o'r moleciwlaidd i'r ecolegol, ac ar yr un pryd yn archwilio materion byd-eang sy'n ymwneud â phlanhigion. Byddwch yn ystyried sut y gall technoleg sy'n seiliedig ar blanhigion ein cynorthwyo i wynebu her poblogaeth ddynol sy'n tyfu a bygythiadau'r dyfodol, yn cynnwys diogelwch bwyd a newid yn yr hinsawdd.

Byddwch yn elwa o:

- gyfleusterau o safon fyd-eang gan gynnwys gerddi botaneg gydag amrywiaeth eang o blanhigion tymherus a throfannol, amrywiaeth eang o ystafelloedd tyfu a thai gwydr, ac amgueddfa o sbesimenau botanegol hanesyddol
- mynediad at y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol a'r posibilrwydd o ymwneud â'n rhaglenni bridio planhigion sy'n arwain y byd
- llu o gyfleoedd am waith maes, gan gynnwys y posibilrwydd o astudio fflora Tymherus, Trofannol ac Arctig-Alpinaidd
- cynefinoedd prydferth, sy'n cynnig amrywiaeth ryfeddol o gyfleoedd gwaith maes a hamdden
- amryw o gyfleoedd gwaith maes, gan gynnwys y posibilrwydd o astudio fflora tymherus, trofannol ac Arctig-Alpaidd.

**Cyflogadwyedd**

Mae'r cyfleoedd gyrfa ar gyfer gwyddonwyr planhigion yn wirioneddol ragorol, gyda llawer o swyddi a dim ond ychydig o wyddonwyr hyfforddedig yn y maes hwn. Mae ein Hathrofa mewn sefyllfa berffaith i'ch helpu i fanteisio ar gysylltiadau yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae ein graddedigion yn gweithio ym maes rheoli cadwraeth, mewn athrofeydd ymchwil planhigion dan nawdd y Llywodraeth a rhai diwydiannol, ac yn y gwasanaeth sifil gwyddonol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Bioleg Celloedd
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**
- Agronomy and Crop Improvement
- Arolygu Ecolegol
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**
- Frontiers in Plant Science
- Microbial Pathogenesis
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**C202** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.

# Ecoleg

32% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | C180 | 3 blynedd

Yn sgil yr angen brys i gofnodi, deall ac, yn y pen draw, atal dirywiad bioamrywiaeth, ceir galw mawr am ecolegwyr. Nod y radd hon yw rhoi ichi'r wybodaeth academaidd a'r sgiliau ymarferol er mwyn diwallu'r galw hwn.

Ar ein gradd Ecoleg byddwch yn astudio'r rhyngweithio rhwng organebau a'u hamgylchedd, gan greu'r sylfaen hanfodol er mwyn datblygu eich dealltwriaeth o sut y bydd bywyd gwyllt yn ymateb i fygythiadau amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys llygredd, newid yn yr hinsawdd, rhywogaethau ymledol, a dinistrio cynefinoedd. Ein nod ar y radd hon yw eich hyfforddi i fod yn rhan o'r genhedlaeth nesaf o ecolegwyr a fydd yn ymateb i fygythiadau amgylcheddol, yn canfod atebion, ac yn helpu i gynnal bioamrywiaeth i'r dyfodol.

Byddwch yn elwa o:

- astudio mewn ardal a chanddi gyfoeth o dirweddau trawiadol amrywiol, ac sy'n cynnig ecosystemau naturiol a lled-naturiol gan gynnwys arfordir Bae Ceredigion, amgylcheddau dŵr croyw, coedwigoedd, rhostiroedd, gweundiroedd a chynefinoedd alpaidd
- gwaith maes sy'n elwa ar y cyfoeth o gynefinoedd yn yr ardal leol
- cwrs maes preswyl 8 diwrnod yn Iwerddon
- llawer o warchodfeydd natur o fewn cyrraedd hwylus, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog
- cysylltiadau ag Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yr RSPB ac amrywiol ymddiriedolaethau bywyd gwyllt a choetiroedd
- y cyfle i gael profiad maes rhyngwladol.

**Cyflogadwyedd**
Mae llawer o'n graddedigion Ecoleg yn canfod swyddi ym maes cadwraeth a diogelu'r amgylchedd, neu mewn addysg amgylcheddol mewn ysgolion, colegau neu warchodfeydd natur. Mae rhai o'n graddedigion wedi sicrhau cyflogaeth mewn sefydliadau fel DEFRA, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth, Natural England, ADAS, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, Cyswllt Amgylchedd Cymru, y Grid Cenedlaethol ac awdurdodau dŵr.

Royal Society of Biology Accredited Degree

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate and Climate Change
- Comparative Animal Physiology
- Ecoleg a Chadwraeth
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion.

**Yr ail flwyddyn:**

- An Introduction to Landscape Ecology and Geographic Information Systems
- Arolygu Ecolegol
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Environmental Protection, Law, Sustainability and Consultancy
- Population and Community Ecology
- Prosiect Ymchwil neu Adolygiad Critigol.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**C181** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.





# Hanes

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Hanes

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Hanes | t.141 |
| Hanes a Hanes Cymru | t.142 |
| Hanes Modern a Chyfoes | t.144 |
| Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar | t.145 |
| Gwleidyddiaeth a Hanes Modern | t.146 |
| Graddau Cyfun | t.147 |




**Yn y 10 uchaf yn y DU**

am Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Hanes

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Hanes

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | V101 | 3 blynedd

Bydd gradd mewn Hanes yn caniatáu ichi roi'r gorffennol yn ei gyd-destun, magu dealltwriaeth ddyfnach o gymdeithas a'r byd, a datblygu sgiliau dadansoddol fel dehongli, dadansoddi a chyfathrebu sydd mor allweddol yn y gweithle.

Yn ystod eich gradd, byddwch yn datblygu sgiliau hanesydd trwy ddysgu am y dulliau a ddefnyddir i archwilio a chysylltu â'r gorffennol. Wrth ichi brofi'r amrywiaeth eang o fodiwlau yn yr adran, byddwch yn ymgyfarwyddo â damcaniaethau hanesyddol fydd yn peri ichi feddwl, y dulliau ymchwilio diweddaraf, a ffynonellau hanesyddol difyr sy'n amrywio o lawysgrifau canoloesol a baledi modern cynnar i gyfryngau torfol modern, straeon hanes llafar, a hanes a diwylliant materol. Bydd y modiwlau hyn yn eich paratoi i gynnal eich ymchwil eich hun a fydd yn bwydo i'ch traethawd hir yn y flwyddyn olaf yn ogystal â'ch paratoi ar gyfer bywyd ar ôl y brifysgol.

Byddwch yn elwa o:

- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang
- dewis eang o fodiwlau hanes, a ddysgir gan arbenigwyr yn y maes
- dulliau dysgu arloesol, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol
- mynediad llawn fel myfyrwyr i lyfrau, llawysgrifau ac archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru - un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU, bum munud o'r Adran - un o gasgliadau archif hanesyddol pwysicaf y DU, a chartref archif genedlaethol Cymru
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes a chynadleddau dan arweiniad myfyrwyr
- lleoliadau gwaith ac interniaethau perthnasol.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y gwasanaeth sifil; yr heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; busnes a mentergarwch.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Llunio Hanes.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Concwest, Uno a Hunaniaeth yng Nghymru 1250-1800
- Milwyr, Myfyrwyr a Masnachwyr: Teithio a Symudedd yn Ewrop Ganoloesol
- Ewrop a'r Byd, 1000-2000
- Trosedd, Terfysg a Moesoldeb yng Nghymru 1750-1850
- Cymdeithas, Pobl a Gwleidyddiaeth: Cymru, 1800-1999
- Concro'r Byd: Twf a Chwymp Ymerodraethau Prydain a Ffrainc
- Stori yr Unol Daleithiau ar Ffilm a Theledu, 1865-2008
- Cymdeithas Cymru Fodern 1868-1950
- Gwrando ar Hanes: y Mudiad Hawliau Sifil yn America.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

- **V100** Cwrs cyfrwng Saesneg.
- **V102** Blwyddyn integredig yn astudio dramor.
- **V10F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Hanes a Hanes Cymru

100% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | VV21 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth yn ganolfan bwysig i ysgolheictod Cymreig a Cheltaidd cyffrous ac mae gan yr Adran Hanes a Hanes Cymru enw rhyngwladol yn y maes hwn. Mae'r radd hon yn gyfle i astudio elfennau allweddol o hanes Cymru wrth ichi hefyd fagu dealltwriaeth ehangach o hanes.

Bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi radd arbenigol mewn hanes Cymru ynghyd â hanes. Cewch gyfle i astudio amrywiaeth o fodiwlau Hanes Cymru, o'r cyfnod canoloesol i'r oes fodern. Cewch hefyd ddewis o'r amrywiaeth eang o fodiwlau eraill sydd ar gael yn yr adran. Fel myfyrwyr ar y cwrs gradd hwn cewch hefyd elwa o'r cyfle i astudio mewn canolfan arbenigol ar gyfer hanes Cymru gydag enw rhyngwladol, ac i ddatblygu eich diddordebau mewn hanes gwledydd eraill.

Byddwch yn elwa o:

- gael astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru sy'n un o'r mwyaf blaenllaw ym Mhrydain, lle dysgwyd Hanes Cymru ers y 1880au
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol
- cael defnyddio llyfrgell y Brifysgol, lle mae casgliad o'r radd flaenaf o lenyddiaeth Geltaidd a gweithiau hanesyddol, yn ogystal â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU ac archif genedlaethol Cymru
- gweithgareddau allgyrsiol fel cynadleddau dan arweiniad myfyrwyr a theithiau maes
- cael eich dysgu gan staff a gydnabyddir yn rhyngwladol ac sy'n arbenigwyr yn eu maes
- cyfleoedd i fynd ar leoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y gwasanaeth sifil; yr heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentergarwch.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Llunio Hanes.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu dilyn i ddatblygu'ch diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Concwest, Uno a Hunaniaeth yng Nghymru 1250-1800
- Milwyr, Myfyrwyr a Masnachwyr: Teithio a Symudedd yn Ewrop Ganoloesol
- Ewrop a'r Byd, 1000-2000
- Trosedd, Terfysg a Moesoldeb yng Nghymru 1750-1850
- Cymdeithas, Pobl a Gwleidyddiaeth: Cymru, 1800-1999
- Concro'r Byd: Twf a Chwymp Ymerodraethau Prydain a Ffrainc
- Stori yr Unol Daleithiau ar Ffilm a Theledu, 1865-2008
- Cymdeithas Cymru Fodern 1868-1950
- Gwrando ar Hanes: y Mudiad Hawliau Sifil yn America.

Gellir dewis hefyd o blith ystod o fodiwlau cyfrwng Saesneg. I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**VVC2** Cwrs cyfrwng Saesneg.



Castell Aberystwyth



# Hanes Modern a Chyfoes

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | V191 | 3 blynedd

Mae ein gradd mewn Hanes Modern a Chyfoes yn rhychwantu'r cyfnod cyn y Chwyldro Ffrengig hyd heddiw. Mae'n archwilio oes pan oedd cyfranogiad torfol yn amlwg, boed mewn gwleidyddiaeth, rhyfel neu ddiwylliant. Mae'n taflu goleuni ar anghysondebau modernedd, a nodweddir gan arbrofion iwtopaidd gyda chanlyniadau hunllefus yn aml, gan broclamasiwn hawliau dynol, hil-laddiad a 'glanhau ethnig', a gan addewidion ynghylch rhesymeg, gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae gwaith ein haneswyr modern yn cwmpasu'r byd cyfan ac fe gewch elwa o'u harbenigedd eang ar y cynllun gradd hwn. Byddwch yn dysgu am effeithiau'r ddau ryfel byd: imperialaeth a gwrth-imperialaeth, taith Asia drwy'r cyfnod modern, a'r newidiadau mawr i fywyd a chymdeithas sydd wedi digwydd yn y gorffennol agos.

Byddwch yn elwa o:

- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol modern a chyfoes a'u dehongli
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes a chynhadledd myfyrwyr hanes modern Aberystwyth
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y gwasanaeth sifil; yr heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentergarwch.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

**Yr ail flwyddyn:**
- Llunio Hanes.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu dilyn i ddatblygu'ch diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- The Modern World, 1789 to the Present
- Culture, Society and the Victorians
- Exploring Nineteenth-Century Exhibitions
- From Poor Law to Welfare State: Poverty and Welfare in Modern Britain, 1815-1948
- The Rise of Modern Medicine
- African-American History, 1808 to the Present
- Media and Society in Twentieth Century Britain
- Britain at War 1939-45
- The Myth of the Blitz
- The Weimar Republic
- The Third Reich
- Environmental History of the Neotropics (Latin America and the Caribbean) in the Capitalocene
- Modern Japan: From Samurai to Salary Men
- Between Revolution and Reform: China since 1800.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar

85% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | V190 | 3 blynedd

Bydd ein gradd mewn Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar yn rhychwantu tua 800 o flynyddoedd ac yn datgelu hanes y cyfnod cyn yr oes fodern. Byddwch yn astudio pynciau cyffrous megis trais a brenhiniaeth, teithio a darganfyddiad, yr economi a masnach, a'r corff a'r meddwl yn y cyfnod 1000-1800. Dewch ar daith i'r gorffennol i ddysgu am fywyd ym Mhrydain yr oesoedd canol, cestyll a llysoedd Ewrop, a'r teithiau a groesodd foroedd dieithr i'r Byd Newydd, fel y'i gelwid, ynghyd â llawer o ddigwyddiadau a themâu cyffrous eraill.

Ar y cwrs hwn byddwch yn gweithio gyda staff sy'n arbenigwyr yn eu meysydd ac yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol. Cewch gyfle i weithio mewn grwpiau bychain gydag amrywiaeth o ddogfennau gwreiddiol, ac fe gewch fanteisio ar ddysgu mewn amgylchedd ymchwil o'r radd flaenaf.

Byddwch yn elwa o:

- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru, gyda dros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang ym maes hanes yr oesoedd canol a hanes modern cynnar
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes, â'r pwyslais ar ffynonellau gwreiddiol a'u dehongli
- mynediad llawn fel myfyrwyr i gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru o lawysgrifau canoloesol a modern cynnar - un o gasgliadau archif hanesyddol pwysicaf y DU
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes a chynhadledd myfyrwyr hanes y canol oesoedd Aberystwyth
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentergarwch.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr.

**Yr ail flwyddyn:**
- Llunio Hanes.

**Y flwyddyn olaf:**
- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Knighthood and Chivalry in High Medieval England, 1066-1300
- The European Reformation
- Wales under the Tudors
- The Tudors: A European Dynasty?
- The Atlantic World
- Medieval and Early Modern Britain and Europe, 1000-1800
- The Norwegian Civil Wars
- Famine in Medieval England
- War, Politics and People: England in Context in the Fourteenth Century
- Medieval England and Germany, c.1050-1250
- European Society and the Medieval Mind 1200-1500.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Gwleidyddiaeth a Hanes Modern

82% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | V135 | 3 blynedd

Mae ein gradd mewn Gwleidyddiaeth a Hanes Modern yn canolbwyntio ar astudio syniadau a sefydliadau gwleidyddol diweddar mewn cyd-destun hanesyddol, gan ganiatáu ichi ddeall sut mae syniadau a sefydliadau o'r fath wedi datblygu dros amser. Gradd anrhydedd sengl yw hon lle byddwch yn arbenigo mewn hanes a gwleidyddiaeth.

Yn ystod eich cwrs gradd byddwch yn dysgu am gysyniadau hanes a damcaniaeth wleidyddol trwy astudio ysgolheictod hanesyddol a gwleidyddol newydd a chyffrous. Byddwch yn datblygu sgiliau'r hanesydd wrth ganolbwyntio ar ffynonellau gwreiddiol ac ysgolheictod hanesyddol, ac ar yr un pryd yn elwa o astudio gwyddoniaeth wleidyddol a rhyngwladol. Yn eich blwyddyn olaf byddwch yn ysgrifennu traethawd hir ar bwnc gwleidyddol neu hanesyddol gan ddefnyddio'r sgiliau ymchwil allweddol y byddwch wedi'u datblygu yn ystod eich cwrs.

Byddwch yn elwa o:

- astudio yn yr adran hanes hynaf yng Nghymru a'r adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol hynaf yn y byd, a'r ddwy ohonynt â thros gan mlynedd o ysgolheictod ac addysgu o safon fyd-eang
- dewis eang o fodiwlau, sy'n cael eu dysgu gan arbenigwyr yn y maes
- casgliad digymar llyfrgell y Brifysgol o adnoddau hanes modern ar-lein, a mynediad llawn fel myfyrwyr i gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau maes, cynhadledd myfyrwyr hanes modern Aberystwyth, a'r gêm argyfwng Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- lleoliadau gwaith ac interniaethau sy'n ymwneud â hanes a gwleidyddiaeth.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein graddedigion wedi bod yn llwyddiannus yn dod o hyd i waith mewn amrywiol feysydd gan gynnwys: y sector treftadaeth; addysg; ysgolheictod ac ymchwil academaidd; curadu a rheoli archifau; y gyfraith; cyhoeddi; gwleidyddiaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol; y gwasanaeth sifil; yr heddlu; y lluoedd arfog; y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol; a busnes a mentergarwch.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyno Hanes
- Cydio mewn Hanes: Ffynonellau a'u Haneswyr
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth Ryngwladol 1: Cysyniadau Canolog a Sgiliau Craidd
- Gwleidyddiaeth yn yr 21ain Ganrif.

**Yr ail flwyddyn:**

- Llunio Hanes
- Pobl a Phŵer: Deall Gwleidyddiaeth Gymharol Heddiw.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- The Modern World, 1789 to the Present
- From Poor Law to Welfare State: Poverty and Welfare in Modern Britain, 1815-1948
- Media and Society in Twentieth Century Britain
- Britain at War 1939-45
- The Vietnam War
- The Third Reich
- African-American History, 1808 to the Present
- Image Wars in Southeast Asia: Studying Twentieth Century Propaganda
- Knowing about Violent Conflict in International Politics
- Russian Intelligence from Lenin to Putin
- Nationalism in Theory and Practice
- Political Theory.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Hanes | Addysg | VX13 |
| | Almaeneg | RV21 |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 1FVL |
| | Drama a Theatr | WV41 |
| | Hanes Cymru | VV21 |
| | Llenyddiaeth Saesneg | QV31 |
| | Mathemateg | GV11 |
| | Ysgrifennu Creadigol | WV81 |



# Ieithoedd Modern

Ieithoedd a ddysgir ym Mhrifysgol Aberystwyth t.150

## Ein cyrsiau…

Ffrangeg t.152
Ieithoedd Modern t.153
Sbaeneg ac Astudiaethau America Ladin t.154
Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc t.155

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Ieithoedd Modern

**2il yn y DU**

am Fodlonrwydd â'r Cwrs ym mhwnc Ieithoedd ac Ieithyddiaeth

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)

**3ydd yn y DU**

ym mhwnc Ieithoedd ac Ieithyddiaeth

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2024)





# Ieithoedd a ddysgir ym Mhrifysgol Aberystwyth

Yn yr Adran Ieithoedd Modern, rydym yn ymdrechu i gynnig addysgu arloesol i'n hamrywiaeth o fyfyrwyr. Rydym yn dysgu Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg o lefel Uwch a Dechreuwyr, Eidaleg o lefel Dechreuwyr, ynghyd â Phortiwgaleg Brasil (nid i lefel gradd).

Rydym yn gallu dysgu myfyrwyr o bob gallu, sy'n golygu y cewch chi astudio ieithoedd hyd yn oed os nad ydych wedi astudio iaith ar lefel Safon Uwch neu gyfatebol. Rydym yn cynnig mwy o oriau fesul wythnos ar bob lefel (fel arfer, 5 awr yr wythnos i bob iaith) na'r rhan fwyaf o brifysgolion.

## Ffrangeg

Mae'r iaith Ffrangeg yn hynod o bwysig ym myd cysylltiadau rhyngwladol heddiw ac fe'i defnyddir mewn nifer fawr o sefydliadau rhyngwladol fel y Cenhedloedd Unedig. Mae'n iaith swyddogol mewn 29 o wledydd ac mae yna 220 miliwn o siaradwyr brodorol.

**Pam astudio Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**
Mae Ffrangeg yn cael ei siarad ledled y byd fel iaith frodorol neu ail iaith gan hyd at hanner biliwn o bobl. Mae'r byd Ffrangeg ei iaith yn ymestyn ar draws y byd o Ewrop i Affrica, Asia a chyfandiroedd America. Mae Ffrangeg yn bwysicach nag erioed o'r blaen ac mae'r gallu i gyfathrebu mewn Ffrangeg yn sgìl amhrisiadwy.

Yn Aberystwyth, bydd astudio Ffrangeg yn eich galluogi i ddatblygu'ch cymwyseddau ieithyddol ymhellach ond ar yr un pryd archwilio a datblygu'ch gwybodaeth am ddiwylliant, llenyddiaeth, celf, a ffilm Ffrangeg, a defnydd ymarferol o'r iaith mewn cyd-destun busnes. Bydd ein hystod eang o fodiwlau ichi ddewis o'u plith yn datblygu'ch sgiliau cyfathrebu a dadansoddi, sy'n dra dymunol ymysg sefydliadau rhyngwladol ledled y byd.

Ar ôl cwblhau cwrs pedair blynedd mewn Ffrangeg, byddwch wedi magu lefel uchel o hyfedredd yn yr iaith, yn ogystal â dealltwriaeth feirniadol o agweddau allweddol ar ddiwylliant modern a chyfoes Ffrainc a'r byd Ffrangeg ei iaith.

## Almaeneg

Almaeneg yw iaith busnes a chyllid a'r iaith a siaredir yn fwyaf eang yn yr Undeb Ewropeaidd.

**Pam astudio Almaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**
Does dim modd gwahanu iaith, diwylliant a hanes, a bydd astudio Almaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn dangos ichi fod yna fwy i ddiwylliant, iaith a hanes yr Almaen nag y gallech fod wedi'i ddisgwyl.

Mae sgiliau mewn Almaeneg yn ddymunol iawn ymysg cyflogwyr mewn busnes rhyngwladol mewn ystod eang o feysydd gan gynnwys cyllid, marchnata, cyfieithu, addysgu, y cyfryngau, y celfyddydau, cyhoeddi, a'r gwasanaeth sifil. Mae yna brinder brawychus o bobl yn y Deyrnas Unedig sy'n gallu siarad un o'r ieithoedd tramor pwysicaf ar gyfer ffyniant y wlad a'i statws byd-eang. Bydd siarad Almaeneg yn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol ichi yn y farchnad swyddi.

Mae ein holl gyrsiau Almaeneg yn cael eu haddysgu gan siaradwyr brodorol, ac yn cynnig hyfforddiant iaith cynhwysfawr ar y cyd â chyfle i archwilio diwylliannau, llenyddiaethau a hanesion deallusol y gwledydd Almaeneg eu hiaith.



# Graddau Cyfun - cyfuniadau iaith

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Almaeneg** | Eidaleg | RR32 |
| | Sbaeneg | RR24 |
| **Ffrangeg** | Almaeneg | RR12 |
| | Eidaleg | RR31 |
| | Sbaeneg | RR14 |
| **Sbaeneg** | Eidaleg | RR43 |

## Sbaeneg

Sbaeneg yw mamiaith tua 400-450 miliwn o bobl, sy'n golygu mai hi yw'r ail iaith fwyaf cyffredin sy'n cael ei siarad yn y byd.

**Pam astudio Sbaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**
Sbaeneg yw un o'r tair iaith ryngwladol bwysicaf yn y byd, ac mae'n cael ei siarad fel iaith gyntaf yn Ewrop, De America, Affrica ac yn gynyddol yn yr Unol Daleithiau.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, cewch gyfle i ddarganfod diwylliant a hanes Sbaen ac America Ladin drwy amrywiaeth o fodiwlau craidd a modiwlau dewisol sydd ar gael ichi yn ystod y cwrs gradd pedair blynedd. Erbyn diwedd y cwrs, bydd gennych feistrolaeth rugl ar Sbaeneg yn ogystal â gafael a gwybodaeth gadarn ar ddiwylliant Sbaen ac America Ladin.

Mae galw mawr am raddedigion Sbaeneg ymysg cyflogwyr amlwladol sy'n gwerthfawrogi'r sgiliau cyfathrebu a'r sgiliau rhyngddiwylliannol sy'n cael eu magu drwy raddau mewn iaith. Gall cwrs Sbaeneg agor llawer o gyfleoedd cyffrous mewn meysydd fel gwleidyddiaeth ryngwladol, busnes, cyllid, marchnata, addysgu a chyfieithu neu gyfieithu ar y pryd.

## Eidaleg

Mae tua 85 miliwn o bobl yn siarad Eidaleg, sy'n un o brif ieithoedd Ewrop. Mae ganddi ddylanwad helaeth yn y celfyddydau ac mewn marchnadoedd bwydydd a nwyddau moethus.

**Pam astudio Eidaleg ym Mhrifysgol Aberystwyth?**
Mae astudio Eidaleg yn rhoi cyfle ichi archwilio gyrfaoedd mewn addysgu, y celfyddydau cain, bancio, y cyfryngau, twristiaeth a'r gyfraith i enwi ychydig yn unig.

Mae'r Eidal yn bartner gwleidyddol pwysig yn yr Undeb Ewropeaidd; mae'n rym blaenllaw mewn meysydd fel peirianneg a phensaernïaeth. Mae'r Eidal hefyd yn gartref i'r diwydiant dylunio a'r diwydiant ffasiwn. Bydd dealltwriaeth a rhuglder cynyddol mewn Eidaleg yn golygu y gallwch archwilio rhai o'r cyfraniadau mawr at fywyd diwylliannol Ewrop, gan gynnwys ffilm a llenyddiaeth, yn eu hiaith frodorol.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, gallwch astudio Eidaleg o lefel dechreuwyr ymlaen. Byddwn yn defnyddio ein dulliau a'n methodolegau arloesol ac unigryw wrth addysgu, gan gynnwys gweithgareddau grŵp bach a chymorth athrawon brodorol a myfyrwyr cyfnewid brodorol o'r Eidal.

# Ffrangeg

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | R120 | 4 blynedd

Mae'r radd hon yn ddelfrydol i'r rheini sydd wedi sefydlu diddordebau eang yn y byd Ffrangeg ei iaith ac sy'n awyddus i ddysgu mwy mewn amgylchedd cyfeillgar a chydweithredol. Cewch eich tywys trwy amrywiol nodweddion, themâu a chyfnodau yr iaith Ffrangeg, yr hanes gwleidyddol-gymdeithasol, llenyddiaeth, ffilm a diwylliant. Does dim angen sgiliau blaenorol yn eich dewis iaith gan y gallwch ymuno ar lefel dechreuwr, a gweithio tuag at lefel uchel o ruglder.

Yn ystod y cynllun gradd pedair blynedd, caiff eich gallu ieithyddol ei wella trwy hyfforddiant wythnosol sy'n cwmpasu gwrando, darllen/ysgrifennu, a sgwrsio, yn ogystal â gramadeg, cyfieithu, ac ieithyddiaeth. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd Dechreuwyr (heb Ffrangeg Safon Uwch neu gyfatebol) yn astudio cwrs iaith dwys. Bydd yr holl fyfyrwyr yn astudio modiwl a fydd yn eu cyflwyno i'r cwestiynau a'r testunau sy'n allweddol i hanes Ffrainc a gwledydd Ffrangeg eu hiaith. Cewch hefyd ddethol o blith modiwlau dewisol ar ddiwylliant, llenyddiaeth a hanes (sy'n cwmpasu ystod o genres a chyfnodau hanesyddol); ffilm; hanes syniadau a mudiadau artistig; a materion cyfoes.

**Eich blwyddyn dramor**
Dyma'r uchafbwynt i bob myfyriwr, a bydd yn un o'r profiadau mwyaf cofiadwy a gewch yn eich bywyd. Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol i'n myfyrwyr:

- astudio yn un o'n prifysgolion partner ledled Ewrop
- astudio mewn ysgol iaith breifat
- gweithio fel Cynorthwyydd dysgu Saesneg gyda'r Cyngor Prydeinig
- mynd ar leoliad profiad gwaith mewn gwlad Ffrangeg ei hiaith.

**Cyflogadwyedd**
Yn ystadegol, mae ieithyddion modern ymhlith y graddedigion mwyaf cyflogadwy, ac mae ein graddau hefyd yn mynd â'n myfyrwyr ar draws y byd. Mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i amrywiaeth eang o broffesiynau gan gynnwys dysgu, ac academia, gweinyddu, rheoli, marchnata, a llawer mwy.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Beginners French 1 & 2 *neu*
- French Language Advanced
- Images of France: The French Family
- Introduction to French Studies.

**Yr ail flwyddyn:**
- French Language.

**Y drydedd flwyddyn:**
- Year Abroad Assessment.

**Y flwyddyn olaf:**
- French Language
- Anrhydedd sengl.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Gender in Modern and Contemporary French Culture
- Humour and Literature
- Introduction to European Film
- Language, Culture, and Identity in Europe
- Narrating and Visualising French Colonialism
- Self-writing, 18th-21st Centuries
- The Language of Business and Current Affairs
- History, Film, Memory: Representing World Wars in French Cinema
- Travel and Literature
- Ismes - Cultural and Artistic Movements in 20th-century France.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Ffrangeg oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Ffrangeg ar Lefel Uwch oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau.

**Pwyslais marcio:** Tua 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Ieithoedd Modern

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | R990 | 4 blynedd

Aberystwyth yw un o lond llaw yn unig o brifysgolion yn y DU i gynnig cyfle i fyfyrwyr astudio cyfuniad o dair iaith, a chewch ddechrau astudio dwy ohonynt heb fod wedi gwneud hynny o'r blaen. Cewch ddewis o blith Ffrangeg, Eidaleg, Almaeneg, a Sbaeneg. Nid yn unig byddwch yn magu gwybodaeth ymarferol am dair iaith a rhuglder yn yr ieithoedd hynny, ond byddwch hefyd yn dysgu deall sefyllfa'r ieithoedd hyn mewn cyd-destun byd-eang ehangach.

Bydd dechreuwyr yn dilyn cwrs dwys yn y flwyddyn gyntaf, sy'n cynnwys modiwl iaith dwys a chyflwyniad cyffredinol i wareiddiad a diwylliant Ewrop. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bydd pob myfyriwr ar y cwrs dechreuwyr yn ymuno â'r myfyrwyr yn y dosbarth lefel uwch. Os ydych yn ymuno â ni ar y lefel uwch, bydd y flwyddyn gyntaf yn mireinio'r sgiliau a ddysgwyd i chi ar eich cwrs Safon Uwch ac yn eich paratoi ar gyfer y tair blynedd nesaf a'r flwyddyn dramor.

**Eich blwyddyn dramor**
Dyma'r uchafbwynt i bob myfyriwr, a bydd yn un o'r profiadau mwyaf cofiadwy a gewch yn eich bywyd. Rydym yn cynnig yr opsiynau canlynol i'n myfyrwyr:

- astudio yn un o'n prifysgolion partner
- astudio mewn ysgol iaith breifat
- gweithio fel Cynorthwyydd Saesneg gyda'r Cyngor Prydeinig
- mynd ar leoliad profiad gwaith mewn gwlad sy'n berthnasol i'ch dewis iaith neu ieithoedd.

Yn draddodiadol ar y flwyddyn dramor, os ydych yn astudio mwy nag un iaith bydd eich amser yn cael ei rannu rhwng dwy wlad er mwyn hwyluso'r broses o'ch trochi'n llwyr mewn mwy nag un iaith a diwylliant.

**Cyflogadwyedd**
Yn ystadegol, mae ieithyddion modern ymhlith y graddedigion mwyaf cyflogadwy, ac mae ein graddau hefyd yn mynd â'n myfyrwyr ar draws y byd. Mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i amrywiaeth eang o broffesiynau gan gynnwys dysgu, gweinyddu, rheoli, marchnata a llawer mwy. Mae'r radd hon yn agor y drws i lawer o broffesiynau, fel y gwasanaeth sifil, twristiaeth, gwaith cymdeithasol, llyfrgellyddiaeth, marchnata, cyhoeddi a darlledu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Beginners (French, German, Spanish, Italian)
- Advanced (French, German, Spanish)
- Exploring German Cultural Identity
- Hispanic Civilization
- Images of France: The French Family.

**Yr ail flwyddyn:**
- Language (French, German, Spanish, Italian).

**Y drydedd flwyddyn:**
- Year Abroad Assessment.

**Y flwyddyn olaf:**
- Language (French, German, Spanish, Italian).

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, sy'n cynnwys y rhai ar gyfer Ffrangeg (R120) a Sbaeneg (R401), a:

- Children's Literature in German
- Short Prose in German
- Contemporary German Politics
- German-speaking Refugees from National Socialism in the UK
- Modern Italy
- The Language of Current Affairs (Italian)
- Italian Cities.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch mewn iaith berthnasol oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn un iaith berthnasol ar Lefel Uwch oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau.

**Pwyslais marcio:** Tua 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

# Sbaeneg ac Astudiaethau America Ladin

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | R401 | 4 blynedd

Cynlluniwyd y cynllun gradd pedair blynedd hwn i roi gwybodaeth ymarferol drylwyr ichi o'r Sbaeneg a bydd yn rhoi'r gallu ichi fyfyrio ar lenyddiaeth hanesyddol a chyfoes, cymdeithas, sinema, cyfieithu a gwleidyddiaeth yn Sbaen ac America Ladin. Does dim angen sgiliau blaenorol yn Sbaeneg gan y gallwch ymuno ar lefel dechreuwr, a gweithio tuag at lefel uchel o ruglder.

Ceir dau lwybr ar y radd hon yn y flwyddyn gyntaf yn unig. Bydd yr holl fyfyrwyr yn dilyn modiwl a fydd yn eu cyflwyno i sgiliau hanfodol astudiaethau Hisbaenaidd, yn ogystal â modiwl iaith Portiwgaleg. Bydd dechreuwyr (heb Sbaeneg Safon Uwch neu gyfatebol) yn astudio cwrs iaith dwys, tra bydd myfyrwyr uwch yn astudio modiwl iaith ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i wareiddiad a diwylliant Hisbaenaidd.

**Eich blwyddyn dramor**

Dyma'r uchafbwynt i bob myfyriwr, a bydd yn un o'r profiadau mwyaf cofiadwy a gewch yn eich bywyd. Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Sbaeneg ac Astudiaethau America Ladin yn Aberystwyth:

- astudio yn un o'n prifysgolion partner
- astudio mewn ysgol iaith breifat
- gweithio fel Cynorthwyydd Saesneg gyda'r Cyngor Prydeinig
- mynd ar leoliad profiad gwaith mewn gwlad sy'n berthnasol i'ch dewis iaith neu ieithoedd.

**Cyflogadwyedd**

Mae graddedigion Ieithoedd Modern yn cael gwaith mewn amrywiaeth fawr o feysydd, gan gynnwys dysgu ac academia, newyddiaduraeth a'r cyfryngau, diwylliant a threftadaeth a'r gwasanaeth sifil. Mae'r cwrs hefyd yn rhoi sylfaen ardderchog ar gyfer astudio ar lefel uwchraddedig.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Beginners Spanish 1 & 2 *neu*
- Spanish Language Advanced
- Brazilian Portuguese
- Hispanic Civilization
- Study and Research Skills in Spanish and Latin American Studies.

**Yr ail flwyddyn:**
- Brazilian Portuguese Language II
- Research Project
- Spanish Language.

**Y drydedd flwyddyn:**
- Year Abroad Assessment.

**Y flwyddyn olaf**
- Spanish Language
- Anrhydedd sengl
- Brazilian Portuguese Language III.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Introduction to European Film
- Language, Culture, and Identity in Europe
- Seeing Spain through Cinema
- The Cuban Revolution
- Spanish American Cinema
- The Spanish Avant-garde
- Language of Business and Current Affairs
- Cuban Cinema of the Revolution
- Reading Late 19th Century Literature.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Sbaeneg oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Sbaeneg ar Lefel Uwch oni bai y bwriedir ei hastudio o'r dechrau.

**Pwyslais marcio:** Tua 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.





# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc - iaith gyda phwnc arall

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| **Almaeneg** | Busnes a Rheolaeth | NR12 | |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 22LR | |
| | Hanes | RV21 | |
| | Y Gyfraith | RM21 | |
| **Ffrangeg** | Astudiaethau Ffilm a Theledu | RW16 | |
| | Busnes a Rheolaeth | NR11 | |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | LRF1 | |
| | Drama a Theatr | RW14 | |
| | Llenyddiaeth Saesneg | QR31 | |
| | Marchnata | NR59 | |
| | Mathemateg | GR11 | |
| | Y Gyfraith | RM11 | |
| | Ysgrifennu Creadigol | WR81 | |
| **Sbaeneg** | Addysg | | X3R4 |
| | Busnes a Rheolaeth | NR14 | |
| | Cyfrifeg a Chyllid | NR44 | |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | LRF4 | |
| | Drama a Theatr | RW44 | |
| | Marchnata | NR55 | |
| | Rheoli Twristiaeth | NR84 | |
| | Rheoli Twristiaeth Antur | RN44 | |
| | Y Gyfraith | RM41 | |
| | Ysgrifennu Creadigol | WR84 | |



# Marchnata a Thwristiaeth

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Marchnata a Thwristiaeth

## Ein cyrsiau...

| | |
|---|---|
| Marchnata | t.157 |
| Marchnata Digidol | t.158 |
| Rheoli Twristiaeth | t.159 |
| Rheoli Twristiaeth Antur | t.160 |
| Graddau Cyfun | t.161 |



**3ydd yn y DU**

am Fodlonrwydd Myfyrwyr ym mhwnc Marchnata

(Complete University Guide 2024)



# Marchnata

50% ar gael drwy'r Gymraeg

CIM The Chartered Institute of Marketing

### BSc (Anrh) | N500 | 3 blynedd

Mae'r radd BSc Marchnata yn Ysgol Fusnes Aberystwyth yn gwrs dynamig a chyffrous sy'n cyfuno elfennau o farchnata ac ymddygiad defnyddwyr, marchnata digidol, marchnata strategol, cynllunio, seicoleg, rheoli ac adnoddau dynol. Fe'i haddysgir gan arbenigwyr marchnata achredig ac adnabyddus ac yn ystod y radd byddwch yn datblygu gwybodaeth gadarn am ddylanwadau allanol ar y byd marchnata a'r defnydd o dechnoleg a chyfryngau digidol, sy'n newid mor gyflym, at ddibenion marchnata.

Mae gyrfa ym maes marchnata yn ddewis dynamig ac egnïol, a'r maes ei hun yn llawn arloesi, creadigrwydd a gwneud penderfyniadau "greddfol" ar sail data. Bydd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol sydd ar ddechrau eu gyrfa yn y maes marchnata yn tueddu i fynd i faes marchnata digidol, ac rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi ichi sgiliau digidol a thraddodiadol hanfodol sydd eu hangen er mwyn gallu cynnig gwerth i gwmnïau o'ch diwrnod cyntaf fel gweithiwr proffesiynol.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ganolfan Porth Graddedigion sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Marchnata Siartredig. Bydd hyn yn eich galluogi i raddio â dau gymhwyster.

Byddwch yn elwa o:

- clywed safbwyntiau amrywiol gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- dadansoddi astudiaethau achos, sefyllfaoedd byw a damcaniaeth marchnata sylfaenol i ddatblygu strategaethau marchnata ac ymgyrchoedd tactegol
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes pwnc.

**Cyflogadwyedd**

Mae marchnata yn bwysicach nag erioed o safbwynt perfformiad busnes. Mae gweithwyr proffesiynol yn y maes marchnata bellach yn arloesi ac yn dylanwadu ar fusnesau mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, ac o'r herwydd mae gyrfa yn y maes yn dal i fod yn ddewis gwych a gwahanol. Yn ddiweddar mae ein graddedigion wedi cael swyddi gyda chyrff megis Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Reckitt Benckiser (RB), EE, OneGTM, MediaCom a'r Dentsu Group (Carat).

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Principles of Tourism Management
- Data Analytics
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**

- Rheolaeth Marchnata
- Ymddygiad Defnyddwyr a Phrynwyr
- Marketing: Relationships and Customer Experience
- Applied Brand Management
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Arweinyddiaeth Strategol
- Digital Marketing
- Marketing and Digital Marketing Communications
- Global Marketing
- Traethawd Hir Marchnata.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
60% gwaith cwrs, 40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**N50F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Marchnata Digidol

44% ar gael drwy'r Gymraeg

CIM The Chartered Institute of Marketing

## BSc (Anrh) | N590 | 3 blynedd

Trwy ddewis astudio'r radd Marchnata Digidol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth byddwch yn sicrhau eich bod yn magu'r sgiliau diweddaraf mewn disgyblaethau megis Caffael Cwsmeriaid, Dadansoddi, Strategaeth eFasnach, Datblygu Digidol (yn cynnwys gwefannau, apiau, amgylcheddau cyfryngau cymdeithasol), Marchnata Cynnwys a Rheoli'r Berthynas â Chwsmeriaid yn Ddigidol.

Mae'r radd Marchnata Digidol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth yn sicrhau bod gennych ddealltwriaeth lawn o'r modelau, y fframweithiau a'r methodolegau allweddol sy'n rhan gynhenid o'r ddisgyblaeth hon, ac mae'n eich galluogi i ddeall a chyfuno eich gwaith dysgu fel ei fod yn berthnasol i ystyriaethau a heriau cyfoes y ddisgyblaeth. Erbyn ichi orffen eich gradd, byddwch wedi eich arfogi â'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae cyflogwyr heddiw yn edrych amdanynt, a byddwch mewn sefyllfa dda i ddatblygu'ch gyrfa.

Mae Ysgol Fusnes Aberystwyth wedi'i hachredu yn ganolfan Porth Graddedigion y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM).

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n brofiadol yn academaidd ac fel ymarferwyr yn y diwydiant, ac sy'n ymwybodol o'r galw am raddedigion sydd â sgiliau technegol ac sy'n deall y farchnad
- archwilio'r technolegau y mae'r byd busnes yn eu defnyddio, a rhoi atebion busnes ar waith mewn modd effeithiol
- gallu astudio am gymhwyster CIM wrth ddilyn y cwrs gradd, neu gael eithriad o rai modiwlau CIM.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y radd BSc Marchnata Digidol yn datblygu'r sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr, yn cynnwys meddwl mewn modd arloesol, datrys problemau yn greadigol, defnyddio dulliau arbrofol, gweithio fel tîm, a chanolbwyntio ar y defnyddiwr. Mae Marchnatwyr Digidol yn arloesi ac yn dylanwadu ar fusnes mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mae'r cyfleoedd ar ddechrau gyrfa i raddedigion Marchnata yn parhau'n amrywiol ac yn fuddiol yn ariannol. Yn ddiweddar mae ein graddedigion wedi cael swyddi gydag Acorn Digital (Shanghai), TravelPerk (Barcelona), Next, The Drum (Llundain), McGregor Boyall (Manceinion), Reckitt Benckiser, EE, ac Aegis Network (Llundain).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Web Design
- Information Security
- Data Analytics
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**

- Web Design and the User Experience
- Programming for the Web
- Ymddygiad Defnyddwyr a Phrynwyr
- Applied Brand Management
- Digital Research Methods
- Rheolaeth Marchnata.

**Y flwyddyn olaf:**

- Digital Marketing (Strategy)
- Digital Marketing Communications
- Digital Analytics
- Traethawd Hir Marchnata Digidol
- Arweinyddiaeth Strategol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
60% gwaith cwrs, 40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.





# Rheoli Twristiaeth

47% ar gael drwy'r Gymraeg

tmi Tourism Management Institute www.tmi.org.uk

## BSc (Anrh) | N800 | 3 blynedd

Twristiaeth yw un o ddiwydiannau mwyaf cyffrous ein byd, ac mae'n un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf hefyd. Mae'n cynnwys llawer o ddarparwyr, yn eu plith atyniadau i dwristiaid, cyrchfannau, gwestai, cwmnïau hedfan, darparwyr gweithgareddau a chwmnïau trefnu teithiau. Nod y radd BSc Rheoli Twristiaeth yw rhoi ichi'r sgiliau academaidd a phroffesiynol i allu ymgymryd ag amrywiaeth o swyddi rheoli yn y sector.

Trwy ddewis astudio'r radd BSc Rheoli Twristiaeth yn Ysgol Fusnes Aberystwyth byddwch yn archwilio datblygiad, gweithrediad ac effaith twristiaeth ddomestig a rhyngwladol. Bydd eich astudiaethau yn canolbwyntio ar y materion cyfoes sy'n wynebu'r diwydiant, gan gynnwys y newid mewn tueddiadau yn y farchnad a'r sector antur sy'n prysur dyfu, yr heriau sy'n wynebu cyrchfannau, sut i reoli twristiaeth mewn modd mwy cynaliadwy a sut i farchnata'r sector yn effeithiol gan ddefnyddio dulliau cyfoes.

Byddwch yn elwa o:

- gradd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheoli Twristiaeth (TMI)
- teithiau diwrnod i gyrchfannau twristiaeth, yn dibynnu ar y modiwl a ddewisir
- teithiau astudio estynedig, yn dibynnu ar y modiwl a ddewisir
- gweithgareddau wythnos gyfan i gyrchfan yn y DU neu dramor.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein cynlluniau gradd mewn Twristiaeth wedi'u hachredu gan y Sefydliad Rheoli Twristiaeth (TMI). Mae hyn yn golygu y gallwch fod yn hyderus y bydd y cwrs yn rhoi ichi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r profiad a fydd yn eich paratoi'n drylwyr ar gyfer gyrfa ym maes Rheoli Twristiaeth. Mae ein graddedigion wedi dod o hyd i gyflogaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Adventure Tours UK, Enterprise Cars, Marella Cruises, TUI, Click Travel, a Sykes Holiday Cottages.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Principles of Tourism Management
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Data Analytics
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**

- Rheoli Cyrchfannau ac Atyniadau
- Adventure Tourism
- International Tourism in Practice
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Sustainable Tourism
- Tourism Development and Planning
- Tourism Marketing
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**N80F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Rheoli Twristiaeth Antur

36% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | N870 | 3 blynedd

Mae Twristiaeth Antur yn un o sectorau'r diwydiant twristiaeth sy'n tyfu gyflymaf. Bydd y radd BSc mewn Rheoli Twristiaeth Antur yn caniatáu ichi ryddhau a datblygu'ch sgiliau ym maes busnes, marchnata a rheoli twristiaeth antur ac atyniadau ymwelwyr. Mae'r rhaglen hon yn denu myfyrwyr o bob rhan o'r byd, sy'n arwydd o bwysigrwydd maes Rheoli Twristiaeth Antur ledled holl economïau'r byd - yn rhai datblygedig ac annatblygedig.

Wrth astudio'r cwrs gradd Rheoli Twristiaeth Antur, byddwch yn archwilio astudiaethau achos byw ac yn ystyried strategaethau marchnata effeithiol a pholisïau ar gyfer twristiaeth antur. Byddwch hefyd yn dysgu sut mae egwyddorion marchnata yn cael eu cymhwyso yn y diwydiant twristiaeth. Elfen unigryw o'r cwrs hwn yw'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu, a achredir gan ddarparwyr allanol, a fydd yn gyfle ichi feithrin sgiliau awyr-agored a/neu ennill cymhwyster arweinydd awyr-agored a gydnabyddir yn genedlaethol. Ar ben hynny, gallwch fanteisio ar y cyfle i astudio'r modiwl dewisol profiad gwaith i wella'ch rhagolygon gyrfaol.

Byddwch yn elwa o:

- dilyn gradd a achredir gan y Sefydliad Rheoli Twristiaeth (TMI)
- ennill tystysgrif allanol ychwanegol gan ddarparwyr achrededig ym maes gweithgareddau awyr-agored e.e. cerdded, dringo, caiacio, plymio, beicio mynydd a sgïo
- teithiau astudio estynedig, yn dibynnu ar y modiwl a ddewisir
- gweithgareddau wythnos gyfan i gyrchfan yn y DU neu dramor.

**Cyflogadwyedd**
Erbyn diwedd y cwrs, byddwch chi wedi datblygu'r sgiliau fydd eu hangen arnoch i sefydlu a rhedeg menter ym maes twristiaeth sy'n canolbwyntio ar gynnig gwyliau wedi'u seilio ar weithgareddau antur awyr-agored. Mae ein graddedigion wedi dod o hyd i gyflogaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Adventure Tours UK, Enterprise Cars, Marella Cruises, TUI, Click Travel, a Sykes Holiday Cottages.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Principles of Tourism Management
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**
- Rheoli Cyrchfannau ac Atyniadau
- Adventure Tourism
- International Tourism in Practice
- Dulliau Ymchwil
- Activity Certification.

**Y flwyddyn olaf:**
- Sustainable Tourism
- Adventure Tourism Management Dissertation
- Tourism Development and Planning
- Activity Certification.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.





# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| **Marchnata** | Busnes a Rheolaeth | N5N1 |
| | Cyfrifeg a Chyllid | GN94 |
| | Ffrangeg | NR59 |
| | Sbaeneg | NR55 |
| | Seicoleg | NC58 |
| **Rheoli Twristiaeth** | Marchnata | N8N5 |
| | Sbaeneg | NR84 |
| **Rheoli Twristiaeth Antur** | Sbaeneg | RN44 |



# Mathemateg

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Mathemateg

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol | t.110 |
| Gwyddor Data | t.68 |
| Mathemateg | t.163 |
| Mathemateg Bur ac Ystadegaeth | t.164 |
| Mathemateg Gyllidol | t.165 |
| Mathemateg Gymhwysol / Mathemateg Bur | t.166 |
| Modelu Mathemategol | t.168 |
| Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc | t.169 |




**2il yn y DU**

am Brofiad Myfyrwyr ac Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Mathemateg

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)





# Mathemateg

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | G100 | 3 blynedd

Dros ddwy flynedd gyntaf y cwrs cewch gyflwyniad eang i feysydd pwysig mathemateg, gan gynnwys algebra, calcwlws, geometreg, ystadegaeth, a dadansoddi mathemategol. Yn dilyn hynny, cewch fanteisio ar yr arbenigedd ymysg staff yr adran ac arbenigo mewn meysydd o ddiddordeb i chi.

Mae'r radd Meistr Integredig MMath Mathemateg (G103) yn cynnwys pedwaredd flwyddyn sy'n dilyn ymlaen o'r cwrs G100 tair blynedd. Ar y cwrs MMath byddwch yn datblygu dealltwriaeth fwy manwl o'r pwnc trwy ymgymryd â gwaith prosiect o dan arweiniad a dilyn modiwlau arbenigol a fydd yn adlewyrchu diddordebau ymchwil ein staff.

Byddwch yn elwa o:

- hanes hir a nodedig yr Adran o ragoriaeth dysgu ac ymroddiad i hynny
- dilyn cwrs sydd wedi'i achredu gan y Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau, cymdeithas ddysgedig a phroffesiynol y DU ar gyfer mathemateg, a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gydnabyddiaeth o statws Mathemategydd Siartredig
- cael eich dysgu gan arbenigwyr sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil mathemateg ac ystadegaeth
- y dewis i astudio'r cwrs hwn gyda blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn sylfaen.

**Cyflogadwyedd**

Mae gradd mewn mathemateg yn sylfaenol bwysig i ystod o sectorau, gan gynnwys gwyddoniaeth, peirianneg, technoleg a chyllid. Mae ein graddedigion fel arfer yn dod o hyd i waith yn y sector ariannol, peirianneg, addysgu a'r diwydiant ystadegau, ac mae llawer yn mynd ymlaen i astudio'n bellach. Mae eraill wedi cael gwaith gyda chwmnïau megis LV= a Rolls Royce. Drwy ddewis yr opsiwn i weithio mewn diwydiant, gallwch ehangu eich sgiliau trwy ddefnyddio'r fathemateg a ddysgwyd ar y cwrs mewn sefyllfaoedd go iawn.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra
- Calcwlws
- Tebygoleg
- Dadansoddi Mathemategol
- Algebra a Chalcwlws Pellach
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Mathemategol
- Geometreg Gyfesurynnol a Fectoraidd
- Hafaliadau Differol
- Ystadegaeth.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Statistics
- Cyflwyniad i Ddadansoddiad Rhifiadol a'i Gymwysiadau
- Dadansoddiad Cymhlyg
- Algebra Llinol.

**Y flwyddyn olaf:**

Modiwlau dewisol yn gyfan gwbl, ee:

- Group Theory
- Graffiau a Rhwydweithiau
- Normau a Hafaliadau Differol
- Linear Statistical Models
- Hafaliadau Differol Rhannol
- Dulliau Asymptotig mewn Mecaneg
- Stochastic Models in Finance.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BSc - Pwyntiau tariff UCAS:** 128-120 gan gynnwys B Safon Uwch Mathemateg
**BR:** 30 gyda 6 pwynt mewn Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Ar gael hefyd:**
**G10N** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**G103** Meistr Integredig.
**G10F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Mathemateg Bur ac Ystadegaeth

62% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | GGC3 | 3 blynedd

Ar y radd Mathemateg Bur ac Ystadegaeth byddwch yn astudio cysyniadau mathemategol yn fanwl ac yn meithrin dealltwriaeth gadarn o dechnegau casglu, dosbarthu, trefnu, dadansoddi a dehongli data. Byddwch yn datblygu sgiliau mewn dadansoddi mathemategol a modelu ystadegol er mwyn pennu gwerth damcaniaethau a dadansoddi problemau'r byd go iawn. Mae angen ystadegwyr â chymwysterau addas i brosesu'r meintiau enfawr o ddata a gynhyrchir gan ein cymdeithas fodern, gwerthuso patrymau o fewn y data, a defnyddio'r rheini i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio strategaethau.

Dros ddwy flynedd gyntaf y cwrs cewch gyflwyniad eang i feysydd pwysig mathemateg, gan gynnwys algebra, ystadegaeth, a dadansoddi mathemategol. Yn dilyn hynny, cewch fanteisio ar yr arbenigedd ymysg staff yr adran ac arbenigo mewn meysydd o ddiddordeb i chi.

Byddwch yn elwa o:

- hanes hir a nodedig yr Adran o ragoriaeth dysgu ac ymroddiad i hynny
- dilyn cwrs sydd wedi'i achredu gan y Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau, cymdeithas ddysgedig a phroffesiynol y DU ar gyfer mathemateg, a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gydnabyddiaeth o statws Mathemategydd Siartredig
- cael eu dysgu gan arbenigwyr sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil Mathemateg.

**Cyflogadwyedd**
Mae ein graddedigion wedi canfod cyflogaeth ym maes dadansoddi ystadegol ac ystadegaeth gyfrifiannol, dysgu, cyfrifeg a bancio, dadansoddi risgiau a gwaith actiwari, rheolaeth ariannol a dadansoddi buddsoddiadau, a thechnoleg gwybodaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Algebra
- Calcwlws
- Geometreg Gyfesurynnol a Fectoraidd
- Tebygoleg
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Mathemategol
- Hafaliadau Differol
- Algebra a Chalcwlws Pellach
- Dadansoddi Mathemategol
- Ystadegaeth.

**Yr ail flwyddyn:**
- Applied Statistics
- Ffiseg Mathemategol
- Distributions and Estimation
- Introduction to Abstract Algebra
- Cyflwyniad i Ddadansoddiad Rhifiadol a'i Gymwysiadau
- Dadansoddiad Cymhlyg
- Algebra Llinol
- Dadansoddiad Real.

**Y flwyddyn olaf:**
Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Normau a Hafaliadau Differol
- Linear Statistical Models
- Comparative Statistical Inference
- Topics in Biological Statistics
- Graffiau a Rhwydweithiau
- Group Theory
- Information Theory
- Topology
- Probability and Stochastic Processes.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**BSc - Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.



# Mathemateg Gyllidol

50% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | G1N3 | 3 blynedd

Mae'r radd hon wedi'i theilwra i'ch paratoi i weithio neu ymgymryd ag astudiaethau proffesiynol yn y sector ariannol. Bydd yn dysgu ichi sgiliau mathemategol craidd gan gynnwys algebra, calcwlws ac ystadegaeth, ynghyd â thechnegau mathemategol arbenigol mewn cyd-destun ariannol.

Bydd y cwrs yn rhoi ichi ddealltwriaeth fanwl o egwyddorion cyfrifeg a rheolaeth ariannol, yn ogystal â thechnegau mathemategol arbenigol mewn cyd-destun ariannol megis modelu stocastig o'r farchnad stoc. Drwy hyn, cewch fagu dealltwriaeth gadarn o egwyddorion materion ariannol.

Byddwch yn elwa o:

- ddilyn cwrs sydd wedi'i achredu gan y Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau, cymdeithas ddysgedig a phroffesiynol y DU ar gyfer mathemateg, a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gydnabyddiaeth o statws Mathemategydd Siartredig
- manteisio ar arbenigedd darlithwyr yr Adran Fathemateg ac Ysgol Fusnes Aberystwyth
- cael eu dysgu gan arbenigwyr yn eu meysydd, sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil fathemategol, ystadegol ac economegol
- y dewis i astudio'r cwrs hwn gyda blwyddyn sylfaen integredig.

**Cyflogadwyedd**
Ar y cwrs hwn, cewch hyfforddiant cynhwysfawr yn y sgiliau hanfodol y mae'r sector ariannol yn gofyn amdanynt gan raddedigion a gyflogir. Mae ein graddedigion wedi dod o hyd i waith ym maes cyfrifeg, bancio, dadansoddi risg, gwaith actiwari, rheoli ariannol a dadansoddi buddsoddiadau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Algebra
- Calcwlws
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Tebygoleg
- Hafaliadau Differol
- Accounting and Finance for Specialists
- Algebra a Chalcwlws Pellach
- Dadansoddi Mathemategol
- Ystadegaeth.

**Yr ail flwyddyn:**
- Applied Statistics
- Corporate Finance and Financial Markets
- Distributions and Estimation
- Cyflwyniad i Ddadansoddiad Rhifiadol a'i Gymwysiadau
- Intermediate Management Accounting
- Algebra Llinol.

**Y flwyddyn olaf:**
- Probability and Stochastic Processes
- Investments and Financial Instruments
- Stochastic Models in Finance.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Ar gael hefyd:**
**G1NF** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Mathemateg Gymhwysol / Mathemateg Bur

67% ar gael drwy'r Gymraeg

Institute of mathematics & its applications

## BSc (Anrh) | G130 | 3 blynedd

Ar y radd Mathemateg Gymhwysol / Mathemateg Bur byddwch yn astudio cysyniadau mathemategol yn fanwl, yn ystyried adnabod a dadansoddi patrymau ac yn datblygu sgiliau o ran ffurfio dadl resymegol a chyfrifo. Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio mathemateg i ddatrys problemau mewn sawl maes yn ymwneud â gwyddoniaeth a pheirianneg.

Dros ddwy flynedd gyntaf y cwrs cewch gyflwyniad eang i feysydd pwysig mathemateg, gan gynnwys algebra, geometreg, hafaliadau gwahaniaethol a dadansoddi mathemategol. Yn dilyn hynny, cewch fanteisio ar yr arbenigedd ymysg staff yr adran ac arbenigo mewn meysydd o ddiddordeb i chi.

Byddwch yn elwa o:

- hanes hir a nodedig yr Adran o ragoriaeth dysgu ac ymroddiad i hynny
- dilyn cwrs sydd wedi'i achredu gan y Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau, cymdeithas ddysgedig a phroffesiynol y DU ar gyfer mathemateg, a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gydnabyddiaeth o statws Mathemategydd Siartredig
- cael eu dysgu gan arbenigwyr sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil Mathemateg.

**Cyflogadwyedd**
Mae mathemateg yn sylfaenol bwysig i amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys gwyddoniaeth, peirianneg, technoleg a chyllid. Mae ein graddedigion fel arfer yn dod o hyd i waith yn y sector ariannol, peirianneg, addysgu a'r diwydiant ystadegau, ac mae llawer yn mynd ymlaen i astudio'n bellach. Mae eraill wedi cael gwaith gyda chwmnïau megis LV= a Rolls Royce.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra
- Calcwlws
- Geometreg Gyfesurynnol a Fectoraidd
- Tebygoleg
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Mathemategol
- Hafaliadau Differol
- Algebra a Chalcwlws Pellach
- Dadansoddi Mathemategol
- Ystadegaeth.

**Yr ail flwyddyn:**

- Ffiseg Mathemategol
- Advanced Dynamics
- Cyflwyniad i Ddadansoddiad Rhifiadol a'i Gymwysiadau
- Dadansoddiad Cymhlyg
- Algebra Llinol
- Hydrodynameg 1
- Dadansoddiad Real.

**Y flwyddyn olaf:**
Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Group Theory
- Graffiau a Rhwydweithiau
- Normau a Hafaliadau Differol
- Hafaliadau Differol Rhannol
- Dulliau Asymptotig mewn Mecaneg
- Hydrodynamics II
- Integral Transforms
- Information Theory
- Mathematical Models of Biological Systems
- Topology.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.







# Modelu Mathemategol

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | 13GG | 3 blynedd

Ar y radd Modelu Mathemategol byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio theori fathemategol i ddatblygu modelau rhagfynegi yn y gwyddorau ffisegol a bywyd, er enghraifft wrth i glefydau ledaenu, ac ym maes peirianneg. Byddwch yn meithrin arbenigedd mewn dadansoddi a modelu mathemategol er mwyn pennu gwerth damcaniaethau a dadansoddi problemau'r byd go iawn. Ar yr un pryd, cewch sylfaen gadarn mewn technegau casglu, dosbarthu, trefnu, dadansoddi a dehongli data.

Dros ddwy flynedd gyntaf y cwrs cewch gyflwyniad eang i feysydd pwysig mathemateg, gan gynnwys geometreg, ystadegaeth, hafaliadau gwahaniaethol a hydrodynameg. Yn dilyn hynny, cewch fanteisio ar yr arbenigedd ymysg staff yr adran ac arbenigo mewn meysydd o ddiddordeb i chi.

Byddwch yn elwa o:

- hanes hir a nodedig yr Adran o ragoriaeth dysgu ac ymroddiad i hynny
- cael eich dysgu gan arbenigwyr sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil mathemateg, modelu mathemategol ac ystadegaeth.

**Cyflogadwyedd**

Bydd graddedigion y cwrs hwn yn addas ar gyfer cyflogaeth ym maes dadansoddi ystadegol ac ystadegaeth gyfrifiannol, dysgu, peirianneg awyrennol, cyfrifeg a bancio, dadansoddi risgiau a gwaith actiwari, rheolaeth ariannol a dadansoddi buddsoddiadau, a thechnoleg gwybodaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Algebra
- Calcwlws
- Geometreg Gyfesurynnol a Fectoraidd
- Tebygoleg
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Mathemategol
- Hafaliadau Differol
- Algebra a Chalcwlws Pellach
- Dadansoddi Mathemategol
- Ystadegaeth.

**Yr ail flwyddyn:**

- Applied Statistics
- Ffiseg Mathemategol
- Advanced Dynamics
- Cyflwyniad i Ddadansoddiad Rhifiadol a'i Gymwysiadau
- Dadansoddiad Cymhlyg
- Algebra Llinol
- Hydrodynameg 1.

**Y flwyddyn olaf:**

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Normau a Hafaliadau Differol
- Hafaliadau Differol Rhannol
- Linear Statistical Models
- Dulliau Asymptotig mewn Mecaneg
- Integral Transforms
- Theory of Elasticity
- Mathematical Models of Biological Systems
- Numerical Solution of Partial Differential Equations
- Probability and Stochastic Processes.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Mathemateg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Mathemateg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| **Mathemateg** | Addysg | GX13 | G1X3 |
| | Astudiaethau Ffilm a Theledu | GW16 | |
| | Busnes a Rheolaeth | GN11 | |
| | Cyfrifeg a Chyllid | GN94 | |
| | Cyfrifiadureg | GG14 | |
| | Cymraeg | GQ15 | |
| | Daearyddiaeth Ffisegol | FG81 | |
| | Drama a Theatr | GW14 | |
| | Economeg | GL91 | |
| | Ffrangeg | GR11 | |
| | Hanes | GV11 | |



# Nyrsio



Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Nyrsio

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| **Nyrsio** (Iechyd Meddwl) | t.171 |
| **Nyrsio** (Oedolion) | t.172 |






# Nyrsio (Iechyd Meddwl)

50% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | B760 | 3 blynedd

Mae ein rhaglen radd Nyrsio Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn rhoi'r sgiliau a'r profiad i chi allu cwrdd ag anghenion iechyd y gymdeithas fel y maent yn datblygu, a hynny mewn proffesiwn amrywiol a gwerth chweil.

Wrth i ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ddod yn fwyfwy cyffredin yn ein cymdeithas, rydym yn paratoi myfyrwyr i weithio gydag unigolion o bob oed, gydag ystod o brofiadau iechyd meddwl, mewn lleoliadau amrywiol. Fel nyrs iechyd meddwl, byddwch yn chwarae eich rhan i wella mynediad at ofal iechyd, lles, cynhwysiant cymdeithasol, ac ansawdd bywyd.

Byddwch yn datblygu sgiliau clinigol ac academaidd o fewn system gefnogaeth gadarn a ddarperir gan diwtoriaid personol yn y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd a chan Oruchwylwyr ac Aseswyr Ymarfer Clinigol pan fyddwch ar leoliadau, sy'n rhan annatod o'r rhaglen. Byddwch yn datblygu eich sgiliau clinigol yn ystod lleoliadau ymarfer, a allai olygu bod yn rhaid ichi deithio y tu hwnt i'r ardal leol.

Mae'r rhaglen nyrsio wedi mabwysiadu dull cymysg o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr gan ddefnyddio cyfuniad o addysgu hunangyfeiriedig, ar-lein ac wyneb yn wyneb, a fydd yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau, gwaith grŵp, cyflwyniadau, gweithdai, efelychiad, astudiaethau achos, cyfresi dysgu gweithredol a goruchwyliaeth glinigol. Ategir hyn gan ddysgu yn seiliedig ar sgiliau yn Uned Sgiliau Clinigol y Ganolfan.

Mae'r dysgu yn y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd yn Aberystwyth yn cael ei gyfoethogi gan ein Huned Sgiliau Clinigol newydd, lle ceir cyfres o ystafelloedd efelychu lle gallwch ddysgu ac ymarfer sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Bydd ein cyfleusterau yn eich galluogi i roi eich gwybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchiad mor agos â phosibl o'r union amodau y byddwch yn eu profi pan fyddwch yn mynd ar leoliad mewn ysbyty neu leoliad cymunedol.

**Cyflogadwyedd**
Ar ôl graddio, byddwch yn gymwys i wneud cais am statws Nyrs Gofrestredig (Iechyd Meddwl) gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac i gofrestru fel nyrs i weithio yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Gallwch ddisgwyl cyflog cychwynnol o £25,655 gan godi i £53,219 ar gyfer nyrs staff hynod brofiadol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Introduction to Professional Practice
- Developing Professional Practice
- Understanding the Human Body
- Arddangos Ymarfer Proffesiynol.

**Yr ail flwyddyn:**
- Introduction to Field Specific Nursing
- Complex Field Specific Nursing
- Pathophysiology of Common Conditions
- Gwella Ymarfer Proffesiynol.

**Y flwyddyn olaf:**
- Compassionate Leadership and Management
- Innovating Practice
- Transition to Autonomous Practitioner
- Arwain Ymarfer Proffesiynol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 104 - 96
**BR:** 28-26 pwynt yn gyffredinol.

**Cyfweliad:** Yn unol â'r cynllun Unwaith i Gymru, bydd y sawl sy'n bodloni'r meini prawf derbyn yn cael eu gwahodd i fynychu Digwyddiad Dethol Myfyrwyr.

**Gofynion Ychwanegol:**
Asesiad Iechyd a Chymeriad Da sy'n cynnwys:
- Sgriniad Iechyd Galwedigaethol
- Datgeliad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

(ar ôl i chi gael cynnig lle i astudio gyda ni).

# Nyrsio (Oedolion)

50% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | B740 | 3 blynedd

Mae ein rhaglen radd Nyrsio Oedolion ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn rhoi'r sgiliau a'r profiad i chi allu cwrdd ag anghenion iechyd y gymdeithas fel y maent yn datblygu, a hynny mewn proffesiwn amrywiol a gwerth chweil.

Mae'r rhaglen Nyrsio Oedolion yn Aberystwyth yn datblygu gweithwyr nyrsio proffesiynol sy'n gallu darparu gofal rhagorol mewn amrywiaeth o leoliadau ac sy'n rhoi'r claf yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau. Dros eich tair blynedd, byddwch yn datblygu'r gallu i asesu, cynllunio, cyflwyno, gwerthuso a monitro gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac i hyrwyddo urddas, gofal a thosturi.

Byddwch yn datblygu sgiliau clinigol ac academaidd o fewn system gefnogaeth gadarn a ddarperir gan diwtoriaid personol yn y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd a chan Oruchwylwyr ac Aseswyr Ymarfer Clinigol pan fyddwch ar leoliadau, sy'n rhan annatod o'r rhaglen. Byddwch yn datblygu eich sgiliau clinigol yn ystod lleoliadau ymarfer, a allai olygu bod yn rhaid ichi deithio y tu hwnt i'r ardal leol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Introduction to Professional Practice
- Developing Professional Practice
- Understanding the Human Body
- Arddangos Ymarfer Proffesiynol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Introduction to Field Specific Nursing
- Complex Field Specific Nursing
- Pathophysiology of Common Conditions
- Gwella Ymarfer Proffesiynol.

**Y flwyddyn olaf:**

- Compassionate Leadership and Management
- Innovating Practice
- Transition to Autonomous Practitioner
- Arwain Ymarfer Proffesiynol.

Mae'r rhaglen nyrsio wedi mabwysiadu dull cymysg o ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr gan ddefnyddio cyfuniad o addysgu hunangyfeiriedig, ar-lein ac wyneb yn wyneb, a fydd yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau, gwaith grŵp, cyflwyniadau, gweithdai, efelychiad, astudiaethau achos, cyfresi dysgu gweithredol a goruchwyliaeth glinigol. Ategir hyn gan ddysgu yn seiliedig ar sgiliau yn Uned Sgiliau Clinigol y Ganolfan.

Mae'r lleoedd i astudio ar y rhaglen hon yn cael eu comisiynu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a bydd y cyllid i dalu ffioedd dysgu yn seiliedig ar Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru neu'r llwybr Cyllid Myfyrwyr arferol. Mae rhagor o gymorth ariannol hefyd ar gael gan Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Noder bydd yn rhaid ichi ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl ennill eich cymhwyster a chofrestru fel nyrs gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth os ydych yn derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru. Caiff y broses hon ei rheoli'n ganolog gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a bydd y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr yn sicrhau y byddwch yn cael eich rhoi mewn swydd addas yn eich dewis ardal.

**Cyflogadwyedd**

Ar ôl graddio, byddwch yn gymwys i wneud cais am statws Nyrs Gofrestredig (Oedolion) gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac i gofrestru fel nyrs i weithio yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Gallwch ddisgwyl cyflog cychwynnol o £25,655 gan godi i £53,219 ar gyfer nyrs staff hynod brofiadol. Gall nyrsys arbenigol a rheolwyr practis ennill £45,000.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 104 – 96
**BR:** 28-26 pwynt yn gyffredinol.

**Cyfweliad:** Yn unol â'r cynllun Unwaith i Gymru, bydd y sawl sy'n bodloni'r meini prawf derbyn yn cael eu gwahodd i fynychu Digwyddiad Dethol Myfyrwyr.

**Gofynion Ychwanegol:**
Asesiad Iechyd a Chymeriad Da sy'n cynnwys:

- Sgriniad Iechyd Galwedigaethol
- Datgeliad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

(ar ôl i chi gael cynnig lle i astudio gyda ni).






# Peirianneg

## Ein cyrsiau...

Peirianneg Drydanol ac Electronig t.175

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Peirianneg





# Peirianneg Drydanol ac Electronig

34% ar gael drwy'r Gymraeg

## BEng (Anrh) | 163H | 3 blynedd

Mewn byd sy'n anelu am sero net, a byd o ddatblygiadau meddygol arloesol, a llawer o ddyfeisiau a systemau a ddefnyddiwn bob dydd, mae sgiliau ym maes peirianneg drydanol ac electronig yn hanfodol. Bydd ein cynllun gradd mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig yn datblygu eich sgiliau hanfodol, o electroneg analog a digidol i gymwysiadau bywyd go iawn, er enghraifft cyfathrebu ac ynni adnewyddadwy.

Yn y rhaglen radd hon yn Aberystwyth, gan gadw cyflogadwyedd mewn cof, rydym yn gwreiddio agwedd gadarnhaol tuag at ddatrys problemau fel y bydd gan ein myfyrwyr ar ôl graddio yr hyder, y galluoedd a'r wybodaeth i gyflawni eu haddewid yn effeithiol yn y meysydd hynod broffidiol hyn, p'un a ydynt mewn swydd ddiwydiannol neu fasnachol, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at y byd sydd ohoni a'i newidiadau cyson.

Byddwch yn elwa o:

- elfen ymarferol gref i'ch arfogi â'r sgiliau proffesiynol ac ymarferol y bydd eu hangen arnoch ar gyfer y gweithle
- thema gynaliadwyedd gref fel y gallwch werthfawrogi pwysigrwydd datrysiadau carbon isel ar gyfer ein byd yn y dyfodol a datblygu sgiliau priodol ar gyfer y farchnad ynni adnewyddadwy sy'n tyfu
- modiwlau sy'n amrywio ar draws disgyblaethau ffiseg, cyfrifiadureg a mathemateg i roi sylfaen drylwyr i chi yn y wyddoniaeth sy'n sail i beirianneg
- pecynnau modelu fel COMSOL a Zemax sy'n sgiliau masnachol y mae galw mawr amdanynt yn enwedig wrth i ni symud tuag at sero net.

**Cyflogadwyedd**

Mae Peirianneg yn un o'r technolegau galluogi allweddol ledled y byd ac mae'n ddewis gyrfa ysgogol a gwerthfawr. Mae ein pwyslais cychwynnol ar Beirianneg Drydanol ac Electronig yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth rhagorol o fewn y diwydiannau technoleg werdd, diwydiannau awyrofod a moduro, mewn cyfathrebu a rhwydweithio, telathrebu ac amddiffyn, gwyddor bywyd, deallusrwydd artiffisial, dysgu peirianyddol, yn ogystal ag ym maes newydd Rhyngrwyd Pethau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Analogue and Digital Electronics
- Calcwlws
- Algebra a Hafaliadau Differol
- Cyflwyniad i Raglennu
- Trydan, Magneteg a Mater
- Professional and Sustainable Industrial Practice
- Technegau Labordy ar gyfer Ffisegwyr Arbrofol a Pheirianwyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Power and Machine
- Signals and Communication
- Ffiseg Mathemategol
- Robotics and Embedded Systems
- Sensors, Electronics and Instrumentation
- Sgiliau Ymchwil Ymarferol.

**Y flwyddyn olaf:**

- Communication Engineering and Applications
- Optoelectronic Devices, Sensors and the Internet
- Communication Engineering and Applications
- Systems Engineering
- Engineering Control Theory
- Fundamentals of Machine Learning
- Prosiect (gyda rheoli prosiect).

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-112
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:**
57% gwaith cwrs, 43% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **163Y** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **163F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |
| **163M** | Meistr Integredig. |
| **163MY** | Meistr Integredig gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant. |

# Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

## Ein cyrsiau...

Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd t.177
Llenyddiaeth Saesneg t.178
Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol t.179
Ysgrifennu Creadigol t.180
Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc t.181

Myfyrwyr yn mwynhau awyrgylch llawn ysbrydoliaeth plasty Gregynog yn ystod egwyl rhwng y gweithdai ar Encil Ysgrifennu blynyddol yr Adran.



**Ar y brig yn y DU**

am Ansawdd y Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr ym mhwnc Saesneg

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)

**Ar y brig yn y DU**

am Fodlonrwydd â'r Addysgu ym mhwnc Ysgrifennu Creadigol

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2024)



# Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | FQ73 | 3 blynedd

Ar y radd Astudiaethau Saesneg a Newid yn yr Hinsawdd byddwch yn ymdrin â thestunau sy'n ystyried ac yn cynrychioli newid yn yr hinsawdd, ac sy'n gwerthuso'r her hinsawdd a'i effeithiau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac ecolegol. Trwy godi cwestiynau cythruddol am ymatebion pobl i newid yn yr hinsawdd (sy'n ddieithriad yn cynnwys y gair ysgrifenedig neu'r gair llafar) bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi ddadansoddi safbwyntiau amrywiol ar her fyd-eang.

Mae'r cwrs Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd yn rhoi gwybodaeth arbenigol am ymatebion ffuglennol ac anffuglennol i'r hinsawdd. Byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol ym maes Ysgrifennu am Argyfyngau mewn gwahanol genres a ffurfiau.

Byddwch yn elwa o:

- ymwneud â, a datblygu, dull amlddisgyblaethol pendant o drafod newid hinsawdd, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r wyddoniaeth sy'n sail i'r argyfwng hinsawdd
- dadansoddi achosion a chanlyniadau newid hinsawdd a diraddio amgylcheddol, a sut mae llenyddiaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw yn cyfeirio at newid hinsawdd
- archwilio'r cysylltiadau rhwng newid hinsawdd a heriau byd-eang eraill a'r modd maent yn cael eu cyfleu i wahanol gynulleidfaoedd
- myfyrio ar y modd y mae cynefinoedd, adnoddau a systemau ecolegol ein planed yn cael eu hadlewyrchu yn y straeon yr ydym yn eu hadrodd, ac yn siapio'r straeon hynny.

**Cyflogadwyedd**

Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfa ym meysydd rheoli, addasu a lliniaru newid hinsawdd yn y DU a thramor. Byddant hefyd yn gymwys ar gyfer gyrfaoedd mewn meysydd cysylltiedig megis addysg amgylcheddol ac ymgynghori, neu gadwraeth. Mae eraill yn debyg o fynd ymlaen i astudio ar lefel uwchraddedig - gradd Meistr neu Ddoethuriaeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- Creative Practice
- Critical Practice
- The Science of Climate.

**Yr ail flwyddyn:**

- Literature and Climate in the Nineteenth Century
- Literary Theory: Debates and Dialogues.

**Y flwyddyn olaf:**

- The Writing Project
- Undergraduate Dissertation.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Speculative Fiction and the Climate Crisis
- Crisis Writing
- Literatures of Surveillance
- Animals in Literature
- Literature and the Sea
- Contemporary Queer Fictions
- Adventures with Poetry
- Demons and Degenerates
- Writing Crime Fiction
- Telling True Stories
- Reading and Writing Fantasy Fiction
- Writing and Place
- Literary Geographies.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Cyfuniad o waith cwrs traddodiadol ac arholiadau y gellir eu sefyll o bell, gan ddibynnu ar eich dewis o fodiwlau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Llenyddiaeth Saesneg

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | Q300 | 3 blynedd

Bydd ein gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg yn tanio eich dychymyg trwy archwilio'r ystod ehangaf bosibl o destunau a diwylliannau llenyddol. Rydym yn cynnig dewis rhagorol o gyrsiau i'n myfyrwyr, o gyfnod y canol oesoedd cynnar hyd heddiw.

Cewch ddarganfod amrywiaeth eang o agweddau ar lenyddiaeth a diwylliant. Cewch eich annog i ddarllen yn eang ac i feddwl yn feirniadol am ysgrifennu ac am ei gyd-destun, ochr yn ochr â thueddiadau athronyddol a gwleidyddol sy'n effeithio ar y ffyrdd yr ydym yn darllen ac yn ysgrifennu.

Wedi ichi gwblhau'r cwrs bydd gennych allu digamsyniol i fynegi a chyfathrebu, wedi'i asio â gwybodaeth arbenigol a sgiliau ymchwil. Byddwch yn darganfod eich potensial fel dysgwr annibynnol wrth weithio mewn amgylchedd dysgu gofalgar a strwythuredig, a fydd yn eich galluogi i ragori.

Byddwch yn elwa o:

- gyfle i ddysgu ochr yn ochr ag ymchwilwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol am eu cyfraniadau i wybodaeth a datblygu'r ddisgyblaeth
- traddodiad cryf o addysgu arbenigol ym meysydd ysgrifennu menywod, daearyddiaeth lenyddol, llenyddiaeth plant, ysgrifennu o Gymru yn Saesneg, ysgrifennu LGBTQIA+, llenyddiaeth ôl-drefedigaethol, astudiaethau'r canol oesoedd a Rhamantiaeth
- cyfleoedd i weithio gyda chyhoeddiadau academaidd a sefydliadau diwylliannol blaenllaw megis yr *International Journal of Welsh Writing in English* a'r *New Welsh Review* – cylchgrawn llenyddol mwyaf blaenllaw Cymru – a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sy'n un o'r canolfannau celfyddydol mwyaf yng Nghymru, a gydnabyddir fel canolfan genedlaethol o bwys ym maes y celfyddydau.

**Cyflogadwyedd**

Mae gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg yn cynnig hyfforddiant 'safon aur' ar gyfer unrhyw swydd lle mae cyfathrebu yn hollbwysig. Bydd ein modiwlau'n cynnig ichi'r sgiliau angenrheidiol er mwyn llunio CV cynhwysfawr sy'n dangos amrywiaeth eang o sgiliau. Mae ein graddedigion yn cael gwaith mewn amryw helaeth o feysydd, yn cynnwys darlledu, newyddiaduraeth, hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, addysg, y gwasanaeth sifil, cyllid a'r cyfryngau newydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf**
- Ancestral Voices
- Critical Practice.

**Yr ail flwyddyn**
- Literary Theory: Debates and Dialogues.

**Y flwyddyn olaf**
- Reading Theory / Reading Text
- Undergraduate Dissertation.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Queer Fictions
- Demons and Degenerates
- Greek and Roman Epic and Drama
- Re-imagining Nineteenth-century Literature
- Literature and the Sea
- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Chaucer in the Then and Now
- Re-imagining Nineteenth-century Literature
- Haunting Texts
- Shakespeare, Jonson, and Company
- Literatures of Surveillance
- Animals in Literature
- Reimagining the World Wars
- Speculative Fiction and the Climate Crisis.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Pwyslais marcio:** Cyfuniad o waith cwrs traddodiadol ac arholiadau y gellir eu sefyll o bell, gan ddibynnu ar eich dewis o fodiwlau.



# Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | QW38 | 3 blynedd

Bydd ein cwrs cyfun mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn rhoi ichi'r cyfle i ddatblygu i fod yn ymarferydd creadigol yn ogystal ag un beirniadol. Bydd y radd yn eich helpu i ehangu amrywiaeth a hyd a lled eich dawn ysgrifennu, a'ch galluogi i weithio'n hyderus mewn sawl ffurf a genre.

Byddwch yn datblygu ymarfer ysgrifennu adfyfyriol a arweinir gan wybodaeth eang o ysgrifennu cyfoes ac ysgrifennu o'r gorffennol, dealltwriaeth o'r cyd-destun llenyddol a diwylliannol sy'n gefndir i'r broses o ysgrifennu ac o ddarllen llenyddiaeth, ac ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wahanol agweddau ar astudio llenyddiaeth ac ysgrifennu.

Byddwch yn elwa o:

- gyfle i ddysgu ochr yn ochr â thîm o awduron nodedig, arobryn, sy'n gweithio ar draws sbectrwm eang o feysydd creadigol
- traddodiad cryf o ddysgu arbenigol mewn meysydd megis ysgrifennu menywod, ysgrifennu a lle, ysgrifennu LGBTQIA+, drama'r Dadeni a Rhamantiaeth
- cyfleoedd i ddatblygu eich ysgrifennu gydag ymarferwyr a chanddynt arbenigedd mewn amryw helaeth o arddulliau megis barddoniaeth gyfoes, y nofel graffig, ffuglen wyddonol, ac ysgrifennu ar gyfer y llwyfan, y sgrin, a'r radio
- cymryd rhan mewn encil ysgrifennu a gynhelir mewn plasty yng nghefn gwlad canolbarth Cymru.

**Cyflogadwyedd**

Mae gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn cynnig hyfforddiant 'safon aur' ar gyfer unrhyw swydd lle mae cyfathrebu yn hollbwysig. Mae llawer o'n graddedigion yn ysgrifenwyr llwyddiannus ac yn cyhoeddi mewn amrywiaeth fawr o feysydd megis ffuglen, ysgrifennu ffeithiol, y cyfryngau newyddiadurol, barddoniaeth, ysgrifennu ar gyfer y sgrin a drama. Mae eraill wedi datblygu gyrfa lwyddiannus ym maes cyhoeddi, newyddiaduraeth, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, cyllid, gwasanaeth sifil, gyrff anllywodraethol, dysgu, golygu, a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Creative Practice
- Critical Practice.

**Yr ail flwyddyn:**
- Literary Theory: Debates and Dialogues.

**Y flwyddyn olaf:**
- The Writing Project
- Undergraduate Dissertation.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Ancestral Voices
- Contemporary Queer Fictions
- Kapow! Reading and Writing Graphic Narratives
- Demons, Degenerates and New Women: Fin de Siècle Fictions
- Greek and Roman Epic and Drama
- Re-imagining Nineteenth-century Literature
- Literature and the Sea
- Adventures with Poetry
- Contemporary Writing and Climate Crisis
- Telling True Stories: Ways of Writing Creative Non-fiction
- Writing Selves
- Writing and Place
- Remix: Chaucer in the Then and Now
- Writing Crime Fiction.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Cyfuniad o waith cwrs traddodiadol ac arholiadau y gellir eu sefyll o bell, gan ddibynnu ar eich dewis o fodiwlau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**QW3F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Ysgrifennu Creadigol

ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | W801 | 3 blynedd

Mae ein cwrs Ysgrifennu Creadigol yn cynnig cyfleoedd cyffrous ac amrywiol i ysgrifennu mewn amryw helaeth o ffurfiau a genres. Yma yn Aberystwyth byddwch yn datblygu sgiliau creadigol dychmygol a dyfeisgar a fydd yn eich galluogi i weithio'n hyderus ac yn effeithiol ar draws amrywiaeth o arddulliau.

Mae'r radd hon yn cynnig cwricwlwm eang sy'n torri ar draws ffiniau pwnc traddodiadol. Cewch gyfleoedd i arbrofi gyda genre, ffurf, iaith, cyfryngau, arddull a chyflwyniad.

Wedi ichi gwblhau'r radd hon byddwch yn gallu ysgrifennu'n hyderus, gan deilwra eich gwaith i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Fe fydd gennych ymwybyddiaeth graff o faterion fel cywair, strwythur, genre a swyddogaeth a byddwch yn trosi'r rhain i'ch ysgrifennu eich hun.

Byddwch yn elwa o:

- gyfle i ddysgu ochr yn ochr â thîm o awduron nodedig, arobryn, sy'n gweithio ar draws sbectrwm eang o feysydd creadigol
- cymryd rhan mewn encil ysgrifennu a gynhelir mewn plasty yng nghefn gwlad canolbarth Cymru
- traddodiad cryf o ddysgu arbenigol ym meysydd barddoniaeth gyfoes, y nofel graffig, ffuglen trosedd, ysgrifennu am fywyd, ffuglen hanesyddol, ffuglen wyddonol, ac ysgrifennu ar gyfer y llwyfan, y sgrin, a'r radio
- cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau llenyddol a diwylliannol blaenllaw fel y *New Welsh Review* – prif gylchgrawn llenyddol Cymru – a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sy'n un o'r canolfannau celfyddydol mwyaf yng Nghymru.

**Cyflogadwyedd**
Mae llawer o'n graddedigion yn ysgrifenwyr llwyddiannus ac yn cyhoeddi mewn amrywiaeth fawr o feysydd megis ffuglen, ysgrifennu ffeithiol, y cyfryngau newyddiadurol, barddoniaeth, ysgrifennu ar gyfer y sgrin a drama. Mae eraill wedi datblygu gyrfa lwyddiannus ym maes cyhoeddi, newyddiaduraeth, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, cyllid, gwasanaeth sifil, gyrff anllywodraethol, dysgu, golygu, a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Critical Perspectives on Creative Writing
- Creative Practice.

**Yr ail flwyddyn:**
- Beginning the Novel.

**Y flwyddyn olaf:**
- The Writing Project.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Kapow! Reading and Writing Graphic Narratives
- Adventures with Poetry
- Telling True Stories
- Writing Selves
- Writing and Place
- Writing Crime Fiction
- Exploring Professional Writing
- Reading and Writing Fantasy Fiction
- Reading and Writing Science Fiction
- Shaping Plots
- Poetry for Today
- Speculative Fiction and the Climate Crisis
- Writing for Film and Television
- Scriptwriting
- Videogame Theories.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun | Prif/is-bwnc |
|---|---|---|---|
| Llenyddiaeth Saesneg | Addysg | QX33 | |
| | Astudiaethau Ffilm a Theledu | QW36 | |
| | Celfyddyd Gain | WQ13 | |
| | Cyfryngau | | P3Q3 |
| | Drama a Theatr | QW34 | |
| | Ffrangeg | QR31 | |
| | Hanes | QV31 | |
| Ysgrifennu Creadigol | Astudiaethau Ffilm a Theledu | WP83 | |
| | Celfyddyd Gain | WW18 | |
| | Cyfryngau | | P3W8 |
| | Drama a Theatr | W841 | |
| | Ffotograffiaeth | WW68 | |
| | Ffrangeg | WR81 | |
| | Hanes | WV81 | |
| | Sbaeneg | WR84 | |



# Seicoleg

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Seicoleg

## Ein cyrsiau...

| | |
|---|---|
| Seicoleg | t.183 |
| Seicoleg a Chymdeithaseg | t.77 |
| Seicoleg gyda Chwnsela | t.184 |
| Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig | t.186 |
| Graddau Cyfun | t.187 |



## Yn y 5 uchaf yn y DU

am Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Seicoleg

(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Seicoleg

13 ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

## BSc (Anrh) | C800 | 3 blynedd

Mae ein gradd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a'i chynllunio i ddatblygu a llunio eich dealltwriaeth o'r meddwl ac o ymddygiad dynol. Ein hethos yw dysgu mewn ffordd sy'n caniatáu ichi ddatblygu gwybodaeth gysyniadol a damcaniaethol y gallwch ei defnyddio i ddatrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn. I'ch cefnogi i wneud hyn, mae ein gradd wedi ei hadeiladu o gylch pynciau craidd hanfodol ym maes seicoleg, sy'n sylfaen ar gyfer yr amrywiaeth o fodiwlau dewisol arbenigol yr ydym yn eu cynnig yn yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Mae gan yr adran gyfleusterau addysgu ac ymchwil rhagorol, yn cynnwys labordai gydag amrywiaeth o gyfarpar ac offer. Gyda'r adnoddau hyn cewch ddatblygu'ch diddordebau a defnyddio technegau creadigol i ddatrys problemau trwy gydol eich gradd.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff sy'n weithredol o ran ymchwil
- cyfarpar tracio llygaid, electroenceffalogram (EEG), Biopac ac offer mesur ymddygiadol
- ffocws ar gymhwyso seicoleg
- graddau wedi'u hachredu'n llawn gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a chyfle i astudio dramor neu weithio ar leoliad mewn diwydiant yn rhan o'ch gradd
- astudio mewn adran sydd â hanes eithriadol o ran cyflogadwyedd myfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**
Bydd gradd Seicoleg o Brifysgol Aberystwyth yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd, ac yn rhoi ichi gyfleoedd i hyfforddi ymhellach, yn cynnwys: seicoleg glinigol, addysgol, alwedigaethol, chwaraeon ac ymarfer corff; seicotherapi a chwnsela; gwaith cymdeithasol; gofal iechyd; adnoddau dynol; gwasanaeth cyngor gyrfaol; marchnata, cyhoeddi a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Applications of Psychology
- Brain, Behaviour and Cognition
- Conceptual and Historical Issues in Psychology
- Designing Psychological Research Projects
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Personal Development and Organisational Behaviour.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology.

**Y flwyddyn olaf:**
- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology and Individual Differences
- Prosiect Ymchwil Seicoleg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y mae'n bosibl y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Forensic Psychology
- Evolutionary Psychology
- Seicoleg Iechyd
- Issues in Clinical Psychology
- Psychology of Humour
- Drugs and Behaviour
- Psychology of Language

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**WF7F** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**N1FW** Blwyddyn integredig yn astudio dramor.
**C80F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Seicoleg gyda Chwnsela

5% ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

## BSc (Anrh) | C843 | 3 blynedd

Mae'r radd Seicoleg gyda Chwnsela yn cyfuno astudiaeth o gysyniadau seicolegol craidd ag elfennau o wybodaeth a sgiliau sy'n ymwneud â chwnsela, er mwyn datblygu eich dealltwriaeth o ymddygiad dynol ac ymagweddau i ddarparu cymorth seicolegol drwy gwnsela.

Bydd y radd hon yn rhoi ichi sgiliau hyblyg a hynod ddeniadol ar gyfer y gweithle. Mae hefyd yn gam delfrydol tuag at yrfa mewn cwnsela, seicotherapi, seicoleg glinigol a seicoleg iechyd. Dylid nodi na fydd y radd hon yn golygu eich bod yn cymhwyso fel ymarferydd cwnsela.

Mae ein cyfleusterau wedi'u cynllunio i roi cymaint o brofiad ymarferol ichi â phosibl ac maent yn cynnwys labordai sydd wedi'u gosod â chamerâu a microffonau. Bydd yr asesu'n pwysleisio elfennau ymarferol y cwrs gan roi ichi flas o beth yw hi i weithio fel ymarferydd therapiwtig.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd sy'n cael ei hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS)
- dysgu arbrofol mewn grwpiau bach, gan gysylltu theori ag ymarfer yn barhaus
- cael eich dysgu gan seicolegwyr siartredig a chwnselwyr/seicotherapyddion sy'n ymarfer, a fydd yn sicrhau bod y theori a'r ymarfer yn berthnasol i chi
- cyfleusterau sy'n cynnwys ystafelloedd arsylwi a chyfweld gydag offer camera a sain, sy'n caniatáu cynnal sesiynau i ymarfer sgiliau ymchwilio, cyfweld, a chwnsela, a'r rheiny'n cael eu recordio.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein gradd BSc Seicoleg gyda Chwnsela yn sylfaen ragorol os ydych yn ystyried gyrfa ym maes gofal cymdeithasol neu'r proffesiynau gofal. Mae'r radd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a fydd yn caniatáu ichi fynd ymlaen i hyfforddiant ar lefel uwchraddedig neu broffesiynol mewn seicoleg glinigol a chwnsela. Mae ein graddedigion Seicoleg wedi dod o hyd i waith mewn amrywiaeth o feysydd gyrfa, yn cynnwys: seicoleg glinigol, addysgol, alwedigaethol, chwaraeon ac ymarfer corff; seicotherapi a chwnsela; gwaith cymdeithasol; gofal iechyd; adnoddau dynol; gwasanaeth cyngor gyrfaol; marchnata, cyhoeddi a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Brain, Behaviour and Cognition
- Conceptual and Historical Issues in Psychology
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Personal Development and Organisational Behaviour
- Designing Psychological Research Projects
- Foundations of Counselling: Skills and Theory I.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology
- Issues in Clinical Psychology
- Seicoleg Iechyd
- Foundations of Counselling: Skills and Theory II.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology and Individual Differences
- Prosiect Ymchwil Cwnsela.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**C844** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.





# Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig

20% ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

## BSc (Anrh) | C802 | 3 blynedd

Mae'r BSc Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig yn cynnig cyfle i fyfyrwyr i gael cipolwg ar agweddau beirniadol ar y maes seicoleg gymhwysol hwn, gan gynnwys deall sut mae pobl yn datblygu i fod yn droseddwyr ac ymddygiad troseddol, ymddygiad yn y llysoedd a phroffilio troseddwyr. Mae cymwysterau proffesiynol yn gofyn am sylfaen gadarn yng nghefndir seicoleg fforensig, ac mae llwybr israddedig achrededig Cymdeithas Seicolegol Prydain (y BPS) yn gonglfaen pwysig sy'n arwain at astudiaethau ôl-raddedig yn ddiweddarach. Mae'r astudiaethau hyn yn hanfodol i'r rhai sy'n ystyried ymgyrraedd at Ddoethuriaethau Fforensig a statws Seicolegydd Fforensig Siartredig.

Mae astudio Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig yn caniatáu ichi archwilio cysyniadau allweddol ac ymchwil gymhwysol drwy fodiwlau pwrpasol a phrosiectau blwyddyn olaf ar thema fforensig dan ofal arolygwr. Byddwch yn astudio seicoleg fforensig ynghyd â modiwlau perthynol ychwanegol, megis rhai am gyffuriau ac ymddygiad a byddwch yn ysgrifennu traethawd hir ar thema fforensig. Mae llawer o staff yr adran yn cynnal ymchwil mewn lleoliadau fforensig, ac mae'r gwaith ymchwil hwn yn cynnwys prosiectau sydd wedi'u hariannu a'u cynnal ar y cyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref, a hynny mewn pynciau megis troseddau difrifol a threfnedig, cyfiawnder adferol a seiberdroseddu.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff sy'n weithredol o ran ymchwil
- ffocws ar gymhwyso seicoleg i gyd-destunau fforensig
- graddau wedi'u hachredu'n llawn gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS).

**Cyflogadwyedd**
Prif gyflogwr seicolegwyr fforensig yw Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Fodd bynnag, mae cyfleoedd hefyd ym maes cyfiawnder troseddol yn ehangach ac mewn mannau eraill. Fe allech gael eich cyflogi gan y Swyddfa Gartref, y Gwasanaeth Iechyd (mewn ysbytai arbennig ac unedau adsefydlu, gwasanaethau fforensig lleol ac ysbytai diogel), yr Heddlu, Gwasanaethau cymdeithasol, ymchwil, darlithio ac ymgynghoriaeth breifat.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Brain, Behaviour and Cognition
- Personal Development and Organisational Behaviour
- Designing Psychological Research Projects
- Introduction to Forensic Psychology
- Conceptual and Historical Issues in Psychology.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Social Psychology
- Applied Forensic Psychology
- Quantitative Research Methods.

**Y flwyddyn olaf:**
- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology
- Drugs and Behaviour
- Forensic Psychology Dissertation.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu dewis er mwyn datblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**C803** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Seicoleg | Addysg | CX80 |
| | Busnes a Rheolaeth | NC18 |
| | Marchnata | NC58 |
| | Troseddeg | CM89, A1C6 |



# Troseddeg

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Troseddeg

## Ein cyrsiau...

| | |
|---|---|
| Troseddeg | t.189 |
| Cyfraith a Throseddeg | t.200 |
| Troseddeg a Chymdeithaseg | t.190 |
| Troseddeg a Seicoleg Droseddol | t.191 |



**Yn y 5 uchaf yn y DU**
am Ansawdd y Dysgu ym mhwnc Troseddeg
(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)

**Yn y 10 uchaf yn y DU**
am Brofiad Myfyrwyr ym mhwnc Troseddeg
(Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024)



# Troseddeg

66% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | M900 | 3 blynedd

Mae Troseddeg yn bwnc hynod ddiddorol sy'n astudio ystyr trosedd a pham mae rhai ymddygiadau penodol yn cael eu cyfrif yn rhai troseddol. Byddwch yn archwilio goblygiadau labelu pobl yn droseddwyr a sut mae cymdeithas yn ymateb i ymddygiad troseddol drwy ganfod, cosbi ac adsefydlu troseddwyr. Byddwch hefyd yn ystyried effaith trosedd a throseddu ar ddioddefwyr ac ar y gymdeithas yn gyffredinol.

Byddwch yn gwneud defnydd helaeth o ddamcaniaethau cymdeithasegol, seicolegol a chyfreithiol ac esiamplau go iawn i archwilio achosion trosedd, sut y diffinnir trosedd, a pham yr ystyrir ymddygiadau penodol yn rhai troseddol. Byddwch yn archwilio effaith troseddu a throseddolrwydd ar ddioddefwyr a chymdeithas, ac yn archwilio amrywiaeth eang o safbwyntiau troseddegol. Bydd rhain yn amrywio o Droseddeg Glasurol i'r meysydd newydd sydd ar frig y byd troseddegol, megis troseddau yn erbyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau i ddadansoddi'r ddadl ynghylch trosedd a throseddiaeth, y wybodaeth am sut a pham y mae pobl yn troseddu, a'r sgiliau i gymhwyso'ch gwybodaeth mewn sefyllfaoedd go iawn.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan droseddegwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil
- y cyfle i wneud profiad gwaith ym maes cyfiawnder troseddol
- y cyfle i astudio Troseddeg sy'n benodol i Gymru
- elwa o'n cysylltiadau cryf ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol
- ymgymryd ag ymchwil annibynnol ym maes troseddeg dan oruchwyliaeth.

**Cyflogadwyedd**
Mae Troseddeg yn cynnig sail academaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EF, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chyfiawnder ieuenctid. Gall cyflawni'r radd hon hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi trosedd neu gudd-wybodaeth, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Troseddegwyr
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Rheoli ac Atal Troseddu
- Cyfraith Droseddol
- Troseddeg ar Waith.

**Yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf:**
- Troseddeg Feirniadol a Radical
- Traethawd Estynedig Troseddeg
- Sgiliau Ymchwil Meintiol
- Trosedd a Chyfiawnder Ieuenctid.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Crime and the Media
- Drugs and Crime
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Principles of Evidence
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour
- Psychopathology
- Treatment and Rehabilitation of Offenders
- Contemporary Issues in Criminology
- Seiberdroseddu a Seiberddiogelwch
- Psychology & Crime
- Wrongful Convictions in Criminological Context
- Victimology.

Gall myfyrwyr Troseddeg hefyd ddewis astudio ystod eang o fodiwlau'r gyfraith a gynigir gan yr Adran.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**M90F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Troseddeg a Chymdeithaseg

56% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | ML93 | 3 blynedd

Bydd y radd BSc mewn Troseddeg a Chymdeithaseg yn eich galluogi i ddysgu am y cysyniadau sy'n allweddol i ddeall sut mae trosedd a gwyredd yn cael eu hystyried gan gymdeithas. Cewch gyfle i archwilio natur ryngddisgyblaethol trosedd, troseddiaeth a chymdeithas yn ogystal â'r berthynas rhwng cymdeithas a throsedd.

Bydd y cynllun gradd hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl ichi o'r gymdeithas a throseddu, a bydd yn eich cyflwyno i safbwyntiau newydd ar anghydraddoldeb cymdeithasol a newid cymdeithasol sy'n digwydd yn lleol ac yn rhyngwladol.

Trwy roi golwg fanwl ar droseddeg o safbwynt cymdeithasegol, bydd ein gradd yn rhoi ichi'r wybodaeth ddatblygedig a'r sgiliau dadansoddi sydd eu hangen er mwyn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a chymdeithasol, yn ogystal â'r system cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn fan cychwyn gwych ar gyfer astudiaethau pellach.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan droseddegwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil
- y cyfle i wneud profiad gwaith ym maes cyfiawnder troseddol
- elwa o'n cysylltiadau cryf ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol
- ymgymryd ag ymchwil annibynnol ym maes troseddeg dan oruchwyliaeth.

**Cyflogadwyedd**

Mae Troseddeg a Chymdeithaseg yn cynnig sail academaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EF, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chyfiawnder ieuenctid. Gall cyflawni'r radd hon hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi trosedd neu gudd-wybodaeth, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Rheoli ac Atal Troseddu
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Troseddegwyr
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Key Concepts in Sociology
- Place and Identity
- Thinking Sociologically.

**Yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf:**

- Sgiliau Ymchwil Meintiol
- Sociological Theory
- Genders and Sexualities
- Traethawd Estynedig Empeiraidd neu Draethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg
- Troseddeg Feirniadol a Radical.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Contemporary Global Migration
- Placing Culture
- Placing Politics
- Geographical Information Systems
- Seiberdroseddu a Seiberddiogelwch
- Wrongful Convictions in Criminological Context
- Everyday Social Worlds
- Critical Perspectives on Imprisonment
- Memory Cultures: Heritage, Identity and Power
- Treatment and Rehabilitation of Offenders.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Troseddeg a Seicoleg Droseddol

71% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | M9C6 | 3 blynedd

Mae Troseddeg a Seicoleg Droseddol yn radd thematig ym maes troseddeg a fydd yn rhoi cyfle ichi astudio trosedd ac ymddygiad troseddol o safbwynt seicolegol. Mae'r cwrs yn ymchwilio i ymddygiad a meddyliau troseddwyr, achosion ac effeithiau troseddolrwydd, a sut i atal ymddygiad troseddol, a hynny trwy lens ddeuol troseddeg a seicoleg. Mae hefyd yn ymchwilio i'r defnydd o seicoleg gyfreithiol a fforensig mewn agweddau ar ymchwiliadau'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol.

Byddwch yn archwilio'r rhesymau y mae pobl yn troseddu, yn ogystal â pham y diffinnir rhai gweithredoedd penodol yn rhai troseddol. Bydd ein hacademyddion sy'n weithgar ym maes ymchwil yn eich hyfforddi yn nulliau sylfaenol ymchwil droseddegol, a bydd hyn yn rhoi ichi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso astudiaethau damcaniaethol ac empirig yn y maes hwn mewn modd beirniadol.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan droseddegwyr sy'n weithgar ym maes ymchwil
- y cyfle i wneud profiad gwaith ym maes cyfiawnder troseddol
- elwa o'n cysylltiadau cryf ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol
- ymgymryd ag ymchwil annibynnol ym maes troseddeg dan oruchwyliaeth.

**Cyflogadwyedd**

Mae Troseddeg a Seicoleg Droseddol yn cynnig sail academaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EF, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a chyfiawnder ieuenctid. Gall cyflawni'r radd hon hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi trosedd neu gudd-wybodaeth, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Troseddegwyr
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Rheoli ac Atal Troseddu
- Troseddeg ar Waith
- Foundations of Psychology.

**Yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf:**

- Sgiliau Ymchwil Meintiol
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour
- Psychopathology
- Treatment and Rehabilitation of Offenders
- Traethawd Estynedig Empeiraidd neu Draethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Crime and the Media
- Drugs and Crime
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Principles of Evidence
- Troseddau a Chyfiawnder Ieuenctid
- Contemporary Issues in Criminology
- Seiberdroseddu a Seiberddiogelwch
- Victimology.

Gall myfyrwyr Troseddeg hefyd ddewis astudio ystod eang o fodiwlau'r gyfraith a gynigir gan yr Adran.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
100% gwaith cwrs neu 50% gwaith cwrs a 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Y Biowyddorau

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Bioleg | t.193 |
| Bioleg a Newid Hinsawdd | t.194 |
| Gwyddorau Bywyd | t.196 |
| Microbioleg | t.197 |


Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Biowyddorau



**3ydd yn y DU**

am Fodlonrwydd gyda'r Asesu a'r Adborth ym mhwnc Bioleg

(Tabl Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2023)

Y Biowyddorau



# Bioleg

54% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C100 | 3 blynedd

Ar ein gradd Bioleg, byddwch yn astudio bioleg ar bob graddfa, o fioleg amgylcheddol i organebau cyfan a bioleg celloedd.

Byddwch yn canolbwyntio ar ddeall genomau cyfan, dadansoddi eu hesblygiad, ac ymchwilio i swyddogaeth genynnau unigol, gan ddefnyddio dulliau dadansoddi sy'n torri tir newydd. Byddwch hefyd yn ystyried y benbleth foesegol sy'n codi yn sgil datblygiadau mewn gwybodaeth fiolegol, er enghraifft mewn triniaethau dadleuol ar gyfer clefydau neu feddyginiaeth atgenhedlu. Ein nod yw datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau arbrofol a hefyd annog meddwl beirniadol, creadigol ac arloesol.

Byddwch yn elwa o:

- gymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- defnyddio labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- datblygu arbenigedd dadansoddol uwch mewn biowybodeg, systemau gwybodaeth ddaearyddol, modelu cilfachau hinsoddol ac epidemioleg, a chaiff hynny ei gefnogi gan fynediad at gyfleusterau cyfrifiadurol uchel eu perfformiad.

**Cyflogadwyedd**

Mae graddedigion diweddar wedi cael gwaith gydag awdurdodau addysg, Asiantaeth yr Amgylchedd, cyrff cadwraeth, cwmnïau fferyllol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, canolfannau Bywyd Môr, labordai iechyd cyhoeddus a'r diwydiant dŵr, i roi rhai enghreifftiau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Comparative Animal Physiology
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Evolution and Molecular Systematics
- Practical and Professional Skills in Microbiology
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Biotechnology
- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 28-30 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**C102** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**C109** Meistr Integredig.

# Bioleg a Newid Hinsawdd

32% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BSc (Anrh) | FC71 | 3 blynedd

Mae'r radd mewn Bioleg a Newid Hinsawdd yn archwilio ffyrdd creadigol o ymateb i heriau a chyfleoedd yr argyfwng hinsawdd presennol. Bydd yn rhoi ichi wybodaeth berthnasol sy'n benodol i'r pwnc, ynghyd â'r sgiliau a'r priodoleddau amlddisgyblaethol, rhyngbersonol sydd eu hangen er mwyn creu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy. Os mai eich bwriad yw cael dylanwad mwy cadarnhaol ar y byd, bydd y cynllun hwn yn gychwyn cadarn ar y daith honno, a fydd yn un llawn boddhad.

Ar y radd hon, byddwch yn dysgu am y wyddoniaeth sy'n sail i brosesau'r hinsawdd, a sut mae dynol ryw wedi newid y prosesau hyn yn y cyfnod diweddar. Byddwch yn archwilio effeithiau newid hinsawdd ar fioamrywiaeth ar lefel rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau, a'r posibilrwydd y bydd organebau a phoblogaethau yn esblygu yn sgil y bygythiad hwn. Gan weithio ar draws disgyblaethau, byddwch yn dysgu am yr angen am ymchwil wyddonol a mesurau rheoli wrth fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o gynefinoedd ac ecosystemau lleol, ar y môr a'r tir - a lleoliadau delfrydol i astudio effeithiau newid hinsawdd ar fioamrywiaeth, a'r cyfleoedd i liniaru'r newid
- cael y cyfle i gynnal ymchwil yn y maes, yn lleol a thramor
- gallu dewis o blith ystod o gyrsiau mewn gwledydd eraill
- cael y cyfle i weithio gydag ymchwilwyr academaidd cydnabyddedig sy'n gweithio ar amrywiol agweddau ar effeithiau newid hinsawdd byd-eang ar ecosystemau naturiol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

**Cyflogadwyedd**

Gallai graddedigion ddilyn gyrfa ym maes rheoli, addasu a lliniaru newid hinsawdd, yn ogystal â gyrfaoedd mewn meysydd cysylltiedig, megis addysg amgylcheddol a gwaith ymgynghorol neu gadwraeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate and Climate Change
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Interdisciplinary Approaches to Climate Change
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Gwyddonwyr Bywyd Gwyllt.

**Yr ail flwyddyn:**

- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil
- The Governance of Climate Change.

**Y flwyddyn olaf:**

- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.





# Gwyddorau Bywyd

0% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | C990 | 4 blynedd

Mae ein gradd Gwyddorau Bywyd wedi'i chynllunio'n benodol i gynnig llwybr amgen i chi at addysg uwch i astudio un o'n graddau gwyddorau biolegol. Gallech fod yn gymwys i'r cynllun os oes gennych y cymwysterau i fynd ymlaen i addysg uwch ond nid y cymwysterau perthnasol mewn gwyddoniaeth Safon Uwch (neu gyfatebol), os ydych yn dod o gefndir academaidd anhraddodiadol, neu os nad ydych wedi cyflawni'ch potensial addysgol cyflawn hyd yn hyn.

Mae'r flwyddyn sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cael ei dysgu gan staff o Adran y Gwyddorau Bywyd, ac mae'n cynnwys rhaglen hollol integredig o ddarlithoedd, dosbarthiadau ymarferol, gweithdai a thiwtorialau mewn bioleg a phynciau cysylltiedig. Bydd y cwrs hwn yn rhoi ichi sylfaen gadarn mewn ystod o ddisgyblaethau gwyddonol gan gynnwys biocemeg, botaneg, bioleg celloedd, ecoleg, esblygiad, geneteg, microbioleg, swoleg, sgiliau astudio a thechnegau maes a labordy biolegol. Ar ddiwedd y flwyddyn sylfaen, byddwch wedi datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen i flwyddyn gyntaf un o'n cynlluniau gradd.

**Cyflogadwyedd**
Mae'r radd sylfaen mewn Gwyddorau Bywyd yn cynnig llwybr at addysg uwch, a thrwy hynny amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant pellach. Gan ddibynnu ar eich dewis o ddisgyblaeth, byddwch yn ymgeisydd cryf am waith fel gwyddonydd ymchwil, swyddog cadwraeth, darlithydd addysg uwch neu athro ysgol uwchradd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

- Communication Skills
- Molecules and Cells
- Organisms and the Environment
- Practical Skills for Biologists.

Bydd y modiwlau y byddwch yn eu hastudio ar ôl eich blwyddyn gyntaf yn dibynnu ar y radd y byddwch yn ei dewis.

I weld y modiwlau sydd ar gael, ewch i dudalennau'r radd berthnasol yn y prosbectws hwn, ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:** Ar gael i'r rhai sy'n gweithio tuag at gymwysterau Lefel 3, neu wedi eu cwblhau (ee, Safon Uwch neu BTEC) ac i ymgeiswyr aeddfed heb gymwysterau ffurfiol ond sydd â chefndir pynciol addas, profiad a chymhelliant.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 70% gwaith cwrs a 30% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Microbioleg

46% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C500 | 3 blynedd

Ar ein gradd Microbioleg byddwch yn archwilio'r organebau sy'n rhy fach i gael eu gweld â'r llygad. Mae'r rhain yn cynnwys firysau, bacteria, protistiaid, a ffyngau. Mae micro-organebau yn hanfodol i'n dealltwriaeth o fywyd ar y Ddaear – maent yn effeithio ar afiechydon mewn pobl ac anifeiliaid ac ar gynhyrchu a dirywiad bwyd, ac yn rhan ganolog o gylchredau maetholion byd-eang.

Wrth astudio Microbioleg, byddwch yn derbyn hyfforddiant ym maes imiwnoleg, geneteg, biocemeg, bioleg celloedd, a dulliau ymchwil. Byddwch yn dysgu am bryderon byd-eang megis ymwrthedd gwrthficrobaidd a phathogenau sy'n dod i'r fei, yn ogystal â'r defnydd buddiol o ficrobau mewn biotechnoleg ar gyfer cynhyrchu bwyd ac amaethyddiaeth. Trwy gydol y cwrs ceir ffocws cryf ar hyfforddiant ymarferol mewn technegau microbiolegol a moleciwlaidd, a fydd yn eich paratoi ar gyfer eich gyrfaoedd yn y dyfodol fel gwyddonwyr proffesiynol. Mae modiwlau ymarferol ym Mlynyddoedd Un a Dau ac mae prosiect ymchwil uwch yn ffurfio traean o'ch blwyddyn olaf.

Byddwch yn elwa o:

- fynediad i labordai ymchwil ac addysgu helaeth sydd â'r cyfleusterau diweddaraf ar gyfer bioddelweddu, cytometreg llif, graddfa labordy i beilota eplesiad planhigion, ac amgylcheddau arbrofol eithafol
- cymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- cael eich dysgu gan staff sy'n weithgar ym maes ymchwil gydag arbenigedd mewn microbioleg gan gynnwys bioamddiffyn, rhyngweithiadau anifeiliaid-microbau, epidemioleg a biodanwydd.

**Cyflogadwyedd**
Bydd ein gradd mewn Microbioleg yn rhoi ichi'r sgiliau i fynd i yrfa mewn gofal iechyd, diwydiant, neu addysg. Mae graddedigion diweddar wedi cael eu cyflogi mewn rolau datblygu neu werthu gan gwmnïau cyflenwi labordai, wedi mynd i'r sector biotechnoleg, neu i wneud ymarfer dysgu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Bioleg Celloedd
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**
- Dulliau Ymchwil
- Monitro a Microbioleg Amgylcheddol
- One Health Microbiology
- Sgiliau Ymarferol a Phroffesiynol mewn Microbioleg.

**Y flwyddyn olaf:**
- Biotechnology
- Microbial Pathogenesis
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**C502** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.
**C509** Meistr Integredig.

# Y Gyfraith

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Cyfraith

## Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Y Gyfraith | t.199 |
| Cyfraith a Throseddeg | t.200 |
| Cyfraith Busnes | t.201 |
| Cyfraith Droseddol | t.202 |
| Cyfraith Statws Uwch | t.203 |
| Hawliau Dynol | t.204 |
| Graddau Cyfun | t.205 |





Adran y Gyfraith a Throseddeg sy'n cynnig y mwyaf o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Gyfraith/Troseddeg yng Nghymru gyfan.



# Y Gyfraith

78% ar gael drwy'r Gymraeg

## LLB (Anrh) | M100 | 3 blynedd

Bydd ein gradd draddodiadol yn y Gyfraith yn rhoi ichi'r cyfle i astudio'r gyfraith, sut mae'n gweithredu, a'r berthynas rhwng y gyfraith, cyfiawnder a'r gymdeithas.

Byddwch yn astudio'r pynciau cyfreithiol sylfaenol, a hefyd yn cael cyfle i deilwra'ch gradd yn unol â'ch diddordebau chi eich hun. Ceir yma rychwant o fodiwlau dewisol sydd â ffocws cryf ar gyfraith ac arferion cyfredol.

Mae ein graddau LLB yn cynnig sylfaen i'r rhai sy'n bwriadu cymhwyso'n gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr.

Mae pob un o'n graddau ym maes y gyfraith yn cynnig y cyfle i astudio saith sylfaen gwybodaeth gyfreithiol sy'n ofynnol gan Fwrdd Safonau'r Bar (i fargyfreithwyr). Yn eu blwyddyn olaf, caiff myfyrwyr gyfle i ddewis modiwlau sy'n cwmpasu maes llafur cyfan Rhan 1 yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

Byddwch yn elwa o:

- fod yn rhan o un o'r adrannau cyfraith fwyaf profiadol ac uchaf ei pharch yng Nghymru
- cael eich dysgu gan staff proffesiynol sydd wedi gweithio gyda sefydliadau mawr megis GRETA, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig
- cyfleoedd i gynorthwyo ymarferwyr cyfreithiol gyda gweithgareddau cynghori cleientiaid
- cyfleoedd profiad gwaith ym meysydd busnes, cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol, a'r llysoedd
- cyfleoedd i ddilyn modiwlau i'ch paratoi ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson.

**Cyflogadwyedd**

Mae gradd yn y Gyfraith o Brifysgol Aberystwyth yn gymhwyster sy'n werthfawr i lawer o yrfaoedd. Yn ogystal â gweithio ym maes y Gyfraith, mae graddedigion diweddar yn gweithio'n llwyddiannus ym meysydd troseddeg, rheoli arian, busnes, adnoddau dynol, cysylltiadau rhyngwladol, newyddiaduraeth, ac addysg. Drwy gydol eich cwrs gradd byddwch yn datblygu cyfoeth o sgiliau y gallwch eu trosglwyddo'n hawdd i unrhyw sefyllfa waith ar lefel raddedig neu broffesiynol. Mae'r radd hon yn rhoi sylfaen ragorol yn y gyfraith i'r rhai sy'n bwriadu sefyll yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**

- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Commercial Law
- Environmental Law
- Human Rights
- Labour Law
- Sports Law and Society
- Family and Child Law
- Medicine Ethics and the Law
- Principles of Evidence
- Company Law
- Business Law and Practice and Solicitors Accounts
- Dispute Resolution in Contract and Tort
- Criminal Law and Practice
- Trusts, Wills and the Administration of Trusts and Estates
- Principles of Professional Conduct.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**M103** Gradd Baglor.
**M10F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Cyfraith a Throseddeg

81% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | MM91 | 3 blynedd

Mae'r cwrs hwn yn gyfle ichi astudio am radd yn y Gyfraith ynghyd â dod i ddeall mwy am achosion a goblygiadau troseddu. Mae'r cwrs LLB Cyfraith a Throseddeg yn berffaith ar gyfer y rhai sydd â'u bryd ar yrfa uchelgeisiol yn y gyfraith a'r system cyfiawnder troseddol yn yr 21ain ganrif.

Cewch gyfle drwy gydol y cwrs Cyfraith a Throseddeg i ymarfer eich sgiliau wrth astudio. Mae lleoliadau gwaith ar gael ar gyfer y rhaglen hon - rydym yn anfon ein myfyrwyr at gyflogwyr lleol perthnasol - er mwyn ichi gael profiad gwaith ochr yn ochr ag astudio'r gwaith theori.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff proffesiynol - llawer ohonynt wedi bod yn fargyfreithwyr a chyfreithwyr, ac felly'n rhoi gwedd ymarferol ar eich astudiaethau damcaniaethol
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson
- ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd ym meysydd troseddeg, cyfiawnder troseddol, a chyfraith a threfn
- cyfleoedd i gynorthwyo ymarferwyr cyfreithiol gyda gweithgareddau cynghori cleientiaid
- cyfleoedd profiad gwaith ym meysydd busnes, cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol, a'r llysoedd
- y cyfle i astudio'r saith sylfaen gwybodaeth gyfreithiol sy'n ofynnol gan Fwrdd Safonau'r Bar (i fargyfreithwyr) i gael mynediad i'r cwrs proffesiynol. Bydd y pynciau hyn yn rhoi sylfaen gadarn i'r myfyrwyr hynny sy'n dymuno sefyll yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

**Cyflogadwyedd**
Mae gradd mewn Cyfraith a Throseddeg o Brifysgol Aberystwyth yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer ystod o yrfaoedd. Mae graddedigion diweddar yn llwyddo mewn troseddeg, rheoli ariannol, busnes, adnoddau dynol, cysylltiadau rhyngwladol, newyddiaduraeth ac addysg. Wrth gwblhau'r radd hon, bydd gennych allu i'w defnyddio yn y byd go-iawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Rheoli ac Atal Troseddu
- The Law of Tort
- Cyfraith Droseddol.

**Yr ail flwyddyn:**
Byddwch yn dewis o blith modiwlau dewisol yn cynnwys:

- Commercial Law
- Drugs and Crime
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Public Law
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour.

**Y flwyddyn olaf:**
- Land Law
- Equity and Trusts
- Principles of Evidence
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Cyfraith Busnes

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | M140 | 3 blynedd

Mae'r cwrs gradd Cyfraith Busnes yn gyfle i ennill dealltwriaeth drylwyr o bynciau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â busnes. Boed eich bryd ar gynghori'r sector masnachol neu ar redeg eich busnes eich hun, mae dealltwriaeth o'r gyfraith yng nghyd-destun gweithgarwch masnachol yn hanfodol.

Ar y radd hon byddwch yn canolbwyntio eich astudiaethau ar fodiwlau sy'n ymwneud â chyfraith masnach, cyfraith cwmnïau ac atebolrwydd corfforaethol. Yn ogystal â darparu sylfaen ar gyfer gyrfaoedd yn y gyfraith a'r sector masnachol, mae'r radd Cyfraith Busnes hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer gyrfa ym maes adnoddau dynol, rheoli busnes ac ymgynghori.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â'r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y thema dan sylw. Mae ein graddau LLB yn cynnig sylfaen i'r rhai sy'n bwriadu cymhwyso'n gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff proffesiynol sydd wedi gweithio gyda sefydliadau mawr megis y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF), yn ogystal â chyfrannu at brosiectau yn ymwneud â gweithgarwch busnes modern gyda'r Adran Busnes a Masnach, a Chomisiwn y Gyfraith, gan gynnwys rheoleiddio crypto-asedau a llwyfannau
- cyfle i gymryd rhan yn ein menter 'Gwobr Cais Dyfeisio' - ein cystadleuaeth mentergarwch i fyfyrwyr yn debyg i 'Dragons' Den
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson.

**Cyflogadwyedd**
Mae gradd mewn Cyfraith Busnes o Brifysgol Aberystwyth yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer ystod o yrfaoedd. Mae graddedigion diweddar yn llwyddo mewn y Gyfraith, rheoli ariannol, busnes, adnoddau dynol. Wrth gwblhau'r radd hon, bydd gennych allu i'w defnyddio yn y byd goiawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**
- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Commercial Law
- Business Law and Practice and Solicitors Accounts
- Dispute Resolution in Contract and Tort
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Labour Law
- Company Law
- Intellectual Property Law
- Medicine, Ethics and the Law
- Human Rights.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.

# Cyfraith Droseddol

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | M131 | 3 blynedd

Ar y cwrs gradd hwn cewch gyfle i astudio agweddau ar y system cyfraith droseddol mewn mwy o fanylder, gan gynnwys agweddau fel rheoleiddio ymddygiad troseddol ac effeithiolrwydd mecanweithiau cosbi ac adsefydlu.

Bydd y cynllun gradd hwn yn rhoi ichi sylfaen werthfawr ar gyfer gyrfa mewn gwaith cyfraith droseddol, naill ai fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr, neu mewn meysydd eraill yn y system cyfiawnder troseddol gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â'r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y thema dan sylw.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i'r rheini sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff proffesiynol sydd wedi gweithio gyda sefydliadau mawr megis GRETA, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig
- cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson.

**Cyflogadwyedd**
Mae gradd ym maes Cyfraith Trosedd o Brifysgol Aberystwyth yn gymhwyster gwerthfawr i amryw yrfaoedd. Mae rhai o lwybrau gyrfa cyffredin ein graddedigion yn cynnwys y proffesiynau cyfreithiol, adrannau ymgynghorol y llywodraeth, ymchwilio i gyfiawnder a chymorth i ddioddefwyr, plismona, y gwasanaeth carchardai, a'r gwasanaeth prawf. Wrth gwblhau'r radd hon, bydd gennych allu i'w defnyddio yn y byd go-iawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**

- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Medicine, Ethics and the Law
- Principles of Evidence
- Commercial Law
- Criminal Law and Practice
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Yr Heddlu, Plismona a'r Gymdeithas
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.



# Cyfraith Statws Uwch

93% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | M104 | 2 flynedd

Mae Gradd LLB y Gyfraith Statws Uwch ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael i'r rheini a chanddynt eisoes radd Baglor mewn pwnc arall. Lluniwyd y radd ar sail dwy flynedd o astudio i wella eich cyfleoedd gyrfaol.

Fel myfyriwr ar y cwrs hwn, byddwch yn elwa o brofiad a brwdfrydedd ein staff arbenigol. Mae llawer ohonynt wedi bod yn gyfreithwyr – gan roi gwedd ymarferol i'ch astudiaethau o'r ddamcaniaeth. Ethos Adran y Gyfraith a Throseddeg yw meithrin dyfeisgarwch a bydd eich gallu i feddwl y tu allan i'r bocs yn eich galluogi i raddio â galluoedd yn y byd go-iawn, fydd yn llywio eich dyfodol a datblygiad eich gyrfa.

Mae ein graddau LLB yn cynnig sylfaen i'r rhai sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a'r tu hwnt.

Byddwch yn elwa o:

- fod yn rhan o'r adran cyfraith fwyaf profiadol ac uchaf ei pharch yng Nghymru
- cael eich dysgu gan staff proffesiynol sydd wedi gweithio gyda sefydliadau mawr megis GRETA, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig a sefydliadau mawr megis y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF), yn ogystal â chyfrannu at brosiectau yn ymwneud â gweithgarwch busnes modern gyda'r Adran Busnes a Masnach, a Chomisiwn y Gyfraith, gan gynnwys rheoleiddio crypto-asedau a llwyfannau
- cyfleoedd i gynorthwyo ymarferwyr cyfreithiol gyda gweithgareddau cynghori cleientiaid
- cyfleoedd profiad gwaith ym meysydd busnes, cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol, a'r llysoedd
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson.

**Cyflogadwyedd**
Gall y sgiliau a'r wybodaeth y byddwch yn eu meithrin yma agor drysau i yrfaoedd mewn swyddi yn y maes cyfreithiol a'r tu hwnt. Mae llawer o'n graddedigion yn dechrau ar swyddi fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr; mae eraill yn defnyddio'u gradd fel sbardun ar gyfer gyrfa mewn rheolaeth, busnes neu'r gwasanaeth sifil.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**

- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop
- Cyfraith Tir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Commercial Law
- Environmental Law
- Humanitarian Law
- Labour Law
- Sports Law and Society
- Family and Child Law
- Business Law and Practice
- Dispute Resolution in Contract and Tort.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:** Dosbarth 2:1 mewn gradd gyntaf mewn unrhyw bwnc.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

# Hawliau Dynol

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## LLB (Anrh) | M990 | 3 blynedd

Mae'r astudiaeth o hawliau dynol yn aml yn codi uwchlaw ffiniau cenedlaethol, ac efallai y bydd weithiau'n gwrthdaro â syniadau gwladwriaethau unigol o'r hyn ddylai gael ei amddiffyn fel hawl. Mae'r cynllun gradd hwn yn caniatáu ichi ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â diogelu hawliau dynol ac effeithiolrwydd mecanweithiau rhyngwladol ym maes hawliau dynol.

Gall ein gradd mewn Hawliau Dynol arwain at gyfleoedd am waith gyda sefydliadau hawliau dynol megis Amnest Rhyngwladol ac amrywiaeth o sefydliadau llywodraethol megis y Cenhedloedd Unedig. Mae graddedigion diweddar yn gweithio ym meysydd eiriolaeth hawliau dynol, hawliau mewnfudo a diogelu cydraddoldeb.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â'r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y thema dan sylw.

Mae ein graddau LLB yn cynnig sylfaen i'r rhai sy'n bwriadu cymhwyso'n gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan staff proffesiynol sydd wedi gweithio gyda sefydliadau mawr megis GRETA, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig
- cyfleoedd i wirfoddoli gyda'r prosiect ymchwil Dewis/Choice ar hawliau pobl hŷn
- y cyfle i ddatblygu'ch sgiliau eiriolaeth ac ymgyfreitha trwy ymuno â'r gymdeithas ymryson.

**Cyflogadwyedd**
Mae'r radd hon yn agor drysau i yrfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y proffesiwn cyfreithiol a phroffesiynau sy'n ymwneud â hawliau. Byddwch yn ennill y sgiliau i fynd i swyddi mewn cyrff anllywodraethol, elusennau, a chyrff eraill cymdeithas sifil sy'n arbenigo mewn eiriolaeth, diogelu, gwybodaeth gyhoeddus, ac addysg.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyfraith Cytundebau
- Cyfraith Droseddol
- Y Gyfraith ar Waith neu Cyflwyniad i Droseddeg
- Systemau Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Sgiliau ac Ymchwil Cyfreithiol
- Cyfraith Camwedd.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Ewrop.

**Y flwyddyn olaf:**
- Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau
- Cyfraith Tir
- Traethawd Estynedig y Gyfraith a Throseddeg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Humanitarian Law
- Family and Child Law
- Environmental Law
- Human Rights
- Labour Law
- Medicine, Ethics and the Law
- Commercial Law.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104
**BR:** 30-28.

**Pwyslais marcio:** 50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.

# Graddau Cyfun

Mae'r cynlluniau gradd hyn yn rhoi cyfle i chi astudio'r Gyfraith ochr yn ochr â phwnc arall, gan gadw'r dewis o gael gyrfa mewn ymarfer cyfreithiol ar yr un pryd. Ar ein cyrsiau Anrhydedd Gyfun, gallwch astudio modiwlau Sylfeini'r Gyfraith a symud ymlaen i gyrsiau Hyfforddiant y Bar neu gyrsiau paratoi am yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Y Gyfraith (LLB) | Almaeneg | RM21 |
| | Busnes a Rheolaeth | MN11 |
| | Cyfrifeg a Chyllid | MN14 |
| | Cymraeg Proffesiynol | MQ56 |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 21LM |
| | Ffrangeg | RM11 |
| | Sbaeneg | RM41 |



Cerflun Arglwyddes Cyfiawnder, yr Old Bailey, Llundain.


# Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Ein cyrsiau...


| | |
|---|---|
| Astudiaethau Celtaidd | t.207 |
| Cymraeg | t.208 |
| Cymraeg (i ddechreuwyr) | t.210 |
| Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd | t.211 |
| Cymraeg Proffesiynol | t.212 |
| Cymraeg y Gweithle Proffesiynol | t.213 |
| Ysgrifennu Creadigol a'r Diwydiant Cyhoeddi | t.214 |
| Graddau Cyfun | t.215 |


Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein cyrsiau Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Saif Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymyl Campws Penglais. Mae'r Llyfrgell yn croesawu myfyrwyr sy'n dymuno dod i ddefnyddio ei hadnoddau.



**Ar y brig yn y DU**

am Fodlonrwydd Myfyrwyr ym mhwnc Astudiaethau Celtaidd

(Complete University Guide 2024)



# Astudiaethau Celtaidd

85% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | Q500 | 4 blynedd

Mae Aberystwyth yn adnabyddus am ei hymchwil ym maes yr ieithoedd Celtaidd ynghyd â'u diwylliannau, eu hanes a'u llenyddiaeth. Bydd ein gradd mewn Astudiaethau Celtaidd, sy'n bedair blynedd o hyd, yn rhoi cyfle unigryw i chi ddysgu am yr ieithoedd Celtaidd a'u diwylliannau.

**Cwrs cyfrwng Saesneg yw hwn. Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd (Q562) yw'r cwrs Cymraeg cyfatebol.**

Yn eich blwyddyn gyntaf byddwch yn meithrin y sgiliau i allu ystyried cwestiynau eang ynghylch hunaniaeth, diwylliant a llenyddiaeth, gan ymgymryd yr un pryd â dysgu iaith Geltaidd fodern. Wedi hynny, byddwch yn canolbwyntio ar ehangu a dyfnhau eich gwybodaeth o'r ieithoedd Celtaidd ac yn dysgu mwy am eu llenyddiaeth a'u diwylliant o'r cyfnod cynharaf hyd heddiw.

Y Gymraeg a'r Wyddeleg yw'r ieithoedd craidd a gynigir. Fodd bynnag, mae'r ystod o fodiwlau sydd ar gael yn golygu bod digon o gyfle i chi gynllunio cwrs gradd sy'n gweddu i'ch diddordebau, ee Llydaweg a'r diwylliant Celtaidd ehangach.

Byddwch yn elwa o:

- glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn cymuned Gymraeg ei hiaith
- ymuno ag adran academaidd yn y DU sy'n dysgu'r ystod ehangaf o ieithoedd Celtaidd, sef Cymraeg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a Llydaweg
- manteisio ar gymuned ysgolheigaidd eangfrydig a rhyngwladol, a diwylliant ymchwil byrlymus
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i chasgliad o adnoddau llenyddol, clywedol a gweledol gwych
- ymgeisio am ysgoloriaeth gan Lywodraeth Iwerddon i ddilyn cwrs iaith dwys yn Iwerddon.

**Cyflogadwyedd**

Mae cyfleoedd gyrfa yn cwmpasu cyfieithu (gan gynnwys cyfieithu ar y pryd), trawsgrifio, newyddiaduraeth a darlledu, cyhoeddi, ysgrifennu copi, gweinyddu a rheoli.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- The Celts: A Contested Legacy
- Beginning Modern Welsh 1 & 2
- Introduction to the Literature of Gaelic Ireland
- Introduction to Welsh Literature.

**Yr ail flwyddyn:**

- Introduction to Modern Irish Language neu Modern Irish Language and Literature for Non-Beginners
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus
- Llenyddiaeth Gymraeg: Cyfoes a Hanesyddol
- Cwrs Cymraeg Llafar (cwrs haf Dysgu Cymraeg mis Awst).

**Y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn:**

Modiwlau dewisol, ond bydd myfyrwyr yn dilyn llwybr ieithyddol o'u dewis eu hunain, sy'n cynnwys modiwlau penodol.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau'r Enfys
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Women's Poetry in Ireland, Scotland and Wales 1400-1800
- Llydaweg: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96 gyda thystiolaeth o allu ieithyddol
**BR:** 30-26 gyda thystiolaeth o allu ieithyddol.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Cymraeg

100% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## BA (Anrh) | Q560 | 3 blynedd

O astudio cwrs gradd yn y Gymraeg yn Aberystwyth, byddwch yn aelod o Adran sy'n arwain y sector mewn meysydd fel beirniadaeth lenyddol, astudiaethau cyfieithu, ysgrifennu creadigol a'r Gymraeg yn y gweithle proffesiynol. Mae'r Adran yn gartref i gymuned fywiog o fyfyrwyr ac ymchwilwyr, o Gymru a'r tu hwnt, sy'n rhannu'r nod o hybu dealltwriaeth ehangach o'r iaith, ei hanes, ei llenyddiaeth, a'i lle yn y byd modern.

Mae'r cynllun gradd hwn yn cynnwys llwybrau Iaith Gyntaf ac Ail Iaith. Bydd astudio am radd BA Cymraeg yn caniatáu ichi wella eich Cymraeg ysgrifenedig a llafar, astudio ystod gynhwysfawr o lenyddiaeth o bob cyfnod, a dyfnhau eich dealltwriaeth o'r iaith a'r modd y mae'n parhau i ddatblygu mewn cyd-destun byd-eang.

Byddwch yn elwa o:

- gael eu dysgu gan arbenigwyr yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth - staff sy'n weithgar fel ymchwilwyr ac yn brofiadol iawn ym maes dysgu
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- dysgu iaith Geltaidd arall yn ogystal â'r Gymraeg os ydynt yn dymuno
- dewis o blith ystod eang o fodiwlau ieithyddol, llenyddol, beirniadol, proffesiynol a chreadigol
- bod yn rhan o Adran a chanddi lu o gysylltiadau gwaith â busnesau preifat a chyrff sector cyhoeddus, a hynny'n eich galluogi i greu cysylltiadau gwerthfawr ym myd gwaith
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i chasgliad o adnoddau llenyddol, clywedol a gweledol gwych.

**Cyflogadwyedd**

Mae adborth gan gyflogwyr yn dangos yn gyson bod gradd yn y Gymraeg yn arwydd o gyrhaeddiad uchel, ac mae tystiolaeth bod galw mawr am raddedigion o'r fath mewn amrywiaeth o swyddi. Mae ein graddedigion yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat mewn meysydd megis dysgu, cyfieithu, gweinyddu, y cyfryngau a chyhoeddi, gwaith cymdeithasol, y gyfraith, twristiaeth, a'r heddlu. Yn ogystal, mae deddfwriaeth iaith a datblygu Senedd Cymru wedi arwain at alw cynyddol am weithwyr sifil a chanddynt sgiliau ieithyddol da.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

**Iaith Gyntaf**

- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Themâu a Ffigurau Llên c.550-1900
- Beirdd a Llenorion o 1900 hyd Heddiw.

**Ail Iaith**

- Ysgrifennu Cymraeg Graenus
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Trafod y Byd Cyfoes drwy'r Gymraeg
- Llenyddiaeth Gymraeg: Cyfoes a Hanesyddol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Gloywi Iaith (iaith gyntaf)
- Cymraeg y Gweithle Proffesiynol (ail iaith).

**Y flwyddyn olaf:**

- Gloywi Iaith yr Ail Iaith (ail iaith)

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau'r Enfys
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Llydaweg: Cyflwyniad
- Gwyddeleg Modern: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96 gan gynnwys C Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith
**BR:** 30-26 gan gynnwys C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 40% gwaith cwrs a 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.





# Cymraeg (i ddechreuwyr)

88% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | Q522 | 4 blynedd

O astudio cwrs gradd yn y Gymraeg yn Aberystwyth, byddwch yn aelod o Adran sy'n arwain y sector mewn meysydd fel astudiaethau cyfieithu, ysgrifennu creadigol a'r Gymraeg yn y gweithle proffesiynol. Mae'r Adran yn gartref i gymuned fywiog o fyfyrwyr ac ymchwilwyr, o Gymru a'r tu hwnt, sy'n rhannu'r nod o hybu dealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg, ei hanes, ei llenyddiaeth, a'i lle yn y byd modern.

Ar y cwrs pedair blynedd hwn, cewch gyfle i wella eich Cymraeg ysgrifenedig a llafar, astudio ystod gynhwysfawr o lenyddiaeth o bob cyfnod, a dyfnhau eich dealltwriaeth o'r iaith a'r modd y mae'n parhau i ddatblygu mewn cyd-destun byd-eang.

Byddwch yn elwa o:

- gael eu dysgu gan arbenigwyr yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth - staff sy'n weithgar fel ymchwilwyr ac yn brofiadol iawn ym maes dysgu
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- dysgu iaith Geltaidd arall yn ogystal â'r Gymraeg
- dewis o blith ystod eang o fodiwlau ieithyddol, llenyddol, beirniadol, proffesiynol a chreadigol
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i chasgliad o adnoddau llenyddol, clywedol a gweledol gwych.

**Cyflogadwyedd**
Mae adborth gan gyflogwyr yn dangos yn gyson bod gradd yn y Gymraeg yn arwydd o gyrhaeddiad uchel, ac mae tystiolaeth bod galw mawr am raddedigion o'r fath mewn amrywiaeth o swyddi. Mae ein graddedigion yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat mewn meysydd megis dysgu, cyfieithu, gweinyddu, y cyfryngau a chyhoeddi, gwaith cymdeithasol, y gyfraith, twristiaeth, a'r heddlu. Yn ogystal, mae deddfwriaeth iaith a sefydlu Senedd Cymru wedi arwain at alw cynyddol am weithwyr sifil a chanddynt sgiliau ieithyddol da.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Beginning Modern Welsh 1 & 2
- Introduction to Welsh Literature.

**Yr ail flwyddyn:**
- Trafod y Byd Cyfoes
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus.

**Y drydedd flwyddyn:**
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Cymraeg y Gweithle Proffesiynol.

**Y flwyddyn olaf:**
- Gloywi Iaith yr Ail Iaith.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau'r Enfys
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Llydaweg: Cyflwyniad
- Gwyddeleg Modern: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:**
120-96 a thystiolaeth o allu ieithyddol
**BR:** 30-28 gyda thystiolaeth o allu ieithyddol.

**Pwyslais marcio:**
Fel rheol 40% gwaith cwrs a 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | Q562 | 3 blynedd

O astudio Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd yn Aberystwyth cewch gyfle i astudio Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban a Llydaweg, yn ogystal â'r Gymraeg. Byddwch yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r ieithoedd Celtaidd a'u llenyddiaethau hanesyddol a chyfoes, ynghyd â gwerthfawrogi eu deinameg ddiwylliannol a chreadigol.

Dysgir y cwrs hwn yn un o adrannau mwyaf blaenllaw y Deyrnas Unedig ar gyfer astudio'r Gymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd, a chynigiwn ddewis helaeth o fodiwlau sy'n sicr o danio'ch diddordeb.

Nod y cwrs hwn yw hyrwyddo eich datblygiad ieithyddol, ac felly bydd myfyrwyr y cynllun fel arfer yn treulio semester yn eu trydedd flwyddyn yn astudio mewn prifysgol dramor. Bydd y profiad hwn yn caniatáu i chi feithrin eich sgiliau iaith a'ch hyder, ac, yn ogystal â hyn, byddwch yn dysgu sgìl y mae cyflogwyr yn ei edmygu'n fawr – y gallu i fyw a gweithio'n annibynnol.

Byddwch yn elwa o:

- astudio mewn adran sy'n dysgu ac yn ysbrydoli cenedlaethau ers 1875
- bod yn rhan o Adran a chanddi lu o gysylltiadau gwaith â busnesau preifat a chyrff sector cyhoeddus, a hynny'n eich galluogi i greu cysylltiadau gwerthfawr ym myd gwaith
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- ymuno â'r adran academaidd yn y DU sy'n dysgu'r ystod ehangaf o ieithoedd Celtaidd: Cymraeg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, a Llydaweg
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd
- ymgeisio am ysgoloriaeth gan Lywodraeth Iwerddon i ddilyn cwrs iaith dwys yn Iwerddon.

**Cyflogadwyedd**
Mae adborth gan gyflogwyr yn dangos yn gyson bod gradd yn y Gymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd o Brifysgol Aberystwyth yn arwydd o gyrhaeddiad uchel. Mae ein graddedigion yn dod o hyd i waith yn y sector cyhoeddus a phreifat mewn meysydd megis dysgu, cyfieithu, gweinyddu, y cyfryngau a chyhoeddi, gwaith cymdeithasol, y gyfraith, twristiaeth, yr heddlu, a'r gwasanaeth sifil.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
**Iaith Gyntaf**
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Themâu a Ffigurau Llên c.550-1900
- Beirdd a Llenorion o 1900 hyd Heddiw.

**Ail Iaith**
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus
- Trafod y Byd Cyfoes drwy'r Gymraeg
- Llenyddiaeth Gymraeg: Cyfoes a Hanesyddol.

**Yr ail a'r drydedd flwyddyn:**
- Gloywi Iaith.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Gwyddeleg Modern (Iaith a Llên)
- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Barddoniaeth Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau'r Enfys
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96 gan gynnwys C Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith
**BR:** 30-26 gan gynnwys C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith.

**Pwyslais marcio:**
40-60% gwaith cwrs, 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Cymraeg Proffesiynol

100% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | Q5P0 | 3 blynedd

Mae hi'n bwysig darparu gwybodaeth a sgiliau i fyfyrwyr er mwyn iddynt lwyddo mewn gweithle proffesiynol dwyieithog. Aberystwyth yw cartref Cymraeg Proffesiynol, ac mae'r cwrs hwn, sy'n arwain y sector, yn boblogaidd ymhlith myfyrwyr a chyflogwyr sy'n chwilio am 'safon aur' yn y Gymraeg.

Bydd Cymraeg Proffesiynol yn mireinio'r sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn cyd-destunau proffesiynol mor amrywiol â llywodraeth yng Nghymru, newyddiaduraeth, y cyfryngau a'r diwydiant cyhoeddi. Rydym hefyd yn darparu cyfle i chi roi'r sgiliau hyn ar waith trwy gyfrwng profiad gwaith mewn un o 30 o sefydliadau a busnesau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan greu cyfleoedd hollbwysig ichi rwydweithio.

Mae ein modiwlau craidd yn cyflwyno ystod o sgiliau hanfodol: llunio adroddiadau a datganiadau i'r wasg, cymryd cofnodion, cyfieithu ar y pryd, addasu ar gyfer radio/teledu/ffilm, golygu copi, ac addasu testunau o ieithoedd eraill. Gallwch hefyd astudio amrywiaeth eang o fodiwlau dewisol sy'n canolbwyntio ar iaith, llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol, neu gallwch ychwanegu iaith arall at eich CV proffesiynol drwy astudio iaith Geltaidd arall.

Byddwch yn elwa o:

- fanteisio ar gefnogaeth darlithydd penodedig Cymraeg Proffesiynol ar y cynllun cyntaf o'i fath yng Nghymru
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- bod yn rhan o Adran a chanddi lu o leoliadau gwaith â busnesau preifat a chyrff sector cyhoeddus, a hynny'n eich galluogi i greu cysylltiadau gwerthfawr ym myd gwaith
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i hadnoddau gwych
- y cyfle i astudio iaith Geltaidd arall ochr yn ochr â'r Gymraeg: Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban neu Lydaweg.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyfleoedd gyrfaol amrywiol ar gael i raddedigion y cyrsiau hyn, er enghraifft: cyfieithu, newyddiaduraeth, cyhoeddi, gweinyddu a rheoli. Mae nifer cynyddol o'n graddedigion wedi dechrau eu gyrfaoedd gydag un o'r cwmnïau neu sefydliadau partner lle buont yn gwneud profiad gwaith.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cyflwyniad i Gymraeg Proffesiynol
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar.

**Yr ail flwyddyn:**
- Gloywi Iaith
- Y Gymraeg yn y Gweithle
- Astudiaethau Trosi ac Addasu
- Bro a Bywyd: Dehongli Treftadaeth Lenyddol y Cymry.

**Y flwyddyn olaf:**
- Prosiect Hir.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Rhyddiaith y Dadeni
- Y Cynfeirdd Diweddar
- Y Gynghanedd: Cwrs Trochi
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Traddodiad Benywaidd? Merched a Barddoniaeth 1400-1800
- Y Chwedl Arthuraidd cyn 1200
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau'r Enfys
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu
- Llydaweg: Cyflwyniad
- Gwyddeleg Modern: Cyflwyniad.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith
**BR:** 30-28 gan gynnwys B mewn Cymraeg iaith gyntaf.

**Pwyslais marcio:**
40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Cymraeg y Gweithle Proffesiynol

80% ar gael drwy'r Gymraeg

## BA (Anrh) | QN51 | 3 blynedd

Mae'r cwrs arloesol, Cymraeg y Gweithle Proffesiynol, ar gael gyda Busnes a Rheolaeth. Mae'r cyrsiau BA anrhydedd cyfun Cymraeg y Gweithle Proffesiynol yn cyfuno sgiliau ieithyddol a phroffesiynol ag arbenigedd mewn Busnes a Rheolaeth.

Ar y cwrs hwn, bydd cyfle ichi ddysgu sut i weinyddu, golygu, cyfieithu a marchnata. Cewch ddysgu sgiliau rheoli, cyflwyno, arwain a chydweithio. Byddwch hefyd yn dysgu am entreprenwriaeth a datblygu eich busnes eich hun.

Mae'r cwrs hwn ar gael i fyfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith, ac mae cyfle unigryw i ddilyn y cwrs hyd yn oed os nad ydych wedi astudio Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf.

Bydd y cwrs unigryw hwn sy'n cyfuno modiwlau iaith a llenyddiaeth Gymraeg gyda modiwlau Busnes a Rheolaeth yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth ichi y mae'r sector gyhoeddus a phreifat yn galw amdanynt.

Byddwch yn elwa o:

- glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn cymuned Gymraeg ei hiaith
- manteisio ar brofiadau'r staff addysgu ym maes Cymraeg Proffesiynol a Busnes a Rheolaeth ac amgylchedd ymchwil fyrlymus
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda'r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- manteisio ar agosrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyfleoedd gyrfa yn cwmpasu cyfieithu (gan gynnwys cyfieithu ar y pryd), trawsgrifio, newyddiaduraeth a darlledu, cyhoeddi, ysgrifennu copi, gweinyddu a rheoli. Mae nifer cynyddol o'n graddedigion wedi cychwyn gyrfaoedd gyda chwmnïau partner a sefydliadau lle buont yn cwblhau hyfforddiant yn y gwaith fel rhan o'r cwrs.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Understanding the Economy
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus.

**Yr ail flwyddyn:**
- Cymraeg y Gweithle Proffesiynol
- Gloywi Iaith
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Rheolaeth Marchnata.

**Y flwyddyn olaf:**
- Gloywi Iaith yr Ail Iaith.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Y Cynfeirdd Diweddar
- Rhyddiaith Tri Chwarter Canrif, 1900-79
- Y Golygydd a'r Diwydiant Cyhoeddi
- Testunau'r Enfys
- Y Cyfieithydd a'r Sector Cyfieithu.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith
**BR:** 30-28 gan gynnwys B mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith.

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs a 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Ysgrifennu Creadigol a’r Diwydiant Cyhoeddi

100% ar gael drwy’r Gymraeg

## BA (Anrh) | W840 | 3 blynedd

Bydd y radd Ysgrifennu Creadigol a’r Diwydiant Cyhoeddi ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhoi ichi ddealltwriaeth drylwyr o’r maes. Mae’r cwrs hwn yn gyffrous ac yn hyblyg, ac mae’r sylw a roddir ynddo i’r diwydiant cyhoeddi ac i greadigrwydd fel ei gilydd yn ei wneud yn gwrs deinamig ac unigryw.

Cewch gyfle i droi’ch llaw at nifer fawr o wahanol ffurfiau creadigol, o gerddi i straeon byrion, o lên meicro i lenyddiaeth ecffrastig - gan feithrin y gallu i’w defnyddio’n bwrpasol wrth greu. At hynny, cewch eich cyflwyno i faes eang y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a’r tu hwnt, gyda golwg benodol ar weisg ac ar asiantaethau allweddol fel Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae ysgrifennu’n greadigol yn sgìl allweddol sy’n cyfoethogi ein bywydau ni i gyd. Yn Aberystwyth, cewch gyfle i ddatblygu a mireinio’ch sgiliau ysgrifennu creadigol mewn Adran a chanddi draddodiad hir o arwain yn y maes hwn.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich addysgu gan staff academaidd sy’n gwneud ymchwil ac sy’n arbenigwyr yn eu meysydd, gan gynnwys cyhoeddi, cyfieithu creadigol, golygu a phrawfddarllen
- byw a gweithio yn un o gadarnleoedd yr iaith, gyda’r cyfle i fyw yn Neuadd Pantycelyn
- elwa o gysylltiadau cryf â chyhoeddwyr a sefydliadau llenyddol lleol
- ymgymryd â phrofiad gwaith perthnasol, ee gyda golygydd neu wasanaeth golygyddol, gwasg neu gyhoeddwr annibynnol
- dysgu iaith Geltaidd arall yn ogystal â’r Gymraeg os ydych yn dymuno.

**Cyflogadwyedd**
Erbyn diwedd y cwrs, byddwch yn meddu ar sgiliau creadigol, ymchwilio, beirniadol a chyfathrebu o safon uchel, ac yn barod am yrfa yn y diwydiant ysgrifennu a chyhoeddi ehangach.

## Modiwlau

Dyma’r modiwlau y mae’n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Ysgrifennu Creadigol
- Sgiliau Astudio Iaith a Llên
- Cymraeg Llyfr a Chymraeg Llafar (iaith gyntaf)
- Ysgrifennu Cymraeg Graenus (ail iaith ac iaith gyntaf heb Safon Uwch).

**Yr ail flwyddyn:**

- Gweithdai Ysgrifennu Creadigol
- Gloywi Iaith.

**Y flwyddyn olaf:**

- Y Golygydd a’r Diwydiant Cyhoeddi
- Portffolio Ysgrifennu Creadigol Annibynnol.

Dyma rai o’r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Y Cyfieithydd a’r Sector Cyfieithu
- Testunau’r Enfys
- Rhyddiaith y Dadeni
- Pedair Cainc y Mabinogi
- Cymraeg Ddoe a Heddiw: Cyflwyniad i Ieithyddiaeth.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith
**BR:** 30-28 gan gynnwys B mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Cymraeg | Addysg | QX53 |
| | Creu (Perfformio / Cyfryngau) | QW52 |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | LQF5 |
| | Daearyddiaeth | LQ75 |
| | Hanes | QV51 |
| | Mathemateg | GQ15 |
| Cymraeg Proffesiynol | Y Gyfraith | MQ56 |





# Darganfod Aberystwyth











**Aberystwyth yw'r lle perffaith i astudio, i gael hwyl ac i wneud ffrindiau am oes. Yn aml yn cael ei galw'n prifddinas ddiwylliannol Cymru, mae canol dref hanesyddol Aberystwyth ond tafliad carreg o Gampws Penglais.**

Yn dref gyfeillgar, mae croeso i bawb yma yn Aberystwyth. Gyda dewis eang o siopau, caffis, bwytai a thafarndai, mae'r dref yn cynnig amryw o gyfleoedd i gymdeithasu ac ymlacio. Aberystwyth oedd y dref gyntaf yng Nghymru i ennill y Faner Borffor am awyrgylch groesawgar a diogel gyda'r nos, ac ar ôl profi bywyd yma fel myfyriwr, anodd iawn yw ffarwelio.

Mae'r promenâd Fictoraidd yn lle perffaith i fynd am dro neu i redeg. Cofiwch fynd i ben draw'r prom i 'gicio'r bar', sy'n draddodiad a ddechreuodd dros ganrif yn ôl erbyn hyn.


Ar gopa Graig Glais (neu 'Consti' i'r bobl leol) cewch fwynhau golygfeydd o lan y môr a fydd yn aros yn y cof. Am awyr iach ac ymarfer corff, dilynwch y llwybr i fyny'r graig. Fel arall, gallwch deithio ar y trên bach os ydych am fwynhau taith fwy hamddenol i'r copa.

Gallwch hefyd fwynhau nofio yn y môr, gwylio'r dolffiniaid, neu ymlacio ar ddewis o dri thraeth hyfryd.

Rhwng y Pier Brenhinol o'r 19eg ganrif (sy'n enwog am yr haid o ddrudwy sy'n ymgasglu yno pan fo hi'n nosi) a'r castell canoloesol o'r 12fed ganrif, saif yr Hen Goleg, sef adeilad rhestredig Gradd 1 a chartref Coleg cyntaf Prifysgol Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r adeilad eiconig hwn yn cael ei drawsnewid yn ganolfan ddiwylliannol a chreadigol flaenllaw i Gymru.

Cewch eich ysbrydoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n dal dros 6.5 miliwn o lyfrau a chyfnodolion ynghyd â'r casgliadau mwyaf o archifau, portreadau, mapiau a ffotograffau yn y wlad.

Saif tref Aberystwyth rhwng mynyddoedd y Canolbarth a glannau Bae Ceredigion, wedi'i hamgylchynu gan dirwedd brydferth o fryniau tirion, dyffrynnoedd, traethau a'r môr. Nid oes rhaid i chi deithio'n bell i fwynhau teithiau cerdded ar hyd yr arfordir a thrwy goetiroedd pert, ac i nofio mewn dŵr gwyllt. Mae Parciau Cenedlaethol Eryri, Arfordir Penfro, a Bannau Brycheiniog o fewn pellter teithio ac i gyd yn llefydd gwerth eu gweld.



Yr Hen Goleg, sef prif adeilad y Brifysgol pan gafodd ei sefydlu yn 1872



Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Castell Aberystwyth



Y Pier Brenhinol











Tua 9 milltir y tu allan i Aberystwyth mae canolfan feicio mynydd a bwydo barcutiaid enwog Nant yr Arian.







# Llety

## Eich cartref nesaf

Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein preswylfeydd

**Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon yn rhad ac am ddim.**

**Sicrwydd llety yn y flwyddyn gyntaf.***



**Rydym yn cynnig amrywiaeth o fathau o lety a lleoliadau fel y gallwch ddod o hyd i'r lle sy'n addas ar eich cyfer chi, gyda'r mwyafrif o breswylfeydd o fewn taith gerdded fer i ganol y campws.**

Mae pob llety yn gymuned ag iddi ei nodweddion penodol ei hun, ac yn cynnig amgylchedd diogel lle gallwch gymdeithasu, astudio ac ymlacio. Pan fyddwch yn byw yn ein llety does dim angen pryderu am gostau cyfnewidiol gan fod y ffioedd neuadd yn cynnwys cyfleustodau, wifi, a lefel uchel o yswiriant eiddo personol.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o lety hunanarlwyo neu rannol-arlwyol gyda naill ai ystafelloedd en-suite, neu fflatiau gydag adnoddau a rennir ynghyd â'n stiwdios hunan-gynhwysol. Beth bynnag yw'ch gofynion, fe geisiwn ddarparu'r dewis mwyaf addas ar eich cyfer ac rydym bob amser yn ymdrechu i glustnodi israddedigion i fflatiau/tai gyda'i gilydd.

Cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd, bydd y Tîm Bywyd Campws yn eich croesawu i'ch cartref newydd a chymuned y campws.

### Gwneud cais am lety

Bydd myfyrwyr sy'n derbyn cynnig amodol neu ddiamod i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac sy'n nodi ni fel eu dewis Cadarn yn cael eu gwahodd i wneud cais am lety o'r Gwanwyn ymlaen. Ar ôl i chi fodloni amodau eich cynnig academaidd, byddwn yn anfon gwahoddiad atoch i wneud cais am lety. Rydym yn eich cynghori i gwblhau'r cais cyn gynted â phosibl, oherwydd mae'r llety'n cael ei rannu ar sail 'y cyntaf i'r felin'.

Noder y gallai'r rhestr o ddewisiadau llety newid ar gyfer blynyddoedd academaidd i ddod; ceir rhagor o wybodaeth a diweddariadau ar **www.aber.ac.uk/llety**

### Allwedd

- Llety arlwyol
- Cawod en-suite
- Golchdy
- Llety Cymraeg penodedig
- Mannau cymdeithasu ac astudio
- Wi-Fi
- Parcio

*I fod yn gymwys, rhaid i'ch cais ddod i law erbyn 1 Medi yn y flwyddyn mynediad a rhaid i chi ymateb i'r cynnig llety erbyn y dyddiad a nodwyd yn y cynnig. Noder y caiff lle mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a reolir ganddi ei warantu, ond nid y math penodol o ystafell neu leoliad.



# Arlwyo
## (Cyfrwng Cymraeg)

## Pantycelyn

- llety arlwyol yn benodol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gyda ffreutur, lolfa, gofod astudio a mannau cymdeithasol
- wedi ei adnewyddu'n ddiweddar
- ystafelloedd sengl, en-suite
- 3 munud ar droed o Gampws Penglais









# Hunanarlwyo



## Fferm Penglais

- fflatiau penodedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- ystafelloedd en-suite sengl (gyda gwely dwbl), mewn fflatiau i 6-8 myfyriwr sy'n rhannu cegin/ardal fyw
- stiwdios sengl hunangynhwysol hefyd ar gael
- siop a chaffi ar y safle, ynghyd â mannau cymdeithasu ac astudio
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais





Stiwdio Fferm Penglais

# Hunanarlwyo









## Trefloyne

- ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais



## Rosser

- ystafelloedd sengl, en-suite, mewn fflatiau i hyd at 8 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- ar Gampws Penglais







Hunanarlwyo



## Cwrt Mawr

- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 6-10 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol, a chegin llawn cyfarpar
- defnydd o Lolfa@Rosser
- wedi'i leoli ar Gampws Penglais









## Pentre Jane Morgan

- ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@PJM
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais





# Cyfleusterau chwaraeon

**Wedi ei lleoli ar Gampws Penglais, mae'r Ganolfan Chwaraeon yn cynnig pob math o gyfarpar ac adnoddau i hyrwyddo'ch iechyd a'ch lles. Ceir yma bopeth o'r pethau sylfaenol, gan gynnwys campfa, melinau troedio, a phwll nofio, i'r pethau ychwanegol, sy'n cynnwys ystafell codi pwysau i ferched yn unig, a sawna.**

Os nad oes awydd arnoch ymarfer corff ar eich pen eich hun gallech ymuno ag un o'r dewis helaeth o ddosbarthiadau a gynhelir yma. Mae'r rhain yn cynnwys HIIT, Ioga, Pilates, Cylchred a llawer mwy.

Un o fanteision bod yn breswyliwr mewn llety a reolir gan y Brifysgol yw y byddwch yn derbyn Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan yn rhan o'r ffioedd llety. Mae hyn yn rhoi mynediad am ddim i'r gampfa, yr holl ddosbarthiadau ffitrwydd, y pwll nofio a'r sonariwm.

Byddwch hefyd â mynediad i'n Cromen Chwaraeon newydd ar Gampws Penglais a Champfa Sgubor ar Fferm Penglais.















# Undeb y Myfyrwyr

**Mae Undeb y Myfyrwyr yn Aberystwyth (UMAber) yn gweithio'n agos gyda'r Brifysgol, ond mae'n elusen gofrestredig annibynnol. Wedi'i arwain gan fyfyrwyr a gyda chefnogaeth tîm o staff, mae Undeb y Myfyrwyr yn helpu myfyrwyr i gyfarfod â phobl newydd, gwneud ffrindiau, adeiladu cymunedau ac yn darparu llais cynrychioliadol i'w aelodau.**

Gydag oddeutu 100 o gymdeithasau myfyrwyr a 50 o glybiau chwaraeon i ddewis ohonynt, ynghyd â chyfleoedd i wirfoddoli, mae digonedd o weithgareddau i ymuno ynddynt. Gallwch hyd yn oed ddechrau eich grŵp eich hun.

Mae Gwasanaeth Cynghori UMAber yn darparu cyngor diduedd, rhad ac am ddim mewn amgylchedd proffesiynol a chyfeillgar. Gallwch gael cymorth gydag ystod o faterion gan gynnwys cyflogaeth, iechyd a lles, tai, cyllid myfyrwyr a gweithdrefnau a phrosesau'r Brifysgol.





# UMCA
# Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth

**Os hoffech fyw ac/neu astudio yn Gymraeg yma yn Aberystwyth, chewch chi ddim profiad cyflawn o'r gymuned glos sydd yma heb ymuno ag UMCA neu'r Geltaidd, neu'r ddau!**

**UMCA yw'r undeb gyntaf o'i bath yng Nghymru, ac mae ganddi brofiad helaeth o ymgyrchu dros fuddiannau myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol a gwarchod eu hawliau. Erbyn heddiw, mae'n fudiad dylanwadol iawn sydd â llais a chynrychiolaeth ar rai o brif bwyllgorau'r Brifysgol.**

## Gweithgareddau

Mae UMCA yn cefnogi nifer o gymdeithasau Cymraeg eraill poblogaidd megis y Geltaidd (prif gymdeithas chwaraeon Gymraeg Prifysgol Aberystwyth), Plaid Cymru Ifanc, Yr Heriwr ac Aelwyd Pantycelyn i'r rheini ohonoch sy'n mwynhau canu, llefaru, dawnsio neu glocsio.

Trefnir nifer o weithgareddau gan UMCA ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Llywydd a Swyddog Amgen Pwyllgor Gwaith UMCA yn cydweithio'n agos â'r Coleg er mwyn sicrhau bod gennym amryw o weithgareddau sydd at ddant pawb.

## UMCA a'r Gymraeg

Nid yn unig ar gyfer siaradwyr Cymraeg y mae UMCA. Cynigia UMCA hefyd wersi Cymraeg am ddim i fyfyrwyr ac wrth ymuno ag UMCA gall yr aelodau ddysgu am iaith a diwylliant Cymru.

## Llais y myfyrwyr

Etholir Llywydd UMCA gan gorff cyfan Myfyrwyr y Brifysgol yn etholiadau blynyddol yr Undeb, ac mae'n swydd sabothol amser llawn. Mae gan y Llywydd bwyllgor gwaith gweithgar iawn y tu cefn iddynt ynghyd â Bwrdd Ymgynghorol i graffu ar weithgaredd UMCA.

## Cefnogaeth

Mae UMCA yn cynorthwyo myfyrwyr i wneud yn fawr o'u hamser yn Aberystwyth ac yn cynnig cymorth gydag unrhyw broblem sy'n poeni'r aelodau. Mae UMCA yn ychwanegu at brofiad myfyrwyr o fyw trwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth.

## Llwyddiannau Eisteddfodol

Bob blwyddyn mae myfyrwyr o Aberystwyth yn amlwg ar lwyfan eisteddfodau, yn enwedig Eisteddfod yr Urdd. Mae ein myfyrwyr yn aml yn dod i'r brig naill ai fel unigolion neu fel grwpiau mewn meysydd fel llenyddiaeth, canu, dawnsio a pherfformio.

## Wythnos y Glas

Pan gyrhaeddwch y Brifysgol ym mis Medi, cewch brofi Wythnos y Glas - wythnos gyfan o hwyl a chymdeithasu a drefnir gan UMCA. Bydd myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn aml yn cael eu 'paru' â myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar rai o'r gweithgareddau, sy'n golygu y byddwch yn dod i adnabod trawsdoriad eang o fyfyrwyr erbyn diwedd yr wythnos gyntaf!





Côr Aelwyd Pantycelyn



Tîm pêl-droed bechgyn y Geltaidd




Tîm rygbi merched y Geltaidd

# Canolfan y Celfyddydau



Canolfan y Celfyddydau ar Gampws Penglais yw un o leoliadau mwyaf adnabyddus Cymru. Mae'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau megis cyngherddau, cerddoriaeth fyw, comedi stand-yp, perfformiadau theatr a dawns. Mae'r Ganolfan hefyd yn arddangos celf weledol a dangosiadau ffilm.









# Cerddoriaeth yn Aberystwyth

Mae'r ddarpariaeth gerddoriaeth yn Aberystwyth yn agored i'r holl fyfyrwyr. Pa bynnag bwnc yr ydych yn ei astudio, gallwch fod yn rhan o gymdeithas gerddorol fywiog.

Mae creu cerddoriaeth yn Aberystwyth yn dod â'r dref a'r Brifysgol ynghyd i weithio mewn amrywiol ffyrdd ar ffurf ensemblau, cerddorfeydd, bandiau cyngerdd a chorau, yn ogystal â grwpiau llai sy'n canolbwyntio ar offerynnau penodol.

Mae'r Brifysgol yn cynnig ystafelloedd a mannau ymarfer i fyfyrwyr ac aelodau o'r gymuned, grwpiau a digwyddiadau cerddorol, a cheir cyfleoedd i hyfforddi, datblygu'n gerddorol a pherfformio a chynhyrchu ar sawl lefel.

Rydym hefyd yn gallu cynnig Ysgoloriaethau Cerdd i gerddorion profiadol a all wneud cyfraniad ymarferol i gerddorfeydd, bandiau, corau ac ensemblau'r Brifysgol. Os ydych yn ymddiddori mewn cerddoriaeth, mae croeso mawr ichi ei mwynhau gyda ni yma yn Aberystwyth.



Côr y Ganolfan Gerdd yn perfformio Requiem Mozart



Mae cerddorfa symffoni'r Ganolfan Gerdd, Philomusica, yn cynnal dau gyngerdd y flwyddyn yng Nghanolfan y Celfyddydau.



# Cwrdd â'ch gofynion dysgu



Ystafell astudio a ddarllen, Llyfrgell Hugh Owen



Melin Drafod, adeilad Llandinam



**Mae rhwydwaith di-wifr cyflym a dibynadwy ar gael ar draws y campws ac ym mhob llety myfyrwyr a reolir gan y Brifysgol.**

**Mae cyfrifiaduron, argraffwyr lliw cyflym, sganwyr a llungopiwyr ar gael i'w defnyddio yn y llyfrgelloedd a'r ystafelloedd cyfrifiaduron pwrpasol ledled y campws ac yn y dref, ac mae rhai ohonynt ar gael 24 awr y dydd. Mae ystod o feddalwedd arbenigol ar gael am ddim ar gyfrifiaduron yn ystafelloedd cyfrifiaduron y Brifysgol.**

## Llyfrgelloedd

Mae gan ein campws ddwy lyfrgell: prif lyfrgell Hugh Owen a llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol, sy'n gartref i ddeunyddiau ar gyfer astudio mathemateg, ffiseg a chyfrifiadureg.

Mae Llyfrgell Hugh Owen wedi cael ei hadnewyddu'n sylweddol er mwyn sicrhau bod gennych fannau astudio a darllen modern, dynamig. Mae ardaloedd ar gyfer astudio grŵp neu unigol ac ystafell gyfrifiaduron, yn ogystal â seddi mwy anffurfiol, sy'n creu ardaloedd cymunedol cyfforddus.

## Gwasanaethau TG

Os ydych yn cael problemau gyda'ch offer TG, gallwch ofyn am gyngor wrth ddesg gwasanaeth cwsmeriaid Hugh Owen. Bydd ein tîm cyfeillgar yn falch o'ch cynorthwyo gydag unrhyw broblemau meddalwedd neu galedwedd.

## E-ddysgu

Mae ein hamgylchedd dysgu rhithwir, Blackboard, yn rhoi mynediad i chi i wybodaeth am y modiwl a deunydd eich cyrsiau ar unrhyw adeg ac yn unrhyw le, gan gynnwys recordiadau o ddarlithoedd. Byddwch hefyd yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'ch aseiniadau yn electronig yma.

Fel myfyriwr bydd gennych fynediad at filoedd o e-lyfrau ac e-gyfnodolion drwy'r llyfrgell, sy'n hygyrch oddi ar y campws hefyd.

## Gwasanaeth Benthyca Offer

Fel myfyriwr gallwch fenthyca eitemau megis gliniaduron arferol, gliniaduron bach (netbooks), darllenwyr E-lyfrau, Camerâu Fflip ac offer ffotograffiaeth a fideo digidol eraill, yn rhad ac am ddim am gyfnodau byr, yn union fel llyfr llyfrgell.

## Llyfrgellwyr Pwnc

Gall ein Llyfrgellwyr Pwnc ddarparu hyfforddiant sgiliau gwybodaeth a chymorth pwnc manwl. Gallwch drefnu apwyntiad gyda'ch Llyfrgellydd Pwnc i gael cymorth a chyngor ar ddefnyddio'r llyfrgelloedd, neu ddod o hyd i ddeunyddiau ar gyfer traethodau, prosiectau a thraethodau estynedig.

## ApAber

Mae ApAber yn ap i fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, i'w gwneud hi'n haws iddynt gynllunio eu diwrnod. Gall myfyrwyr wirio eu hamserlen; dod o hyd i gyfrifiaduron sydd ar gael ar y campws; gweld balans eu Cerdyn Aber; edrych ar amserlenni bysiau lleol a llawer mwy, y cyfan o'u ffonau symudol.

## Sgiliau astudio

Rydyn ni'n cynnig modiwlau sgiliau academaidd, seminarau astudio effeithiol a sesiynau cynghori unigol am ddim i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu academaidd a chyfathrebu er mwyn cyrraedd lefelau rhagoriaeth uwch.

Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr a chanddynt wahaniaethau dysgu penodol megis dyslecsia yn derbyn cefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth sgiliau astudio unigol.



Canolfan astudio Rosser

# Cymorth i fyfyrwyr

**Bydd ystod eang o wasanaethau cymorth a lles ar gael ichi yn Aberystwyth. Gan gydweithio â chi, gall ein staff cyfeillgar ac ymroddgar eich helpu i oresgyn y rhan fwyaf o'r heriau a ddaw i'ch rhan fel myfyriwr.**

## Y Gwasanaeth Cyngor ac Arian

Mae ein Cynghorwyr Cyngor ac Arian yn darparu cymorth ar ystod eang o faterion. Maent wedi'u hachredu gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr (NASMA) a gallant hefyd eich cyfeirio at gymorth sy'n ymwneud â llety, materion personol, cynnydd academaidd a bywyd prifysgol.

## Hygyrchedd a Chynhwysiant

Fel Prifysgol, rydym yn ymrwymedig i gynnal cymuned y gall pawb fanteisio arni ac rydym yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o fyfyrwyr. Mae'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd yn darparu cymorth i fyfyrwyr anabl ac i'r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol, yn ogystal ag i fyfyrwyr sy'n gadael gofal a myfyrwyr eraill heb gefnogaeth. Maent hefyd yn cefnogi myfyrwyr trawsryweddol ac anneuaidd.

Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd/niwroamrywiol, dewch i'n gweld neu cysylltwch â ni cyn ichi wneud cais er mwyn ichi drafod eich anghenion a'r cymorth y gallwn ei gynnig ichi. Os ydych yn gymwys, gall ein cynghorwyr drefnu gweithiwr cymorth, gan gynnwys cymorth â sgiliau astudio unigol. Gellir gwneud trefniadau arbennig mewn arholiadau, neu asesiadau amgen, i fyfyrwyr anabl neu fyfyrwyr sydd â chyflyrau iechyd/niwroamrywiol.

Rydym hefyd yn argymell eich bod yn cysylltu â'n Cynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad o anghenion astudio ac i gael cyngor ar grantiau, er enghraifft y Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA).

## Gwasanaeth Lles Myfyrwyr

Yn Aber, mae gennym dîm o gwnselwyr cofrestredig ac arbenigwyr iechyd meddwl sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol. Ein nod yw gweithio gyda chi, gan ddefnyddio technegau sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, er mwyn ichi feithrin gwytnwch, a'ch helpu i ddatblygu pecyn o sgiliau a fydd yn eich galluogi chi i reoli eich lles yn effeithiol tra byddwch yn y brifysgol a'r tu hwnt. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn eich cyfeirio at ddeunyddiau hunangymorth neu at lwyfannau ar-lein, neu efallai y byddwn yn eich cyfeirio at gymorth allanol os mai hynny sydd orau ichi.

## Mentora 'Ffordd Hyn'

Cynllun mentora gan gymheiriaid cyfeillgar a chyfrinachol yw 'Ffordd Hyn' ar gyfer yr holl israddedigion newydd. Mae'n cynnig cyngor unigol i'ch helpu chi i ymgartrefu, i gynllunio at y dyfodol ac i wneud y gorau o'ch cyfnod yn y brifysgol.

## Nawdd Nos

Weithiau, gall sgwrsio â chyfoedion am eich profiadau a'ch teimladau helpu'n fawr. Mae Nawdd Nos, gwasanaeth gwrando annibynnol sy'n cael ei redeg gan fyfyrwyr, yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol a gwasanaeth e-bost a negeseua gwib.

Ewch i **www.nightline.aber.ac.uk** i gael rhagor o wybodaeth.

## Cyngor ar Fisâu a Mewnfudo

Mae'r Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol yn darparu cyngor arbenigol ar fisâu astudio i ddarpar fyfyrwyr rhyngwladol. Mae'r cyngor y maent yn ei roi wedi'i reoleiddio gan Swyddfa Comisiynydd y Gwasanaethau Mewnfudo.



# Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

**Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth yn darparu arbenigedd cyfeillgar ac ystod o wasanaethau a fydd yn meithrin eich sgiliau a'ch profiadau trwy gydol eich taith fel myfyriwr. Ein nod yw sicrhau bod ystod o gyfleoedd ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i waith ystyrlon o ganlyniad i'ch gradd.**

Rydym yn darparu cefnogaeth i'ch galluogi i:

- farchnata eich hun yn hyderus trwy grynhoi gwybodaeth ar gyfer CV a LinkedIn, a chyflwyno ceisiadau a llwyddo mewn cyfweliadau
- cwrdd â chwmnïau a sefydliadau drwy ddigwyddiadau cyflogwyr mawr ar y campws fel ein Ffair Yrfaoedd Flynyddol a'n wythnos Gŵyl Yrfaoedd
- cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai cyflogwyr drwy gydol y flwyddyn, gan eich helpu i nodi'r hyn y mae recriwtwyr yn ei ddisgwyl a rhoi awgrymiadau ymarferol i'ch helpu i lwyddo wrth ymgeisio am swyddi graddedig
- mynd i sesiynau cyflogadwyedd sy'n rhan o'ch cwrs
- cofrestru ar gyfer mentrau cyflogadwyedd megis ein rhaglen Gymorth i Baratoi am Yrfa
- ystyried beth mae entrepreneuriaeth a menter yn ei olygu i chi
- gwau dysgu drwy brofiad sy'n gysylltiedig â gwaith trwy eich profiad fel myfyriwr
- fod yn dawel eich meddwl ym mhob agwedd o'ch bywyd. Mae ein gwasanaeth gydol oes bob amser ar gael i'ch cefnogi.

## Cysylltiadau diwydiant

Mae datblygu cyflogadwyedd ein myfyrwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Mae eich galluogi i wneud cysylltiadau ag ystod eang o gyflogwyr a dysgu ganddynt yn allweddol i ennill y sgiliau sydd eu hangen i greu dyfodol llwyddiannus.

Er mwyn dod â chyfleoedd o'r fath i'n myfyrwyr, mae ein Gwasanaeth Gyrfaoedd ac adrannau academaidd yn gweithio gyda sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Cymru, y DU ac yn fyd-eang. Rydym hefyd yn cefnogi'r economi wledig, twf busnes ac arloesi yn ein hardal leol, gan feithrin cysylltiadau cryf â llywodraeth leol, busnesau bach a chanolig, microfusnesau a mentrau cymdeithasol.

Byddwch yn dod o hyd i gyfleoedd i gysylltu â chyflogwyr, gweithwyr llawrydd a sefydliadau proffesiynol yn y cwricwlwm ar draws pob maes pwnc, er enghraifft, prosiectau cysylltiedig â gwaith a sesiynau a arweinir gan gyflogwyr. Mae ein Gwasanaeth Gyrfaoedd hefyd yn trefnu rhaglen lawn o ddigwyddiadau i fyfyrwyr y tu hwnt i'w cwrs, gan gynnwys Ffeiriau Gyrfaoedd, paneli cyflogwyr sy'n benodol i'r sector, stondinau gwybodaeth, canolfannau asesu ffug a Gŵyl Yrfaoedd, sef digwyddiad blynyddol sy'n cynnwys pob adran academaidd mewn gweithgarwch cyflogadwyedd.

Mae ein porth ar-lein, sy'n cael ei ddiweddaru'n ddyddiol, hefyd yn eich cysylltu'n uniongyrchol â channoedd o gyflogwyr cofrestredig a'r cyfleoedd cyflogaeth, lleoliad a dysgu y maent yn eu cynnig.

## Profiad Gwaith

Mae cyflogwyr yn parhau i chwilio am brofiad perthnasol yn y gwaith. Mae hefyd yn un o'r prif ffyrdd o'ch helpu nid yn unig i adeiladu eich set sgiliau ond hefyd eich hunanymwybyddiaeth, ffocws gyrfa a hyder yn yr hyn sydd gennych i'w gynnig i gyflogwyr.

Mae llawer o'n rhaglenni gradd yn cynnwys blwyddyn integredig mewn diwydiant, neu mae Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar gael i fyfyrwyr, ac mae'r ddau yn cynnwys cyfnod hir o gyflogaeth yn ystod eich astudiaethau, gan roi llawer o fanteision. Mae cyfleoedd byrrach ar gael hefyd, megis interniaethau haf, gwaith gwirfoddol neu gyflogaeth ran-amser, sydd hefyd yn rhoi cyfoeth o brofiad ac yn datblygu cyflogadwyedd a sgiliau pwysig.

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cefnogi myfyrwyr sy'n chwilio am waith a phrofiad gwaith mewn nifer o ffyrdd, o ddod o hyd i gyfleoedd i ymarfer sgiliau cyfweld. Mae hefyd yn cydlynu'r cynllun lleoliadau blaenllaw, ABERymlaen, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyflogadwyedd o fewn adrannau'r Brifysgol.

# Cyfleoedd byd-eang

**Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth cyffrous o opsiynau ichi fynd dramor tra byddwch yn astudio am eich gradd.**

**Bydd ein tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu i nodi'r opsiwn gorau i chi.**

## Manteision astudio a gweithio dramor

- Rhoi hwb i'ch hyder
- Gwella'ch sgiliau cyfathrebu, rhyngddiwylliannol a rhyngbersonol
- Meithrin eich hyblygrwydd a'ch gwytnwch
- Eich helpu i fod yn agored i gyfleoedd rhyngwladol
- Buddiol i'ch gyrfa.





**Blwyddyn neu semester dramor**

Rydym yn cynnig ystod o raddau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn eich trydedd flwyddyn lle cewch astudio dramor mewn prifysgol sy'n un o'n partneriaid. Bydd myfyrwyr iaith hefyd yn treulio eu trydedd flwyddyn yn astudio neu'n gweithio yn yr iaith y maent yn ei hastudio.

Gall myfyrwyr ar y rhan fwyaf o gyrsiau gradd eraill fynd dramor am semester yn ystod eu hail flwyddyn astudio.

**Gweithio dramor yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant**

Os ydych chi'n astudio gradd sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant, gallwch ddewis treulio'r flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn yn gweithio dramor, os yw eich adran yn cymeradwyo hyn.

**Rhaglenni byrion**

Gall treulio cyfnod dramor, hyd yn oed am gyfnod byr, fod yn brofiad gwirioneddol werthfawr. Rydym yn cynnig cyfnodau byrion lle gallwch astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor, o dri diwrnod i wyth wythnos.

**Cefnogaeth**

Bydd y tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich profiad dramor. Mae'r cymorth yn cynnwys:

- Digwyddiadau cyn ymadael i sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar ôl ichi gyrraedd. Byddwn yn sicrhau bod gennych yr holl ddogfennau teithio angenrheidiol. Byddwch hefyd yn dysgu sut i wneud y gorau o'ch taith a sut i gael cymorth os bydd ei angen arnoch chi.
- Bydd gweithdai yn digwydd ar ôl ichi ddychwelyd sy'n cael eu cynnal ar y cyd â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Bydd y rhain yn eich helpu i fyfyrio ar eich profiadau a'u defnyddio yn eich bywyd bob dydd ar ôl ichi ddod adref. Byddant yn eich helpu i ystyried sut i sôn am eich profiad dramor mewn ceisiadau am swyddi ac mewn sgyrsiau â chyflogwyr y dyfodol.

**Cyllid**

Mae arian ar gael drwy gynlluniau llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru sy'n hyrwyddo astudio a gweithio dramor i gefnogi myfyrwyr cymwys â chostau byw a theithio.

Mae Cronfa Cyfleoedd Ewropeaidd Aberystwyth, a sefydlwyd drwy rodd hynod hael gan un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, yn unigryw i Aberystwyth ac mae'n darparu cymorth ariannol i helpu â gweithgareddau byrion yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cyllid ychwanegol ar gael i fyfyrwyr o grwpiau difreintiedig.

## Zoe Perryman

**F802 Daearyddiaeth gyda Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor**

**Ble est ti'n rhan o dy Gyfle Byd-eang di?** Prifysgol Bergen, Norwy
**Beth oedd y peth gorau am y profiad?** Y bobl a'r golygfeydd oedd y pethau gorau am y profiad, mae gen i lawer o atgofion a fydd yn aros gyda fi am bobl arbennig mewn gwlad brydferth!
**Y cyngor gorau cyn mynd dramor?** Cymerwch ran ym mhopeth a siaradwch â phawb. Dim ond am gyfnod byr y byddwch chi yno, ond bydd y cysylltiadau y gwnewch chi yno'n rhai hir-dymor.















# Ffioedd a chyllid

## Ffioedd Dysgu

Mae eich ffioedd dysgu yn talu costau eich astudiaeth yn y brifysgol, ac yn cynnwys taliadau am bethau megis y dysgu, arholiadau a graddio.

Bydd lefel y ffioedd yn amrywio yn dibynnu ar p'un a ydych chi'n fyfyriwr o'r DU neu yn fyfyriwr rhyngwladol. Bydd ffioedd myfyrwyr rhyngwladol hefyd yn amrywio yn ôl eich pwnc, p'un a ydych yn astudio pwnc yn y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol neu bwnc gwyddonol.

Sganiwch yma am ragor o wybodaeth am ffioedd dysgu:

## Taliadau Ychwanegol

Efallai y bydd costau a thaliadau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich ffioedd dysgu yn gysylltiedig â'ch rhaglen gradd. Bydd rhain fel arfer am weithgareddau megis teithiau maes neu ymweliadau astudio ond, yn dibynnu ar y rhaglen gradd yr ydych wedi ei dewis, gallai gynnwys eitemau neu offer y bydd angen i chi eu prynu megis cyfrifiannell wyddonol neu gôt ar gyfer gwaith labordy.

Sganiwch yma am ragor o wybodaeth am gostau a thaliadau ychwanegol:

## Ffioedd am Lety

Codir ffioedd am lety yn ychwanegol i'ch ffioedd dysgu. Gweler t.220.

## Benthyciadau i fyfyrwyr

Er mwyn eich helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw gall myfyrwyr o'r DU fod yn gymwys i gael benthyciadau neu grant myfyrwyr. Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein.

- Os ydych yn byw yng Nghymru yn arferol, gweler **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
- Os ydych yn byw yn Lloegr yn arferol, gweler **www.slc.co.uk**
- Os ydych yn byw yn yr Alban yn arferol, gweler **www.saas.gov.uk**
- Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon yn arferol, gweler **www.studentfinanceni.co.uk**

## Ffynonellau eraill o gyllid

Efallai y byddwch yn gallu gael cyllid ychwanegol o rywle arall. Mae'r opsiynau posib yn cynnwys ysgoloriaethau (gweler t.239), nawdd, gweithio rhan-amser neu gymynroddion elusennol. Gall myfyrwyr sydd ag anableddau fod yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl, ac efallai y bydd grant ychwanegol ar gael ar gyfer costau teithio. Gall ein Gwasanaeth Gyrfaoedd ac Undeb y Myfyrwyr roi cyngor i chi ar gyllidebu a lle i ddod o hyd i waith rhan-amser yn ystod y gwyliau neu ochr yn ochr â'ch astudiaethau.

## Cerdyn Rheilffordd

Rydym yn cynnig Cerdyn Rheilffordd 16-25 1-flwyddyn am ddim i fyfyrwyr israddedig y flwyddyn gyntaf a fydd yn darparu traean oddi ar brisiau teithio ar drên ledled y DU. Rydym yn deall y gall costau teithio fod yn ddrud, a dyna pam rydym am i'n myfyrwyr fwynhau prisiau tocynnau trên gostyngol wrth iddynt deithio i Aberystwyth (a thu hwnt!).



# Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

**Yn Aberystwyth, rydym yn deall goblygiadau ariannol addysg uwch. Diolch i gefnogaeth hael cyn-fyfyrwyr a chyfeillion, rydym wedi gallu cynnig ysgoloriaethau ers 125 o flynyddoedd a mwy ac rydym yr un mor ymroddedig ag erioed i gefnogi ein myfyrwyr. Dyna'r rheswm dros roi pecyn hael o wobrau at ei gilydd a all eich helpu â chostau byw o ddydd i ddydd.**

Nid ydym yn cyfyngu ar nifer y gwobrau y gallwch eu derbyn – cyn belled â'ch bod yn bodloni'r meini prawf, gallwch ddal sawl gwobr. Golyga hyn y gallwch gyfuno amrywiaeth o wobrau i wneud eich pecyn ariannol yn fwy gwerthfawr.

## Ysgoloriaethau Mynediad

**Gwerth hyd at £1,000 y flwyddyn a chynnig diamod.**

Mae'n golygu sefyll dau arholiad yn eich ysgol neu goleg.

## Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd

**Gwerth £2,000 yn eich blwyddyn gyntaf.**

Er mwyn gwobrwyo rhagoriaeth academaidd a gyflawnwyd cyn dechrau yn y Brifysgol. Bydd y gwobrau'n cael eu clustnodi'n awtomatig i'r myfyrwyr cymwys.

## Ysgoloriaethau Chwaraeon

**Gwerth £1,000 y flwyddyn.**

Ar gyfer myfyrwyr sy'n rhagori yn un o'n 'chwaraeon ffocws' allweddol, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a beicio mynydd.

## Ysgoloriaethau Cerdd

**Gwerth £650 y flwyddyn.**

Dyfernir i gerddorion profiadol a all gyfrannu'n weithredol at gerddorfeydd, bandiau, corau ac ensemblau eraill y Brifysgol.

## Dyfarniadau i Bynciau Penodol

**Mae'r gwerth yn amrywio o ran symiau.**

Mae nifer o'n hadrannau academaidd yn cynnig Dyfarniadau Adrannol y gellir eu dal yn ogystal â llawer o'n dyfarniadau eraill.

## Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg

**Gwerth hyd at £400 y flwyddyn.**

Yn cael ei roi yn awtomatig i'r rhai sy'n astudio o leiaf rhan o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Noder y gallai'r rhestr yma o ysgoloriaethau a bwrsariaethau newid ar gyfer blynyddoedd academaidd i ddod; ceir rhagor o wybodaeth a diweddariadau ar **aber.ac.uk/ysgoloriaethau.**

Sganiwch yma am ragor o wybodaeth am ein holl ysgoloriaethau a bwrsariaethau.

# Atgyfnerthu'ch gradd





Mae'r Adran Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnig cyfle dysgu unigryw ichi, a all atgyfnerthu eich gradd a'ch cynorthwyo i sefyll allan mewn tyrfa.

Ochr yn ochr â rhaglen eich gradd, gallwch gymryd un modiwl gyda ni bob tymor. Mae hyn wedi'i gynnwys yn eich ffioedd, felly does dim costau ychwanegol i chi. Am ragor o wybodaeth, sganiwch yma:

Beth yw'r manteision?

- Personoli eich CV a gadael y Brifysgol gyda thrysorfa o sgiliau newydd.
- Dysgu am fod hynny'n hwyl! Ewch ar drywydd pwnc sydd o ddiddordeb mawr ichi neu rhowch dro ar rhywbeth newydd.
- Cyfarfod a chymdeithasu ag amrywiaeth eang o bobl.

Dyma'r cyrsiau sydd ar gael:

- Athroniaeth
- Celf a Dylunio
- Datblygiad Proffesiynol
- Ecoleg a Chadwraeth
- Ffotograffiaeth
- Hanes, Achyddiaeth ac Archeoleg
- Ieithoedd Modern: Arabeg, Tsieineeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Siapaneeg, Rwsieg a Sbaeneg
- Seicoleg
- Ysgrifennu Creadigol a Llenyddiaeth.

Mae ein modiwlau'n cael eu dysgu naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.

> “Deunyddiau rhagorol, pynciau ysgogol, a brwdfrydedd amlwg y tiwtor am ei bwnc.”









# Diwrnodau Agored

**Dewch i Ddiwrnod Agored i ddysgu mwy am astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.**

## Diwrnodau Agored 2024

- **Dydd Sadwrn 6 Gorffennaf**
- **Dydd Sadwrn 12 Hydref**
- **Dydd Sadwrn 9 Tachwedd**.


Ewch i'r wefan am Ddyddiadau Diwrnodau Agored yn 2025 a manylion ein Diwrnodau Agored Ar-lein.

aber.ac.uk/diwrnodauagored



# Ymweld ag Aber

**Daw myfyrwyr o bell ac agos i Brifysgol Aberystwyth – gallwch gwrdd â myfyrwyr o bob rhan o'r byd yma. Bydd y croeso cynnes sy'n eich disgwyl a'r adnoddau rhagorol sydd gennym ar eich cyfer yn gwneud eich ymweliad yn un gwerth chweil.**




## Sut i gyrraedd...

### Ar y Trên

Mae'r orsaf reilffordd yng nghanol Aberystwyth. Mae gwasanaeth bws rheolaidd yn teithio o'r orsaf i gampws Penglais, ac mae gwasanaeth tacsi gerllaw hefyd.

### Mewn Car

Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar yr A487 sy'n rhedeg rhwng De a Gogledd Cymru. Taith o ychydig dros ddwy awr ar y mwyaf yw hi i Aberystwyth o'r De neu o'r Gogledd.

### Ar Fws

Mae sawl gwasanaeth bws (Megabus, National Express) yn rhedeg i'r Campws o dde a gogledd Cymru, yn ogystal â chanolbarth Lloegr a Llundain.

### Aros dros nos

Os hoffech aros dros nos mae digon o leoedd ar gael yn Aberystwyth. Cewch restr o gyfeiriadau gan y Swyddfa Gwybodaeth i Ymwelwyr (ffôn: +44 1970 612125).

Os byddwch yn ymweld yn ystod gwyliau'r Brifysgol gall fod llety myfyrwyr ar gael ar eich cyfer (yn ystod Ebrill, Mehefin, Gorffennaf ac Awst). Cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau ar +44 1970 621960, neu e-bostiwch cynadleddau@aber.ac.uk.

# Mynegai o'r cyrsiau


Addysg 19
Amaethyddiaeth 25, 26
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid 27
Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes 28
Astroffiseg 107
Astudiaethau Celtaidd 207
Astudiaethau Ffilm a Theledu 99
Astudiaethau Plentyndod 20
Astudiaethau Plentyndod Cynnar 22
Astudiaethau Saesneg a Newid Hinsawdd 177
Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol 31
Astudiaethau'r Cyfryngau a Chyfathrebu 100
Biocemeg 39
Bioleg 193
Bioleg a Newid Hinsawdd 194
Bioleg Ddynol ac Iechyd 43
Bioleg Planhigion 137
Bioleg y Môr a Dŵr Croyw 125
Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol 126
Biowyddorau Milfeddygol 127
Busnes a Newid Hinsawdd 47
Busnes a Rheolaeth 48
Cadwraeth Bywyd Gwyllt 128
Celfyddyd Gain 51
Celfyddydau Creadigol 52
Creu Cyfryngau 102
Creu Perfformio 87
Cyfraith a Throseddeg 200
Cyfraith Busnes 201
Cyfraith Droseddol 202
Cyfraith Statws Uwch 203
Cyfrifeg a Chyllid 57
Cyfrifiadureg 62
Cyfrifiadureg a Deallusrwydd Artiffisial 64
Cyllid Busnes 58
Cymdeithaseg 75
Cymdeithaseg a Gwleidyddiaeth 76
Cymraeg 208
Cymraeg (i ddechreuwyr) 210
Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd 211
Cymraeg Proffesiynol 212
Cymraeg y Gweithle Proffesiynol 213
Cysylltiadau Rhyngwladol 115
Cysylltiadau Rhyngwladol a Hanes Milwrol 116
Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid Hinsawdd 118
Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Cyfryngau 119
Daearyddiaeth 79
Daearyddiaeth Ddynol 80
Daearyddiaeth Ffisegol 81
Datblygu i'r We 65
Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg 66
Drama a Saesneg 89
Drama a Theatr 88
Dylunio Theatr a Pherfformio 90
Ecoleg 138
Economeg 93
Economeg a Newid Hinsawdd 94
Economeg Busnes 96
Ffiseg 108
Ffiseg Beiriannol 109
Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol 110
Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod 111
Ffotograffiaeth 53
Ffrangeg 152
Geneteg 40
Geneteg a Biocemeg 41
Graffeg, Gweld a Gemau Cyfrifiadurol 67
Gwleidyddiaeth 120
Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol 121
Gwleidyddiaeth a Hanes Modern 146
Gwneud Ffilm 103
Gwyddor Anifeiliaid 129
Gwyddor Ceffylau 130
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff 135
Gwyddor Daear Amgylcheddol 82
Gwyddor Data 68
Gwyddor Milfeddygaeth 34
Gwyddor y Gofod a Roboteg 112
Gwyddor yr Amgylchedd 84
Gwyddorau Biofeddygol (Maeth, Iechyd ac Ymarfer Corff) 44
Gwyddorau Bywyd 196
Hanes 141
Hanes a Hanes Cymru 142
Hanes Celf 54
Hanes Modern a Chyfoes 144
Hanes yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar 145
Hawliau Dynol 204
Ieithoedd Modern 153
Llenyddiaeth Saesneg 178
Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol 179
Marchnata 157
Marchnata Digidol 158
Mathemateg 163
Mathemateg Bur ac Ystadegaeth 164
Mathemateg Gyllidol 165
Mathemateg Gymhwysol / Mathemateg Bur 166
Microbioleg 197
Modelu Mathemategol 168
Nyrsio (Iechyd Meddwl) 171
Nyrsio (Oedolion) 172
Nyrsio Milfeddygol 36
Peirianneg Drydanol ac Electronig 175
Peirianneg Meddalwedd 69
Rheoli Twristiaeth 159
Rheoli Twristiaeth Antur 160
Roboteg a Pheirianneg Systemau Mewnosodedig 70
Sbaeneg ac Astudiaethau America Ladin 154
Seicoleg 183
Seicoleg a Chymdeithaseg 77
Seicoleg gyda Chwnsela 184
Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig 186
Strategaeth, Cudd-wybodaeth a Diogelwch 122
Swoleg 132
Technoleg Gwybodaeth Busnes 72
Troseddeg 189
Troseddeg a Chymdeithaseg 190
Troseddeg a Seicoleg Droseddol 191
Y Gyfraith 199
Ymddygiad Anifeiliaid 133
Ysgrifennu ar gyfer Darlledu, Cyfryngau a Pherfformio 104
Ysgrifennu Creadigol 180
Ysgrifennu Creadigol a'r Diwydiant Cyhoeddi 214




# Gwybodaeth bwysig

## - Darllenwch yn ofalus

Y mae'n amod cofrestru bod yn rhaid i bob myfyriwr dderbyn a chadw at drefniadaeth y Brifysgol fel y'i nodir yn y Rheolau, Rheoliadau a Gwybodaeth i Fyfyrwyr, a'n Telerau ac Amodau. Gellir cael copi o'r Rheolau, Rheoliadau a Gwybodaeth i Fyfyrwyr sydd mewn grym ar hyn o bryd trwy gysylltu â'r Gofrestrfa Academaidd (+44 1970 622959).

Mae'r Brifysgol yn cynnig yr wybodaeth yn y prosbectws hwn i fod yn ganllaw yn unig. Nid yw'r wybodaeth yn y prosbectws hwn yn creu contract ac nid yw'n rhwymo darpar fyfyrwyr na'r Brifysgol. Er bod y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i wirio cywirdeb y cynnwys ffeithiol ar adeg cyhoeddi, bydd rhai newidiadau yn digwydd yn anorfod rhwng cyhoeddi a dechrau'r flwyddyn academaidd y mae'r prosbectws yn ymdrin â hi. Er enghraifft, gall cyrsiau, gofynion mynediad a chynigion nodweddiadol newid yn ôl y galw gan fyfyrwyr, gofynion allanol a datblygiadau ymchwil. Ni ddylai ymgeiswyr ddibynnu'n llwyr felly ar yr wybodaeth yn y prosbectws hwn a dylent fynd i wefan y Brifysgol (**www.aber.ac.uk**) i gael manylion y sefyllfa ddiweddaraf yn achos cynnwys y cyrsiau, achredu a gofynion mynediad ar gyfer y flwyddyn y maent yn ystyried gwneud cais i'r Brifysgol.

Ni fydd y Brifysgol yn rhoi gradd, diploma, tystysgrif na chymhwyster i unrhyw fyfyriwr sydd â ffioedd heb eu talu tan i'r ddyled gael ei thalu. Bydd y myfyrwyr hyn yn cael eu rhwystro rhag ailgofrestru yn y Brifysgol ac ni fyddant yn cael defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol.

Sylwch: Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i addasu'r gofynion mynediad a oedd yn gywir pan argraffwyd y prosbectws israddedig (Ionawr 2024).

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) yn arolwg a gydnabyddir yn eang sy'n casglu barn myfyrwyr am eu cyfnod mewn addysg uwch ac yn gofyn iddynt roi adborth gonest.

Y mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg ym mis Ionawr 2024.

Wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu gan yr Adran Marchnata, Denu Myfyrwyr, Datblygu a Rhyngwladol, Prifysgol Aberystwyth 2024.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig. Rhif 1145141.



Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3DD

+44 (0) 1970 622021
+44 (0) 1970 623111

derbyn-israddedig@aber.ac.uk

/Prif.Aberystwyth

@prifysgol.aberystwyth

@Prifysgol_Aber

/prifysgolAberystwyth

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU